# Diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033

## Cynllun Adneuo

Yr Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Ionawr 2020

## Cynnwys


1. Rhagarweiniad ... 1
   1.1 Gofynion Deddfwriaethol ... 1
   1.2 Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a Phroses y CDLl ... 1
   1.3 Sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau ... 3
      Cam A ... 3
      Cam B ... 4
      Cam C ... 4
   1.4 Cysylltiadau â strategaethau ac asesiadau eraill ... 4
      Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ... 5
      Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ... 5
      Y Gymraeg ... 6
      Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ... 6
2. Methodoleg ... 7
   2.1 Dull ... 7
   2.2 Cynnal yr Arfarniad Cynaliadwyedd ... 7
   2.3 Y Fframwaith Cynaliadwyedd ... 7
   2.4 Pennu Arwyddocâd Effaith ... 8
   2.5 Amserlenni ... 8
   2.6 Senario Sylfaenol ... 10
   2.7 Matricsau Effaith ... 10
3. Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol ... 11
   3.1 Crynodeb Rhyngwladol ... 11
   3.2 Crynodeb Cenedlaethol ... 12
   3.3 Crynodeb Lleol ... 12
4. Amodau Amgylcheddol Sylfaenol a'r effeithiau a ragwelir heb weithredu'r CDLl. ... 14
5. Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir ... 17
   5.1 Beth mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi'i arfarnu hyd yma ... 17
   5.2 Manylion y broses ... 17
   5.3 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Gweledigaeth y CDLl ... 18
   5.4 Arfarniad Cynaliadwyedd o Amcanion y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl ... 18
   5.5 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Opsiynau Twf ... 20
   5.6 Arfarniad Cynaliadwyedd o Opsiynau Gofodol y Strategaeth a Ffefrir ... 23
      Opsiwn Hybrid – Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy ... 27
   5.7 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir - Polisïau Strategol ... 28
   5. Ansicrwydd ac anawsterau'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystod y cam Strategaeth a Ffefrir ... 31
   5.9 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir a'r Argymhellion ... 31

6. Arfarniad Cynaliadwyedd o Gynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig ..................................... 33
6.1 Arfarniad Cynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun Adneuo .. 33
6.2 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth Dwf a Ffefrir.............................................. 34
6.3 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir .............................................. 36
6.4 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Polisïau Strategol ........................................................ 36
6.5 Mesurau Lliniaru ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd – Polisïau Strategol .. 39
6.6 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Polisïau Penodol.......................................................... 41
6.7 Lliniaru ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd – Polisïau Penodol .................. 44
6.8 Arfarniad Cynaliadwyedd o Ddyraniadau Arfaethedig ................................................ 49
Y Dull o Arfarnu........................................................................................................ 49
7. Crynodeb o Effeithiau Cynaliadwyedd y CDLl Adneuo .................................................. 62
8. Monitro........................................................................................................................ 62
9 Ymgynghori a'r Camau Nesaf ........................................................................................ 67

# 1. Rhagarweiniad

1.0.1 Y ddogfen hon yw'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd, sy'n cynnwys yr Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar y cyd, o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn broses gyfunol sy'n bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer AAS ac AC. Mae Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn gynllun defnydd tir sy'n amlinellu lleoliad a maint y datblygiadau yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o 15 mlynedd.

1.0.2 Diben yr Arfarniad Cynaliadwyedd yw nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol sy'n debygol o ganlyniad i'r CDLl, ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol. Mae'r broses hon yn integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd ym mhob cam o'r gwaith o baratoi CDLl, ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn meithrin proses fwy cynhwysol a thryloyw o lunio CDLl, ac yn helpu i sicrhau bod y CDLl wedi'i integreiddio â pholisïau eraill. Cyfeirir at y broses gyfunol hon o hyn ymlaen fel yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae'r Adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r CDLl Adneuo, a dylid eu darllen ar y cyd.

1.0.3 Mae cwmpas daearyddol yr asesiad hwn yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd, ond mae hefyd yn ystyried effeithiau trawsffiniol gydag awdurdodau lleol cyfagos Sir Benfro, Ceredigion ac Abertawe. Bwriedir i'r CDLl fod yn gymwys tan 2033 wedi iddo gael ei gyhoeddi. Mae'r amserlen hon wedi'i hadlewyrchu yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

## 1.1 Gofynion Deddfwriaethol

1.1.1 Mae cwblhau Arfarniad Cynaliadwyedd yn ofyniad statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004[1], Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) (Cymru) 2005[2] a chanllawiau cysylltiedig.

1.1.2 Mae Cyfarwyddeb AAS Ewropeaidd 2001[3] wedi cael ei throsi'n gyfraith yng Nghymru gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004[4] (y Rheoliadau) sy'n nodi gofyniad gorfodol i ymgymryd ag AAS ar bob cynllun datblygu. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi proses asesu gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi bod yn rhaid i Arfarniad Cynaliadwyedd integreiddio gofynion Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.1.3 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried sut y caiff pedair cydran datblygu cynaliadwy (economaidd, lles cymdeithasol, diogelu/gwella'r amgylchedd a chadwraeth adnoddau) eu hintegreiddio mewn cynllun. Mae proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar effeithiau amgylcheddol cynllun, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig a'r effaith ar boblogaethau ac iechyd lleol.

1.1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru[5] yn pwysleisio'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau bod y cynllun a'r cynigion yn gwireddu datblygiadau cynaliadwy. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn rhan annatod o wneud cynlluniau da ac mae'n broses ailadroddol, sy'n nodi effeithiau arwyddocaol y Cynllun ac yn adrodd arnynt ac yn dangos bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Trwy hynny mae'n cyfrannu at gyfiawnhau polisïau yn rhesymegol.

## 1.2 Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a Phroses y CDLl

1.2.1 Mae canllawiau ar sut i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer CDLlau wedi'u cynnwys yn fersiwn ddrafft Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru Argraffiad 3 (2019), lle diffinnir Arfarniad

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents
[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made
[3] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32001L0042
[4] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/made
[5] https://gov.wales/planning-policy-wales

Cynaliadwyedd fel offeryn i arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy.

1.2.2 Mae Llawlyfr y CDLl yn amlinellu pum prif gam wrth gynnal yr Arfarniad Cynaliadwyedd (gweler Tabl 1). Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn broses ailadroddol, sy'n arwain at sylwadau ac adborth ym mhob cam o'r CDLl, ac sy'n golygu bod modd rhoi ystyriaeth i'r goblygiadau posibl o safbwynt cynaliadwyedd yn sgil opsiynau/polisïau arfaethedig ac am broses dryloyw. Os oes angen, gellir mireinio'r CDLl drwy gydol y gwaith o'i baratoi i sicrhau ei fod yn ddogfen gynaliadwy.

Tabl 1 Camau ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'u cysylltiad â'r CDLl. Addaswyd o'r Llawlyfr CDLl (3ydd Argraffiad).

| Cam yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol | Cam y CDLl |
|---|---|
| **Cam A: Cwmpasu** | Casglu Tystiolaeth ac Amcanion |
| A1 Amlinellu cynnwys a phrif amcanion y cynllun<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (a) | |
| A2: Nodi ac adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd perthnasol eraill a fydd yn llywio'r cynllun.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (a) ac (e) | |
| A3 Casglu gwybodaeth sylfaenol ar yr amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, llesiant ac amgylcheddol presennol a thebygol yn y dyfodol ar y raddfa ofodol berthnasol ar gyfer y cynllun<br>Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r data sylfaenol gwmpasu 'datblygiad tebygol y cynllun hwnnw heb ei weithredu" (Atodiad I (b)); a 'nodweddion yr ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol' (Atodiad I (c)). | |
| A4 Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r cynllun<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (d) | |
| A5 Datblygu fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd y gellir arfarnu'r cynllun yn ei erbyn | |
| A6 Paratoi Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd ac ymgynghori yn ei gylch<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS Erthygl 5(4) a 6(3). | |
| **Cam B: Asesu dewisiadau amgen** | Opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffefrir |
| B1 Asesu a lliniaru effeithiau amcanion y cynllun gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd | |
| B2 Datblygu dewisiadau amgen rhesymol<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS Erthygl 5(1) ac Atodiad I (h). | |
| B3 Asesu a lliniaru effeithiau'r dewisiadau amgen gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (f) and (g). | |
| B4 Dewis y dewisiadau amgen a ffefrir a rhoi amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis y dewisiadau amgen a ffefrir.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (h). | |
| **Cam C: Asesiad o'r Cynllun Adneuo a Pharatoi'r Adroddiad Cynaliadwyedd** | Paratoi ac Adneuo'r CDLl |
| C1 Asesu a lliniaru effeithiau'r Cynllun Adneuo gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (f) and (g). | |
| C2 Cynnig mesurau i fonitro'r effeithiau arwyddocaol o weithredu'r cynllun.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(c), Erthygl 10, Atodiad I (i). | |
| C3 Ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 6. | |
| **Cam D: Ymgynghori, Archwilio a Mabwysiadu'r Cynllun** | |

| | |
|---|---|
| D1 Asesu effeithiau newidiadau sylweddol a wnaed i'r cynllun Adneuo gan y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 5(2). | Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu |
| D2(i) Wedi i'r cynllun gael ei fabwysiadu, rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud y cynllun gyhoeddi Datganiad Ôl-fabwysiadu<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(1). | |
| **Cam E**: **Monitro'r effeithiau arwyddocaol o weithredu'r CDLl** | Monitro ac Adolygu |
| E1 Datblygu'r nodau a'r dulliau monitro<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(1) (c), Erthygl 10, Atodiad I (if). | |
| E2 Ymateb i effeithiau andwyol<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 10 (1) | |

## 1.3 Sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau

### Cam A

1.3.1 Cwblhaodd y Cyngor Gam A yr Arfarniad Cynaliadwyedd ym mis Gorffennaf 2018 drwy gyhoeddi Adroddiad Cwmpasu drafft i ymgynghori yn ei gylch. Roedd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys:

- **A1: Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun**

Roedd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn amlinellu gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin, ei raddfa ofodol a'i amserlen a'i brif amcanion.

- **A2 Adolygu Cynlluniau/Polisïau/Rhaglenni ac Amcanion Cynaliadwyedd**

Archwiliwyd nifer o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni a allai fod wedi effeithio ar y CDLl, gan gynnwys y rheiny ar lefel ryngwladol, genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn ogystal â Chynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau cyfagos. Cyflwynir fersiwn wedi'i diweddaru o'r rhestr yn Atodiad 1.

- **A3 Coladu Gwybodaeth Sylfaenol**

Roedd yr adroddiad cwmpasu yn cynnwys casgliad diweddaraf o gyflwr yr amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas yn Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn ffurfio'r llinell sylfaen ar gyfer monitro canlyniadau'r CDLl ar ôl ei fabwysiadu. Cyflwynir fersiwn wedi'i diweddaru o'r rhestr yn Atodiad 2.

- **A4 Nodi materion a phroblemau perthnasol**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at faterion cynaliadwyedd, a phroblemau ond hefyd gyfleoedd y gellir mynd i'r afael â hwy drwy'r CDLl diwygiedig. Adroddir am hyn o fewn y llinell sylfaen yn Atodiad 2.

- **A5 Datblygu'r Fframwaith Cynaliadwyedd**

Mae'r Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn darparu ffordd o allu disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau cynaliadwyedd a chafodd ei ddatblygu gan ystyried y materion a'r cyfleoedd a godwyd. Mae'r fframwaith hwn yn darparu sail y gellir ei defnyddio i brofi cynaliadwyedd y CDLl. Cyflwynir y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn Atodiad 3.

- **A6 Ymgynghori ynghylch Cwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd**

Ar 18 Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd yr Adroddiad Cwmpasu i ymgynghori yn ei gylch am gyfnod o chwe wythnos. Roedd ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin ac anfonwyd negeseuon e-bost a llythyron i roi gwybod am hyn i gyrff ymgynghorol a phobl a oedd wedi cofrestru i gael diweddariadau ar broses y CDLl. Cafwyd sylwadau gan nifer o randdeiliaid, a adroddwyd fel Atodiad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd cychwynnol. Gwnaed newidiadau i'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn sgil y sylwadau hyn, lle bo hynny'n briodol, a chafodd unrhyw sylwadau yr ystyriwyd eu bod yn ymwneud i raddau mwy â'r CDLl eu nodi a'u trosglwyddo i'r tîm CDLl er mwyn eu hystyried.

### Cam B

1.3.2 Cwblhaodd y Cyngor Gam B y broses Arfarnu Cynaliadwyedd ym mis Rhagfyr 2018 drwy gyhoeddi Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir. Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol yn cynnwys:

- **B1 Asesu a lliniaru effeithiau amcanion y cynllun gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd**

Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol yn profi ac yn arfarnu amcanion Strategaeth a Ffefrir y CDLl o’u cymharu â’r Fframwaith Cynaliadwyedd.

- **B2 Datblygu dewisiadau amgen rhesymol**

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol wedi datblygu nifer o opsiynau strategol, ar gyfer twf a dosbarthiad gofodol, o ddealltwriaeth o'r prif faterion a nodwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd.

- **B3 Asesu a lliniaru effeithiau dewisiadau amgen**

Gweledigaeth, Opsiynau Twf Strategol, Opsiynau Gofodol a Pholisïau Strategol Strategaeth a Ffefrir y CDLl yn erbyn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Nodwyd mesurau lliniaru hefyd yn ogystal â chyfleoedd.

- **B4 Gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLl**

Trafodwyd a chyfiawnhawyd y rhesymau dros ddewis y dewis amgen a ffefrir a gwrthod y dewisiadau amgen eraill.

### Cam C

1.3.3 Mae'r adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd hwn ar y CDLl Adneuo wedi cael ei baratoi i gydymffurfio â Cham C y broses Arfarnu Cynaliadwyedd a chaiff ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adneuo.

- **C1 Asesu a lliniaru effeithiau'r CDLl Adneuo**

Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol yn sgil polisïau'r CDLl Adneuo a'r dyraniadau arfaethedig, yn rhai cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd. Pan ganfyddir bod polisi neu safle yn cael effaith negyddol, caiff mesurau lliniaru eu nodi. Cofnodir hyn ym Mhenodau 6.5 a 6.7 yr adroddiad hwn yn ogystal ag Atodiadau 4 a 7.

- **C2 Cynnig mesurau i fonitro'r effeithiau arwyddocaol yn sgil gweithredu'r cynllun.**

Trafodir hyn ym Mhennod 8 yr adroddiad hwn.

- **C3 Ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd.**

Ymgynghorir ynghylch yr adroddiad hwn ochr yn ochr â Chynllun Adneuo'r CDLl am gyfnod o chwe wythnos.

## 1.4 Cysylltiadau â strategaethau ac asesiadau eraill

1.4.1 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd hwn hefyd yn integreiddio gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Asesu'r Effaith ar Iechyd a gofynion y Gymraeg o dan TAN 20 yn un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) sy'n galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chynhwysfawr o oblygiadau'r opsiynau twf, yr amcanion, y polisïau a'r cynigion o safbwynt cynaliadwyedd.


1.4.2 Caiff Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei gynnal yn gyfochrog â'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd ond nid yw wedi'i integreiddio â'r Arfarniad Cynaliadwyedd gan ei fod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalus gwahanol. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn crynhoi canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel rhan o'i asesiad o effeithiau ar fioamrywiaeth.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

1.4.3 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

> *“Ystyr “datblygu cynaliadwy” yw’r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant"*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod saith nod llesiant y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu cyflawni (Ffigur 1).




*Ffigur 1 Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*

1.4.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cyflwyno Cynlluniau Llesiant (a fydd yn disodli Cynlluniau Integredig Sengl) ac asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn disodli Asesiadau Anghenion Strategol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys egwyddor datblygu cynaliadwy sydd yn sicrhau bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, gan wneud hynny trwy ystyried y pum ffordd ganlynol o weithio:

- Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn amharu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag codi neu waethygu;
- Mabwysiadu dull integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- Cynnwys amrywiaeth y boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy cyffredin.

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

1.4.5 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiad o'r effaith ar iechyd er mwyn asesu'r effaith debygol, yn y tymor byr a'r hirdymor ar iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r Gyfarwyddeb AAS (Atodiad I (f)) yn ei gwneud yn ofynnol i iechyd dynol gael ei ystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiau amgylcheddol. Felly, ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd hwn, ehangwyd elfen iechyd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol i gynnwys amcanion iechyd corfforol a meddyliol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

## Y Gymraeg

1.4.6 Mae bellach yn ofyniad deddfwriaethol bod rhaid i'r Arfarniad Cynaliadwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg (Adran 62(6A) PCPA 2004 fel y'i mewnosodwyd gan adran 11, PWA 2015). Y broses Arfarnu Cynaliadwyedd yw'r mecanwaith ar gyfer ystyried sut y mae graddfa a lleoliad twf, y weledigaeth, yr amcanion, y polisïau a'r cynigion yn unigol ac yn gyfunol, yn effeithio ar y Gymraeg. Lle mae’r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg, gall yr ACLl asesu a ddylid newid y strategaeth neu a ddylid nodi mesurau lliniaru.

1.4.7 I ategu’r asesiad o’r Iaith Gymraeg yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd, mae Asesiad ar wahân a manylach o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg[6] wedi’i gynnal i ategu sylfaen dystiolaeth y CDLl diwygiedig. Bydd casgliadau’r asesiad hwn, lle bo’n berthnasol, yn cael eu mabwysiadu yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd, a dylid cyfeirio at yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i gael y dystiolaeth ategol a’r sylwadau.

## Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.4.8. Rhaid asesu proses y CDLl Adneuo o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC), drwy broses a elwir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, er mwyn asesu a fyddai'r CDLl yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle gwarchodedig Ewropeaidd, ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Trosir y Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, 2010. Os bernir bod y CDLl yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd, rhaid iddo fod yn destun asesiad priodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.4.9 Mae'r Sir yn cynnwys deuddeg safle a warchodir gan Ewrop. Ystyriwyd yr effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd o gamau cynharaf y broses o wneud y cynllun a chynhaliwyd gwaith sgrinio rhagarweiniol ar y Strategaeth a Ffefrir ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r Cynllun Adneuo wedi bod yn destun gwaith sgrinio o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a chyhoeddir yr adroddiad ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo. Casgliadau'r ymarfer sgrinio hwn, a'r asesiad priodol dilynol, yw na fydd y Cynllun Adneuo yn cael unrhyw effaith arwyddocaol debygol, naill ai'n unigol neu'n gyfunol, ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd.

1.4.10 Mae gwaith sgrinio anffurfiol cynharach yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi bod yn ddylanwadol o ran gallu dod i gasgliad ffafriol ynghylch sgrinio'r Cynllun Adneuo. Mae'r ymagwedd ailadroddol tuag at Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi hwyluso'r broses o nodi materion posibl fel bod modd i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Adneuo gael ei lywio gan risgiau posibl i safleoedd Ewropeaidd.

[6] Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin. Rhagfyr 2019.

# 2. Methodoleg

## 2.1 Dull

2.1.1 Mae methodoleg yr Arfarniad Cynaliadwyedd wedi cyfeirio at ganllawiau a ddarparwyd mewn nifer o ddogfennau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru, Argraffiad 3, (2019),
- Sustainability Appraisal of Regional Spatial Strategies and Local Development Documents ODPM (2005)
- A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive ODPM (2005)
- Improving the Effectiveness and Efficiency of SEA/SA for Land Use Plans, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (2018)

## 2.2 Cynnal yr Arfarniad Cynaliadwyedd

2.2.1 Mae Arfarnu Cynaliadwyedd yn broses ailadroddol ac mae canlyniadau'r arfarniad wedi llywio fersiwn derfynol y CDLl Adneuo a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Lle nad yw elfennau o'r CDLl wedi newid o'r Strategaeth a Ffefrir Derfynol, mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd blaenorol yn dal i fod yn ddilys a chyfeirir ato neu caiff ei atgynhyrchu yn yr adroddiad hwn.

## 2.3 Y Fframwaith Cynaliadwyedd

2.3.1 Mae'r Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn darparu sail gyson ar gyfer disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau amcanion, opsiynau, polisïau penodol a chynigion y CDLl ar gynaliadwyedd. Caiff y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd ei arwain gan amcanion, felly caiff pob un o amcanion ac opsiynau strategol y CDLl diwygiedig eu hasesu o ran ei gyfraniad at gyflawni amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

2.3.2 Mae'r fframwaith yn nodi amcanion cynaliadwyedd sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ac sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebir ym maes y cynllun. Datblygwyd yr amcanion wrth ystyried y cyfraniadau canlynol, ac mae pob un wedi'i nodi yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd:

- Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau
- Gwybodaeth Sylfaenol
- Materion a chyfleoedd cynaliadwyedd a nodwyd
- Ymatebion ac adborth yn sgil ymgynghori â chyrff ymgynghorol ac a'r cyhoedd

2.3.3 Darperir y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd llawn yn Atodiad 3. I grynhoi, mae'r amcanion yn adlewyrchu'r pynciau a nodir yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS yn ogystal ag amcanion ychwanegol ynglŷn â newid yn yr hinsawdd a ffactorau economaidd-gymdeithasol. Dangosir y 15 Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd sy'n ffurfio'r fframwaith yn Nhabl 2, yn ogystal â'r mater cyfatebol yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

*Tabl 2 Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd a Materion Cyfatebol y Gyfarwyddeb AAS*

| Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | Materion Cyfatebol yr AAS |
|---|---|
| SA1 Datblygu Cynaliadwy | |
| SA2 Bioamrywiaeth | Bioamrywiaeth, ffawna, fflora |
| SA3 Ansawdd Aer | Aer |
| SA4 Ffactorau Hinsoddol | Ffactorau hinsoddol |
| SA5 Dŵr | Dŵr |
| SA6 Asedau Materol | Asedau materol |
| SA7 Pridd | Pridd |
| SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylcheddau Hanesyddol | Treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol |

| | |
|---|---|
| SA9 Tirwedd | Tirwedd |
| SA10 Poblogaeth | Poblogaeth |
| SA11 Y Gymraeg | |
| SA12 Iechyd a Llesiant | Iechyd dynol |
| SA13 Addysg a Sgiliau | |
| SA14 Yr Economi | |
| SA15 Gwead Cymdeithas | |

2.3.4 I gynorthwyo'r broses asesu cefnogir pob amcan gan nifer o is-amcanion a 'meini prawf gwneud penderfyniadau' cysylltiedig, a fydd yn hwyluso'r broses asesu ac o gymorth i ddehongli'r prif amcan.

## 2.4 Pennu Arwyddocâd Effaith

2.4.1 Mae rhagfynegi effeithiau yn cynnwys nodi newidiadau i'r llinell sylfaen amgylcheddol y rhagfynegir y byddant yn codi yn sgil gweithredu'r cynllun, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau amgen. Mae Atodiad II o'r Gyfarwyddeb AAS yn nodi meini prawf ar gyfer pennu effeithiau arwyddocaol tebygol. Maent yn gyfuniad o:

- **Maint** effeithiau'r cynllun, gan gynnwys i ba raddau mae'r cynllun yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau, i ba raddau mae'n dylanwadu ar gynlluniau eraill, a phroblemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun.
- **Sensitifrwydd** yr amgylchedd dan sylw, gan gynnwys gwerth yr ardal a pha mor agored ydyw i niwed, safonau ansawdd amgylcheddol y rhagorwyd arnynt, ac effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau dynodedig.
- **Nodweddion yr effaith**, gan gynnwys tebygolrwydd, hyd, amlder, y gallu i'w gwyrdroi, effeithiau cronnus, effeithiau traws ffiniol, risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd, a maint a graddau gofodol yr effeithiau.

2.4.2 O gofio natur eang cynigion y cynllun a pha mor anodd yw gwahanu achosion eraill yr effeithiau, ystyrir mai dull ansoddol yw'r dull mwyaf ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw ansoddol yn golygu 'wedi dyfalu' ac mae angen i ragfynegiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth. Pan fydd y dystiolaeth wedi'i hystyried, rhaid barnu a yw'r effaith a ragfynegir yn un arwyddocaol. Mae Ffigur 2 yn darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i farnu arwyddocâd yn gyson a chan sicrhau bod rhagfynegi, gwerthuso a lliniaru wedi'u cynnwys yn yr arfarniad.

## 2.5 Amserlenni

2.5.1 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r dadansoddiad o effeithiau gynnwys effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, parhaol a dros dro (Atodiad I(f)). Gall effeithiau amrywio dros wahanol amserlenni, e.e. effeithiau tymor byr andwyol o ganlyniad i darfu ar gynefinoedd ond effeithiau buddiol tymor hir ar ffurf gostyngiadau mewn llygredd aer neu nwyon tŷ gwydr. Gyda hyn mewn golwg, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau dros dair amserlen.

- Tymor Byr (B): 0 - 5 blynedd
- Tymor canolig (C): 6 - 10 blynedd
- Tymor Hir (H): 11 - 20 blynedd





*Figure 2 Y Broses Arfarnu Cynaliadwyedd*

## 2.6 Senario Sylfaenol

2.6.1 I fodloni gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Rheoliadau AAS – Rheoliad 12 ac Atodlen 2(2)) mae angen nodi datblygiad tebygol ardal y cynllun pe na byddai cynllun diwygiedig yn cael ei weithredu. Mae sefydlu beth fydd y sefyllfa heb y cynllun, h.y. senario busnes fel arfer, yn cynnwys gofyn sut y gall polisïau, arferion a thueddiadau presennol newid yn y dyfodol heb unrhyw ymyrraeth weithredol trwy'r CDLl. Dylid defnyddio'r sefyllfa busnes fel arfer fel llinell sylfaen i gymharu goblygiadau a pherfformiad opsiynau eraill. Gan fod hyn yn ddiwygiad o'r CDLl presennol, y llinell sylfaen a ddefnyddir wrth ystyried yr holl opsiynau a pholisïau yw sut y byddai'r ardal yn newid o dan y cynllun datblygu presennol heb gyflwyno polisïau newydd. Byddai'r cynllun presennol yn rhedeg o 2006 i 2021 ac ar ôl hynny ni fyddai yna gynllun ar waith oni bai bod y CDLl diwygiedig yn cael ei fabwysiadu ac felly ystyrir mai dyma'r senario sylfaenol.

2.6.2 Cynhaliwyd yr arfarniad hwn drwy ystyried cynlluniau, rhaglenni a pholisïau presennol sydd ar waith yn rhan o'r senario sylfaenol. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd rhai o'r cynlluniau, y rhaglenni a'r polisïau hyn eisoes yn lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol a all ddigwydd o ganlyniad i'r CDLl diwygiedig ac ystyriwyd hyn yn rhan o'r asesiad. Ceir rhestr lawn o gynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol yn Atodiad 1. Rhoddir ystyriaeth arbennig i bolisi cynllunio cenedlaethol presennol sy'n gysylltiedig â Nodiadau Cyngor Technegol (TAN).

## 2.7 Matricsau Effaith

2.7.1 Er mwyn profi i ba raddau y mae'r opsiynau strategol a'r polisïau o fewn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn cyd-fynd, defnyddiwyd matricsau i grynhoi'r arfarniad trwy ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn Nhabl 3. Nodir y modd y mae'r amcanion, yr opsiynau a'r safleoedd yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd gan ddefnyddio'r symbolau canlynol:

*Tabl 3 Meini prawf asesu Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer polisïau drafft a dewisiadau amgen rhesymol.*

| Symbol | Effaith a Ragfynegir | Camau/ymateb a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad o help mawr i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol iawn ymhellach |
| + | Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn helpu i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill. | Ystyried camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol ac a ellir gwella'r effeithiau cadarnhaol |
| - | Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn amharu ar yr amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried camau lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio y polisi neu'r dyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig. |
| -- | Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn amharu'n sylweddol ar yr amcan Cynaliadwyedd. | Dulliau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig |
| I | Bydd effaith ar yr amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu |

| | | |
|---|---|---|
| ? | Ansicr o’r effaith – angen rhagor o wybodaeth | Ystyried o ble bydd hyn yn dod – gan bwy mae’r wybodaeth? Sut y caiff ei chasglu? Pryd y caiff ei chasglu? |

2.7.2 Datblygwyd fframwaith ar wahân ar gyfer asesu safleoedd er mwyn asesu meini prawf mwy penodol i'r safle. Caiff y fethodoleg hon ei amlinellu yn Rhan 6.8.

2.7.3 Mae Tabl 4 yn amlinellu'r diffiniad o effeithiau eilaidd (neu anuniongyrchol), cronnol a synergaidd, fel y'u hystyrir yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd hwn.

*Tabl 4 Diffiniadau o effeithiau eilaidd, cronnol a synergaidd. Ffynhonnell: A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, ODPM.*

| Math o effaith | Diffiniad |
|---|---|
| Eilaidd (neu anuniongyrchol) | Effeithiau nad ydynt yn ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun ond sy'n digwydd i ffwrdd o'r effaith wreiddiol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth |
| Cronnol | Mae effeithiau'n codi, er enghraifft, lle mae gan sawl datblygiad effeithiau ansylweddol ond sydd gyda'i gilydd yn cael effaith arwyddocaol; neu lle mae nifer o effeithiau unigol y cynllun (e.e. sŵn, llwch ac effaith weledol) yn cael effaith gyfunol. |
| Synergaidd | Mae effeithiau yn rhyngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol. |

# 3. Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

3.0.1 Mae'r broses o ddatblygu'r CDLl yn digwydd o fewn fframwaith o ddeddfwriaeth a chanllawiau a chaiff ei llywio gan amcanion a dyheadau cynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill o lefel ryngwladol i lefel leol. Bydd dylanwad uniongyrchol y Cynllun yn cael ei gyfyngu i ddefnyddio a datblygu tir ac adeiladau, ond mae ganddo'r potensial hefyd i fod yn offeryn pwysig ar gyfer gweithredu ystod eang o amcanion sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau a strategaethau eraill. Mae integreiddio polisi yn hanfodol er mwyn i CDLlau adeiladu ar gynlluniau a strategaethau eraill ac ychwanegu gwerth atynt.

3.0.2 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r berthynas rhwng y CDLl a chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill ar bob lefel, ac yn dangos sut y mae gofynion cynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun hyd yma drwy'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd.

3.0.3 Cynhaliwyd adolygiad o'r cynlluniau a'r polisïau perthnasol ar lefel ryngwladol/Ewropeaidd, genedlaethol, ranbarthol a lleol o fewn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd er mwyn rhoi ystyriaeth i'r berthynas rhwng y CDLl a pholisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac amcanion cynaliadwyedd. Gweler Atodiad 1 am restr o'r polisïau, cynlluniau a rhaglenni a nodir, a lle bo'n berthnasol ddisgrifiad manylach o'r dogfennau a'u perthnasedd i'r Cynllun, yn ogystal â dolenni cyswllt i wefannau.

## 3.1 Crynodeb Rhyngwladol

3.1.1 Mae'r offerynnau a'r strategaethau deddfwriaethol ar lefel ryngwladol (Undeb Ewropeaidd) a nodir ac a adolygir yn Atodiad 1 yn cynrychioli haen uchaf yr agenda datblygu cynaliadwy; rhaid trosi'r haen hon yn ddeddfwriaeth Aelod-wladwriaeth. Mae'r ddeddfwriaeth ar lefel genedlaethol wedyn yn pennu cynnwys cynlluniau, polisïau a rhaglenni ar lefel genedlaethol, isranbarthol a lleol, sydd i bob pwrpas yn llywio'r gwaith o gyflwyno'r agenda gynaliadwyedd yn lleol.

3.1.2 Mae'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd a'r strategaethau a adolygwyd yn ymwneud â materion amgylcheddol sy'n bwysig iawn ar raddfa fyd-eang, ond sydd eto'n gofyn am weithredu lleol er mwyn bod yn effeithiol, ac maent yn cynnwys:

- Newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy;
- Sefydlu cymunedau cynaliadwy;
- Cyflwyno systemau trafnidiaeth cynaliadwy;
- Rheoli gwastraff yn gynaliadwy;
- Defnyddio a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy
- Sefydlu patrymau cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy;
- Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac ymladd tlodi;
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth;
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr; ac
- Ansawdd Aer.

3.1.3 Cyfeirir at drosi deddfwriaeth Ewropeaidd yn gyfraith genedlaethol o ganlyniad i fod y Deyrnas Unedig yn tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd a goblygiadau'r Bil Diddymu Mawr. Yn hyn o beth, bydd goblygiadau a chanlyniadau diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd ar y naill law, ac ar y llaw arall trosi is-ddeddfwriaeth yr UE - rheoliadau a chyfarwyddebau sydd eisoes yn orfodadwy yn y DU - yn gyfreithiau domestig yn cael eu monitro, a bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei addasu lle bo'n briodol i adlewyrchu unrhyw effeithiau.

## 3.2 Crynodeb Cenedlaethol

3.2.1 Mae'r themâu cynaliadwyedd a gwmpesir gan y dogfennau polisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol yn adlewyrchu materion amgylcheddol sy'n bwysig ar raddfa ryngwladol, wedi'u rhaeadru i lawr i'r lefel ranbarthol yn ogystal â materion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â materion cymdeithasol ac economaidd. Mae'r agweddau cymdeithasol a gwmpesir gan y dogfennau cenedlaethol yn cynnwys yr angen i adlewyrchu'r amcanion llesiant a chyflawni cymunedau diogel, cynhwysol ac iach lle ceir cyn lleied o allgáu cymdeithasol â phosibl a lle gwneir y mwyaf o fynediad i gyfleusterau. Thema amlwg mewn rhai o'r dogfennau cenedlaethol yw cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a chefnogi nodweddion diwylliannol unigryw a rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

3.2.2 Mae ymateb i anghenion y gymuned leol trwy ddatblygu hefyd yn thema a adleisir mewn nifer o'r dogfennau. Mae lleihau'r angen i deithio, ynghyd â dulliau trafnidiaeth integredig a mwy iach, hefyd yn thema a ailadroddir yn y dogfennau polisi a strategaeth cenedlaethol. Mae'r materion amgylcheddol a gwmpesir gan y dogfennau cenedlaethol yn seiliedig yn gyffredin ar yr angen i warchod bioamrywiaeth a safleoedd a chynefinoedd gwarchodedig. Thema gref sy'n tanategu llawer o'r polisïau/strategaethau yw darparu'r gallu i gynefinoedd, rhywogaethau a'r amgylchedd naturiol ymateb i hinsawdd sy'n newid trwy ganiatáu amser a gofod iddynt ymaddasu. Cafodd yr angen i warchod ansawdd ac argaeledd adnoddau dŵr hefyd ei nodi yn ystod yr adolygiad o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Caiff dylunio trefol o ansawdd uchel hefyd ei enwi fel elfen allweddol o gyflawni cymunedau cynaliadwy.

3.2.3 Fel arfer mae themâu economaidd y dogfennau cenedlaethol yn canolbwyntio ar yr angen i annog economi mwy amrywiol ac sydd o werth uchel yng Nghymru, sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau naturiol helaeth y wlad. Mae twristiaeth yn thema allweddol mewn nifer o'r dogfennau cenedlaethol, ynghyd â'r angen i symud tuag at farchnadoedd technolegau adnewyddadwy.

## 3.3 Crynodeb Lleol

3.3.1 Mae'r dogfennau polisi a'r strategaethau is-genedlaethol ac ar lefel Sir Gaerfyrddin hefyd yn adlewyrchu nifer o'r themâu cynaliadwyedd y tynnwyd sylw atynt yn y dogfennau rhyngwladol a chenedlaethol; er enghraifft, cynyddu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng cyfleusterau trafnidiaeth integredig a diwallu anghenion y gymuned leol.

3.3.2 Mae dogfennau lleol megis y Cynllun Llesiant datblygol a'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin megis allgáu, yr angen i hyrwyddo mynediad cynaliadwy i wasanaethau, cyflawni cymunedau diogel ac iach,

hyrwyddo addysg a chyflogaeth ac adfywio a datblygu'r farchnad lafur. Mae'r angen i ddatblygu economi amrywiol sydd â gwerth ychwanegol uchel hefyd yn adlewyrchu'r polisïau a'r strategaethau a nodir mewn rhai o'r dogfennau cenedlaethol. Un o themâu allweddol Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Sir Gaerfyrddin yw lleihau'r gwariant ar ynni, defnyddio ynni mewn modd effeithlon a buddsoddi mewn ffynonellau ynni llai niweidiol.

3.3.3 Yn dilyn ymgynghoriad, aeth y Cyngor ati i ddrafftio set o Amcanion Llesiant / Gwella. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 8 Mawrth 2017 a'u hail-gadarnhau yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2017. Mae Cynlluniau Gweithredu ar waith hefyd.

# 4. Amodau Amgylcheddol Sylfaenol a'r effeithiau a ragwelir heb weithredu'r CDLl.

## 4.1 Crynodeb Sylfaenol


4.1.1 Mae'r adran hon yn crynhoi sefyllfa amgylcheddol sylfaenol y Sir ac yn rhoi diweddariad i'r Adroddiad Cwmpasu a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd blaenorol. Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol a data sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun. Mae Rheoliadau'r AAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd gynnwys sylwebaeth ar yr effaith debygol a ragwelir ar y llinell sylfaen amgylcheddol gyda a heb weithredu'r CDLl diwygiedig.

4.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi cael ei chasglu o dan gyfres o benawdau a chaiff ei nodi yn Atodiad 2. Er mwyn bod yn gyson mae'r penawdau hyn wedi cael eu grwpio o dan yr un penawdau'n fras â'r rheiny a ddefnyddiwyd yn y CDLl mabwysiedig presennol. Maent wedi cael eu newid, fodd bynnag, i gynnwys y Gymraeg fel pennawd ar wahân, er mwyn adlewyrchu safle'r Gymraeg yn y Sir a'i chymunedau.

4.1.3 Mae'r penawdau sylfaenol hyn fel a ganlyn:

1. Datblygu Cynaliadwy;
2. Bioamrywiaeth;
3. Ansawdd Aer;
4. Ffactorau Hinsoddol;
5. Dŵr;
6. Asedau Materol;
7. Pridd;
8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol;
9. Tirwedd;
10. Poblogaeth.
11. Y Gymraeg;
12. Iechyd a Llesiant;
13. Addysg a Sgiliau;
14. Yr Economi, a
15. Gwead Cymdeithas.

4.1.4 Mae'r canlynol yn rhoi ciplun o'r data sylfaenol allweddol mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin.


Demograffeg
Mae gan Sir Gâr boblogaeth o
185,610
18%
32,846
rhwng 0 a 15 mlwydd oed
59%
110,102
o fewn oedran gweithio (16-64)
23%
Bron 1 ym mhob 4
(42,662) o oed pensiwn (65+)
90,835
yn ddynion
49%
94,775
yn fenywod
51%
Ganwyd 3 o bob 4
o boblogaeth Sir Gâr yng Nghymru
76%
Mae poblogaeth Sir Gâr yn heneiddio.
Erbyn 2039, bydd
1 ym mhob 3
o drigolion Sir Gâr yn
65 mlwydd oed
neu'n hŷn.
31%
58,900
Mae gan 1 ym mhob 4
salwch hirdymor sy'n cyfyngu
1 ym mhob 25
Mae Sir Gâr yn bennaf yn wyn, gyda 4% o'r boblogaeth o gefndir heb fod yn wyn
Yn Sir Gâr y ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef
78,048
Mae dros 78,800 o aelwy-dydd yn Sir Gâr, gyda dim ond un person yn byw yn
30%
ohonynt.
Mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardal wledig,
sy'n ffurfio 53% o'r Sir
6 ym mhob 10
Mae tair prif dref sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman sy'n gartref i
25% o'r boblogaeth
25%
Mae 7 ym mhob 10
aelwyd wedi ei brynu
(yn gyfan neu gyda morgais)
14%
yn rhentu'n gymdeithasol
10%
rhent preifat
44 o droseddau bob
1000 o'r boblogaeth
8166
o droseddau wedi eu cofnodi
2015/16
79%
yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal

## Economi

8 ym mhob 10

Mae bron 8 ym mhob 10 o boblogaeth oedran gweithio Sir Gâr (16-64) yn weithgar yn economaidd (62% fel cyflogeion; 12% hunangyflogedig)

79%, 89,600

63,000

o swyddi cyflogedig yn Sir Gâr

1 ym mhob 5

yn gweithio mewn cyfanwerthu a mân-werthu

1 ym mhob 5

yn gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol

13%

mewn gweithgynhyrchu

10%

yn addysg

7%

mewn gweinyddiaeth gyhoeddus

Mae 92% o fusnesau yn feicro fentrau (cyflogi llai na 10 o bobl)

£23,825 yw Incwm Aelwyd Canolrif Sir Gâr, o'i gymharu â chanolrif Cymru sy'n £24,944

Mae mwy na 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi, yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru - aelwydydd gyda llai na 60% o incwm canolrif y DU

(36%)

Croeso / Welcome

£370 milliwn

yw gwerth / cyfraniad twristiaeth i economi Sir Gâr

Mae 24,000 o bobl yn Sir Gâr yn darparu gofal di-dâl, mae hyn yn 13% o'r boblogaeth.

+50 awr

Mae dros 7000 yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl

## Iechyd a Llesiant

Mae disgwyliad oes yn ffafriol ar

78.5 bl i ddynion

82.6 bl i fenywod

7.4 : 10

yw sgôr cyfartalog ar gyfer 'bodlonrwydd bywyd', ar raddfa o 1 i 10

Mae 3 ym mhob 10 yn dioddef o faterion salwch meddwl

28%

Nododd 60% o oedolion eu bod dros-bwysau neu'n ordew (gan ddefnyddio mynegai mas y corff)

## Amgylchedd

40% o'r boblogaeth yn byw o fewn 400m o ardal naturiol neu rhannol-naturiol gwyrdd

5,587

lleiafswm nifer yr eiddo yn Sir Gâr sydd mewn risg o lifogydd o ganlyniad i lefelau'r môr yn codi

## Diwylliant

Mae gan 83% o aelwydydd Sir Gâr fynediad i'r rhyngrwyd

Dywedodd 68% fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen gyda'i gilydd yn dda

Mae 2 ym mhob 3 yn cymryd rhan mewn chwaraeon

66%

## 4.2 Tueddiadau'r Dyfodol

4.2.1 Roedd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn dwyn ynghyd ddadansoddiad manwl o gyflwr presennol y sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws Sir Gaerfyrddin, sy'n debygol o gael ei effeithio gan y CDLl yn ogystal â'r problemau presennol sy'n berthnasol i'r CDLl.

4.2.2 Mae Tabl 5 yn cyflwyno datblygiad tebygol yr agweddau sylfaenol ar y sefyllfaoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, heb weithredu'r CDLl. Ystyrir bod y tueddiadau tebygol hyn yn y dyfodol naill ai'n statig, yn gwella neu'n dirywio. Cyfrifwyd tueddiadau'r dyfodol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data sylfaenol a nodwyd ac a luniwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd a sut mae'r tueddiadau hyn wedi newid dros amser. Trafodir sylwadau pellach ar y tueddiadau hyn yn Atodiad 2.

*Tabl 5 Datblygiad tebygol yr agweddau sylfaenol ar y sefyllfaoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn absenoldeb Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig*

| Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | Llinell sylfaen y dyfodol |
|---|---|
| SA1 - Datblygu Cynaliadwy | Dirywio |
| SA2 - Bioamrywiaeth | Dirywio |
| SA3 - Ansawdd Aer | Dirywio |
| SA4 - Ffactorau Hinsoddol | Dirywio |
| SA5 - Dŵr | Dirywio |
| SA6 - Asedau Materol | Sefydlog |
| SA7 - Pridd | Dirywio |
| SA8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | Dirywio |
| SA9 - Tirwedd | Dirywio |
| SA10 - Poblogaeth | Sefydlog |
| SA11 - Y Gymraeg | Dirywio |
| SA12 - Iechyd a Llesiant | Dirywio |
| SA13 - Addysg a Sgiliau | Gwella |
| SA14 - Yr Economi | Gwella |
| SA15 - Gwead Cymdeithas | Gwella |

# 5. Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir

## 5.1 Beth mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi'i arfarnu hyd yma

5.1.1 Cyhoeddwyd Strategaeth a Ffefrir (neu gynllun datblygol) y CDLl er mwyn ymgynghori yn ei chylch ym mis Rhagfyr 2018. Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, a ddogfennwyd ac a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir yn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol[7].Mae'r adran hon yn crynhoi canlyniadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd o Strategaeth a Ffefrir y CDLl, ac mae'n cyflwyno matricsau sgorio perthnasol. Lle y bo'n briodol, mae'r matricsau llawn a'r sylwebaeth ategol a gyflwynwyd yn yr adroddiadau gwreiddiol bellach wedi'u darparu yn yr adran hon. Mae'r Weledigaeth, Amcanion y CDLl, yr Opsiynau Twf a'r Strategaeth Ofodol yn y Cynllun Adneuo yr un peth â'r rheiny a geir yn fersiwn ddrafft y Strategaeth a Ffefrir, 2018.

## 5.2 Manylion y broses

5.2.1 Dechreuodd y gwaith o baratoi fersiwn ddrafft Strategaeth a Ffefrir y CDLl ym mis Gorffennaf 2018 ac roedd yn cynnwys datblygu Gweledigaeth, Amcanion, Opsiynau Strategol a Pholisïau'r Cyngor. Cyhoeddwyd y ddogfen hon er mwyn ymgynghori yn ei chylch ym mis

[7] https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216965/initial-sa-english.pdf

Rhagfyr 2018 a chafodd ei hategu gan Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol a gyhoeddwyd fel rhan o'r dogfennau ymgynghori.

5.2.2 Cwblhawyd galwad am safleoedd ymgeisio rhwng Chwefror ac Awst 2018. Roedd pob safle yn ddarostyngedig i broses y Fethodoleg Asesu Safle, a arweiniodd at wrthod nifer o safleoedd ac felly nid oeddent yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd. Cafodd nifer o safleoedd eu gwrthod yn ystod ymarfer hidlo Cam 1, a gafodd wared ar yr holl safleoedd a oedd yn methu â chydymffurfio â'r Strategaeth a Ffefrir h.y. mae'r safle wedi'i wahanu oddi wrth yr anheddiad a byddai'n arwain at ddatblygu mewn cefn gwlad agored.

5.2.3 Gwrthodwyd nifer o safleoedd hefyd o ganlyniad i gasgliadau'r asesiad o safle ymgeisio ar Gam 2. Ar y cam hwn aseswyd pob safle er mwyn sefydlu pa mor addas oedd i gael ei gynnwys yn y CDLl Adneuo yn erbyn ystyriaethau gan gynnwys effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd, cyd-destun lleol a chymeriad, hygyrchedd a chyfyngiadau o ran y gallu i gyflawni (perygl llifogydd, hyfywedd ac ati). Roedd pob safle arall yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

## 5.3 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Gweledigaeth y CDLl

5.3.1 I ddechrau, cyflwynwyd Gweledigaeth ddrafft y CDLl yn y Strategaeth a Ffefrir. Swyddogaeth y Weledigaeth yw sefydlu diben craidd y CDLl diwygiedig a darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisïau a mesur faint o lwyddiant a gafwyd wrth weithredu’r cynllun. Mae Gweledigaeth y CDLl yn darparu persbectif gofodol sy’n rhoi diben a chyfeiriad i’r cynllun ac yn sicrhau cyflawniad trwy’r system cynllunio defnydd tir. Mae'r Weledigaeth yn defnyddio blaenoriaethau cynllunio strategol a nodir mewn polisi cenedlaethol a strategaethau lleol, ac wedi’u nodi’n Faterion Allweddol ar gyfer y Sir.

5.3.2 Profwyd y Weledigaeth ddrafft yn erbyn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd er mwyn pennu perfformiad yn erbyn egwyddorion cynaliadwyedd (Ffigur 4). Daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'r casgliad fod y Weledigaeth ddrafft yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o agweddau ar y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn llwyddiannus. Argymhellodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd y dylid gwneud mân newidiadau i'r geiriad, er mwyn cyfeirio'n uniongyrchol at bwysigrwydd y Gymraeg i Sir Gaerfyrddin.

## 5.4 Arfarniad Cynaliadwyedd o Amcanion y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl

5.4.1 Dylai Amcanion y CDLl ddarparu datganiadau clir o fwriad a chanolbwyntio ar sut i gyflawni Gweledigaeth y CDLl. Maent yn darparu fframwaith a gaiff ei ddefnyddio i ffurfio polisïau strategol, ac wedyn bydd yn llywio’r broses o lunio polisïau manwl ar gyfer y Cynllun Adneuo. Mae’r Amcanion Strategol hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu Twf Strategol ac Opsiynau Gofodol. Datblygwyd 14 o Amcanion Strategol drafft gan roi sylw i faterion allweddol a nodwyd o'r sail dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

5.4.2 Cyflwynwyd yr 14 o Amcanion Strategol drafft yn Adran 8 o Strategaeth a Ffefrir y CDLl, ac roeddent yn destun profion yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol (Adran 3.2). Nodir canlyniadau'r asesiad hwn isod (Ffigur 4) a chânt eu cyflwyno hefyd, ynghyd â'r sylwadau, yn Nhabl 4 a Ffigur 3 yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.

*Ffigur 3 Arfarnu'r Amcanion Strategol Drafft (Ffynhonnell: Ffigur 3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o Strategaeth a Ffefrir y CDLl 2018)*

| | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | | + | + | + | + |
| **SO1** | + | + | + | + | + | | | | + | | | ? | | | |
| **SO2** | + | ? | | | ? | + | | | ? | + | | + | | | + |
| **SO3** | + | | | | | | | | + | + | + | | | | + |
| **SO4** | + | | + | + | | + | | | + | + | + | | | + | + |
| **SO5** | + | | | | | | + | + | + | | + | + | | | |
| **SO6** | + | + | + | + | + | + | + | | + | | | + | + | | + |
| **SO7** | + | | + | + | + | + | | | + | | | | | | |
| **SO8** | + | | | + | | + | | | ? | + | | + | | | + |
| **SO9** | + | + | | | | | | + | + | + | + | | | | + |
| **SO10** | + | | | | | | | + | + | + | + | | | | + |
| **SO11** | + | | | | | | | | + | + | + | | + | | + |
| **SO12** | + | - | - | ? | - | ? | | | - | + | ? | + | + | + | + |
| **SO13** | + | - | - | | - | | | - | ? | + | ? | + | + | + | |
| **SO14** | + | | + | + | + | + | | | - | + | | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| + | Perthynas gadarnhaol rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| ? | Perthynas anhysbys rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| - | Gwrthdaro posibl rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |

5.4.3 Daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'r casgliad bod yr 14 o Amcanion Strategol, at ei gilydd, yn dangos perthynas gadarnhaol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn perfformio'n dda o'i gymharu â'r Fframwaith Cynaliadwyedd, a phrin yw'r gwrthdaro posibl a ddaw i'r amlwg. Tynnodd yr arfarniad sylw at rai achosion posibl o wrthdaro, yn arbennig gyda golwg ar Fioamrywiaeth, Ansawdd Aer, Dŵr a Threftadaeth Ddiwylliannol. Daethpwyd i'r casgliad y gellid datrys unrhyw effeithiau ansicr ac a allai fod yn negyddol gyda pholisïau a geiriad priodol y CDLl.

## 5.5 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Opsiynau Twf

5.5.1 Bydd rhaid i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin ystyried twf poblogaeth, tai a'r economi o fewn y Sir dros gyfnod y cynllun o 15 mlynedd. Er mwyn llywio nifer yr anheddau y bydd angen eu darparu yn y CDLl, comisiynwyd Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o wahanol senarios rhagamcanu demograffig o'r enw 'Opsiynau Twf Strategol'. Ceir crynodeb o'r opsiynau twf hyn a'r tueddiadau y maent wedi seilio arnynt isod.

5.5.2 Ystyriodd Adroddiad Edge Analytics[8] y dystiolaeth ddemograffig ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn ogystal â defnyddio strategaethau economaidd presennol, gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe[9], Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin[10] a'r Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth[11], sy'n cysylltu twf economaidd, newid y boblogaeth a thai.

5.5.3 Ystyriodd yr adroddiad gan Edge Analytics wyth o ragamcanion twf:

- Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014
- Llywodraeth Cymru 2014 (ymfudo cyfartalog 10 mlynedd)
- Tymor Hir (16 blynedd o ddata mudo)
- Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo)
- Tymor Byr (data mudo y 6 blynedd diwethaf)
- Data mudo cyn y dirwasgiad (cyn 2008)

5.5.4 Gwnaethant hefyd ystyried dwy senario â phwyslais ar gyflogaeth:

- Cyfradd Gymudo Sefydlog
- Cyfradd Gymudo yn Gostwng

5.5.5 Profwyd y gwahanol senarios rhagamcanu demograffig hyn yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr CDLl. Felly, ystyriwyd bod yr opsiynau twf a ddewiswyd yn realistig ac yn rhesymol. Mae manylion llawn y rhesymau dros ddewis pob un o'r opsiynau twf wedi'u nodi yn Adran 9 o'r Adroddiad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig. Ystyriwyd nad oedd yn realistig cynnwys dewis amgen yn ymwneud â busnes fel arfer (h.y. sefyllfa'r CDLl presennol) gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLl ddefnyddio amcanestyniadau twf Llywodraeth Cymru fel man cychwyn. Cafodd y gofynion anheddau a ddeilliodd o hynny eu nodi yn Nhabl 5 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol a chânt eu crynhoi yn Nhabl 6 isod:

---

[8]https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216737/edge-analytics-carmarthenshire-demographic-forecasts-october-2018-final-version-002.pdf
[9]https://www.swansea.gov.uk/media/7514/Swansea-Bay-City-Region-Economic-Regeneration-Strategy/pdf/Swansea_Bay_City_Region_Economic_Regeneration_Strategy.pdf
[10]https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1212060/strategic-regeneration-plan-for-carmarthenshire-2015-2030-pdf.pdf
[11]http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1212564/employment-sectoral-study-final-english-1.pdf

*Tabl 6 Amcanestyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (Ffynhonnell: Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd, Rhagfyr 2018)*

| Opsiwn Twf | Cyfanswm twf anheddau rhagamcanol dros gyfnod y cynllun |
|---|---|
| Opsiwn 1: Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014 | 3,367 |
| Opsiwn 2: Llywodraeth Cymru 2014 (ymfudo cyfartalog 10 mlynedd) | 6,542 |
| Opsiwn 3: Tymor Byr (6 blynedd o ddata mudo) | 7,044 |
| Opsiwn 4: Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo) | 7,236 |
| Opsiwn 5: Tymor Hir (16 blynedd diwethaf o ddata mudo) | 9,887 |
| Opsiwn 6: Data mudo cyn y dirwasgiad (cyn 2008) | 14,090 |
| Opsiwn 7: Lleihau'r gyfradd gymudo | 17,396 |
| Opsiwn 8: Cyfradd Gymudo Sefydlog | 19,690 |

5.5.6 Profwyd effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a chynaliadwyedd cyffredinol pob opsiwn twf yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r asesiad hwn i'w gweld isod (Ffigur 4) a chânt eu cyflwyno hefyd yn Ffigur 4 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol. Ystyriwyd mai Opsiwn 1, fel man cychwyn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, oedd y llinell sylfaen ar gyfer asesu pob opsiwn arall.

5.5.7 Cyflwynwyd sylwebaeth lawn ar Arfarniad Cynaliadwyedd pob opsiwn twf yn Nhabl 6 o Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir. Yn gryno, daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd o'r opsiynau twf a gyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir i'r casgliad canlynol:

5.5.8 Mae **Opsiynau Twf 1 a 2** yn perfformio'n well gyda golwg ar gadw adnoddau amgylcheddol naturiol y Sir. Fodd bynnag nid yw'r un o'r opsiynau yn ymdrin yn ddigonol â'r materion economaidd-gymdeithasol yn y Sir, gan gynnwys yr angen am dai fforddiadwy, mynediad rhwydd i gyfleusterau cymunedol ac iechyd, a chadw pobl ifanc. Mae'r ddau opsiwn hefyd yn darparu twf cyflogaeth sylweddol is na hwnnw a amcanestynnir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth y Sir, ac ni fyddai'n darparu digon o gyfleoedd cyflogaeth. Mae lefel y twf o dan Opsiynau 4 a 5 yn fwy tebygol o gyflawni'r buddion cymdeithasol ac economaidd hyn.

5.5.9 **Opsiynau 7 ac 8** sydd fwyaf tebygol o arwain at effeithiau amgylcheddol negyddol, o'u cymharu ag opsiynau eraill. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn trwy ddewis safleoedd cynaliadwy a gweithredu cynlluniau mewn modd ystyrlon, gan ystyried tirwedd gwledig iawn Sir Gaerfyrddin a'r cynefinoedd o werth biolegol uchel.

5.5.10 Mae gan yr holl opsiynau y potensial i effeithio'n negyddol ar ansawdd aer y Sir o ganlyniad i gynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Unwaith eto, gellir lliniaru'r effeithiau hyn trwy ddefnyddio safleoedd cynaliadwy â digon o fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn bwysig ystyried Seilwaith Gwyrdd a'i ddiogelu pan fo hynny'n bosibl, oherwydd gall asedau seilwaith gwyrdd weithredu i buro'r aer.

5.5.11 Mae pob opsiwn yn cefnogi twf yn y boblogaeth ac felly'n debygol o gyfrannu at gynnydd mewn defnydd, gwastraff a gweithgareddau eraill fel trafnidiaeth. Gellid ymdrin â hyn trwy gynllun cynaliadwy, sy'n integreiddio atebion gwastraff cynaliadwy a thrafnidiaeth yn y datblygiad newydd. Mae diogelu seilwaith gwyrdd hefyd yn bwysig i liniaru effeithiau twf ar draws y Sir, gan ddarparu swyddogaeth dalfa garbon bwysig yn ogystal â darparu effeithiau draenio tir ac oeri.

5.5.12 Mae gan bob opsiwn y potensial i effeithio'n negyddol ar asedau hanesyddol a diwylliannol a thirwedd, yn dibynnu ar y safle a ddewisir a sut y gweithredir y datblygiad. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn gan sicrhau bod cynllun datblygiadau newydd yn ystyriol o gymeriad ac unigrywedd lleol, ac y diogelir asedau diwylliannol a hanesyddol.

*Ffigur 4 Arfarniad Cynaliadwyedd o Opsiynau Twf: (Ffynhonnell: Ffigur 4 Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o Adroddiad y Strategaeth a Ffefrir 2018)*

| Opsiwn Twf | SA1 Datblygu Cynaliadwy | SA2 Bioamrywiaeth | SA3 Ansawdd Aer | SA4 Ffactorau Hinsoddol | SA5 Dŵr | SA6 Asedau Materol | SA7 Pridd | SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | SA9 Tirwedd | SA10 Poblogaeth | SA11 Y Gymraeg | SA12 Iechyd a Llesiant | SA13 Addysg a Sgiliau | SA14 Yr Economi | SA15 Gwead Cymdeithas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1<br>224 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | + | I | I | -- | - | -- | ? | -- | -- |
| **Opsiwn 2<br>436 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Opsiwn 3<br>470 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Opsiwn 4<br>482 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Opsiwn 5<br>659 o anheddau y flwyddyn** | + | +/- | +/-- | +/- | + | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| **Opsiwn 6<br>939 o anheddau y flwyddyn** | + | +/- | +/- | +/- | - | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| **Opsiwn 7<br>1,160 o anheddau y flwyddyn** | - | - | - | - | - | | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |
| **Opsiwn 8<br>1,313 o anheddau y flwyddyn** | - | - | - | - | -- | | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |

5.5.13 O'r Arfarniad Cynaliadwyedd, daeth i'r amlwg y byddai Opsiwn 5 (Tymor Hir sy'n cyfateb i 659 o anheddau y flwyddyn) yn debygol o sicrhau’r effeithiau mwyaf cynaliadwy o blith yr holl opsiynau ar draws y fframwaith cynaliadwyedd, gyda'r cydbwysedd mwyaf rhwng ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol (Ffigur 4).

## 5.6 Arfarniad Cynaliadwyedd o Opsiynau Gofodol y Strategaeth a Ffefrir

5.6.1 Nodwyd y broses o ddatblygu'r Opsiynau Gofodol i'w hystyried yn Adran 9, para 9.44 – 9.53 o'r Adroddiad ar y Strategaeth a Ffefrir (2018). Mae pob Opsiwn Gofodol yn adlewyrchu'r angen i ystyried deddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a strategaethau lleol a rhanbarthol wrth gydnabod nodweddion, asedau a materion sy'n gyffredin yn Sir Gaerfyrddin ac sydd yn ffurfio dull gweithredu strategol sy'n cyflawni'r weledigaeth ac yn hyrwyddo a llywio datblygiad ar gyfer y sir.

5.6.2 Mae tystiolaeth sylfaenol wedi helpu i lywio datblygiad yr opsiynau hyn, yn ogystal â barn rhanddeiliaid a’r amcanion integredig. Mae’r opsiynau hyn wedi’u seilio ar ddealltwriaeth o botensial datblygu’r Sir a’r angen i fodloni gofynion twf yn y dyfodol. Wrth ddatblygu'r opsiynau, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r amcanion llesiant a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.6.3 Roedd pob Opsiwn yn ystyried lefelau gwahanol o ran graddfa a dosbarthiad twf ac yn archwilio i ba raddau y gallai gyflawni datblygu cynaliadwy. Nid oedd yr Opsiynau yn diffinio union ffiniau'r safle, ond yn darparu amlinelliad bras o sut y gellid dosbarthu twf ar draws y sir.

5.6.4 Roedd proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn helpu i lywio'r broses o ddewis y strategaeth ofodol a gaiff ei chynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir ac yn darparu dull o ystyried dewisiadau amgen rhesymol.

5.6.5 Ar y cychwyn, roedd y Strategaeth a Ffefrir y CDLl (2018) yn manylu ar chwe opsiwn gofodol i'w hystyried (Tabl 7). Yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir (2018) aseswyd y chwe opsiwn hyn yn erbyn y fframwaith cynaliadwyedd, a rhagwelodd effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor, cadarnhaol a negyddol tebygol pob un ar y llinell sylfaen amgylcheddol fel y'i hamlinellir yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd (2018). Cafodd opsiwn 'busnes fel arfer' (Opsiwn 1) ei gynnwys a oedd yn edrych ar barhau â strategaeth ofodol y CDLl presennol. Nodir canlyniadau'r asesiad hwn yn Nhabl 8 a chânt eu cyflwyno hefyd yn Ffigur 5 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.


*Tabl 7 Crynodeb o'r Opsiynau Gofodol (fel yr adroddwyd yn y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth a Ffefrir Cyn-adneuo Rhagfyr 2018)*




**Opsiwn 1 – Dosbarthiad Cynaliadwy**

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio twf yn gymesurol ar draws hierarchaeth sydd wedi'i thanategu gan egwyddorion cynaliadwyedd. Drwy wneud hyn, mae'r opsiwn hwn:


- Yn rhoi anogaeth i wasgaru cyflogaeth, tai a mathau eraill o ddatblygiad rhwng aneddiadau a nodwyd a grwpiau neu glystyrau pentrefi mewn modd sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol, eu poblogaeth a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yno.
- Yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir ac yn dosrannu twf yn briodol i ardaloedd defnydd trefol a gwledig.
- Yn sicrhau bod y rhan fwyaf o dwf cyflogaeth yn digwydd mewn trefi a phentrefi mwy o faint.




**Opsiwn 2 – Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth**

Mae'r opsiwn hwn yn edrych ar ddarpariaeth bresennol y seilwaith cyfleustodau a'r rhwydwaith priffyrdd ar draws y sir ac mae'n anelu at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o dwf mewn ardaloedd sydd â'r capasiti ar gyfer twf. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio annog twf mewn ardaloedd lle gellir darparu ar ei gyfer yn fwyaf ymarferol trwy:

- Annog twf ar hyd llwybrau trafnidiaeth allweddol a chyffyrdd yr M4, yr A40, yr A48, yr A484, yr A474 a'r A485 a hefyd mewn mannau sy'n hygyrch i ddulliau trafnidiaeth eraill gan gynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith beicio a chysylltiadau cerddwyr.
- Annog twf mewn ardaloedd lle mae naill ai capasiti cyfredol neu gapasiti a gynllunnir ar gyfer cyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff.
- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal cymunedau.





**Opsiwn 3 – Gwasgariad**

Mae'r opsiwn hwn yn dosbarthu tai, cyflogaeth a ffurfiau datblygu eraill ar sail eang rhwng aneddiadau o fewn y sir, yn drefol ac yn wledig. Mae hefyd yn caniatáu i aneddiadau dyfu'n raddol heb o reidrwydd ystyried argaeledd gwasanaethau neu gyfleusterau na'r effaith y gallai twf ei chael ar y cymunedau presennol a'u capasiti i gynnwys ac amsugno twf.

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gyfeirio cyfran uwch o dwf y Sir i'r ardaloedd gwledig a chyfran is i'r ardaloedd trefol presennol.


**Opsiwn 4 - Dan Arweiniad y Gymuned**

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar rôl aneddiadau yn eu hardal a'u cymuned ehangach, gan gydnabod y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng aneddiadau ac yn ystyried sut mae'r cymunedau lleol yn gweithio ac yn byw.




Bydd yr opsiwn hwn yn annog twf yn yr ardaloedd hynny sydd yn chwarae rôl sylweddol yn y gymuned ehangach; trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ceisio adlewyrchu anghenion cymunedau, gan gynnwys eu galw am dai.

Dylai'r opsiwn hwn adlewyrchu dealltwriaeth o gymunedau lleol a sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd lle mae ei angen, er mwyn cefnogi cymunedau a'u dyheadau ar gyfer twf yn y dyfodol a materion parhaus yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau a gwasanaethau.  Mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu safleoedd llai a chyfeirio cyfran uwch o dwf tuag at aneddiadau llai.





**Opsiwn 5 - Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

Roedd yr opsiwn hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r buddsoddiad a gynlluniwyd fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac mae'n sianeli twf i alinio â'r ardaloedd daearyddol hyn. Y prosiectau a gynigir ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw:

Y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli. Pentref yw hwn a fydd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i hyrwyddo a gwella llesiant. Bwriedir iddo fod yn gyfleuster amlochrog sy'n cyfuno datblygiad busnesau, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil i wyddorau bywyd mewn un lleoliad; ac

Yr Egin, Caerfyrddin. Byddai'r cyfleuster hwn yn ganolfan greadigol, ddigidol a chyfryngau newydd i'w lleoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r twf yng Nghaerfyrddin a Llanelli a'r ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o dwf wedi'i grynhoi yn yr ardaloedd rhwng y ddwy ardal hyn, fodd bynnag, prin fydd y twf mewn aneddiadau sy'n bellach o Gaerfyrddin a Llanelli, serch hynny gallai elwa ar y buddsoddiad mewnol.




**Opsiwn 6 - Dan Arweiniad y Farchnad**

Bydd yr opsiwn hwn yn anelu at ddiwallu anghenion a dyheadau'r diwydiant datblygu drwy nodi safleoedd ac ardaloedd sydd fwyaf atyniadol yn economaidd i'w datblygu. Mae'r opsiwn hwn yn edrych ar lwyddiant marchnad aneddiadau'r sir ers 2008 ac yn dosrannu twf yn unol â chyfraddau cyflawni'r gorffennol.

Mae cyfraddau cyflawni'r gorffennol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd yn ardaloedd Llanelli a'r Hendy, gyda chryn dipyn o ddatblygu hefyd yn digwydd yn ardal dwf Caerfyrddin ac mewn rhannau o ardal dwf Rhydaman/Cross Hands.

Gallai'r dull gweithredu hwn gael ei ddehongli fel 'cynllunio yn seiliedig ar niferoedd'. Byddai'n ceisio cyfeirio twf yn unol â'r cyfraddau cyflawni uchaf yn y gorffennol a chymhwyso'r duedd hon i nodi'r lleoliad ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

*Tabl 8 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol (Ffynhonnell: Ffigur 5 Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir Rhagfyr 2018)*

| Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 | Opsiwn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SA1 Datblygu Cynaliadwy | + | - | - | + | ? | ? |
| SA2 Bioamrywiaeth | I | + | I | I | + | I |
| SA3 Ansawdd Aer | - | - | - | - | - | - |
| SA4 Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- | +/- | - | - |
| SA5 Dŵr | +/- | + | - | + | - | - |
| SA6 Asedau Materol | + | - | - | + | - | - |
| SA7 Pridd | I | + | - | I | + | + |
| SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I | I | I | I |
| SA9 Tirwedd | I | I | - | I | I | I |
| SA10 Poblogaeth | ++ | - | - | ++ | +/- | +/- |
| SA11 Y Gymraeg | + | - | - | + | +/- | - |
| SA12 Iechyd a Llesiant | + | - | - | ++ | +/- | +/- |
| SA13 Addysg a Sgiliau | + | - | - | + | ++ | ? |
| SA14 Yr Economi | + | - | - | + | ++ | ? |
| SA15 Gwead Cymdeithas | + | - | - | ++ | - | - |

5.6.6 Cyflwynwyd sylwebaeth lawn ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd o bob opsiwn gofodol yn Adran 4.3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir. Yn gryno, daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd o'r twf gofodol a gyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir i'r casgliad canlynol:

- Mae **Opsiynau 1 a 4** ill dau yn perfformio'n dda ar y cyfan mewn cysylltiad â'r fframwaith cynaliadwyedd, yn arbennig o safbwynt yr economi, gwella gwead cymdeithas a diwallu anghenion ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn yn wahanol i **Opsiynau 2 a 3** nad ydynt yn mynd i'r afael yn benodol ag angen neu economi'r ardaloedd gwledig ac nid ydynt yn perfformio'n ffafriol o safbwynt gwella cydraddoldeb cymdeithasol ledled y sir. Rhagfynegir y bydd **Opsiwn 5** yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar addysg, sgiliau a'r economi yn sgil traweffaith buddsoddiad mewnol a gwybodaeth a sgiliau i'r sir. Mae hefyd yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar strwythur y boblogaeth, trwy gyfateb datblygiadau preswyl â chyfleoedd sylweddol am swyddi medrus, gan greu ardaloedd deniadol i bobl ifanc.

- Er y byddai **Opsiynau 2, 5 a 6** yn lleihau defnydd ceir preifat yn y tymor byr trwy gyfeirio twf i ardaloedd lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau digonol eisoes, mae'n debygol y bydd cynnydd mewn traffig, mewn tagfeydd ac mewn allyriadau cysylltiedig yn y tymor canolig a hir mewn ardaloedd sydd eisoes yn mynd yn groes i Amcanion Ansawdd Aer y DU. Mewn cyferbyniad â hyn, mae **Opsiynau 1, 4 a 3** yn cyfeirio twf uwch i ardaloedd gwledig lle ceir diffyg mynediad at wasanaethau o bosibl ac felly a fyddai'n cynyddu defnydd ceir preifat. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae'n debygol y bydd canolfannau gwasanaethau yn cael eu sefydlu a'u cadw o amgylch aneddiadau gwledig ac y caiff cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus eu gwella, gan arwain at ostyngiad yn y defnydd o geir preifat a'r materion ansawdd aer cysylltiedig.

- Ceir effeithiau cadarnhaol a negyddol yn sgil **Opsiynau 1, 3 a 4** gyda golwg ar ffactorau hinsoddol. Bydd cyfeirio twf i ardaloedd gwledig yn lleihau'r pwysau ar ardaloedd trefol

yn y tymor byr, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat ac allyriadau cysylltiedig yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae twf mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gynyddu datblygiad safleoedd maes gwyrdd a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf, felly mae'n debygol y bydd yr angen am geir preifat yn lleihau. Byddai **Opsiwn 2** yn arwain at gynnydd yn y defnydd o ddulliau eraill o deithio a thwf mewn ardaloedd lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau digonol, gan leihau'r angen am geir preifat. Fodd bynnag, mae rhai o'r prif lwybrau trafnidiaeth (e.e. A40) yn dilyn llwybrau afonydd ac mae gwaith datblygu crynodedig mewn ardaloedd o'r fath yn debygol o fod yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Gallai cyfeirio twf i ardaloedd trefol fel Llanelli, Pen-bre a Phorth Tywyn, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2 arwain at risg i ddatblygiad newydd o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y tymor hir. Oherwydd hyn, ac oherwydd na chaiff anghenion gwledig eu diwallu, rhagwelir y caiff **Opsiynau 5 a 6** effeithiau negyddol ar yr amcan hwn.

- Mae perfformiad yn erbyn amcanion cynaliadwyedd fel treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a thirwedd yn dibynnu'n fawr ar y safle a ddewisir a gweithredu oherwydd natur leol y nodweddion hyn, felly mae'n anodd arfarnu effaith ar y lefel strategol hon. Fodd bynnag, mae **Opsiynau 2 a 5** yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol yn gyffredinol ar fioamrywiaeth gan eu bod yn cyfeirio twf i ardaloedd lle cafwyd gwaith datblygu yn y gorffennol, yn hytrach nag ardaloedd sy'n fwy tebygol o arwain at ddatblygu tir y llain las.

- Mae **Opsiynau 2 a 6** sy'n cyfeirio twf i ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o dwf yn hanesyddol, ac felly newidiadau demograffig, yn llai tebygol o allu amsugno rhagor o newidiadau i gymeriad ac felly byddai'n arwain at effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Mae **Opsiynau 1 a 4** yn ceisio dosbarthu twf yn fwy cymesur rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a bydd hefyd yn cefnogi cymunedau bywiog a'r economi, sy'n debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, yn arbennig trwy gadw pobl ifanc. Byddai **Opsiwn 3** yn arwain at ddarpariaeth dwf anghynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, a gall hyn wanhau cymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd hyn. Mae Opsiwn 5 yn arwain at yr un effeithiau negyddol ag Opsiynau 2 a 6 ond mae hefyd yn arwain at effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i greu swyddi a sgiliau mewn cysylltiad â Dinas-ranbarth Bae Abertawe (yn arbennig Yr Egin, sy'n gartref i swyddfeydd S4C) a fydd yn helpu i gadw pobl ifanc yn y Sir.

5.6.7 Yn dilyn yr asesiad Arfarnu Cynaliadwyedd a'r ymatebion dilynol i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, ystyrid nad oedd unrhyw un o'r opsiynau yn well ar ei ben ei hun gan fod pob un wedi dangos rhai canlyniadau negyddol i wahanol raddau ac na fyddai'n gwneud y mwyaf o'r datblygu cynaliadwy cytbwys sydd ei angen. Felly, ceisiodd Cyngor Sir Caerfyrddin nodi elfennau mwyaf cadarnhaol pob un i gyfrannu at ddatblygu opsiwn a ffefrir.

### Opsiwn Hybrid – Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy

5.6.8 O ganlyniad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol, a chysylltiadau dilynol a wnaed â rhanddeiliaid, argymhellwyd y dylid ystyried opsiwn hybrid fel yr opsiwn gofodol a ffefrir, sy'n adlewyrchu nifer o nodweddion ag effeithiau cadarnhaol o bob un o'r chwe opsiwn uchod. Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd cychwynnol yn awgrymu bod yr opsiwn hybrid yn ceisio adeiladu ar effeithiau cadarnhaol Opsiwn 4 – Dan Arweiniad y Gymuned, ac yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig a sicrhau y cydnabyddir amrywiaeth y Sir a chymunedau,

ond yn cael gwared ar y dull rhagnodol o bennu ardaloedd cymeriad yn y Sir. Nod yr opsiwn hwn yw cadw dull gweithredu sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau a bydd yn ceisio bod yn ymatebol o ran y modd y mae'n neilltuo twf i ardaloedd trefol a gwledig yn y Sir.

5.6.9 Mae'r opsiwn hybrid hefyd yn ymgorffori elfennau o Opsiwn 5, gan gydnabod ac adlewyrchu buddsoddiad a buddion economaidd i'r Sir a'i chymunedau trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a chyfleoedd economaidd eraill. Yn unol â'r prif bwyslais yn Opsiwn 2, mae'r opsiwn hybrid hefyd yn cydnabod bod angen amrywiaeth o seilwaith priodol i gefnogi twf cynaliadwy. Yn unol ag Opsiwn 6, bydd yn cydnabod y dylid gallu cyflawni twf a'i gyfeirio at anghenion y gymuned a galw'r farchnad.

5.6.10 Cafodd yr opsiwn hybrid ei asesu yn erbyn y Fframwaith Cynaliadwyedd a chyflwynir sylwadau manwl yn Adran 4.3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir. Nodir canlyniadau'r asesiad hwn yn Nhabl 9 a chânt eu cyflwyno hefyd yn Ffigur 6 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.

*Tabl 9 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol, gan gynnwys Opsiwn Hybrid (Ffynhonnell: Ffigur 6 Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir Rhagfyr 2018)*

| Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 | Opsiwn 6 | Hybrid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SA1 Datblygu Cynaliadwy | + | - | - | + | ? | ? | + |
| SA2 Bioamrywiaeth | I | + | I | I | + | I | I |
| SA3 Ansawdd Aer | - | - | - | - | - | - | + |
| SA4 Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- | +/- | - | - | +/- |
| SA5 Dŵr | - | + | - | + | - | - | + |
| SA6 Asedau Materol | + | - | - | + | - | - | + |
| SA7 Pridd | I | + | - | I | + | + | I |
| SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I | I | I | I | I |
| SA9 Tirwedd | I | I | - | I | I | I | I |
| SA10 Poblogaeth | ++ | - | - | ++ | +/- | +/- | ++ |
| SA11 Y Gymraeg | + | - | - | + | +/- | - | + |
| SA12 Iechyd a Llesiant | + | - | - | ++ | +/- | +/- | ++ |
| SA13 Addysg a Sgiliau | + | - | - | + | ++ | ? | ++ |
| SA14 Yr Economi | + | - | - | + | ++ | ? | ++ |
| SA15 Gwead Cymdeithas | + | - | - | ++ | - | - | ++ |

## 5.7 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir - Polisïau Strategol

5.7.1 Mae Polisïau Strategol y CDLl yn bolisïau lefel uchel sydd â'r nod o gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y CDLl. Maent yn strategol eu natur a chant eu hategu gan bolisïau a chynigion manylach ar gam Cynllun Adneuo'r CDLl.

5.7.2 Cyflwynwyd yr 19 o Bolisïau Strategol drafft yn Adran 11 o'r Strategaeth a Ffefrir y CDLl, ac roeddent yn destun profion yn erbyn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol (Adran 5). Nodir canlyniadau'r asesiad hwn isod (Tabl 10) a chânt eu cyflwyno hefyd, ynghyd â sylwadau cysylltiedig, yn Ffigur 7 ac Adran 5 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.

5.7.3 Yn dilyn yr asesiad, gwnaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol hefyd nifer o argymhellion a newidiadau i eiriad y polisi er mwyn lleihau effeithiau a gwella cyfleoedd. Rhestrir y newidiadau a awgrymwyd ac ymatebion tîm polisi'r CDLl yn Atodiad 4. Ailysgrifennwyd llawer o'r Polisïau Strategol ar gyfer y Cynllun Adneuo ac fel y cyfryw, ystyriwyd llawer o'r argymhellion ond nid oedd y newidiadau i'r geiriad a awgrymwyd yn berthnasol mwyach. Am y rheswm hwn, bydd yr Amcanion Strategol yn cael eu hailasesu yn

yr Arfarniad Cynaliadwyedd hwn o Gynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig a chaiff argymhellion newydd eu gwneud.

Tabl *10 Arfarniad Cynaliadwyedd o Bolisïau Strategol y CDLl drafft (Ffynhonnell: Ffigur 7 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol ar y Strategaeth a Ffefrir Rhagfyr 2018)*

| Polisi Strategol | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SP1 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP2 | + | I | +/- | +/- | I | | I | I | + | + | | | | ++ | |
| SP3 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP4 | + | | | | | | | | | ++ | + | + | + | + | ++ |
| SP5 | + | - | +/- | +/- | ? | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| SP6 | + | - | +/- | + | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | | + | ++ | + |
| SP7 | + | | | | | | | + | | + | ++ | | + | + | ++ |
| SP8 | ++ | +/- | + | + | + | + | - | - | - | ++ | | + | + | + | ++ |
| SP9 | + | I | | | ? | | I | I | I | + | | | | | + |
| SP10 | + | I | +/- | +/- | I | + | I | I | I | + | +/- | ++ | + | ++ | + |
| SP11 | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | | + | | + | + |
| SP12 | + | - | + | + | - | + | - | I | - | + | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP13 | + | ++ | + | + | + | | + | | + | | | + | | + | |
| SP14 | + | | | | | | | ++ | + | | | + | | + | |
| SP15 | ++ | + | + | ++ | + | + | | | | | | + | ? | | |
| SP16 | ++ | - | + | + | ? | ++ | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP17 | ++ | + | ++ | + | | ++ | | | | + | | + | + | | I+ |
| SP18 | I | - | - | - | | ? | - | I | - | | | | | + | |
| SP19 | I | - | I | I | | + | - | I | - | | | I | | + | |

## 5. Ansicrwydd ac anawsterau'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystod y cam Strategaeth a Ffefrir

5.8.1 Prif gyfyngiadau'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd ar gam Strategaeth a Ffefrir y CDLl oedd y ffaith, oherwydd natur eang y Strategaeth ar y cam hwn o'r broses o wneud y cynllun, fod yna ansicrwydd ynghylch union leoliad y datblygiad a nifer y tai ar bob safle. Am y rheswm hwn, dim ond casgliadau cyffredinol y gallai'r Arfarniad Cynaliadwyedd ddod iddynt am wahanol effeithiau tebygol senarios twf amgen a dosbarthiadau gofodol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi sylw digonol i fesurau lliniaru yn y Cynllun Adneuo, yn enwedig yn achos:

- Bioamrywiaeth a cholli cynefin
- Capasiti seilwaith dŵr a charthffosiaeth i hwyluso twf
- Cynnydd mewn traffig ac effeithiau ansawdd aer o ganlyniad
- Datblygiad mewn parthau llifogydd C1/C2

## 5.9 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir a'r Argymhellion

5.9.1 Canfu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y byddai'r Strategaeth a Ffefrir, at ei gilydd, yn dod â manteision sylweddol o safbwynt darparu'r tir ar gyfer tai a chyflogaeth sydd ei angen i gynnal twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin. Perfformiodd yn dda yn erbyn amcanion economaidd-gymdeithasol y fframwaith cynaliadwyedd, gyda dewisiadau strategol sydd â'r nod o wella mynediad i swyddi o ansawdd da, gwasanaethau a seilwaith ar draws y Sir, gyda golwg ar fynd i'r afael â pheth o'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y Strategaeth a Ffefrir hefyd yn ceisio gwella iechyd a llesiant ar draws y Sir, gyda gwell tai, mynediad i fannau agored a chyfleusterau teithio llesol.

5.9.2 Fodd bynnag, fel yn achos unrhyw ddatblygiad, roedd yna rai effeithiau negyddol posibl o hyd, yn enwedig o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Gyda mesurau lliniaru addas, fodd bynnag, gellir lleihau'r effaith negyddol hwn. Roedd rhai mesurau lliniaru eisoes wedi'u hystyried o fewn y Strategaeth a Ffefrir o ganlyniad i'r dialog parhaus rhwng yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r gwaith o ysgrifennu polisïau, megis dewis opsiwn gofodol Hybrid sydd â'r nod o gyfuno'r agweddau gorau ar yr opsiynau presennol eraill. Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd hefyd yn awgrymu fod rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r geiriad i gryfhau cynaliadwyedd y Polisïau Strategol (Atodiad 4).

5.9.3 Gwnaed rhai argymhellion ehangach hefyd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'w hystyriwyd wrth awdurdodi Cynllun Adneuo'r CDLl, a amlinellir yn Nhabl 7 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol ac yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

5.9.4 Cyflwynwyd crynodeb o berfformiad y Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn Ffigur 8 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol a chaiff ei ddangos hefyd yn Nhabl 11 isod.

*Tabl 11 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth a Ffefrir. (Ffynhonnell: Ffigur 8 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir Rhagfyr 2018)*

| Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | SA1 Datblygu Cynaliadwy | SA2 Bioamrywiaeth | SA3 Ansawdd Aer | SA4 Ffactorau Hinsoddol | SA5 Dŵ r | SA6 Asedau Materol | SA7 Pridd | SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | SA9 Tirwedd | SA10 Poblogaeth | SA11 Y Gymraeg | SA12 Iechyd a Llesiant | SA13 Addysg a Sgiliau | SA14 Yr Economi | SA15 Gwead Cymdeithas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | | + | + | + | + |
| Amcanion | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | + | + | ++ |
| Opsiwn Twf 4 | + | +/- | +/- | +/- | ? | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| Opsiwn Gofodol Hybrid | + | I | + | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| Polisïau Strategol | | | | | | | | | | | | | | | |
| SP1 | + | - | - | - | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP2 | + | I | +/- | +/- | I | | I | I | + | + | | | | ++ | |
| SP3 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP4 | + | | | | | | | | | ++ | + | + | + | + | ++ |
| SP5 | + | - | +/- | +/- | ? | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| SP6 | + | - | +/- | + | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | | + | ++ | + |
| SP7 | + | | | | | | | + | | + | ++ | | + | + | ++ |
| SP8 | ++ | +/- | + | + | + | + | - | - | - | ++ | | + | + | + | ++ |
| SP9 | + | I | | | ? | | I | I | I | + | | | | | + |
| SP10 | + | I | +/- | +/- | I | + | I | I | I | + | +/- | ++ | + | ++ | + |
| SP11 | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | | + | | + | + |
| SP12 | + | - | + | + | - | + | - | I | - | + | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP13 | + | ++ | + | + | + | | + | | + | | | + | | + | |
| SP14 | + | | | | | | | ++ | + | | | + | | + | |
| SP15 | ++ | + | + | ++ | + | + | | | | | | + | ? | | |
| SP16 | ++ | - | + | + | ? | ++ | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP17 | ++ | + | ++ | + | | ++ | | | | + | | + | + | | I+ |
| SP18 | I | - | - | - | | ? | - | I | - | | | | | + | |
| SP19 | I | - | I | I | | + | - | I | - | | | I | | + | |

# 6. Arfarniad Cynaliadwyedd o Gynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig

Mae Adran 5 o'r adroddiad hwn wedi amlinellu'r broses trwy'r hon y dylanwadodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd ar y Weledigaeth, yr Opsiynau Twf, yr Opsiwn Gofodol a'r Polisïau Strategol a gynhwyswyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLl a oedd yn sail i'r Cynllun Adneuo. Mae Adran 5 hefyd yn cyfeirio at fanylion llawn yr arfarniadau a gyflwynwyd o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol ar y Strategaeth a Ffefrir.

Caiff gweledigaeth, amcanion a strategaethau'r CDLl eu rhoi ar waith drwy ystod o bolisïau sy'n nodi'r dull gweithredu a gaiff ei gymryd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Adran 6 yn nodi'r broses trwy'r hon y mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi llywio cynnwys y Cynllun Adneuo ac yn cyflwyno canlyniadau'r arfarniad o bolisïau Strategol (Adran 6.4) a Phenodol (Adran 6.6) a dyraniadau safle (Adran 6.8) y Cynllun Adneuo.

## 6.1 Arfarniad Cynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun Adneuo

Yn dilyn adborth o'r broses gychwynnol o Arfarnu Cynaliadwyedd a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018 i Ionawr 2019) cafodd y Weledigaeth ei diwygio er mwyn ei chynnwys yn y CDLl Adneuo. Caiff Gweledigaeth ddiwygiedig y CDLl ei chyflwyno isod. Yna cafodd y weledigaeth ddiwygiedig ei hailasesu yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd (Tabl 12).

### Gweledigaeth y CDLl: Un Sir Gâr

Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog (gan gynnwys y Gymraeg) eu gwerthfawrogi a'u parchu ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd

Bydd ganddi gymunedau llewyrchus, cydlynol a chynaliadwy sy'n darparu cyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau ychwanegol ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau yn ardaloedd gwledig a threfol ein sir.

Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

*Tabl 12 Profi Gweledigaeth ddrafft a diwygiedig y CDLl yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd*

| | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth Ddrafft (2018) | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | | + | + | + | + |
| Gweledigaeth Adneuo Ddiwygiedig (2019) | + | + | ? | ? | ? | + | ? | + | + | + | + | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| + | Perthynas gadarnhaol rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| ? | Perthynas anhysbys rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| - | Gwrthdaro posibl rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |

6.1.2 Yn dilyn adborth o'r broses gychwynnol o Arfarnu Cynaliadwyedd a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018 i Ionawr 2019), gwnaed mân newidiadau i ddau o'r Amcanion Strategol. Ychwanegwyd geiriad at SO7 i gynnwys cyfeiriad at ynni adnewyddadwy a newidiwyd SO10 i gynnwys cyfeiriad at sicrhau bod nifer a chymysgedd priodol o dai yn cael eu hystyried. Ailaseswyd y mân newidiadau hyn yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd, ond ni wnaed unrhyw newidiadau i'r effeithiau a'r cyfleoedd a nodwyd.

## 6.2 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth Dwf a Ffefrir

6.2.1 Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth a Ffefrir, a oedd yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, comisiynodd y Cyngor Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o senarios demograffig ac economaidd i lywio amcanestyniadau twf tebygol ar gyfer y sir yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun 2018-2033. Ar sail yr amrywiaeth o dystiolaeth ddemograffig ac economaidd a gyflwynwyd yn yr adroddiad, roedd y Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor yn nodi gofyniad tai o 9,887 o anheddau (2018-2033), sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r senario o ran Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir a gyflwynwyd yn nadansoddiad Edge Analytics.

6.2.2 Cyn cyhoeddi'r CDLl Adneuo Diwygiedig ddiwedd 2019, rhagwelwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd is-genedlaethol 2017 mewn pryd i'w hystyried ar gyfer y Cynllun Adneuo. Fodd bynnag, mae'r cam o ryddhau'r amcanestyniadau hyn wedi cael ei oedi ac yn sgil hyn, roedd y Cyngor wedi ailgomisiynu Edge Analytics i ddiweddaru gwahanol senarios o ran gofynion tai yng ngoleuni amrywiaeth o dystiolaeth newydd, gan gynnwys amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018 Sir Gaerfyrddin a'r fersiwn drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad hwn a oedd wedi'i ddiweddaru yn cyflwyno tair senario ddemograffig arall, sy'n rhoi ystyriaeth i hanesion eraill o ran mudo y gellir tarddu rhagdybiaethau ynghylch tueddiadau ohonynt. [12] Amlinellir y gofynion anheddau a ddeilliodd o hyn ar gyfer pob un o'r senarios yn Nhabl 13.

*Tabl 13 Amcanestyniadau Senario Twf Poblogaeth Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033. Atodiad Edge Analytics 2019*

| **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir (Atodiad i Adroddiad 2019)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod hanesyddol llawn o 17 mlynedd (2001/02-2017/18). | | | |
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (%) | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| 9.6% | 12.0% | 671 | 10,065 |

| **Twf Poblogaeth 10 mlynedd (Atodiad i Adroddiad 2019)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol o 10 mlynedd, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwymp ariannol. | | | |
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (%) | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| 8.1% | 10.6% | 589 | 8,835 |

[12] Edge Analytics – Atodiad Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin, Medi 2019

| Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr (Atodiad i Adroddiad 2019) | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod hanesyddol o bedair blynedd (2014/15-2017/18) sy'n cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai. | | | |
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (%) | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| 7.6% | 10.5% | 585 | 8,769 |

6.2.3 Gyda'r amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2017 heb eu cyhoeddi eto, amcangyfrifwyd twf aelwydydd ac anheddau o dan y senarios demograffig gan ddefnyddio tybiaethau o fodel amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014. Yn wahanol i'r senarios twf poblogaeth a ddarparwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig, nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig a ddarparwyd yn Atodiad 2019 yn cynnwys y gyfran fach o boblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n eistedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Drwy beidio â chynnwys y ddaearyddiaeth yn senarios Sir Gaerfyrddin, ceir cyfanswm poblogaeth a chanlyniadau twf ychydig yn is.

6.2.4 Cafodd effeithiau pob un o'r opsiynau twf diwygiedig eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd, a rhoddir sylwebaeth lawn yn Atodiad 6. Darperir crynodeb yn Nhabl 14. Nid ystyriwyd ei bod yn realistig i gynnwys dewis amgen yn ymwneud â busnes fel arfer (h.y. sefyllfa bresennol y CDLl) gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y CDLl yn defnyddio amcanestyniadau twf Llywodraeth Cymru (amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014 Llywodraeth Cymru – Opsiwn Twf 1) fel man cychwyn.

*Tabl 14 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o Opsiynau Twf y CDLl diwygiedig*

| Opsiynau Twf | Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir (2019) 671 annedd y flwyddyn | Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd (2019) 589 annedd y flwyddyn | Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr (2019) 585 annedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| SA1 Datblygu Cynaliadwy | + | + | + |
| SA2 Bioamrywiaeth | +/- | +/- | +/- |
| SA3 Ansawdd Aer | +/- | +/- | +/- |
| SA4 Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- |
| SA5 Dŵr | + | + | + |
| SA6 Asedau Materol | 0 | 0 | 0 |
| SA7 Pridd | +/- | +/- | +/- |
| SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I |
| SA9 Tirwedd | I | I | I |
| SA10 Poblogaeth | + | + | + |
| SA11 Y Gymraeg | + | + | + |
| SA12 Iechyd a Llesiant | ? | ? | ? |
| SA13 Addysg a Sgiliau | +/- | +/- | +/- |
| SA14 Yr Economi | + | + | + |
| SA15 Gwead Cymdeithas | + | + | + |

6.2.5 I grynhoi, mae'r opsiynau twf diwygiedig yn cyflwyno'r materion a'r cyfleoedd canlynol:

6.2.6 Mae'r opsiynau twf diwygiedig i gyd yn cynnig materion a chyfleoedd tebyg pan gânt eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Mae pob un o'r opsiynau yn cefnogi twf yn y boblogaeth ac felly'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaeth, yr economi a gwead cymdeithasol. Mae hyn oherwydd y mewnfudiad a ragwelir o bobl o oedran gweithio ac iau, a fydd yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at unioni'r boblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Gaerfyrddin.

6.2.7. Mae twf ar unrhyw lefel sy'n arwain at ddatblygiad yn golygu colli arwynebau pridd/athraidd i statws caled a photensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae’r tri opsiwn twf diwygiedig yn taro cydbwysedd rhwng ffactorau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol o’u cymharu ag amcanestyniadau twf uwch.

6.2.8 Yn yr un modd, gall tai a datblygu economaidd arwain at fwy o weithgarwch trafnidiaeth a allai gael effeithiau negyddol ar ansawdd aer ac ôl troed carbon y sir. Fodd bynnag, mae pob un o’r tri opsiwn yn taro cydbwysedd rhwng ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol o’u cymharu â’r opsiynau twf uwch a gynigir yn y Strategaeth a Ffefrir.

6.2.9 Mae gan bob opsiwn twf y potensial i gael effeithiau negyddol ar asedau a thirwedd hanesyddol a diwylliannol a byddant yn ddibynnol ar ble y dyrennir twf.

6.2.10 Nododd tystiolaeth wedi’i diweddaru ar yr effeithiau a ragwelir ar sail opsiynau twf ar SA11 Yr Iaith Gymraeg[13] ei bod yn debygol y byddai effeithiau’r opsiynau twf hyn, yn erbyn llinell sylfaen Opsiwn Twf 1 – amcanestyniadau seiliedig ar 2014 Llywodraeth Cymru, yn rhai negyddol o ychydig.

6.2.11 I grynhoi, mae'r opsiynau twf hyn i gyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal economi gynaliadwy a chymdeithas iach a chytbwys, gan hefyd leihau'r risg o effeithiau negyddol ar Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd yr amgylchedd.

6.2.12 Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn twf a ffefrir fyddai Twf Poblogaeth 10 Mlynedd (Atodiad 2019) gan fod yr opsiwn hwn yn darparu cydbwysedd o fuddion economaidd-gymdeithasol i gyflawni Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, amcanion adfywio a chreu swyddi a datblygu uchelgeisiau'r Cyngor o ran darparu tai fforddiadwy ar draws y Sir, gan hefyd geisio lleihau tensiynau rhwng datblygiadau a'r posibilrwydd o effeithio ar Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd megis Bioamrywiaeth, Ansawdd Aer, Dŵr, Pridd, Treftadaeth Ddiwylliannol, y Dirwedd a'r Gymraeg.

6.2.13 Fodd bynnag, fel yn achos unrhyw ddatblygiad, roedd rhai effeithiau negyddol posibl yn aros, yn enwedig gyda golwg ar fioamrywiaeth, ansawdd aer, ffactorau hinsoddol a’r Gymraeg. Fodd bynnag, o roi mesurau lliniaru addas ar waith, gellir lleihau’r effeithiau negyddol hyn. Mae’r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi awgrymu rhai newidiadau i eiriad polisïau fel mesurau lliniaru er mwyn cryfhau polisïau a fyddai’n gweithredu fel polisïau diogelu gyda golwg ar rai o’r amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd (Atodiadau 4 a 7).

## 6.3 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir

6.3.1 Nid yw'r opsiwn gofodol a ffefrir wedi'i newid ers y Strategaeth a Ffefrir, ac felly nid oes angen ailasesu'r opsiwn ar hyn o bryd. Gellir dod o hyd i asesiad o'r Opsiwn Gofodol a ffefrir yn Adran 4.3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Opsiwn Hybrid a ffefrir yn parhau i geisio darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig a sicrhau bod amrywiaeth y Sir a'i chymunedau yn cael ei chydnabod, yn ogystal â cheisio adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau yn y modd y mae'n neilltuo twf i ardaloedd trefol a gwledig y Sir.

6.3.2 Mae'r opsiwn hybrid hefyd yn adlewyrchu buddsoddiad a buddion economaidd i’r Sir a’i chymunedau trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a chyfleoedd economaidd eraill. Mae hefyd yn cydnabod bod angen i dwf cynaliadwy gael ei gefnogi drwy sicrhau bod amrywiaeth o seilwaith priodol ar gael ac y dylai twf fod yn gyraeddadwy ac yn canolbwyntio ar anghenion y gymuned a'r galw yn y farchnad.

## 6.4 Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Polisïau Strategol

6.4.1 Ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig, diwygiwyd nifer o bolisïau i adlewyrchu adborth a sylwadau, gan gynnwys y rheiny a wnaed

[13] Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin. Rhagfyr 2019.

yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol. Yna ail-sgriniwyd y polisïau diwygiedig yn erbyn y Fframwaith Cynaliadwyedd i ystyried a fyddent yn arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol. Rhestrir y polisïau diwygiedig a sylwebaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd ar yr ailasesiad yn Atodiad 4. Cyflwynir canlyniadau'r ailasesiad yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn Nhabl 15.

*Tabl 15 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o Bolisïau Strategol y CDLl diwygiedig*

| Polisi Strategol | SP1 | SP2 | SP3 | SP4 | SP5 | SP6 | SP7 | SP8 | SP9 | SP10 | SP11 | SP12 | SP13 | SP14 | SP15 | SP16 | SP17 | SP18 | SP19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SA1 | + | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | ++ | + | + | + | ++ | ++ | ++ | I | I |
| SA2 | - | I | - | - | I | - |  | +/- | I | I | + | - | ++ |  | + | - | + | - | - |
| SA3 | - | +/- | - | - | +/- | +/- |  | + |  | +/- | ++ | + | + |  | + | + | ++ | - | I |
| SA4 | - | +/- | - | - | +/- | + |  | + | - | +/- | ++ | + | + |  | ++ | + | + | - | I |
| SA5 | + | I | + |  |  | ? |  | + | I | I | + | - | + |  | + | ? |  |  |  |
| SA6 | + |  | + |  | + | + |  | + | + | + | + | + |  |  | + | ++ | ++ |  | + |
| PrC3/h9 | Tir ger Maesyrhaf | + | + | + | +/- | +/- | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC3/h10 | Tir tu cefn Gwernllwyn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC3/h11 | Tir i Dwyrain Heol Caerfyrddin | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h12 | Tir ger yr A48 a Heol y Parc | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV37/h1 | Y tu ôl i Swyddfa'r Post | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV37/h2 | Tir i'r de o Gae Coedmor | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV37/h3 | Tir ger Lleinau | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV51/h1 | Gyferbyn â Neuadd y Pentref, Cwmifor | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV48/h1 | Tir ar Llys Glasfryn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV1/h1 | Ger Fron Heulog | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV1/h2 | Ger Lleine | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h14 | Nantydderwen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h17 | Tir yn ran o Maesygwern, Heol Caegwyn | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SuV31/h1 | Parc Puw | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV31/h2 | Parc Meirios | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV56/h1 | Tir i gefn o Talar Wen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC2/h1 | Cwrt Caradog | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC2/h2 | Tir i gefn Parc y Ffynnon | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV23/h1 | Clos y Parc | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SuV23/h2 | Ger Little Croft | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC10/h2 | Tir cyfagos i 13 Bishop Road | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC10/h3 | Hen Ysgol Gynradd Glanaman | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC10/h4 | Hen Ysbyty Glanaman | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SuV55/h1 | Tir i gefn Maesglas | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV55/h2 | Tir i'r  gogledd o Tafarn Cross Inn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h18 | Tir yn ffinio Brynlluan | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC6/h2 | Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC6/h3 | Coed y Bronallt | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC6/h4 | Ger Clos Benallt Fawr, Fforest | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC6/h5 | Garej Fforest | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC3/h1 | Land nesaf i Brodawel | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC3/h2 | Tir ger Stryd Priory | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC3/h3 | Tir i gefn Park View Drive | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC3/h4 | Tir yn yr hen iard Dinas | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC20/h1 | Pludds Meadow | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC20/h2 | Tir cyfagos i Ysgol Lacharn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC20/h3 | Tir ger Stryd Clifton | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV15/h1 | Ysgol Llanarthne | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV19/h1 | Tir gyferbyn Neuadd y pentref | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV19/h2 | Tir nesaf a tu ol i Haulfan | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC16/h1 | Chwarter Gogledd Llandeilo | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC16/h2 | Teras Tomos | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC16/h3 | Tir cyfagos i 28 Heol Gaerfyrddin | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC15/h1 | Tir i’r gogledd o Dan y Crug | + | + | + | + | + | + | - | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC15/h2 | Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h20 | Tir i gogledd Maespiode | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h21 | Maespiode | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SuV26/h1 | Y tu ôl i 16 Y Garreg Lwyd | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h1 | Beech Grove, y Pwll | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h2 | Hen Labordy Lôn Pen y Fai | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h4 | Doc y Gogledd (gan gynnwys Pontrilas gynt) | + | - | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC2/h5 | The Avenue, Morfa | + | + | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h8 | 2-4 Teras Coleshill | + | + | +/- | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h9 | 3-5 Heol Goring | + | + | +/- | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h10 | Tir ger The Dell, Ffwrnes | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC2/h11 | Brynmefys, Ffwrnes | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h14 | Heol Maesarddafen/Erw Las, Llwynhendy | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h15 | Heol Maesarddafen/Erw Las, Llwynhendy | + | + | + | +/- | +/- | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h16 | Ynys Las, Llwynhendy | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h17 | Ger 73 Parc Guto, Llwynhendy | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h19 | Genwen, y Bryn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h20 | Harddfan, y Bryn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/h22 | Cwm y Nant, Dafen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC2/h23 | Porth Dwyrain Dafen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC2/MU1 | Cyn Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli | + | - | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/MU2 | Porth Trostre (defnydd cymysg) | + | + | + | +/- | +/- | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/SS1 | Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli | + | - | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SuV39/h1 | Ger Yr Hendre | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC17/h1 | Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC17/h2 | Tir oddi ar Heol Pendref | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV8/h1 | Tir I'r dde o Dol y Dderwen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV33/h1 | Tir gyferbyn â Brogeler | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC7/h1 | Box Farm | + | - | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC7/h3 | Golwg Yr Afon | + | - | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC7/h4 | Gyferbyn â Pharc Morlais | + | - | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SeC7/h5 | Maesydderwen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV60/h1 | Tir yn College Bach | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV36/h1 | Cae Pensarn Helen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV36/h2 | Tir ym Mryndulais | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV25/h1 | Tir I gogledd Clos Rebecca | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV12/h1 | Ger Gwyn Villa | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV3/h1 | Tir y tu ôl i Faesgriffith | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC13/h1 | Ger Y Neuadd | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC13/h2 | Heol y Dderi | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC13/h3 | Troedybryn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV58/h1 | Tif cyfagos i Lon Dewi | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV58/h2 | Tir ger Heol Drefach | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV22/h1 | Tir gyferbyn Parc y Garreg | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV22/h2 | Tir ger Ty Newydd, Heol Meinciau | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV22/h3 | Tir ar Heol Llangadog | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV17/h1 | Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf | + | + | + | + | + | + | - | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV43/h1 | Blossom Inn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC12/h1 | Trem y Ddol | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC12/h2 | Heol Dewi | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC12/h3 | Tir y tu ôl i Ddolcoed | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| Sec5/h2 | Fferm Cwrt | + | + | + | + | + | + | - | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC14/h1 | Garej Blossom | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC14/h2 | Tir ger Maescader | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC14/h3 | Glanawmor | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC14/h4 | Bro'r Hen Wr | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV61/h1 | Tir yn Fferm Nieupor | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV63/h1 | Tir yn Woodend | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV10/h1 | I'r de o Bentre | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV10/h2 | Aberdeuddwr | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SuV34/h1 | Tir yn ffinio â Brynywawr | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h22 | Tir ger Pant y Blodau | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/MU1 | Safle Gwaith Brics | + | + | + | +/- | + | + | +/- | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SuV18/h1 | Tir cyfagos i'r Cresselly Arms | + | + | + | + | + | + | - | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV41/h1 | Adj Crug yr Wyn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC1/h1 | Heol Pisgwydd | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC1/h2 | Tir i'r cefn o 9 Heol Brynderi | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC1/h3 | Tir yn Capel Tabernacl | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC1/h4 | Cae Canfas, Heol Llanelli | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC1/h5 | Tir yn 8 Heol Llanelli | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC11/h1 | Tir oddi ar Heol Llannon | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV20/h1 | Tir nesaf i Fferm Llwynhenry | + | + | + | +/- | +/- | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV14/h1 | Fferm Cefn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV34/h1 | Tir yn ffinio â Brynywawr | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC18/h1 | Cyfagos i Brittania Terrace | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC18/h2 | Hen Ffatri Fenyn | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC18/h3 | Tir cyfagos i Gefn Maes | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC18/h4 | Tir yn Heol Llaindelyn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC18/h5 | Tir cyfagos i Gwynfa, Heol yr Orsaf | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC18/h6 | Tir i gefn Heol yr Orsaf | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC18/h7 | Tir gyfagos i Gardde Fields | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC18/h8 | Tir yn Cae Glas | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SuV47/h1 | Tir yn ffinio â Ffynnon Dawel | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SuV40/h1 | Clos y Cynin | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h28 | Tir a safle'r ffatri rhwng rhiff 22 a 28 Heol Bethesda | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h30 | Tir oddi ar Heol Gwendraeth | + | + | + | +/- | +/- | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/h31 | Tir yn Fforestfach | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| PrC3/h32 | Tir i de Heol Tycroes | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SuV32/h1 | Gyferbyn â Springfield | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC19/h1 | Tir yn Park View | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | +/- | + | + | +/- |
| SeC19/h2 | Hufenfa Hendy Gwyn | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SuV30/h1 | Tir ger Pant y Brwyn | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC1/E1 | Ystad Ddiwydiannol Cilefwr | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC1/SS1 | Yr Egin | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/E1 | Doc Y Gogledd | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| PrC2/E2 | Dafen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E1 | Dwyrain Cross Hands | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E2 | Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E3 | Parc Busnes Cross Hands | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E4 | Heol y Waun, Cross Hands | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E5 | Parc Menter Cross Hands | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E6 | Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E7 | Parc Hendre, Capel Hendre | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| PrC3/E8 | Ystad Ddiwydiannol Cilyrychen | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC4/E1 | Dyfaty | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC13/E1 | Hen Ffowndri Llanybydder | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC16/E2 | Hen Neuadd y Farchnad | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| SeC16/MU1-<br>SeC16/E1 | Ystad Diwyddiannol Beechwood | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC18/E1 | Parc Busnes San Cler | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC19/E1 | Parc Diwydiannol Hendy Gwyn ar Daf | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |
| SeC19/E2 | Tir i'r dde o hen Hufenfa Hendy Gwyn ar Daf | + | + | + | + | + | + | +/- | + | +/- | + | + | + | + | + | + |

## 7. Crynodeb o Effeithiau Cynaliadwyedd y CDLl Adneuo

7.0.1 Yn gyffredinol, byddai Cynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig yn dod â manteision sylweddol o safbwynt darparu'r tir ar gyfer tai a chyflogaeth sydd ei angen i gynnal twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n perfformio'n dda yn erbyn amcanion economaidd-gymdeithasol y fframwaith cynaliadwyedd, gyda dewisiadau strategol sydd â'r nod o wella mynediad i swyddi o ansawdd da, gwasanaethau a seilwaith ar draws y Sir, gyda golwg ar fynd i'r afael â pheth o'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r CDLl diwygiedig hefyd yn ceisio gwella iechyd a llesiant ar draws y Sir, gyda gwell tai, mynediad i fannau agored a chyfleusterau teithio llesol.

7.0.2 Fel yn achos unrhyw ddatblygiad, rhagwelir rhai effeithiau negyddol posibl, yn enwedig o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Gyda mesurau lliniaru addas, fodd bynnag, gellir lleihau'r effaith negyddol hon. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd o Gynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig yn gwneud nifer o argymhellion a fydd yn darparu neu'n atgyfnerthu mesurau lliniaru a all leihau'r risgiau a ragwelir. Cânt eu hamlinellu yn Atodiadau 6 a 7. Mae rhai mesurau lliniaru eisoes wedi'u gweithredu o fewn y Strategaeth o ganlyniad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd, yn sgil natur ailadroddol y ddwy ddogfen. Mae hyn wedi sicrhau bod cynaliadwyedd wedi'i ystyried yn llawn ym mhob rhan o'r broses o lunio'r cynllun.

## 8. Monitro

8.0.1 Mae'r Rheoliadau AAS (Erthygl 17) yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y cynllun gael eu monitro er mwyn gallu lliniaru unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl. Er mwyn osgoi dyblygu rhwng y gwaith monitro a wnaed ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r CDLl, mae rhai dangosyddion wedi'u cyfuno ar gyfer y ddwy broses er mwyn hwyluso eglurder. Mae Fframwaith Monitro llawn y CDLl wedi'i nodi yn y Cynllun Adneuo.

8.0.2 Mae monitro yn helpu i ddeall effeithiau gweithredu'r Cynllun ac yn sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei diweddaru, a fydd yn helpu i adolygu cynlluniau yn y dyfodol. Mae angen i waith monitro ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol y CDLl. Rhaid iddo hefyd archwilio effeithiau cronnol, eilaidd a synergaidd gan gynnwys drwy gydol oes y Cynllun.

8.0.3 Nodir targedau ar gyfer pob dangosydd, ynghyd ag awgrym o'r pwynt neu'r lefel lle bydd unrhyw wyriad o'r targed a nodwyd yn sbarduno'r angen i weithredu. Byddai'r camau gweithredu hyn fel arfer yn cynnwys dadansoddiad o'r rhesymau dros fethu'r targed ac adolygiad o'r Polisi dan sylw. Amlinellir Fframwaith Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn Nhabl 19 isod. Mae ffynonellau pob un o'r setiau data y cyfeirir atynt wedi eu rhestru yn Atodiad 8.

8.0.4 Caiff gweithgareddau monitro ac adroddiadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol eu cynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl. Bydd y gwaith monitro'n dechrau ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu.

*Tabl 21 Fframwaith Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd*

| Testun Arfarnu Cynaliadwyedd | Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | Dangosydd Monitro | Targed/Tuedd |
|---|---|---|---|
| **SA1 Datblygu Cynaliadwy** | 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol | Ôl troed Ecolegol Cymru (ar gyfer Sir Gaerfyrddin) | Yn gostwng |
| | 1-2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn | | |
| | 1-3 Cyflawni economi gynaliadwy | Wedi ei fonitro drwy AC14 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1-4 Dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | | |
| **SA2 Bioamrywiaeth** | 2-1 Hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog cysylltedd. | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd sydd ag effaith niweidiol ar:<br>a) uniondeb safle Natura 2000<br>b) uniondeb safle dynodedig ar gyfer gwarchod natur<br>c) statws cadwraeth ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop | Ni chaniatawyd unrhyw gais sydd wedi cael effaith niweidiol ar a), b) neu c) |
| | 2-2 Gwarchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig | | |
| **SA3 Ansawdd Aer** | 3-1 Cynnal a gwella lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU | Dangosyddion Ansawdd Aer (fesul Awdurdod Lleol). Crynodiadau cyfartalog a bwysolwyd gan y boblogaeth a'u modelu. | Yn gostwng |
| | | Nifer y toriadau i amcanion Ansawdd Aer Rhif 2 UE/DU yn Sir Gaerfyrddin | Yn gostwng |
| | 3-2 Lleihau lefelau osôn ar lefel y ddaear | | |
| | 3-3 Lleihau'r angen i deithio, trwy leoli datblygiadau newydd mewn mannau addas a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | Cyfanswm y traffig ar briffyrdd (fesul Awdurdod Lleol)<br>• Ceir | Yn gostwng |
| **SA4 Ffactorau Hinsoddol** | 4-1 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | Amcangyfrif o allyriadau $CO_2$ (fesul Awdurdod Lleol) | Yn gostwng |
| | 4-2 Lleihau'r perygl o effaith newid hinsawdd ar Sir Gaerfyrddin drwy wneud lle i ddŵr, cilio arfordirol a phatrymau dosbarthu cynefin symudol | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru |
| | 4-3 Annog pob datblygiad newydd i allu gwrthsefyll yr hinsawdd | | |
| | 4-4 Annog pobl i arbed ynni a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni | | |
| | 4-5 Lleihau'r defnydd o ynni a hybu ffynonellau o ynni adnewyddadwy. | a) Nifer, a<br>b) Chapasiti gosod datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiateir. | Yn cynyddu |
| **SA5 Dŵr** | 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn cael ei wella a sicrhau bod ansawdd | Dosbarthiad blynyddol Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar gyfer safleoedd ymdrochi<br>a) Pen-bre<br>b) Pentywyn<br>yn Sir Gaerfyrddin | Cynnal dosbarthiad ansawdd dŵr rhagorol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hydroforffoleg cyrff dŵr mor uchel â phosibl. | Nifer y cyrff dŵr â statws dosbarthu 'da' neu uwch o safbwynt<br>a) Statws ecolegol<br>b) Statws cemegol | a) Cynyddu<br>b) Cynyddu |
| | 5-2 Diogelu a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd ar hyd y flwyddyn | Argaeledd Adnoddau Dŵr Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Bae Caerfyrddin | Dim gostyngiad |
| | 5-3 Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig. | Nifer y safleoedd a ganiatawyd sy'n cynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy | Yn cynyddu |
| | 5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a datblygiadau wedi eu hadnewyddu | Nifer y tai a adeiladwyd sy'n cyflawni trothwy effeithlonrwydd dŵr a osodwyd gan y llywodraeth yn Rhan G2.36(1) o'r Rheoliadau Adeiladu. | Yn cynyddu |
| | 5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a lleihau a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu fawr o lifogydd o afonydd a'r môr | |
| **SA6 - Asedau Materol** | 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu | | |
| | 6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu | % Ailddefnyddio gwastraff /ailgylchu/compostio (fesul Awdurdod Lleol) | Yn cynyddu |
| | 6-3 Annog y gwaith o ddiwallu anghenion yn lleol | | |
| | 6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy | | |
| | 6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau trafnidiaeth | Canran cyfanswm y traffig<br>a) Beiciau<br>b) Bysiau a Choetsis<br>c) Ceir | a) Yn cynyddu<br>b) Yn cynyddu<br>c) Yn gostwng |
| | 6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy | Cyfanswm Cyfrif Blynyddol Beiciau (Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin) | Yn cynyddu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded) | | |
| SA7 - Pridd | 7-1 Hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig | Arwynebedd tir halogedig | Yn gostwng |
| | 7-2 Osgoi colli pridd i arwynebau anathraidd a chyfyngu cymaint â phosibl ar erydiad pridd | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd sy'n cynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy. | Yn cynyddu |
| | 7-3 Lleihau allyriadau SO2 ac NOx a llygredd nitradau o fyd amaeth | | |
| SA8 – Treftadaeth Ddiwylliannol | 8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd sy'n cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd adeiledig neu o ddiddordeb hanesyddol a'u lleoliadau | Ni chaniatawyd datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd adeiledig neu o ddiddordeb hanesyddol a'u lleoliadau |
| | 8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw | Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio | Er gwybodaeth |
| SA9 - Tirwedd | 9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella | | |
| | 9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo gwaith dylunio o ansawdd uchel | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd ag effaith niweidiol | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau sy'n groes i bolisïau'r CDLl diwygiedig. |
| | 9-3 Annog defnydd priodol o dir adfeiliedig yn y dyfodol | | |
| SA10 - Poblogaeth | 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir | |
| | 10-2 Helpu i gadw pobl iau | % pobl o oedran<br>a) 15-29 oed<br>b) 30 – 44 oed<br>yn byw yn Sir Gaerfyrddin | Yn cynyddu |
| | 10-3 Hyrwyddo'r gwaith o gynnwys grwpiau dan anfantais a lleiafrifoedd yn y gymdeithas | Canran y bobl sy'n cytuno<br>a) eu bod yn perthyn i'r ardal;<br>b) bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda<br>c) bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Yn cynyddu |
| AC11 – Y Gymraeg | 11-1 Annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | % y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (fesul Awdurdod Lleol) | Yn cynyddu |
| SA12 – Iechyd a Llesiant | 12-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau actif ac | Canran yr oedolion a gofnodir yn<br>a) rhy drwm | Yn gostwng |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | iach trwy gynllunio gweithgareddau | b) ordew<br>(gan y Bwrdd Iechyd) | |
| | 12-2 Darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden | Canran y bobl sy'n fodlon/fodlon iawn eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt | Yn cynyddu |
| | 12-3 Annog cerdded neu feicio fel dull cludiant amgen | Cyfanswm Cyfrif Blynyddol Beiciau (Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin) | Yn cynyddu |
| | | Canran y bobl yn yr arolwg-modd o deithio i'r gwaith<br>(a) Cerdded<br>(b) Ar feic<br>(c) Mewn car | (a) Yn cynyddu<br>(b) Yn cynyddu<br>(c) Yn gostwng |
| | 12-4 Hybu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru | Maint y mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau (hectarau) | Ni chollwyd mannau agored oherwydd datblygiadau |
| | | Canran y bobl sy'n bresennol neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn (yn ôl Awdurdod Lleol). | Yn cynyddu |
| **SA13 - Addysg a Sgiliau** | 13-1 Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol | | |
| | 13-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd | | |
| | 13-3 Hybu dysgu gydol oes | Lefel y cymhwyster uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru (fesul Awdurdod Lleol). | |
| **SA14 - Yr Economi** | 14-1 Hybu twf economaidd cynaliadwy | Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen (gwerth De-orllewin Cymru) | Yn cynyddu |
| | 14-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob rhan o'r boblogaeth | Canran y boblogaeth sydd mewn cyflogaeth rhan amser ac amser llawn neu sy'n hunangyflogedig | Yn cynyddu |
| | | Maint y tir yn ymwneud â chyflogaeth a gollwyd i ddefnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth | Ni chollwyd tir yn ymwneud â chyflogaeth |
| | 14-3 Hybu busnesau cynaliadwy yng Nghymru | Nifer y busnesau gweithredol yn Sir Gaerfyrddin | Yn cynyddu |
| | | Nifer y busnesau gweithredol sydd wedi cau yn Sir Gaerfyrddin | Yn gostwng |
| **SA15 - Gwea** | 15-1 Gwella diogelwch a diogeledd pobl ac eiddo | Cyfartaledd lefelau troseddu blynyddol (Sir Gaerfyrddin) | Yn gostwng |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Y tebygolrwydd o deimlo'n ddiogel (fesul awdurdod lleol) | Yn cynyddu |
| | 15-2 Hyrwyddo dyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol | Y tebygolrwydd o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (fesul awdurdod lleol) | Yn cynyddu |
| | | Canran y bobl sy'n cytuno<br>a) eu bod yn perthyn i'r ardal;<br>b) bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda<br>c) bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Yn cynyddu |
| | 15-3 Hyrwyddo'r gallu i ddarparu tai fforddiadwy | Cyfran o dai fforddiadwy fel canran o gartrefi newydd a ddarparwyd | |
| | 15-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais | Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt | Yn cynyddu |

# 9 Ymgynghori a'r Camau Nesaf

9.0.1 Bydd yr adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd hwn ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â Chynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig am gyfnod o 6 wythnos. Mae crynodeb annhechnegol ar gael hefyd yn ogystal â'r fersiwn llawn hwn o'r ddogfen. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael o Adain Blaen-gynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin neu gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod: www.sirgar.llyw.cymru

9.0.2 Gellir hefyd archwilio'r adroddiadau Arfarnu Cynaliadwyedd yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor ac yn y Swyddfeydd Cynllunio yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo, yn ogystal â llyfrgelloedd cyhoeddus.

9.0.3 Gellir ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar-lein trwy fynd i www.sirgar.llyw.cymru neu gellir lawrlwytho ffurflenni o'r wefan ac maent hefyd ar gael o'r lleoliadau uchod neu drwy gysylltu â'r Adain Flaen-gynllunio yn uniongyrchol.

9.0.4 Dylech anfon eich sylwadau ynghylch Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:
Yr Adain Flaen-gynllunio,
Adran yr Amgylchedd,
7/8 Heol Spilman,
Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin,
SA31 1JT
Neu drwy anfon e-bost at: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

### Atodiad 1: Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni perthnasol

| Rhyngwladol: Cynllun, Polisi neu Raglen |
|---|
| **Agenda 21: Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig**<br>https://sustainabledevelopment.un.org/outcomedocuments/agenda21 |
| **Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu UNEP 1992**<br>http://www.unep.org/Documents.multilingual/Default.asp?DocumentID=78&ArticleID=1163&l=en |
| **Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig 1994**<br>http://unfccc.int/2860.php |
| **Protocol Kyoto y Cenhedloedd Unedig 1997**<br>http://unfccc.int/kyoto_protocol/items/2830.php |
| **Y Confensiwn ar Rywogaethau Mudol UNEP 1979**<br>http://www.cms.int/ |
| **Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol UNEP 1992**<br>http://www.biodiv.org/default.shtml |
| **Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd UNESCO 1971**<br>http://www.ramsar.org/ |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2009/147/EC (ar Warchod Adar Gwyllt - 'Y Gyfarwyddeb Adar') Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 30 Tachwedd 2009** (http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index_en.htm<br><br>Y Gyfarwyddeb Adar yw deddfwriaeth natur hynaf yr UE ac un o'r rhai pwysicaf. Mae'n creu cynllun gwarchod cynhwysfawr ar gyfer yr holl rywogaethau adar gwyllt sydd i'w cael yn naturiol yn yr UE. Cafodd ei mabwysiadu fel ymateb i bryder cynyddol am y dirywiad ym mhoblogaethau adar gwyllt Ewrop o ganlyniad i lygredd, colli cynefinoedd yn ogystal â defnydd anghynaliadwy.<br><br>Mae'r Gyfarwyddeb yn cydnabod mai colli a dirywiad cynefinoedd yw'r bygythiadau mwyaf difrifol i warchod adar gwyllt. Felly, mae'n rhoi pwyslais mawr ar amddiffyn cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl yn ogystal â rhywogaethau mudol, yn enwedig trwy sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n cynnwys yr holl diriogaethau mwyaf addas ar gyfer y rhywogaethau hyn. |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2000/60/EC (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 23 Hydref 2000**<br><br>Nod cyffredinol y Gyfarwyddeb yw sefydlu fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli dyfroedd wyneb, gan gynnwys afonydd, llynnoedd, dyfroedd aberol ac arfordirol a dyfroedd daear yn yr UE. Prif amcanion y Gyfarwyddeb a gynigir yw:<br><br>• atal dirywiad pellach a gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd dyfrol;<br><br>• sicrhau ansawdd dŵr ecolegol a chemegol da ar gyfer yr holl ddyfroedd wyneb a dyfroedd daear oni bai bod hynny'n amhosibl neu'n afresymol o ddrud; a |

- hyrwyddo arferion rheoli dŵr cynaliadwy yn seiliedig ar warchod adnoddau dŵr yn y tymor hir.

**Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 92/43/CEE (Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 21 Mai 1992**
http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/habitatsdirective/index_en.htm

Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw un o'r darnau deddfwriaeth mwyaf arwyddocaol sy'n ysgogi polisïau cadwraeth Ewrop a fabwysiadwyd yn dilyn Confensiwn Berne (1982). Ei nod yw gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd a nodwyd sydd o bwysigrwydd cadwraeth natur ar lefel Ewropeaidd, ac arweiniodd at sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Ynghyd â'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a sefydlwyd o dan y Gyfarwyddeb Gwarchod Adar Gwyllt (1979), mae'r safleoedd hyn yn ffurfio rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd gwarchodedig a elwir yn safleoedd Natura 2000. Nod y rhwydwaith yw sicrhau goroesiad hirdymor y rhywogaethau a'r cynefinoedd mwyaf gwerthfawr ac sydd dan y bygythiad mwyaf yn Ewrop.

**Cynnig am Raglen Weithredu Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd newydd hyd at 2020 Comisiwn Ewropeaidd 2012**
http://ec.europa.eu/environment/newprg/index.htm

**Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 1999/31/EC (Y Gyfarwyddeb Tirlenwi) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1999**
http://ec.europa.eu/environment/waste/landfill_index.htm

Bwriad y Gyfarwyddeb Tirlenwi yw helpu i yrru gwastraff i fyny'r hierarchaeth trwy leihau gwastraff a chynyddu'r lefelau ailgylchu ac adfer. Nod cyffredinol y Gyfarwyddeb yw *"atal neu leihau cyn belled ag sy'n bosibl effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, yn enwedig llygredd dŵr wyneb, dŵr daear, pridd ac aer, ac ar yr amgylchedd byd-eang, gan gynnwys yr effaith tŷ gwydr, yn ogystal ag unrhyw berygl i iechyd pobl a gyfyd o ganlyniad i dirlenwi gwastraff, yn ystod hyd oes cyfan y safle tirlenwi".*

Mae gan y Gyfarwyddeb ddarpariaethau'n ymwneud â lleoliadau safleoedd tirlenwi, a gofynion technegol a pheirianneg ar gyfer agweddau megis rheoli dŵr a rheoli trwytholchion, gwarchod pridd a dŵr a rheoli allyriadau methan. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod targedau llym ar leihau swm y gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi:-

- Erbyn 2010, lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi i 75% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995;

- Erbyn 2013, lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi i 50% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995; ac

- Erbyn 2020, lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi i 35% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995.

**Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2008/98/EC (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 19 Tachwedd 2008**
http://ec.europa.eu/environment/waste/framework/index.htm

**Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 91/676/EEC (Y Gyfarwyddeb Nitradau) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1991**
http://ec.europa.eu/environment/water/water-nitrates/directiv.html

| |
|---|
| Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau yn ymwneud â gwarchod dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol, gyda'r bwriad o ailgyfeirio amaethyddiaeth i fod yn fwy cynaliadwy. Nod y Gyfarwyddeb yw gwarchod dyfroedd croyw, dyfroedd aberol/arfordirol a dyfroedd morol rhag llygredd a achosir gan nitradau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau nodi dyfroedd y mae llygredd nitradau ymledol naill ai'n effeithio'n wirioneddol arnynt neu y gallai fod yn effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• dyfroedd wyneb, yn enwedig y rheiny ar gyfer tynnu dŵr yfed, lle mae'r crynodiadau nitradau yn fwy na 50 mg/l nitrad;<br>• dyfroedd daear sy'n cynnwys neu a allai fod yn cynnwys mwy na 50 mg/l nitrad; a<br>• llynnoedd dŵr croyw, cyrff dŵr croyw eraill, aberoedd, dyfroedd arfordirol a dyfroedd morol sydd yn ewtroffig, neu a allai fod yn ewtroffig yn y dyfodol.<br>Roedd rhaid i Aelod Wladwriaethau ddynodi pob ardal sy'n draenio i ddyfroedd megis parthau perygl nitradau erbyn 19 Rhagfyr 1993 a sefydlu Rhaglenni Gweithredu i reoli amseriad a dyddiad rhoi tail a gwrteithiau cemegol yn y parthau hyn. |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2008/50/EC (Cyfarwyddeb y Fframwaith Ansawdd Aer Newydd) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 11 Mehefin 2008**<br>http://ec.europa.eu/environment/air/quality/legislation/existing_leg.htm |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 91/271/EEC – Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol**<br>**http://ec.europa.eu/environment/water/water-urbanwaste/index_en.html** |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2006/118/EC – Y Gyfarwyddeb Dŵr Daear**<br>**http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:372:0019:0031:EN:PDF** |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2006/7/EC – Y Gyfarwyddeb Dŵr Daear**<br>**https://EUR-Lex.europa.eu/Legal-content/ga/txt/?uri=CELEX:32006L0007** |

| **Y Deyrnas Unedig: Cynllun, Polisi neu Raglen** |
|---|
| **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017**<br>Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod Cynefinoedd Naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE). Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer dynodi a gwarchod 'Safleoedd Ewropeaidd' (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig)', amddiffyn 'rhywogaethau a warchodir gan ddeddfwriaeth Ewrop', a mabwysiadu rheolaethau cynllunio a rheolaethau eraill er mwyn gwarchod Safleoedd Ewropeaidd.<br>Amcan pellach yw cadw, cynnal ac ailsefydlu digon o amrywiaeth ac ardaloedd o gynefin ar gyfer adar gwyllt yn y Deyrnas Unedig ac osgoi unrhyw lygredd neu ddirywiad mewn cynefinoedd adar gwyllt wrth arfer yr holl swyddogaethau perthnasol.<br>Ceir nifer fawr o safleoedd o bwysigrwydd ecolegol / daearegol yn y sir ac yn hyn o beth, mae gan Sir Gaerfyrddin nifer o safleoedd yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol i |

gadwraeth natur. Caiff yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) hyn eu dynodi o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

**Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)**

- Cilfach Tywyn (sydd hefyd yn safle Ramsar)
- Elenydd Mallaen
- Bae Caerfyrddin

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**

- Afon Teifi
- Afon Tywi
- Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
- Twyni Bae Caerfyrddin
- Cwm Doethïe - Mynydd Mallaen
- Caeau'r Mynydd Mawr
- Cernydd Carmel
- Ceg Môr Hafren

Ceir rhagor o wybodaeth amdanynt a pham y cawsant eu dynodi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/designated-sites/?lang=cy

**Diogelu'r Dyfodol - Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y DU – Llywodraeth y DU 2005**
http://www.defra.gov.uk/publications/2011/03/25/securing-the-future-pb10589/

Mae Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r DU yn seiliedig ar y pum egwyddor arweiniol canlynol:-

**1 - Byw o fewn terfynau amgylcheddol**
Parchu terfynau'r blaned o safbwynt ei hamgylchedd, ei hadnoddau a'i bioamrywiaeth - i wella ein hamgylchedd a sicrhau bod yr adnoddau naturiol sydd eu hangen ar gyfer bywyd heb eu gwanhau ac yn parhau felly ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
**2 - Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn**
Diwallu anghenion amrywiol pawb mewn cymunedau presennol ac yng nghymunedau'r dyfodol, hyrwyddo llesiant personol, cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.
**3 - Cyflawni economi gynaliadwy**
Adeiladu economi gref, sefydlog a chynaliadwy sy'n darparu ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle mae'r rheiny sy'n peri costau amgylcheddol a chymdeithasol yn gorfod talu amdanynt (y llygrwr sy'n talu), a lle caiff defnydd effeithlon o adnoddau ei annog.
**4 - Hyrwyddo arferion llywodraethu da**
Mynd ati i hyrwyddo systemau llywodraethu effeithiol a chyfranogol ym mhob lefel o'r gymdeithas - gan ddefnyddio creadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl.
**5 - Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn modd cyfrifol**
Sicrhau bod polisi yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, gan gymryd ansicrwydd gwyddonol i ystyriaeth (trwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd y cyhoedd.

Mae strategaeth 2005 yn adeiladu ar strategaeth 1999 ac yn edrych yn agosach ar yr agweddau rhyngwladol ar gyflawni datblygu cynaliadwy a'r elfennau cymdeithasol o wneud

hyn. Un o themâu creiddiol y ddogfen yw cydnabod terfynau amgylcheddol. Dyma'r pedair blaenoriaeth allweddol y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy:-

- Cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy;
- Newid yn yr hinsawdd;
- Gwarchod adnoddau naturiol; a
- Cymunedau cynaliadwy.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu edrych ar ffyrdd o annog newid mewn ymddygiad a gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu ynni yn heriau sylweddol wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, ac y dylai fod gan bawb hawl i gyfiawnder amgylcheddol.

**Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd y DU DEFRA 2006**
http://jncc.defra.gov.uk/page-4000

Mae Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd Defra yn nodi polisïau a blaenoriaethau'r DU ar gyfer gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn y DU ac yn nodi'r dull o gryfhau'r rôl y gall unigolion ei chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gymaint â 60% yn yr hirdymor erbyn 2050 ym Mhapur Gwyn Ynni 2003.

Ochr yn ochr ag ymrwymiadau rhyngwladol a domestig ar lefel uchel, mae'r strategaeth yn nodi'r gwariant er mwyn cefnogi technolegau microgynhyrchu, datblygu technolegau lleihau carbon, cefnogi ynni o ffynonellau adnewyddadwy a gwres a phŵer cyfunol, codi safonau ynni adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu a chyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi incwm isel.

**Y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (Cyfrolau 1 a 2) DEFRA 2007**
(http://www.defra.gov.uk/environment/quality/air/air-quality/approach/)

Mae'r Strategaeth:

- Yn gosod nodau cyffredin a ffordd ymlaen ar gyfer gwaith a chynllunio ar faterion ansawdd aer ar gyfer llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig;
- yn nodi'r safonau a'r amcanion ansawdd aer sydd i gael eu cyflawni;
- yn cyflwyno fframwaith polisi newydd ar gyfer mynd i'r afael â gronynnau mân; ac
- yn nodi mesurau polisi cenedlaethol newydd posibl y gallai eu modelau ddod â manteision iechyd pellach a symud yn agosach at gyflawni amcanion y Strategaeth.

Amcan pennaf y strategaeth yw sicrhau bod holl ddinasyddion y DU yn cael mynediad i'r awyr agored heb berygl arwyddocaol i'w hiechyd, lle mae hyn yn ymarferol o safbwynt economaidd a thechnegol. Yn ôl y strategaeth, rhagwelir y bydd y DU yn methu â chyflawni'r amcanion yn achos tri o'r naw llygrydd (gronynnau, osôn a nitrogen deuocsid). Yn benodol, rhagwelir y bydd asidedd a/neu effeithiau ffrwythloni nitrogen yn uwch na'r llwythau critigol mewn dros hanner cynefinoedd naturiol a lled-naturiol y DU.

**Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**

| |
|---|
| Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ar droed i rai mathau o dir, yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, yn cynyddu'r amddiffyniad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn cryfhau'r ddeddfwriaeth sy'n gorfodi materion bywyd gwyllt. Mae hefyd yn darparu ar gyfer rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol mewn modd gwell.<br><br>Mae 81 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y sir (heb gynnwys yr ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) sy'n cwmpasu 17,088 hectar, ac maent yn amrywio o ran maint, o gaeau bach i ardaloedd mawr o ochrau mynydd ac afonydd hir. Maent yn ymestyn dros tua 7.2% o'r sir. Mewn SoDdGA y mae'r bywyd gwyllt a'r safleoedd daearegol gorau yn y wlad. Maent yn cynnwys cynefinoedd fel coetiroedd hynafol, dolydd sy'n llawn blodau, gwlyptiroedd yn ogystal â chwareli segur. Maent yn cynnal planhigion a rhywogaethau o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu gweld yn aml yn y cefn gwlad ehangach. Caiff Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu gwarchod yn statudol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am nodi, dynodi a gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.<br><br>Mae gan Sir Gaerfyrddin chwe Gwarchodfa Natur Leol (GNL). Dynodir y Gwarchodfeydd Natur Lleol gan awdurdodau lleol ac maen nhw'n lleoedd sy'n cynnal amrywiaeth cyfoethog o fywyd gwyllt neu nodweddion daearegol ac maen nhw'n bwysig i bobl leol drwy eu galluogi nhw i gysylltu â'r amgylchedd naturiol. Rheolir y Gwarchodfeydd Natur Lleol gyda chadwraeth bywyd gwyllt y flaenoriaeth uchaf. Mae'r Gwarchodfeydd hyn i'w cael yn Nhwyni Pen-bre a'r Morfa, Pwll Ashpit a Merllyn y Pwll, Twyni Doc y Gogledd, Morfa Berwig (i gyd yn ardal arfordirol Llanelli), Carreg Cennen a Glan-yr-Afon, Cydweli.<br><br>Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod priffyrdd i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ei ardal. |
| **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)**<br><br>Mae'r Ddeddf yn cwmpasu gwarchod bywyd gwyllt (adar, a rhai anifeiliaid a phlanhigion), cefn gwlad, atal rhywogaethau ymledol penodol rhag lledu a dynodi ardaloedd a warchodir gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a nodir oherwydd eu planhigion, eu hanifeiliaid, eu nodweddion daearegol neu'u nodweddion ffisiograffigol. |
| **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017**<br><br>Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rai mathau o brosiectau gael asesiad o'u heffaith amgylcheddol cyn y gellir penderfynu ar ganiatâd cynllunio. |
| **Deddf yr Amgylchedd 1995**<br><br>Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ac asesu ansawdd yr aer yn ei ardal o bryd i'w gilydd. Mae'r Amcanion Ansawdd Aer i'w gweld yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. |
| **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**<br><br>Mae'r Ddeddf hon yn newid y ffordd o ymdopi â'r pwysau cynyddol a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd, yn benodol rheoli dŵr. Yr hyn sydd o ddiddordeb neilltuol yw'r cynnig posibl i gychwyn ar Atodlen 3 yng Nghymru a dod ymlaen â'r Offerynnau Statudol cysylltiedig ym mis Mai 2018. Mae'r Cyngor yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o dan y Ddeddf. |

| |
|---|
| **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**<br><br>Mewn perthynas â thir halogedig, mae gan y Sir etifeddiaeth ddiwydiannol gyfoethog ac amrywiol, yn cynnwys ystod eang o ddiwydiannau megis mwyngloddio, gweithgynhyrchu tunplat, gweithfeydd nwy, tanerdai ac ati. Gall pob un o'r prosesau hyn fod wedi halogi'r tir, y dyfroedd daear neu dderbynyddion sensitif eraill. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu a diweddaru Strategaeth Archwilio Tir Halogedig. |
| **Fframwaith Bioamrywiaeth ôl-2010 y DU**<br>(http://jncc.defra.gov.uk/page-6189) |
| **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 Llywodraeth y DU 2009**<br>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/fisheries/marine/marine-planning/?skip=1&lang=cy<br><br>Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn darparu pwerau newydd i gynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Amcanion Morol Lefel Uchel y DU. Mae'r pwerau newydd a ddarperir gan y ddeddf hon yn cynnwys:<br>• Cynllunio morol - System newydd ar gyfer cynllunio morol a fydd yn ymdrin â'r holl weithgareddau morol allweddol; a<br><br>• Trwyddedu Morol - Yng Nghymru cafodd pwerau Trwyddedu Morol eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2011. Mae'r pwerau trwyddedu hyn yn disodli'r trefniannau trwyddedu a oedd yn flaenorol yn dod o dan: Deddf Bwyd a'r Amgylchedd 1985, Deddf Diogelu'r Arfordir 1949 a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (echdynnu mwynau a charthu) (Cymru) 2007.<br><br>• Mecanyddion Cadwraeth Forol - Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i greu Parthau Cadwraeth Forol i gynorthwyo i warchod planhigion ac anifeiliaid morol neu nodweddion daearegol/geomorffolegol. |
| **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chynllunio - Cyngor Cychwynnol i Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru a Lloegr; Asiantaeth yr Amgylchedd; RTPI; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Chwefror 2006**<br>http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/40195.aspx<br><br>Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor ynghylch gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas â'r polisi cynllun datblygu (a materion eraill). Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn mynnu bod yr holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol yn cyrraedd "statws da" erbyn 2015. Mae'n sefydlu strwythur ardal basn afon gyda thargedau ecolegol ar gyfer dyfroedd wyneb a dangosyddion amgylcheddol eraill. |
| **Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, Senedd y DU 1979**<br><br>Y modd y rhoddir amddiffyniad cyfreithiol i Henebion Cofrestredig. Dyma offeryn allweddol i amddiffyn Henebion Cofrestredig. Nid yw'r amddiffyniad a roddir gan hyn yn mynd mor bell ag amddiffyn lleoliadau ac amgylchoedd henebion. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn caniatáu i rai gweithrediadau niweidiol barhau dan amgylchiadau penodol. |

| Cenedlaethol: Cynllun, Polisi neu Raglen |
|---|
| **Deddf Cymru (2017)**<br><br>Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. Mae'n darparu'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfwriaethu ar unrhyw bwnc ac eithrio'r rheiny a gedwir ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig. Mae Deddf Cymru 2017 yn gweithredu elfennau o'r cytundeb Dydd Gŵyl Ddewi a oedd yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol. Ei nod yw creu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru sydd yn wydn ac yn para am gyfnod hir. Yn benodol, mae Deddf Cymru yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 trwy symud at fodel cadw pwerau ar gyfer Cymru.<br><br>Mae Deddf 2017 hefyd yn datganoli pwerau pellach i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru mewn meysydd lle roedd yna gonsensws gwleidyddol o blaid datganoli pellach. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>• Datganoli mwy o gyfrifoldeb i'r Cynulliad i redeg ei faterion ei hun, gan gynnwys penderfynu ar ei enw;<br>• Datganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad am bolisi porthladdoedd, terfynau cyflymder, cofrestru bysus, rheoleiddio tacsis, etholiadau llywodraeth leol, carthffosiaeth a chaniatâd ynni hyd at 350MW (gweler isod am fanylion ychwanegol);<br>• Datganoli cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru am drwyddedu a chadwraeth morol a chaniatâd ynni yn y rhanbarth oddi ar arfordir Cymru; ac ymestyn cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu i gynnwys adeiladau ynni eithriedig;<br><br>• Datganoli pŵer dros etholiadau'r Cynulliad;<br>• Datganoli pŵer dros drwyddedu'r gwaith o echdynnu olew a nwy ar y tir;<br>• Unioni'r ffin datganoli ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr; a<br>• Sefydlu, mewn statud, Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru i oruchwylio tribiwnlysoedd datganoledig a chaniatáu i ddeiliaid swyddi barnwrol weithio ar draws sefydliadau.<br><br>Mewn perthynas â Deddf 2017 a datganoli pwerau, cyfeirir yn benodol at faterion sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd y mater hwn, nad oedd wedi'i ddatganoli'n flaenorol, yn newid fel rhan o Ddeddf 2017, gyda'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei datganoli a rhagwelir y bydd y pwerau'n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018.<br>Yn hyn o beth, bydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn angenrheidiol fodd bynnag i ganiatáu i Weinidogion Cymru addasu is-ddeddfwriaeth bresennol. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br>http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103<br><br>Prif ddibenion y Ddeddf yw:<br><br>• Gosod fframwaith o fewn yr hwn y bydd awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);<br>• Rhoi nodau llesiant ar waith y mae'r awdurdodau hynny i geisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol; |

- Cyflwyno'r modd y mae'r awdurdodau hynny i fod i ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant;
- Rhoi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion presennol gyda golwg ar gynllunio cymunedol integredig, a
- Sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru i fod yn eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol, a fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 7 nod llesiant i Gymru:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Rhaid i'r CDLl roi ystyriaeth i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**
http://gov.wales/topics/planning/legislation/planning-wales-act-2015/?skip=1&lang=cy

Nod y Ddeddf hon yw moderneiddio a gwella'r system gynllunio i hwyluso'r gwaith o ddarparu tai, swyddi a seilwaith. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio:

- atgyfnerthu rôl Llywodraeth Cymru fel stiwardiaid gweithredol y system gynllunio yng Nghymru;
- hyrwyddo newid diwylliannol ym maes cynllunio i helpu i'w wneud yn fwy cadarnhaol a chefnogi datblygiadau priodol yn fwy effeithiol; a
- hyrwyddo arferion gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Caiff yr isod hefyd eu nodi o safbwynt y goblygiadau posibl:

- Cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - mae hyn yn canolbwyntio ar faterion cynllunio defnydd tir ar lefel genedlaethol, nodi lleoliadau allweddol ar gyfer datblygu seilwaith a gosod y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio.
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol Is-ranbarthol - gan gyfeirio'n benodol at Gaerdydd, Abertawe a choridor yr A55.
- Cadw Cynlluniau Datblygu Lleol - fodd bynnag, bydd angen i'r rhain gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyson â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a Chynlluniau Datblygu Strategol lle bo'n briodol).
- Cynyddu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru, ac mewn rhai amgylchiadau bydd yr ymgeiswyr yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i'r CDLl gael ei adolygu a'i baratoi'n unol â'r Ddeddf hon yn ogystal â dogfennau deddfwriaethau sylfaenol ac is-ddeddfwriaethau.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**
Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gennym ymagwedd ddeddfwriaethol gydgysylltiedig er mwyn gallu rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

| |
|---|
| Rhai o ddarpariaethau penodol y Ddeddf:<br>• Helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol, drwy Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a datganiadau ardal.<br>• Rhoi diben cyffredinol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r egwyddorion statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br>• Rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol.<br>• Gosod gofyniad wedi'i ail-lunio ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.<br>• Gosod targedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebu carbon i gefnogi'r gwaith o'u cyrraedd.<br>• Galluogi gwelliannau i'r cynllun presennol ar gyfer bagiau siopa untro.<br>• Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau lefelau ailgylchu uwch ar gyfer gwastraff busnes, trin gwastraff bwyd ac adfer ynni.<br>• Egluro'r gyfraith ar gyfer nifer o gyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol presennol gan gynnwys trwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, draenio tir a rheoli'r perygl o lifogydd. |
| **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diwygio Rheoliadau 2005 er mwyn symleiddio gweithdrefnau'r CDLl. Mae'r diwygiadau mewn ymateb i ganlyniadau ymarfer mireinio proses y CDLl.<br><br>Mae'r diwygiadau allweddol hynny, sydd yn arbennig o berthnasol i'r CDLl, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cam y sylwadau ar ddyrannu safleoedd (a elwir hefyd yn safle amgen) - achosodd hyn ddryswch ac nid oedd yn ychwanegu gwerth at broses y CDLl. Mae'r rheoliadau diwygiedig yn diddymu'r angen am ymgynghori ynglŷn â'r safleoedd amgen yn dilyn y cam ymgynghori adnau.<br>• Cyflwynodd y Rheoliadau broses adolygu ffurflen fer i'w defnyddio lle mae'n ymddangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw'r materion dan sylw o ddigon o bwys i gyfiawnhau'r weithdrefn lawn.<br>• Caniatáu i adolygiad gael ei wneud o ran neu rannau o'r cynllun, cyn gwneud diwygiadau.<br>• Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno gofyniad fod is-deitl y CDLl yn dynodi diwedd y cyfnod mewn perthynas â'r hwn y paratowyd y CDLl.<br>• Mae'n cael gwared â'r gofyniad i gyhoeddi materion trwy hysbysebu yn y papur lleol.<br><br>Mae diwygiadau pellach yn ceisio helpu gydag eglurder a thryloywder mewn rhannau o'r weithdrefn. Mae'r rhain yn cynnwys nodi'r modd y bydd proses y safle ymgeisio, proses yr adroddiad adolygu a'r adroddiad ymgynghori cychwynnol yn gweithio. |
| **Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Drafft) - Rhifyn 3 - 2019**<br><br>Mae'r Llawlyfr yn cynnig dull mwy integredig o ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd, yn esbonio newidiadau yn ymwneud â gweithdrefnau safleoedd ymgeisio a safleoedd amgen, yn ogystal â phrofion cadernid, ac yn ehangu'r cyngor ar adolygu a diwygio'r cynllun. |
| **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** |

Mae'r mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad wrth iddynt gyflwyno gwasanaethau trwy'r Gymraeg gan gynnwys meysydd megis gwneud polisi, gweithgareddau gweithredol a hyrwyddo'r Gymraeg.

**Cyfarwyddiadau Dosbarthu Dŵr Wyneb a Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2009:**
http://gov.wales/legislation/subordinate/nonsi/epwales/2009/3739275/?skip=1&lang=cy

Mae'r Cyfarwyddiadau Dosbarthu'n nodi egwyddorion a safonau dosbarthu cyrff dŵr ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Maent yn berthnasol i Gymru a Lloegr a chawsant eu datblygu gan Grŵp Ymgynghorol Technegol y DU (UKTAG) i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

**Llywodraeth Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008):**

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn darparu cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer cynllunio gofodol a datblygu yng Nghymru trwy sefydlu blaenoriaethau cenedlaethol trawstoriadol. Lleolir Sir Gaerfyrddin o fewn tri o'r chwe is-ardal a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru.

**Llywodraeth Cymru – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009**

Dywedir bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor graidd yn statud sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod yna ddyletswydd, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Adran 79), sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun sy'n cyflwyno'r modd y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth weithredu eu swyddogaethau.

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Hon yw Deddf Tai gyntaf erioed Cymru. Ei nod yw gwella'r cyflenwad o dai yng Nghymru, eu hansawdd a'u safonau. Nodir mai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw: mwy o dai, tai o ansawdd gwell a gwell gwasanaethau'n ymwneud â thai.

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010.**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1493/made

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 yn rhan annatod o'r fframwaith rheoleiddio yng Nghymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod ansawdd dŵr, yr ydym yn dibynnu arno ar gyfer cynifer o agweddau ar ein bywydau, yn safonol a bod gennym gyflenwad digonol ohono. Mae hefyd yn anelu at ddefnyddio gwrtaith yn effeithlon ac felly leihau colledion ariannol ffermwyr drwy gyfyngu'r ddibyniaeth ar wrtaith costus sydd wedi'i weithgynhyrchu. Mae'r Rheoliadau, drwy hyrwyddo defnyddio adnoddau'n effeithlon, hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein rhwymedigaethau fel y'u nodir mewn nifer o Gyfarwyddebau Ewropeaidd.

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9)**

Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen genedlaethol ar bolisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Caiff ei defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lywio polisïau a dyraniadau

| |
|---|
| defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer y rheiny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. |
| **Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 10**<br><br>Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen genedlaethol ar bolisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Caiff ei defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lywio polisïau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer y rheiny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru.<br>Caiff y drafft ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ac mae'n rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r fersiwn drafft o Bolisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ailstrwythuro yn themâu polisi sy'n adlewyrchu'r nodau llesiant ac mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru lle roedd angen i adlewyrchu strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. |
| **Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**<br><br>Mae gan y Ddeddf dri phrif nod sef:<br><br>• rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;<br>• gwella'r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei reoli'n gynaliadwy; a<br>• chyflwyno gwell tryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.<br><br>Mae'r Ddeddf yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth y DU - Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. |
| **Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Strategaeth Wastraff Gyffredinol Cymru (2010)**<br><br>Mae'r Strategaeth hon yn gosod fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae'n nodi'r canlyniadau sydd i gael eu cyflawni, yn gosod targedau ar lefel uchel ac yn cyfleu'r dull cyffredinol o gyflawni'r targedau hyn a chamau gweithredu allweddol eraill. Mae'r Strategaeth yn nodi canlyniadau, polisïau a thargedau ar lefel uchel, ac yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cynnwys cynllun rheoli gwastraff cenedlaethol Cymru. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2006):**<br><br>Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 yn darparu canllawiau ar gyfer ymgymryd â Chyd-Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mae'r astudiaethau hyn yn ceisio monitro'r ddarpariaeth tai ar y farchnad a thai fforddiadwy, yn darparu datganiad y cytunwyd arno o'r tir preswyl sydd ar gael a hefyd yn nodi'r angen am gymryd camau mewn sefyllfaoedd lle nodir bod y cyflenwad yn annigonol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006):** |

| |
|---|
| Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ynghylch defnyddio'r system gynllunio wrth ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r canllawiau'n diffinio tai fforddiadwy at ddibenion cynllunio ac yn darparu cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynglŷn â sut i benderfynu ar fforddiadwyedd. Rhoddir pwyslais ar yr angen am gydweithio, gan gynnwys y gofyniad ar i awdurdodau tai ac awdurdodau cynllunio gynnal asesiadau o'r farchnad dai leol gyda chyfraniad rhanddeiliaid allweddol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 3: Parthau Cynllunio Syml (1996):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth ddynodi Parthau Cynllunio Syml. Mae Parth Cynllunio Syml yn un ffordd y gall awdurdod helpu i sicrhau bod rhan o'i ardal yn cael ei datblygu neu'i hailddatblygu, gan ddarparu sicrwydd a chaniatáu i'r datblygwr neu'r tirfeddiannwr osgoi oedi ym mhroses y ceisiadau cynllunio. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu cyngor ynghylch dewis ardaloedd, cwmpas y caniatâd, gwaharddiadau ac amodau a chyfyngiadau yn ystod y broses ddynodi. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 4: Adwerthu a Datblygiadau Masnachol (2016)**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar rôl cynllunio defnydd tir mewn adwerthu a datblygiadau masnachol, gan gynnwys:<br><br>• strategaethau adwerthu, uwch gynllunio a Chynlluniau Lleoedd;<br>• y profion o'r angen am adwerthu ac Ymagwedd Ddilyniannol at ddatblygu;<br>• asesiadau o'r effaith ar adwerthu;<br>• blaenau adeiladau adwerthu a masnachol cynradd ac eilaidd mewn canolfannau;<br>• amodau cynllunio adwerthu;<br>• Gorchmynion Datblygu Lleol; a<br>• dangosyddion bywiogrwydd a hyfywedd mewn ardaloedd adwerthu a masnachol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio Llywodraeth Cymru (2009):**<br><br>Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 yn rhoi cyngor ynghylch sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae'n rhoi trosolwg o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o fewn y maes ac yn "*dangos sut y gall awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol ym maes cadwraeth weithio gyda'i gilydd i gyflwyno datblygiadau mwy cynaliadwy nad ydynt yn arwain at golli'r dreftadaeth naturiol, ond yn hytrach yn cymryd pob cyfle i'w gwella*".<br><br>I'w nodi y mae llythyr y Prif Swyddogion Cynllunio dyddiedig 1 Mawrth 2018 sef Trwyddedu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop - hysbysiad gweithdrefn ddiwygiedig. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar sut y gall y system gynllunio gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'n darparu cyngor ar feysydd gan gynnwys cymunedau ac economïau gwledig cynaliadwy, tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig, anheddau menter wledig, datblygiadau un blaned, gwasanaethau gwledig cynaliadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy. |

| |
|---|
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn disgrifio sut y gellir rheoli hysbysebion awyr agored i amddiffyn amwynder a diogelwch y cyhoedd. Mae'n darparu cyngor ar y broses ceisiadau hysbysebu gan gynnwys y meini prawf ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath, rheoli hysbysebion, defnyddio hysbysebion mewn meysydd o ddiddordeb treftadaeth megis ardaloedd cadwraeth, pwerau gwneud cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac apeliadau am hysbysebion. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy (2005):**<br><br>Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 yn amlinellu'r ystyriaethau cynllunio defnydd tir sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae'n darparu manylion am sut y gall y system gynllunio gyflawni targedau'r Llywodraeth yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hefyd yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chadwraeth. Ers cyhoeddi TAN 8 bu rhai newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth. Mae Atodiad A o lythyr y Prif Swyddogion Cynllunio 'Cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 4, Chwefror 2011' yn nodi'r newidiadau hyn. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â TAN 8. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed (1997):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar gyfer yr achosion hynny lle mae angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cadw a phlannu coed wrth roi caniatâd cynllunio drwy'r broses o wneud Gorchmynion Cadw Coed. Mae'n rhoi cyngor ar y broses o wneud Gorchmynion Cadw Coed ac ystyried gwarchod coed, yn enwedig yn ystod y broses ddatblygu. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997) :**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar y modd y gellir defnyddio'r system gynllunio i leihau effaith andwyol sŵn heb roi cyfyngiadau afresymol ar ddatblygu. Mae'n darparu cyngor ar roi ystyriaeth i sŵn yn ystod y cynllun datblygu a phrosesau rheoli, yn ogystal â chategorïau lefelau sŵn ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried y cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016) :**<br><br>Diben y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw rhoi cyngor i bawb sy'n ymwneud â dylunio datblygiadau ynglŷn â sut y gellir hwyluso 'Hyrwyddo Cynaliadwyedd trwy ddylunio da' a 'Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy' trwy'r system gynllunio. Mae dylunio da yn gofyn am broses gydweithredol, greadigol, gynhwysol o ddatrys problemau ac arloesi - sydd yn cwmpasu cynaliadwyedd, pensaernïaeth, creu lle, llecynnau cyhoeddus, tirwedd, a seilwaith. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn pwysleisio bod ymagwedd gyfannol at ddylunio yn golygu bod angen i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio ganolbwyntio o'r cychwyn ar gyflawni cyfres o amcanion dylunio da:<br><br>• Sicrhau mynediad hwylus i bawb<br>• Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio<br>• Sicrhau mannau cyhoeddus deniadol a diogel |

- Cyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol
- Cynnal neu wella cymeriad lleol

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth, Llywodraeth Cymru (1997)**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth ym maes cynllunio gan gynnwys materion yn ymwneud â datblygu gwestai, carafanau gwyliau a charafanau teithio ac amodau deiliadaeth dymhorol a gwyliau.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio Arfordirol (1998) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar faterion allweddol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y parth arfordirol. Mae'n nodi ac yn disgrifio rôl awdurdodau cynllunio lleol a'r ystod o reolaethau sector a rheoleiddiol dros ddatblygu morol ac arfordirol. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn manylu ynghylch nifer o faterion y mae rhaid eu cymryd i ystyriaeth oherwydd eu heffeithiau posibl ar brosesau ffisegol ac amodau'r ddaear, yn ogystal â chydbwysedd, sensitifrwydd a chadwraeth yr ardal yn gyffredinol. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ynghylch yr ystyriaethau cynllunio a'r materion sydd i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, Llywodraeth Cymru (2004):**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn rhoi arweiniad sy'n ychwanegu at y polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â datblygu a llifogydd. Mae'n darparu cyngor ar faterion gan gynnwys defnyddio mapiau cyngor datblygu i bennu materion yn ymwneud â'r perygl o lifogydd, sut i asesu'r llifogydd a fyddai'n ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd trwy gynlluniau datblygu a gweithdrefnau rheoli datblygu i liniaru'r perygl o lifogydd wrth gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. Caiff y Map Cyngor Datblygu (DAM) sy'n ychwanegu at TAN 15 ei gyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**I'w nodi hefyd y mae llythyr y Prif Swyddogion Cynllunio 23/8/16 CL-03-16 sef Lwfansau newid yn yr hinsawdd at ddibenion Cynllunio.**

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer chwaraeon, hamdden a mannau agored fel rhan o gynigion datblygu newydd. Mae'n darparu cyngor yn ymwneud â'r maes hwn gan gynnwys paratoi Asesiadau Mannau Agored, cadw'r cyfleusterau presennol, darparu cyfleusterau newydd a chynllunio ar gyfer rhandiroedd a mannau chwarae i blant a phobl ifanc. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn trafod materion rheoli datblygu gyda golwg ar ddylunio cyfleusterau a mannau agored, a sŵn a hygyrchedd. Mae hefyd yn ystyried sut y gall cytundebau cynllunio helpu i sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn disgrifio sut i integreiddio defnydd tir a thrafnidiaeth. Mae'n esbonio sut y dylid asesu a lliniaru effeithiau ar drafnidiaeth. Mae'n cynnwys cyngor

| |
|---|
| ar faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd gan gynnwys integreiddio rhwng cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, lleoliad y datblygiad, parcio a dylunio'r datblygiad.<br><br>Mae hefyd yn rhoi cyngor ar gerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cynllunio ar gyfer seilwaith trafnidiaeth, asesu effeithiau a rheoli'r broses weithredu. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu (2002) :**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau cynllunio y dylid eu dilyn wrth asesu cynigion telathrebu. Wrth wneud hynny mae'n cymryd twf y diwydiant telathrebu a thechnoleg i ystyriaeth.<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar wahanol ffurfiau o systemau cyfathrebu cyhoeddus a'u gofynion datblygu a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses o wneud Cynllun Datblygu. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu cyngor ar ymgorffori'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu trwy Arfarniadau Cynaliadwyedd, gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau annisgwyl mewn ardaloedd lle mae'r iaith o bwys arbennig, ac arwyddion a hysbysebion. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn golygu bod angen monitro i nodi p'un a oes:<br>• digon o le yn cael ei gynnal mewn safleoedd tirlenwi;<br>• gwasanaeth trin digonol yn cael ei gynnal, p'un a yw patrwm gofodol y ddarpariaeth yn briodol i ddiwallu'r anghenion a nodir, a<br>• p'un a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol gymryd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â materion nas rhagwelwyd.<br><br>Dylid cyfeirio at yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 22: Adeiladau Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru (2011)**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu'r polisi cynllunio cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy yn ogystal â chanllawiau ar safonau asesu adeiladau cynaliadwy, atebion dylunio i fodloni'r safonau hynny a chanllawiau ychwanegol ar adeiladau carbon isel. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hefyd yn darparu canllawiau ar gyfer datblygu polisïau a safleoedd strategol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd** |

| |
|---|
| Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn pwysleisio y bydd angen i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu llywio gan dystiolaeth gadarn ac mae'n cynghori y dylid cynnwys ystod o randdeiliaid er mwyn elwa ar eu dealltwriaeth o'r economi leol. Mae'n cydnabod bod materion economaidd at ei gilydd yn fwy nag ar lefel awdurdod lleol, a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu'n fwyaf priodol ar raddfa ranbarthol ac ar raddfa leol. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio ag awdurdodau cynllunio eraill o fewn grŵp rhanbarthol y cytunwyd arno. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar y modd y mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Mae'n darparu canllawiau ynglŷn â'r modd y dylid ystyried yr agweddau canlynol ar yr amgylchedd hanesyddol:<br><br>• Safleoedd Treftadaeth y Byd;<br>• Henebion cofrestredig;<br>• Olion archaeolegol;<br>• Adeiladau rhestredig;<br>• Ardaloedd cadwraeth;<br>• Parciau a gerddi hanesyddol;<br>• Tirweddau hanesyddol; ac<br>• Asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol arbennig. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 2: Glo (2009):**<br><br>Mae'r nodyn hwn yn cynnwys cyngor manwl am y dulliau ar gyfer gweithredu'r polisi echdynnu glo trwy weithio ar yr wyneb a gweithio o dan y ddaear, ac mae hefyd yn rhoi cyngor ynglŷn ag arferion gorau. Mae'n nodi sut y dylid asesu effeithiau a pha fesurau lliniaru y dylid eu mabwysiadu, ac mae'n ceisio nodi costau amgylcheddol a chymdeithasol gweithrediadau fel eu bod yn cael eu cyflawni'n briodol gan y gweithredwr. |
| **Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau (2004):**<br><br>Nodir mai'r amcan cyffredinol wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth agregau yw: sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan wneud yn siŵr bod yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar amwynder yn sgil unrhyw waith echdynnu angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed dangosadwy i fuddiannau y cydnabyddir eu bod yn bwysig. Caiff y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau ei strwythuro i adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol canlynol:<br><br>• Darparu adnoddau agregau mewn modd cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gymdeithas am ddeunyddiau adeiladu;<br>• Gwarchod ardaloedd pwysig;<br>• Lleihau effaith cynhyrchu agregau;<br>• Cyflawni safon uchel o adfer ac ôl-ofal, a darparu ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol; ac<br>• Annog defnydd effeithlon o fwynau a gwneud y defnydd gorau posibl o ddeunyddiau amgen fel agregau. |

| |
|---|
| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:**<br><br>Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'n cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd. Un o gydrannau allweddol y Ddeddf yw'r ddyletswydd y mae'n ei rhoi ar awdurdodau lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'. Wrth wneud hynny mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol flaengynllunio ac adrodd ar y modd y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Mae'r Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 mewn perthynas â Chymru, gyda dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth. |
| **Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020, 'Partneriaeth ar gyfer Twf:**<br><br>Mae'r strategaeth hon yn nodi bod Rheoli Cyrchfannau yn hanfodol wrth helpu i wella apêl cyrchfannau twristiaeth i ymwelwyr ledled Cymru. |
| **Croeso Cymru – Datblygu'r Economi Ymwelwyr: Siarter i Gymru 2009:**<br><br>Mae'r ddogfen hon yn darparu cylch gwaith clir ar gyfer trefniadau Rheoli Cyrchfannau yng Nghymru, ac yn nodi rôl allweddol i awdurdodau lleol wrth gyfrannu at baratoi cynlluniau cyrchfannau lleol a sefydlu partneriaethau cyrchfannau lleol. |
| **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013:**<br><br>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithio llesol a chyflwyno gwelliannau bob blwyddyn mewn llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym mhob cynllun ffordd newydd a rhoi sylw i anghenion beicwyr a cherddwyr mewn ystod o swyddogaethau awdurdod lleol eraill.<br><br>Fel rhan o'i ymrwymiad i'w gwneud yn haws i gerdded a beicio, mae'r Cyngor wedi paratoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau cerdded a beicio presennol. Mae'r llwybrau a nodir ar y map yn bodloni safonau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau cerdded a beicio yng Nghymru. |
| **Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae yn yr Awyr Agored: Y Tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw**:<br><br>Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gynllunio a dylunio mannau chwaraeon, chwarae a gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored. |

| **Rhanbarthol: Cynllun, Polisi neu Raglen** |
|---|
| **Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013 - 2030:**<br><br>Mae'r Strategaeth yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gyda'r nod o gefnogi datblygiad yr ardal dros y degawdau i ddod. Y Weledigaeth yw y bydd De-orllewin Cymru erbyn 2030 yn "*Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig, a gydnabyddir yn rhyngwladol am ei economi ddatblygol ym meysydd gwybodaeth ac arloesi*". Mae'r Strategaeth yn cynnwys 5 nod Strategol. |

| |
|---|
| **Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2017**<br><br>Cafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3 biliwn, ei llofnodi ym mis Mawrth 2017. Honnir y bydd y Fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol, ac yn creu bron 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Ceir cyfeiriad at 11 o brosiectau mawr i gyd, gyda'r prosiectau penodol canlynol yn cael eu cynnig ar gyfer Sir Gaerfyrddin:<br><br>• Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn Llanelli; a<br>• Prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin.<br><br>Ceir 4 thema allweddol sef Cyflymu'r Economi, Gwyddor Bywyd a Llesiant, Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar. Bydd gwell Seilwaith Digidol, rhwydweithiau diwifr y genhedlaeth nesaf a datblygu sgiliau a thalentau'r gweithlu yn tanategu pob un. |
| **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-20):**<br><br>Mae hwn yn cyflwyno'r weledigaeth, yr amcanion a strategaeth hirdymor ar gyfer cyfnod o 20 mlynedd a rhaglen bum mlynedd o brosiectau. Mae'r Cynllun yn cwmpasu'r rhanbarth sydd yn dod o fewn ardaloedd gweinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, a Dinas a Sir Abertawe. |
| **Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru (SWWTP)**<br><br>Roedd Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru yn gyfrifol am gyflwyno'r strategaeth twristiaeth genedlaethol ar lefel ranbarthol. Daeth y Bartneriaeth i ben yn 2014, ond mae Croeso Cymru yn parhau i gynnal ei ymrwymiad parhaus i Reoli Cyrchfannau trwy Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol. |
| **Adroddiad(au) Monitro Cynlluniau Gwastraff Rhanbarth De-orllewin Cymru:**<br><br>Caiff yr adroddiadau hyn eu llunio yn unol â TAN21: Gwastraff a'u bwriad yw coladu ac asesu data sydd ar gael ar bob gwastraff sy'n cronni, y lle gwag sydd ar gael mewn safleoedd tirlenwi a rheoli gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth er mwyn monitro tueddiadau ac yn y pen draw, monitro perfformiad yn erbyn y targedau a osodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae hefyd yn asesu cynnydd y meysydd a gwmpesir gan bolisi gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, yn ogystal â darparu gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff / adennill adnoddau awdurdodau lleol ar hyn o bryd, a'r rhai fydd yn cael eu caffael yn y dyfodol. |
| **Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru (2019)**<br>http://www.dwrcymru.co.uk/en/My-Water/Water-Resources/Water-Resource-Management-Plan.aspx<br>Mae'r Cynllun yn cwmpasu cyfnod o 30 mlynedd, o 2020 i 2050 (a elwir hefyd yn 'gyfnod cynllunio') ac yn ystyried yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy a fforddiadwy rhwng faint o ddŵr a gymerwn o'r amgylchedd a faint o ddŵr sydd ei angen arnom ar gyfer ein bywydau bob dydd.<br><br>Mae'n hollbwysig fod cwmni dŵr yn deall ei allu i gyflenwi dŵr a'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid a busnesau o fewn ei ardal gyflenwi. Yr enw ar y gymhariaeth hon yw'r Cydbwysedd rhwng y Cyflenwad a'r Galw. |

| |
|---|
| Mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin, dylid nodi bod cyflenwad dros ben ar gael ym mharth Tywi - Gŵyr. Fodd bynnag, gwelir bod yna ddiffyg yng nghyflenwad parthau Sir Benfro ac Aberhonddu Portis. |
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (2015-2021), Cyfoeth Naturiol Cymru 2015**<br><br>Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru wedi'i baratoi o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n disgrifio cyflwr presennol yr ardal basn afon a'r hyn a gyflawnwyd ers 2009; yn manylu ar y Rhaglen o Gamau ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021, yn darparu amcanion y corff dŵr ac yn edrych ymlaen at yr adolygiad arfaethedig yn 2021. |
| **Cynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Bentir St Ann 2 (2012)**<br><br>Mae Cynllun Rheoli Traethlin yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag erydiad arfordirol a llifogydd ar yr arfordir. Mae hefyd yn cyflwyno polisïau i helpu i reoli'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy.<br><br>Y ddogfen hon yw'r Cynllun Rheoli Traethlin ail genhedlaeth (CRhT2) ar gyfer y draethlin rhwng Trwyn Larnog (Bro Morgannwg) yn y dwyrain a Phentir St Ann (Sir Benfro) yn y gorllewin, ac mae'n cynnwys siroedd Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.<br><br>Mae'r ardal astudio hefyd yn cynnwys aber afon Nedd, aber afon Tawe, aber afon Llwchwr (Cilfach Tywyn), ardal aberoedd y Tair Afon (Gwendraeth, Tywi a Thaf) ac Aberdaugleddau, yn ogystal â nifer o aberoedd llai. |

| **Lleol: Cynllun, Polisi neu Raglen** |
|---|
| **Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2018-2023**<br><br>Mae’r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi dyheadau a blaenoriaethau strategol y Cyngor ac yn amlinellu’r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i wireddu ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf. Y weledigaeth yw Sir Gaerfyrddin sy’n galluogi pobl i fyw bywydau iach a chyflawn trwy gydweithio i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy.<br><br>Cafodd y Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2018-2023 - Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin, ei mabwysiadu ym mis Mehefin 2018 a'i diwygio ym mis Mehefin 2019. Bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach wrth i'r CDLl symud yn ei flaen trwy'r broses baratoi ac yn nogfennau'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn y dyfodol. |
| **Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf (2018)**<br><br>Mae'r Cyngor wedi nodi bron 100 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau â blaenoriaeth y mae am eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r "*lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef*". Bydd y Cyngor yn buddsoddi mewn |

| |
|---|
| meysydd allweddol wrth geisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y sir. |
| **Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin 2017 - 18**<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad, aeth y Cyngor ati i ddrafftio set o Amcanion Llesiant / Gwella. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 8 Mawrth 2017 a'u hail-gadarnhau yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2017. Mae Cynlluniau Gweithredu ar waith hefyd.<br><br>Mae'r 14 amcan hyn fel a ganlyn:<br><br>1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd;<br>2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw;<br>3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr;<br>4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;<br>5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi;<br>6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir;<br>7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael;<br>8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra);<br>9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel;<br>10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio;<br>11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y Sir;<br>12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol;<br>13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth; a<br>14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru. |
| **Cynllun Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin 2018-2023 – Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol ledled Sir Gaerfyrddin i weithredu ar y cyd a sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2016 a'i dasg yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin. Rhaid iddo wneud hynny trwy gynnal asesiad o lesiant yn y Sir ac wedyn paratoi Cynllun Llesiant sirol i amlinellu ei amcanion lleol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn eu gwireddu a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. |
| **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021 (Mabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014):**<br><br>Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Caerfyrddin yn gosod y fframwaith ar gyfer holl ddatblygiadau'r dyfodol o fewn y Sir hyd at 2021 (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'r CDLl yn llunio cyfleoedd buddsoddi'r dyfodol a rhaglenni gwella seilwaith ac yn tywys y gwaith o benderfynu ar unrhyw gynigion neu geisiadau cynllunio, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.<br><br>Datblygwyd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i ymhelaethu ar bolisïau a darpariaethau'r Cynllun a'u hatgyfnerthu fel a ganlyn: |

| |
|---|
| 1. Tai fforddiadwy;<br>2. Rhwymedigaethau Cynllunio;<br>3. Caeau'r Mynydd Mawr;<br>4. Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu – De Llanelli;<br>5. Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu – Pibwr-lwyd;<br>6. Addasu ac ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl;<br>7. Yr Iaith Gymraeg;<br>8. Hamdden a Mannau Agored - gofynion ar gyfer datblygiadau newydd;<br>9. Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth;<br>10. Archaeoleg a datblygu;<br>11. Gorllewin Sir Gaerfyrddin – Briff Cynllunio a Datblygu;<br>12. Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu Ardal Gogledd Llandeilo.<br><br>Cyflwynir Arfarniad Cynaliadwyedd - Asesiad Amgylcheddol Strategol law yn llaw â'r CDLl, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.<br><br>Ar 10 Ionawr 2018 penderfynodd y Cyngor baratoi CDLl diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd y CDLl diwygiedig yn disodli'r CDLl Mabwysiedig. |
| **Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gâr – 2015-2030**<br><br>Mae'r tirlun economaidd yn esblygu gyda safle Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â Dinas-ranbarth Bae Abertawe, y mae'r Cyngor wedi datblygu'r strategaeth ar ei gyfer; *"erbyn 2030 bydd Sir Gaerfyrddin yn rhan hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig o Ddinas-ranbarth Ewropeaidd."* |
| **Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2016 - 2020: Cyflenwi mwy o gartrefi i bobl Sir Gaerfyrddin:**<br><br>Mae hwn yn nodi gweledigaeth y Cyngor dros bum mlynedd ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Ei bwrpas yw darparu manylion am sut a ble y bydd mwy o dai yn cael eu cyflenwi a pha adnoddau fydd yn cael eu defnyddio a faint mwy y gellid cael mynediad atynt. Mae'n amlinellu sut y gellir cyflawni rhaglen adeiladu newydd uchelgeisiol.<br><br>Ar y cychwyn bydd y rhaglen yn cyflenwi dros 1000 o dai fforddiadwy newydd dros bum mlynedd, gyda chyfanswm buddsoddiad o dros £60m. |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin 2015 – 2020 (Mehefin 2015) – Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin**<br><br>Pwrpas Cynllun Rheoli Cyrchfannau (DMP) Sir Gaerfyrddin yw egluro beth sydd yn bwysig i'w wneud yn iawn ar gyfer y dyfodol, er mwyn siapio polisïau a blaenoriaethau, er mwyn llywio adnoddau a ffurfio sylfaen er mwyn i bobl, busnesau a sefydliadau allu gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni amcanion cyffredin.<br><br>Gweledigaeth Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin yw "Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar ei chryfderau a'i chymeriad unigryw, sy'n cynhyrchu mwy o wariant ac incwm lleol, yn gwella ei delwedd a'i henw da ac yn gwella ansawdd bywyd i gymunedau lleol"<br><br>Mae amcanion y Cynllun Rheoli Cyrchfannau fel a ganlyn: |

| |
|---|
| • Rhoi rhesymau clir dros ymweld â'r Sir a darparu profiadau cymhellol, unigryw a chofiadwy o ansawdd uchel i ymwelwyr.<br>• Creu safle cryf ar gyfer y sir yng nghyd-destun y wlad.<br>• Harneisio cryfderau cyfunol yr holl fusnesau a sefydliadau sydd â rôl yn y gwaith o gefnogi'r economi ymwelwyr.<br>• Diffinio cynnig unigryw Sir Gaerfyrddin o ran twristiaeth a denu ymwelwyr newydd, a'r rheiny sy'n ymwelwyr eisoes, i'r dref drwy farchnata blaengar a chost-effeithiol.<br>• Gwella mynediad i Sir Gaerfyrddin er mwyn annog gwell llif ymwelwyr, arosiadau hwy a mwy o wariant.<br>• Sicrhau'r safonau uchaf o ran gwasanaeth cwsmeriaid.<br>• Sicrhau cymaint â phosibl o wariant gan ymwelwyr a bod cymaint â phosibl o incwm yn cael ei gadw yn yr economi leol.<br>• Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid er mwyn annog ymweliadau hwy a mynych, mwy o wariant a mwy o argymelliadau cadarnhaol.<br>• Meithrin diwylliant o welliant parhaus, gwerth am arian, arferion gorau, dysgu a chynaliadwyedd.<br>• Nodi mesurau llwyddiant a monitro perfformiad. |
| **Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol Sir Gaerfyrddin (2017)**<br><br>Mae'r astudiaeth yn nodi anghenion cyflogaeth fesul sector a sut y bydd hyn yn amlygu ei hun dros y tymor byr i ganolig trwy'r amcanion canlynol:<br>• nodi'r cyd-destun economaidd ar gyfer y Sir, gan gynnwys nodweddion economaidd cyffredinol yn ogystal â'r sector twf allweddol ac ardaloedd twf;<br>• darparu crynodeb o'r cyflenwad presennol o ofod cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin;<br>• mynd i'r afael â gofynion gofod cyflogaeth yn y dyfodol (e.e. amcangyfrifon o'r gofynion gofod cyflogaeth yn y dyfodol ar sail gwahanol senarios o ran twf);<br>• trafod y "cydbwysedd rhwng galw / cyflenwad" (e.e. cymhariaeth rhwng y tir yr amcangyfrifir y bydd ei angen a'r cyflenwad presennol o ofod cyflogaeth);<br>• mynd i'r afael â materion polisi a chyflwyno (e.e. y polisi a mesurau eraill y mae angen eu hystyried i gefnogi'r portffolio safleoedd presennol a diwallu anghenion busnes y dyfodol). |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin - Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr:**<br><br>Yn deillio o ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014, cynhaliwyd Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Sir Gaerfyrddin i ganfod a oes angen safle Sipsiwn a Theithwyr o fewn y Sir. Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â chanllawiau statudol, a chafodd ei gyflwyno i Weinidogion Cymru er mwyn craffu arno a'i gymeradwyo.<br><br>Cafodd yr Awdurdod Tai Lleol gadarnhad oddi wrth Weinidog Cymru fod cynnwys yr asesiad o anghenion wedi'i dderbyn ar 28 Mawrth 2017. |
| **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (ROWIP) 2007-2017 (2008)**<br><br>Mae proses y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn elfen hanfodol ar gyfer cyfeiriad a graddfa'r gwaith a gyflawnir yn y dyfodol ar fynediad i gefn gwlad, ac mae'n rhoi golwg hirdymor ar bolisïau a chamau gweithredu. |

| |
|---|
| **Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (2013)**<br><br>Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Awdurdodau Rheoli Risg yn Sir Gaerfyrddin, y gofynion allweddol a chynnwys y strategaeth, ac mae'n amlinellu'r amcanion a'r mesurau lefel uchel ar gyfer gweithredu'r strategaeth. Hefyd, mae'r ddogfen hon yn nodi'r adnoddau posibl allai ariannu gweithredu'r mesurau. Mae'r ddogfen hefyd yn trafod y cyd-destun y mae'n ofynnol i'r strategaeth gyflawni buddiannau amgylcheddol ehangach mewn perthynas ag ef. |
| **Y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru**<br>Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Cymru gyfan sy'n cwmpasu llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Datblygwyd y cynllun statudol hwn i ddisgrifio pa fesurau y maent yn bwriadu eu cymryd a fydd yn helpu i reoli'r perygl o lifogydd i bobl, yr amgylchedd a gweithgarwch economaidd ar draws Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. |
| **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ran Amddiffyn Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (2011)** |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin - Y Cynllun Heneiddio'n Dda**<br><br>Nod y fenter Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a arweinir gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, yw gwneud Cymru yn lle da i bawb fynd yn hŷn. Mae'r fenter yn cydnabod bod cyflawni hyn yn dibynnu ar fod pobl, cymunedau a sefydliadau yn cymryd camau i wella'r profiad o fod yn hŷn, trwy ganolbwyntio ar bwysigrwydd 'llesiant'. Mae Cynllun Heneiddio'n Dda Sir Gaerfyrddin wedi'i strwythuro yn ôl pum maes blaenoriaeth y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. |
| **Y Strategaeth Gymunedol Integredig - Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin**<br><br>Datblygwyd y Strategaeth Gymunedol Integredig gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin trwy ymgynghori â chymunedau lleol, sefydliadau a grwpiau eraill. Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn amlinellu'r weledigaeth ar y cyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn nodi pum nod y mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cytuno i weithio tuag atynt mewn partneriaeth. Cyfeirir at baratoi Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Pobl Hŷn 2015-2025**<br><br>Dros y 15 mlynedd nesaf, bydd gwasanaethau Pobl Hŷn yn dod o dan bwysau cynyddol yn Sir Gaerfyrddin, gyda thros ddeng mil yn ychwanegol o bobl hŷn dros 75 oed yn byw yn y sir, y bydd angen gofal a chymorth ar lawer ohonynt. Nod y strategaeth hon yw edrych yn fanylach ar yr heriau hyn a gosod cynllun ar gyfer darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy dros y deng mlynedd nesaf. |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**<br><br>Diben Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw manylu ar sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn eu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin – Adroddiad Blynyddol ar Ofal Cymdeithasol 2015-2016** |

Mae'n ofynnol yn statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o Wasanaethau Cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella.

**Atodiad 2: Gwybodaeth Sylfaenol**

## 1. Datblygu Cynaliadwy


Ystyr datblygu cynaliadwy yw datblygiadau sy'n bodloni anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i fodloni eu hanghenion. Gellir dehongli'r cysyniad mewn sawl ffordd, ond yn ei hanfod ceir ymagwedd at ddatblygiad sy'n ceisio cydbwyso anghenion gwahanol, sy'n aml yn mynd yn groes i'w gilydd, ag ymwybyddiaeth o gyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Er bod ystyriaethau amgylcheddol yn ganolog i egwyddor datblygu cynaliadwy, mae hefyd yn ymwneud â sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn, a diwallu anghenion pawb yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo llesiant personol, cydlyniant cymdeithasol a chreu cyfleoedd cyfartal.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu'n gynaliadwy ac mae'n gofyn am welliant o ran cyflawni pob un o'r pedair agwedd ar lesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Edrychodd Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin (Mawrth 2017) ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Gaerfyrddin trwy wahanol gyfnodau bywyd ac mae'n rhoi crynodeb o'r canfyddiadau allweddol. Mae canfyddiadau'r asesiad hwn yn sail i'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Gallwch weld yr Asesiad drwy'r ddolen gyswllt ganlynol: www.ysirgaragarem.cymru

O'r Asesiad Llesiant, cafodd cyd-destun Sir Gaerfyrddin o ran Llesiant ei ddisgrifio fel a ganlyn:



1 ym mhob 25

Mae Sir Gâr yn bennaf yn wyn, gyda 4% o'r boblogaeth o gefndir heb fod yn wyn

Yn Sir Gâr y ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef

78,048

Mae dros 78,800 o aelwydydd yn Sir Gâr, gyda dim ond un person yn byw yn

30%

ohonynt.

Mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardal wledig, sy'n ffurfio 53% o'r Sir

6 ym mhob 10

Mae **tair prif dref sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman** sy'n gartref i 25% o'r boblogaeth

25%

Mae 7 ym mhob 10 aelwyd wedi ei brynu (yn gyfan neu gyda morgais)

14% yn rhentu'n gymdeithasol

10% rhent preifat

44 o droseddau bob 1000 o'r boblogaeth

8166 o droseddau wedi eu cofnodi 2015/16

79% yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal

## Economi

8 ym mhob 10

Mae bron 8 ym mhob 10 o boblogaeth oedran gweithio Sir Gâr (16-64) yn weithgar yn economaidd (62% fel cyflogeion; 12% hunangyflogedig)

79%, 89,600

63,000 o swyddi cyflogedig yn Sir Gâr

1 ym mhob 5 yn gweithio mewn cyfanwerthu a mân-werthu

1 ym mhob 5 yn gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol

13% mewn gweithgynhyrchu

10% yn addysg

7% mewn gweinyddiaeth gyhoeddus

Mae 92% o fusnesau yn feicro fentrau (cyflogi llai na 10 o bobl)

£23,825 yw Incwm Aelwyd Canolrif Sir Gâr, o'i gymharu â chanolrif Cymru sy'n £24,944

Mae mwy na 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi, yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru - aelwydydd gyda llai na 60% o incwm canolrif y DU

(36%)

Croeso / Welcome


£370 milliwn

yw gwerth / cyfraniad twristiaeth i economi Sir Gâr

Mae 24,000 o bobl yn Sir Gâr yn darparu gofal di-dâl, mae hyn yn 13% o'r boblogaeth.

+50 awr

Mae dros 7000 yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl




Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn amlinellu amcanion lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn eu cyflawni. Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018 a 2023, ac mae'r amcanion a'r camau gweithredu a nodwyd yn edrych ar gyflwyno hyn yn y tymor hwy sef hyd at 20 mlynedd.

1.3 Bydd Cynllun Llesiant (Drafft) Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar gyflwyno pedwar amcan:

- **Arferion Iach**
  Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.

- **Ymyrraeth Gynnar**
  Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.

- **Cysylltiadau Cryf**
  Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf rhyngddynt ac sy'n gallu addasu i newid.

- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus**
  Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd.

**Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl**
Byddai'r datblygu'n dameidiog, ni fyddai'n cael ei gydlynu ac ni fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effeithiau cronnol ar yr amgylchedd. Er y byddai dal yn destun Polisi Cynllunio Cymru a pholisi cenedlaethol arall, ar lefel awdurdod lleol, ni fyddai datblygu'n cael ei gyfeirio at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac ni fyddai dim ar waith i ddylanwadu ar lefel twf cynaliadwy.

## 2. Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol

2.1 Ystyr bioamrywiaeth yn syml yw amrywiaeth bywyd ar y ddaear. Mae’n cynnwys pob planhigyn ac anifail byw a’r ecosystemau y maen nhw’n dibynnu arnynt. Mae bioamrywiaeth ym mhob man: mewn gerddi, caeau, cloddiau, mynyddoedd, afonydd ac yn y môr.

2.2 Ar lefel leol, mae bioamrywiaeth yn dylanwadu'n fawr ar gymeriad ein tirwedd. Mae Sir Gaerfyrddin yn enwog, ac yn haeddiannol felly, am ei harfordir godidog, ei haberoedd tawel, ei dyffrynnoedd coediog, serth a'i hucheldiroedd garw. Mewn sawl man yn y sir ceir clytwaith o goetiroedd a chaeau wedi'u ffinio gan gloddiau sydd, yn aml iawn, o bwysigrwydd hanesyddol. Mae'r môr a gwely'r môr o amgylch arfordir Sir Gaerfyrddin hefyd yn gyforiog o rywogaethau, y mae rhai ohonynt o bwys economaidd sylweddol.

2.3 Mae harddwch naturiol y sir yn ffactor pwysig y mae'r diwydiannau twristiaeth a hamdden lleol yn dibynnu arno. Mae bioamrywiaeth felly'n hanfodol i lesiant corfforol, economaidd ac ysbrydol pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin.

### Safleoedd Rhyngwladol


2.4 Mae gan Sir Gaerfyrddin ardaloedd sylweddol o dir sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol ac Anifeiliaid a Phlanhigion Gwyllt (92/43/EEC);

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs) a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd ar Warchod Adar Gwyllt (79/409EEC) a

- Safleoedd Ramsar a ddynodwyd yn dilyn confensiwn Ramsar yn 1971 ar wlyptiroedd.

Dangosir rhestr o'r safleoedd hyn a'r nodweddion y cânt eu dynodi ar eu cyfer yn Nhabl 1 a chânt eu mapio yn Ffigur 1. Darperir yr asesiad diweddaraf o statws cadwraeth pob nodwedd hefyd.




*Ffigur1 Lleoliad safleoedd Ewropeaidd mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin*

*Tabl 1 Safleoedd dynodedig yn Sir Gaerfyrddin ac o fewn parth clustogi 15km.*

| **Safle Ewropeaidd** | **Maint (hectarau)** | **Nodwedd(ion) Cymhwyso** | **Statws Cadwraeth (Dyddiad yr asesiad)** |
|---|---|---|---|
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Tywi | 363.45 | Gwangen | Anffafriol (Mai 2012) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Ion 2011) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol (Ion 2011) |
| | | Llysywen bendoll y nant | Anffafriol (Ion 2011) |
| | | Herlyn | Anffafriol (Ion 2011) |
| | | Penlletwad | Anffafriol (Ion 2011) |
| ACA Caeau'r Mynydd Mawr | 25.06 | Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchaidd, priddoedd mawnog neu briddoedd cleiog â silt *(Molinion caeruleae)* | Anffafriol (Medi 2015) |
| | | Britheg y Gors | Anffafriol (Medi 2015) |
| ACA Cernydd Carmel | 361.14 | Tirlynnoedd | Ffafriol (Medi 2011) |
| | | Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd *Erica tetralix* | Ffafriol (Medi 2016) |
| | | Rhostir sych Ewropeaidd | Dinistriwyd: Yn rhannol (Medi 2016) |
| | | Cyforgorsydd actif | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| | | Fforestydd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd | Ffafriol (Gorffennaf 2013) |
| | 1206.32 | Egin-dwyni symudol | Ffafriol (Gorffennaf 2007) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ACA Twyni Bae Caerfyrddin | | Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* | Ffafriol (Gorffennaf 2007) |
| | | Twyni sefydlog gyda llystyfiant llysieuol | Anffafriol (Ion 2015) |
| | | Twyni gyda *Salix repens ssp. argentea* | Anffafriol (Awst 2007) |
| | | Llac twyni gwlyb | Anffafriol (Ion 2015) |
| | | Malwen droellog | Anffafriol (Medi 2016) |
| | | Llysiau'r afu petalog | Anffafriol (Mai 2016) |
| | | Tegeirian y fign galchog | Anffafriol (Hyd 2014) |
| ACA Afon Teifi | 715.58 | Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig â llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* | Ffafriol (Medi 2012) |
| | | Dyfroedd llonydd oligotroffig i mesotroffig â llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu Isoeto-Nanojuncetea | Ffafriol (Medi 2003) |
| | | Llysywen bendoll y nant | Ffafriol (Hyd 2013) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Ffafriol (Hyd 2013) |
| | | Eog yr Iwerydd | Ffafriol (Ion 2016) |
| | | Penlletwad | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol (Mawrth 2010) |
| | | Llyriad nofiadwy | Ffafriol (Medi 2012) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Ion 2016) |
| ACA Afonydd Cleddau | 751 | Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig â llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Cyforgorsydd actif | Anffafriol (Hyd 2012) |
| | | Coedwigoedd llifwaddodol ag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* | Anffafriol (Tach 2012) |
| | | Llysywen bendoll y nant | Anffafriol: Wrthi'n adfer (Ionawr 2012) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol: Wrthi'n adfer (Ionawr 2012) |
| | | Penlletwad | Anffafriol (Tach 2006) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol (Mawrth 2010) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Ion 2012) |
| ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd | 66101.16 | Banciau tywod sydd wedi eu gorchudd ychydig gan ddŵr môr drwy'r adeg. | Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006) |
| | | Aberoedd | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr adeg llanw isel | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | Cilfachau a baeau bas mawr | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | *Salicornia* a blodau unflwydd eraill yn cytrefu mwd a llaid | Anffafriol (Hyd 2006) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dolydd halen yr Iwerydd | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Gwangen | Anffafriol (Tach 2006) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Ebrill 2005) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol (Ebrill 2005) |
| | | Herlyn | Anffafriol (Tach 2006) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol (Mawrth 2010) |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin | 95860.36 | Môr-hwyaden Ddu | Nid oes asesiad wedi'i wneud o gyflwr y safle, i gael disgrifiad o'r safle gweler y cynllun rheoli. |
| ACA Cwm Doethïe - Mynydd Mallaen | 4122.29 | Hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain | Anffafriol (Awst 2012) |
| | | Rhostir sych Ewropeaidd | Anffafriol: Wrthi'n adfer (Medi 2012) |
| AGA Elenydd Mallaen | 30022.14 | Cudyll bach sy'n magu | Ffafriol (Mehefin 2000) |
| | | Barcud Coch sy'n magu | Ffafriol (Mehefin 2000) |
| | | Hebog tramor sy'n magu | Ffafriol (Mehefin 2006) |
| AGA Cilfach Tywyn | 6627.99 | Hwyaden Lostfain | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Hwyaden Lydanbig y Gogledd | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Corhwyad | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Chwiwell | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Pibydd y Mawn | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Pibydd Coch | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Pioden y Môr | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Gylfinir | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Cornicyll Llwyd | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Hwyaden yr Eithin | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Pibydd Coesgoch | Ffafriol (Mawrth 2004) |
| | | Turnstone | Heb ei asesu |
| ACA Bae Ceredigion | 95860.36 | Banciau tywod sydd wedi eu gorchudd ychydig gan ddŵr môr drwy’r adeg. | Heb ei asesu |
| | | Riffiau | Heb ei asesu |
| | | Ogofau morol suddedig neu rannol suddedig | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | Dolffin trwynbwl | Ffafriol (Ion 2007) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Ebrill 2005) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol (Ebrill 2005) |
| | | Morlo llwyd | Ffafriol (Ion 2007) |
| ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro | 314.48 | Hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain. | Adfer yn anffafriol (Mai 2010) |
| | | Coedwigoedd llifwaddodol ag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* | Anffafriol (Mehefin 2016) |
| | | Ystlum Du | Ffafriol (Awst 2012) |
| ACA Yerbeston Tops | 90.7 | Dolydd Molinia ar briddoedd calchaidd, priddoedd mawnog | Anffafriol (Medi 2017) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | neu briddoedd cleiog â silt *(Molinion caeruleae)* | |
| | | Britheg y Gors | Anffafriol (Medi 2017) |
| ACA Rhos Llawr-cwrt | 45.8 | Britheg y Gors | Anffafriol: Wrthi'n adfer (Awst 2012) |
| | | *Hamatocaulis vernicosus* (mwsogl) | Anffafriol (Hyd 2005) |
| ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton | 122.59 | Dyfroedd oligo-mesotroffig caled â llystyfiant dyfnderol *Chara spp.* | Anffafriol (Rhagfyr 2011) |
| | | Ystlum Pedol Mwyaf | Ffafriol (Awst 2012) |
| | | Ystlum Pedol Lleiaf | Anffafriol: Yn dirywio (Awst 2012) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol (Mawrth 2010) |
| ACA Coedydd Ynn Gŵyr | 233.15 | Fforestydd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd | Anffafriol (Mai 2016) |
| | | Coedwigoedd llifwaddodol ag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* | Anffafriol (Mehefin 2016) |
| ACA Ardal Forol Sir Benfro | 138069.45 | Aberoedd | Anffafriol (Tach 2006) |
| | | Cilfachau a baeau bas mawr | Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006) |
| | | Riffiau | Anffafriol (Gorffennaf 2008) |
| | | Banciau tywod sydd wedi eu gorchudd ychydig gan ddŵr môr drwy'r adeg. | Anffafriol (Rhagfyr 2006) |
| | | Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr adeg llanw isel | Anffafriol: Yn dirywio (Tach 2006) |
| | | Lagwnau arfordirol | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | Dolydd halen yr Iwerydd | Anffafriol (Hyd 2006) |
| | | Ogofâu môr o dan y dŵr neu'n rhannol o dan y dŵr | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | Morlo llwyd | Ffafriol (Tach 2006) |
| | | Tafolen y traeth | Ffafriol (Chwefror 2006) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol: Yn dirywio (Ebrill 2005) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol (Ebrill 2005) |
| | | Herlyn | Heb ei asesu |
| | | Gwangen | Heb ei asesu |
| | | Dyfrgi | Ffafriol (Mawrth 2010) |
| ACA Tiroedd Comin Gŵyr | 1776.72 | Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd *Erica tetralix* | Anffafriol (Medi 2016) |
| | | Rhostir sych Ewropeaidd | Anffafriol (Medi 2008) |
| | | Dolydd Molinia ar briddoedd calchaidd, priddoedd mawnog neu briddoedd cleiog â silt *(Molinion caeruleae)* | Anffafriol (Medi 2016) |
| | | Brithegion y Gors | Anffafriol (Medi 2009) |
| | | Mursen y De | Anffafriol (Gorffennaf 2017) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ACA Afon Gwy | 2234.89 | Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad a mynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Llaid pontio a chorsydd crynedig | Anffafriol: Yn dirywio (Gorffennaf 2012) |
| | | Cimwch yr afon | Anffafriol (Medi 2016) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Llysywen bendoll y nant | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Gwangen | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Eog yr Iwerydd | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Penlletwad | Anffafriol (Rhagfyr 2016) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol: Adferwyd (Mawrth 2010) |
| | | Herlyn | Anffafriol (Ion 2012) |
| ACA Gweunydd Blaencleddau | 151 | Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd *Erica tetralix* | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| | | Dolydd Molinia ar briddoedd calchaidd, priddoedd mawnog neu briddoedd cleiog â silt | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| | | Gorgorsydd | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| | | Llaid pontio a chorsydd crynedig | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| | | Tegeirian alcalïaidd | Anffafriol (Gorffennaf 2017) |
| | | Britheg y Gors | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| | | Mursen y De | Anffafriol (Gorffennaf 2016) |
| ACA y Preseli | 2705.9 | Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd *Erica tetralix* | Anffafriol (Mehefin 2012) |
| | | Rhostir sych Ewropeaidd | Anffafriol (Mehefin 2012) |
| | | Pantiau yn swbstradau mawn y *Rhynchosporion* | Anffafriol: Yn dirywio (Awst 2012) |
| | | Tegeirian alcalïaidd | Ffafriol (Rhagfyr 2004) |
| | | Mursen y De | Anffafriol (Gorffennaf 2011) |
| | | Britheg y Gors | Anffafriol (Medi 2011) |
| | | Mwsogl Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus | Ffafriol (Chwefror 2006) |
| ACA Mynydd Epynt | 43.4 | Mwsogl Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus | Ffafriol (Awst 2009) |
| ACA Afon Wysg | 1008.26 | Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad a mynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Llysywen bendoll y môr | Anffafriol (Tach 2012) |
| | | Llysywen bendoll y nant | Anffafriol (Tach 2012) |
| | | Llysywen bendoll yr afon | Anffafriol (Tach 2012) |
| | | Gwangen | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Eog yr Iwerydd | Anffafriol (Ion 2012) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Penlletwad | Anffafriol (Ion 2012) |
| | | Dyfrgi | Ffafriol: Adferwyd (Mawrth 2010) |
| | | Herlyn | Anffafriol (Ion 2012) |
| AGA/Ramsar Cilfach Tywyn | 2,200 | Mae Cilfach Tywyn yn ardal aberol fawr sydd wedi'i lleoli rhwng Penrhyn Gŵyr a Llanelli yn Ne Cymru. Mae'n cynnwys ardaloedd eang o fflatiau tywod a mwd rhynglanwol, ynghyd â systemau twyni tywod mawr yng ngheg yr aber. Mae'r safle'n cynnwys y morfa heli di-dor mwyaf yng Nghymru (2,200 ha). Mae Cilfach Tywyn yn cynnal niferoedd mawr o adar gwyllt a rhydwyr yn rheolaidd. | Nid oes asesiad wedi'i wneud o gyflwr y safle, i gael disgrifiad o'r safle gweler y cynllun rheoli. |
| ACA Ceg Môr Hafren | 584,994 | Llamhidydd yr Harbwr | Ffafriol. |

## Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

2.5 Ceir 81 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y sir (heb gynnwys yr ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) sy'n cwmpasu 17,088 hectar, ac maent yn amrywio mewn maint o gaeau bach i ardaloedd mawr o ochrau mynydd ac afonydd hir.

2.6 Maent yn cwmpasu tua 7.2% o'r sir. Mewn SoDdGA y mae'r bywyd gwyllt a'r safleoedd daearegol gorau yn y wlad. Maent yn cynnwys cynefinoedd fel coetiroedd hynafol, dolydd sy'n llawn blodau, gwlyptiroedd yn ogystal â chwareli segur. Maent yn cynnal planhigion a rhywogaethau o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu gweld yn aml yn y cefn gwlad ehangach.

2.7 Caiff Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu gwarchod yn statudol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am nodi, dynodi a gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

## Gwarchodfeydd Natur Lleol

2.8 Ceir chwe Gwarchodfa Natur Leol yn Sir Gaerfyrddin: Twyni Tywod a Morfa Pen-bre, y Pwll Lludw a Merllyn y Pwll, Twyni Doc y Gogledd, Carreg Cennen, Glan-yr-Afon, Cydweli, a Morfa Berwig, y Bynea. Yn ogystal, ceir hefyd nifer o warchodfeydd natur ar hyd a lled y Sir a gaiff eu rheoli gan sefydliadau eraill.

## Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

2.9 Mae'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol canlynol hefyd wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin:

- Carmel;
- Allt Rhyd y Groes;
- Dinefwr; a
- Waun Las (fferm Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru)

## Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur

2.10 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) wedi'u dynodi yn Sir Gaerfyrddin.

## Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

2.11 Lluniwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin gan bartneriaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth y Sir. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, nod cyffredinol Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yw gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin trwy gyfrwng partneriaethau lleol, gan roi ystyriaeth i bolisïau cenedlaethol a lleol.

2.12 Mae nodau cyffredinol Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin drwy lunio a gweithredu cynlluniau gweithredu unigol, gan gwmpasu amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau dethol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;
- Datblygu partneriaethau lleol effeithiol er mwyn cydgysylltu a chyflawni'r camau gweithredu ynghylch bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin;
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwarchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin; a
- Monitro'r cynnydd a wneir wrth gyflawni targedau bioamrywiaeth lleol ac adrodd am gynnydd o'r fath ar gronfa ddata bioamrywiaeth genedlaethol.

2.13 Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cynnwys cyfres o gynlluniau gweithredu yn ymdrin â rhywogaethau a chynefinoedd sydd dan fygythiad neu'n dirywio'n genedlaethol yn y Sir, yn ogystal â rhywogaethau a chynefinoedd o bryder lleol. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn hoelio sylw ar y camau gweithredu lleol sy'n cyflawni'r amcanion ar gyfer pob cynefin a rhywogaeth sydd yn y Cynllun.

2.14 Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi llunio naw o grwpiau cynefinoedd, a chytunwyd y byddai Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r grwpiau hynny. Y canlynol yw’r penderfyniadau hyn: Coetiroedd, Cynefinoedd yr Ucheldir, Dyfroedd Croyw, Gwlyptiroedd, Tir Amaeth, Glaswelltiroedd a Gweundiroedd yr Iseldir, Tir Llwyd/Trefol, a Chynefinoedd a Rhywogaethau Arfordirol a Morol.

2.15 Mae'r rhywogaethau wedi cael eu grwpio gyda chynefinoedd lle bynnag y bo'n bosibl, gan mai'r prif gam gweithredu a gymerir yn aml i warchod rhywogaeth yw rheoli'r cynefin. Fodd bynnag bydd gan nifer o rywogaethau eu cynlluniau gweithredu unigol eu hunain y gellir eu lawrlwytho trwy'r ddolen gyswllt ganlynol:
http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/bioamrywiaeth/cynllun-gweithredu-bioamrywiaeth-lleol/

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Wrth i adeiladu ddigwydd ar ddyraniadau presennol y CDLl, ac wrth i'r cyflenwad tir ar gyfer tai leihau, bydd pwysau i ddatblygu ar ardaloedd agored yng nghefn gwlad mewn modd gwasgaredig nad yw wedi'i gydlynu. Dylid diogelu safleoedd dynodedig a chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir drwy ddeddfwriaeth arall. Fodd bynnag, byddai angen i bob cynnig datblygu a allai effeithio ar safle Ewropeaidd gael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân, a fyddai'n gorfod edrych ar yr holl safleoedd Ewropeaidd y mae posibilrwydd yr effeithid arnynt a'r effeithiau cronnol. Byddai hyn nid yn unig yn oedi'r broses o wneud cais cynllunio yn

sylweddol, ond gallai arwain at asesiadau anghyson a diffyg gwerthfawrogiad o'r effeithiau cyfunol posibl.

## 3. Ansawdd Aer

3.1 Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ac asesu ansawdd yr aer yn ei ardal o bryd i'w gilydd. Mae rhai llygryddion allweddol y dylid eu hystyried, ac fe'u nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae gan bob un o'r llygryddion allweddol safon y mae'n rhaid ei bodloni. Pennwyd lefelau ar gyfer y safonau (neu amcanion) a seiliwyd ar wybodaeth wyddonol gyfredol, gyda'r bwriad o ddiogelu iechyd a'r amgylchedd. Mae'r Amcanion Ansawdd Aer i'w gweld yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010.

### Pam fod ansawdd aer yn bwysig?

3.2 Ansawdd Aer yw prif achos baich amgylcheddol clefyd yn Ewrop. Ym mis Chwefror 2016 adroddwyd bod 40,000 o farwolaethau ychwanegol y flwyddyn yn cael eu priodoli i Ansawdd aer gwael, gyda chost iechyd o £1 biliwn y flwyddyn.

### Pwy sy'n gwneud beth yng Nghymru?

3.3 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio allyriadau i'r aer o weithrediadau diwydiannol mwy (Rhan A1 o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol), megis gorsafoedd pŵer, purfeydd a llosgyddion, i fodloni gofynion Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol 2010. Yn ganolog yn hyn o beth y mae'r angen i atal, neu leihau, allyriadau o'r safleoedd a reoleiddir gennym trwy gymhwyso'r safonau cenedlaethol ac Ewropeaidd a osodir i amddiffyn iechyd a'r amgylchedd. Mae'n ofynnol i ni hefyd lunio Rhestr Llygredd flynyddol ar gyfer allyriadau.

3.4 O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd hefyd i adrodd ar gyflwr ansawdd aer yng Nghymru fel rhan o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ac i ystyried blaenoriaethau amgylcheddol mwy lleol yn y Datganiadau Ardal. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod cymwys, o dan Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010, ar gyfer gweithredu gofynion cyfarwyddeb 2008 ar ansawdd aer amgylchynol ac Aer Glanach Ewrop (CAFÉ).

3.5 O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am asesu a rheoli ansawdd aer lleol, dynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith lle na fodlonir y safonau gofynnol. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn rheoleiddio allyriadau i'r aer o ddiwydiannau llai (Rhan A2 a B o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol)[1].

### Cyflwr Presennol

3.6 Mae ansawdd yr aer yng Nghymru wedi gwella, gyda'r rheolaethau statudol ar allyriadau a'r lleihad mewn diwydiant yn arwain at ostyngiad mewn allyriadau diwydiannol. Fodd bynnag, mae'r targedau ansawdd aer amgylchynol ar gyfer nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig yn dal i gael eu torri yng Nghymru. Er bod diwydiant yn dal i fod yn ffynhonnell sylweddol o lygryddion, mae ffynonellau eraill, yn gyffredinol yn llai neu'n fwy gwasgaredig eu natur ac yn ddarostyngedig i lai o reoleiddio neu ddim rheoleiddio o gwbl, bellach wedi dod yn fwy amlwg.[1]

Mae Crynodeb Asesiad Cydymffurfio 2017 ar gyfer Llygredd Aer yn y DU [2]yn crynhoi cyflwr Ansawdd Aer y DU yn flynyddol, ac i ba raddau mae pob parth ansawdd aer yn cydymffurfio â Chyfarwyddebau'r UE. Ar gyfer Parth De Cymru, dangoswyd bod y lefelau NO2 blynyddol cymedrig uwchlaw'r terfyn ar gyfer iechyd pobl. Dangoswyd hefyd bod osôn yn rhagori ar y terfyn gwrthrychol ar gyfer iechyd pobl.

---


[1]Pecyn Tystiolaeth Lleol: Sir Gaerfyrddin 4/10/2013 (Cyfoeth Naturiol Cymru)

[2] https://uk-air.defra.gov.uk/library/annualreport/

## Llygredd Aer yn Sir Gaerfyrddin

3.8 Mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ynghylch ansawdd yr aer yn Sir Gaerfyrddin. Gellir lawrlwytho rhagor o wybodaeth am adroddiadau ansawdd aer o wefan Defra. Mae holl Awdurdodau Lleol Cymru yn diweddaru manylion eu lleoliadau monitro a chanlyniadau eu gwaith samplo ar wefan Fforwm Ansawdd Aer Cymru[3].

3.9 Mae'r Cyngor wedi nodi mai'r llygrydd allweddol mwyaf perthnasol i Sir Gaerfyrddin yw Nitrogen Deuocsid (NO2). Prif ffynhonnell allyriadau NO2 yn Sir Gaerfyrddin yw traffig ar y ffyrdd. Mae'r Cyngor wedi datblygu rhwydwaith monitro sy'n dilyn rhai o'n ffyrdd prysuraf a'r strydoedd lle ceir y nifer mwyaf o dagfeydd.





*Ffigur 2 Lefelau NO2 ledled Sir Gaerfyrddin (Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol 2016)*

## Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo

3.10 Yn 2011 dynodwyd rhan o Landeilo yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA). Gwnaed hyn oherwydd na chydymffurfir â'r safonau o ran NO2 yn yr ardal. Er nad yw'r lefelau NO2 yn yr ardal yn ddigon uchel i effeithio ar iechyd pobl yn syth, mae'r lefelau'n ddigon uchel i greu problemau iechyd hirdymor ar gyfer pobl sydd eisoes yn dioddef o gyflyrau resbiradol, megis asthma, afiechyd pwlmonaidd rhwystrol cronig (COPD) ac ati. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn asiantaethau allanol i helpu i nodi a gweithredu ffyrdd o wella ansawdd aer yn yr ardal.


[3] https://airquality.gov.wales/cy/




*Ffigur3 (a) Map o Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo gyda (b) lefelau NO2 (Ffynhonnell Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol 2016)*

## Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin


3.11 Ym mis Awst 2016 dynodwyd rhan benodol o Gaerfyrddin yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Mae hyn o ganlyniad i'r nwyon sy'n cael eu gollwng gan gerbydau'r ffordd. Mae'r lefelau Nitrogen Deuocsid (NO2) ar hyn o bryd yn uwch na'r lefelau cyfreithiol mewn mannau lleol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i leihau'r lefelau hyn lle bynnag y bo modd. Er nad yw'r lefelau NO2 yn yr ardal yn ddigon uchel i effeithio ar iechyd pobl yn syth, mae'r lefelau'n ddigon uchel i greu problemau iechyd hirdymor i bobl sy'n agored iddynt am gyfnodau digon hir ac sydd eisoes yn dioddef o gyflyrau anadlu megis asthma, afiechyd pwlmonaidd rhwystrol cronig (COPD), ac ati. Mae'r Cyngor wrthi'n llunio Cynllun Gweithredu a fydd yn nodi mesurau a allai helpu i wella ansawdd yr aer yn yr ardal.




*Ffigur4 (a) Map o Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo gyda (b) lefelau NO2 (Ffynhonnell Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol 2016)*

## Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli

3.12 Ym mis Awst 2016 dynodwyd rhan benodol o Lanelli yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Mae hyn o ganlyniad i'r nwyon sy'n cael eu gollwng gan gerbydau'r ffordd. Mae'r lefelau Nitrogen Deuocsid (NO2) ar hyn o bryd yn uwch na'r lefelau cyfreithiol mewn mannau lleol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i leihau'r lefelau hyn lle bynnag y gallwn. Er nad yw'r lefelau NO2 yn yr ardal yn ddigon uchel i effeithio ar iechyd pobl yn syth, mae'r lefelau'n ddigon uchel i greu problemau iechyd hirdymor i bobl sy'n agored iddynt am gyfnodau digon hir ac sydd eisoes yn dioddef o gyflyrau anadlu megis asthma, afiechyd pwlmonaidd rhwystrol cronig (COPD), ac ati. Mae'r Cyngor wrthi'n llunio Cynllun Gweithredu a fydd yn nodi mesurau a allai helpu i wella ansawdd yr aer yn yr ardal.




*Ffigur5 (a) Map o Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli gyda (b) lefelau NO2 (Ffynhonnell Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol 2016)*

3.13 Mae ystod o ddata a mapiau ar gyfer allyriadau llygredd aer, gyda'r allyriadau wedi'u dadansoddi fesul sector, ar gael o wefan y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol (www.naei.org.uk/index.php).

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Er y byddai'n rhaid i ddatblygiadau newydd gydymffurfio â deddfwriaeth rheoli llygredd aer, byddai'r datblygu'n dameidiog, ni fyddai'n cael ei gydlynu ac ni fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i effeithiau cronnol ar yr amgylchedd ac ansawdd aer.

# 4. Ffactorau Hinsoddol

4.1 Mae Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd flaenorol Sir Gaerfyrddin, y CDLl presennol ac Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin (2017) i gyd yn cydnabod y peryglon posibl (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu'r Sir mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd.

## Newid yn yr Hinsawdd


4.2 Disgwylir i gynnydd yn lefelau'r môr gael effaith nid yn unig ar y 5,587 eiddo yn Sir Gaerfyrddin sydd eisoes mewn perygl o lifogydd llanwol a llifogydd yn sgil cynnydd yn lefel afonydd, ond ar eiddo ychwanegol ar hyd cymunedau arfordirol ac afonol y sir. I'r gwrthwyneb, mae effeithiau posibl megis cynnydd mewn cynhyrchiant glaswelltiroedd a thymhorau gwyliau estynedig hefyd yn debygol o gael effaith ar Sir Gaerfyrddin. Mae'n bwysig manteisio ar oblygiadau cadarnhaol a lliniaru goblygiadau negyddol yr holl faterion hyn ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol yr unigolion a'r cymunedau yr effeithir arnynt (Wallingford, 2012).

4.3 Mae dull 'bwrw golwg ar y gorwel' yn caniatáu i senarios o'r fath gael eu harchwilio o safbwynt gofodol. Er enghraifft, gall aneddiadau a buddiannau masnachol ar hyd arfordir Sir Gaerfyrddin fod yn gynyddol agored i lifogydd o'r môr. Yn ogystal, mae mwy o lifogydd mewn cymoedd afonydd yn debygol o roi mwy o eiddo a seilwaith trafnidiaeth dan fygythiad yn sgil llif y tu allan i lannau a dŵr ffo arwyneb. Mae'n bosibl hefyd y bydd newid yn yr hinsawdd yn peri newid mewn gweithgarwch/cynhyrchiant amaethyddol ac efallai y bydd aelodau agored i niwed o'r gymuned yn wynebu mwy o berygl oherwydd bod eithafion tymheredd yn dod yn fwyfwy tebygol.


Amcangyfrifir bod cyfanswm ôl troed carbon Cymru ychydig dros 34 miliwn tunnell cyfwerth â charbon deuocsid (t $CO_2$e). Ar y lefelau poblogaeth cyfredol, mae hyn yn cyfateb i 11.11 t$CO_{2e}$ y pen. Ôl troed carbon Sir Gaerfyrddin yw 11.36 t$CO_{2e}$, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.

4.4 Yn 2016 defnyddiwyd 941 megawat o drydan a nwy domestig yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 4.9% ers 2012. Yn ogystal, yn 2015 roedd cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ yn Sir Gaerfyrddin yn 1212.7 cilotunnell. Mae'r ffigur hwn yn ostyngiad o 8.3% ers 2011. Dengys y ffigurau diweddaraf (2016) mai cyfanswm yr allyriadau CO2 ar gyfer Sir Gaerfyrddin oedd 1,162 cilotunnell (Ffigur 6). Amcangyfrifir bod cyfanswm yr allyriadau CO2 y pen yn Sir Gaerfyrddin yn 6.6. tunnell. Mae'r ffigur hwn hefyd wedi gostwng 8.3% ers 2011.

Mae gan Sir Gaerfyrddin dri safle diwydiannol mawr sydd ar hyn o bryd yn allyrru tua 57 cilotunnell o CO2 y flwyddyn (Ffigur 7). Fodd bynnag, mae hyn yn gymharol isel o gymharu â'r defnydd o gerbydau ar ffyrdd A a'r defnydd o drydan gan y sector diwydiant a masnachol, sy'n allyrru 260 cilotunnell ac 160 cilotunnell (Ffigur 6).




*Ffigur 6 Allyriadau $CO_2$ yn Sir Gaerfyrddin fesul sector ar gyfer 2016 mewn cilotunelli. Data o* http://naei.beis.gov.uk/




*Ffigur 7 Cyfanswm allyriadau carbon ar gyfer 2016 yn ôl awdurdod lleol. Pwyntiau yn dangos safleoedd diwydiannol mawr a manylion am eu hallyriadau carbon o 2012-2016. Data o http://naei.beis.gov.uk/*

4.5 Mae'r asesiad o risgiau newid hinsawdd i Gymru (Ionawr 2012) yn cyflwyno canfyddiadau asesiad o risgiau newid hinsawdd i Gymru, sydd wedi'i gwblhau fel rhan o Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU (CCRA).

4.6 O ganlyniadau'r asesiad hwn, ymddengys mai'r bygythiadau posibl mwyaf arwyddocaol i Gymru yn sgil newid yn yr hinsawdd yw:

- Newidiadau mewn cyflyrau pridd, bioamrywiaeth a thirwedd o ganlyniad i hafau cynhesach a sychach.
- Gostyngiadau mewn llif afonydd ac yn y dŵr sydd ar gael yn ystod yr haf, a fyddai'n effeithio ar gyflenwadau dŵr a'r amgylchedd naturiol;
- Cynnydd mewn llifogydd ar yr arfordir ac yn y mewndir, a fyddai'n effeithio ar bobl, eiddo a seilwaith;
- Newidiadau yn natblygiad yr arfordir gan gynnwys erydiad a chywasgu arfordirol, a fyddai'n effeithio ar draethau, ardaloedd rhynglanwol a nodweddion arfordirol arall;
- Newidiadau mewn rhywogaethau gan gynnwys dirywiad mewn rhywogaethau brodorol, newidiadau mewn patrymau mudo a chynnydd mewn rhywogaethau ymledol;
- Cynnydd yn y risg o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'r risg i dda byw yn peri pryder neilltuol.

4.7 Ymddengys mai'r cyfleoedd posibl mwyaf arwyddocaol a nodwyd ar gyfer Cymru yn sgil newid yn yr hinsawdd yw:

- Cynnydd mewn cynnyrch glaswellt, a fyddai'n caniatáu cynnydd posibl mewn cynhyrchu da byw; a
- Cynnydd mewn niferoedd twristiaid a thymor twristiaeth hirach.


4.8 Fel sir wledig i raddau helaeth, mae'n bosibl y bydd effeithiau cadarnhaol a negyddol newid hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar Sir Gaerfyrddin, fel sy'n cael sylw yn yr Asesiad o

Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru. Erbyn 2050 rhagwelir y bydd glawiad y gaeaf yn cynyddu 14% ac y bydd glawiad yr haf yn gostwng 16%, a fydd o bosibl yn cynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd yn y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig mewndirol sydd eisoes yn cael llifogydd o ganlyniad i lif dŵr wyneb. Gall hyd yn oed achosion o lifogydd cymedrol gael effaith sylweddol ar lesiant corfforol a meddyliol yr unigolion yr effeithir arnynt am nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad ei hun, ac yn aml caiff effeithiau gwaethaf llifogydd eu teimlo gan yr aelodau hynny o'r gymdeithas sydd fwyaf agored i niwed.

## Ynni Adnewyddadwy

O dan dargedau'r Undeb Ewropeaidd, mae gan y DU darged cyfreithiol rwymol o gynhyrchu 15% o'i hynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae Strategaeth Ynni Adnewyddadwy'r DU yn nodi gweledigaeth Llywodraeth y DU i sicrhau bod y targed hwn yn cael ei gyrraedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae ei rhan trwy gyflwyno rhaglen ynni sy'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon fel rhan o'i dull o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae polisi a chanllawiau cyfredol y llywodraeth yn canolbwyntio ar leihau allyriadau CO2 mewn ymgais i arafu newid yn yr hinsawdd, ac ystyrir bod cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy yn rhan o'r ateb. Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi, annog a hwyluso cynlluniau ynni adnewyddadwy.

Cafodd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy eu pennu yn Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy 2005. Mae Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi gwybodaeth am feysydd yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy ar y tir, dylunio, ac ynni, ac mae'n disgrifio sut y dylid ystyried ynni adnewyddadwy yn rhan o gynlluniau datblygu, rheoli datblygu a phrosesau monitro. Nodwyd bod saith Ardal Chwilio Strategol yn addas ar gyfer ynni gwynt adnewyddadwy ar raddfa fawr (dros 25MW) ar y tir (Ffigur 8).




*Ffigur 8 Ardaloedd Chwilio Strategol yn ardal y De-orllewin fel y'u nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy. Ffynhonnell Datganiad Ardal y De-orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru.*

Ardal Chwilio Strategol G: Mae Fforest Brechfa yn Sir Gaerfyrddin, ac mae wedi'i dynodi ar gyfer ynni gwynt ar raddfa fawr. O fewn Ardal Chwilio Strategol:G, mae Fferm Wynt Gorllewin Fforest Brechfa yn gwbl weithredol, a cheir 28 tyrbin yn cynhyrchu 57.4 MW. Yn ogystal, cafodd Fferm Wynt Dwyrain Fforest Brechfa ganiatâd cynllunio yn 2013, a hynny ar gyfer 12 tyrbin (3 thyrbin ar dir 3ydd parti) â'r potensial i gynhyrchu 24-36MW. Mae CNC yn gweithio


ar hyn o bryd ar y ffordd orau o gyflawni'r datblygiad hwn. Mae Fferm Wynt Alltwalis hefyd o fewn yr Ardal Chwilio Strategol, sy'n gallu cynhyrchu 23MW o 10 tyrbin.

Yn ogystal â Brechfa, mae gan y Sir hefyd ran fach o Ardal Chwilio Strategol Pontardawe o fewn ei hardal. Ar hyn o bryd mae Fferm Wynt Mynydd y Betws yn gweithredu yn Ardal Chwilio Strategol E, gan gynhyrchu 34MW o 15 tyrbin.

## Ôl-troed Ecolegol

4.9 Gellir diffinio ôl troed ecolegol yn syml fel mesur o gynaliadwyedd. System gyfrifyddu yw ôl troed ecolegol yn ei hanfod, sy'n cydnabod effaith pob nwydd a gwasanaeth a brynir trwy gymryd i ystyriaeth yr holl ynni a'r adnoddau a ddefnyddir i wneud y cynnyrch. Y gwerth mesur ychwanegol yw'r pwyslais a roddir ar archwilio'r mannau hynny lle gellir gwneud lleihad trwy bolisïau sy'n dylanwadu ar batrymau defnydd ac ymddygiad.

4.10 Mae'r siart isod yn dangos ôl troed ecolegol Cymru yn ôl thema[4]. Gellir gweld yn glir bod Tai (20%), Bwyd (28%) a Thrafnidiaeth (11%) yn ffurfio cyfran sylweddol o'r ffigur cyfan. Mae'r rhain i gyd yn faterion y gall cynllun defnydd tir gyfrannu tuag at fynd i'r afael â hwy. Yr ôl troed ecolegol y pen ar gyfer Cymru yn ôl ffigurau 2015 oedd 3.28 hectar global, sydd tua 1.2 i 1.8 gwaith y cyfartaledd yn fyd-eang.[5]





*Ffigur 9 Ôl troed ecolegol Cymru yn ôl thema defnydd4*

Amcangyfrifir mai ôl troed ecolegol Sir Gaerfyrddin yw 3.36 hectar global y pen, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (Ffigur 10). Dylanwadir ar yr amrywiad hwn ar lefel leol gan nifer o ffactorau yn cynnwys incwm, demograffeg, patrymau gwariant aelwydydd a pherfformiad ynni stoc dai.

---

[4] https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/150724-ecological-footprint-of-wales-report-en.pdf

[5] Y ffigur cyfartalog yn fyd-eang yn 2007 oedd 2.7 hectar global y pen, a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Ôl Troed Ecolegol Byd-eang (GFN). Cofiwch fod methodoleg GFN yn wahanol i'r un rydym wedi'i defnyddio, felly ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol. Ffigur GFN ar gyfer y DU yn 2007 oedd 4.9 hectar global y pen.




*Ffigur 10 Ôl troed ecolegol Cymru fesul rhanbarth[4]*

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Heb CDLl ar waith, byddai'r datblygu'n dameidiog a heb ei gydlynu,. Mae cynllunio strategol ar ffurf y CDLl yn caniatáu cynnwys cydnerthedd yn y datblygiadau o ran deunyddiau, dyluniad a lleoliad (e.e. mewn perthynas â pherygl llifogydd) er mwyn lleihau'r risgiau yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. At hynny, gellir cydlynu mesurau a all helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, megis hyrwyddo ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy.

# 5. Dŵr

## Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

5.1 Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwarchod dyfroedd wyneb (afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol) a dyfroedd daear. Ei diben yw atal dirywiad ecosystemau dyfrol a gwella eu statws, hyrwyddo defnydd dŵr cynaliadwy, lleihau llygredd dŵr daear a chyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder.

5.2 Mae'r Gyfarwyddeb yn mynnu bod ansawdd/swm dŵr ein hafonydd, ein llynnoedd, ein dŵr daear, ein haberoedd a'n harfordir yn cael eu hasesu gan ddefnyddio dulliau monitro ecolegol (pysgod, infertebratau, planhigion ac ati) a chemegol (maetholion, plaleiddiaid ac ati.)


5.3 Rhoddir statws iechyd i ardaloedd dyfrol a gynrychiolir gan liwiau ar y map. Mae ardaloedd dyfrol sy'n cael eu dosbarthu fel rhai 'Drwg', 'Gwael' neu 'Cymedrol' yn methu â chyrraedd safonau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE a bydd angen i'r ardaloedd dyfrol hyn wella i statws ecolegol 'Da' o leiaf erbyn 2027.

5.4 Mae ansawdd dŵr cyffredinol y Sir wedi bod yn gwella, gyda mwyafrif yr afonydd yn cyrraedd statws ecolegol cymedrol i dda o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae llawer o'r ardaloedd dyfrol yn nalgylch ehangach Tywi, yn Nwyrain y Sir, o ansawdd cymedrol o ganlyniad i etifeddiaeth mwyngloddio metel yr ardaloedd hynny yn hanesyddol. Mae hyn yn aml yn cyd-daro ag ardaloedd o blanhigfeydd conwydd helaeth ar lethrau serth yr ucheldir, gyda llawer o'r rhain hefyd yn ddalgylchoedd dynodedig 'sensitif i asid' oherwydd bod eu gallu naturiol i glustogi'r effaith yn isel.


5.5 Mae amaethyddiaeth fwy dwys ar waelod y dyffrynnoedd yn aml wedi amharu ar yr enillion a wnaed mewn ansawdd dŵr. Mae hyn yn arbennig o wir mewn dalgylchoedd lle cynhyrchir llaeth ar raddfa ddwys. Yn ogystal â'u rôl reoleiddiol mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ati i weithio gyda rhanddeiliaid i wella'r ansawdd ecolegol ac ansawdd y dŵr ar draws pob ardal ddyfrol, gan gynnwys Bae Caerfyrddin a'r aberoedd.

5.6 Caiff ein dyfroedd ymdrochi, sydd â dynodiad UE, eu monitro o fis Mai i fis Medi am halogiad gan organebau sy'n ddangosyddion ysgarthol. Dosbarthir dyfroedd ymdrochi yn flynyddol yn ôl ansawdd y dŵr (Ardderchog, Da, Digonol, Gwael). Ar ddiwedd tymor 2015, dosbarthwyd y traethau a chyrhaeddodd pob un o'r dyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru safon ddigonol neu uwch. O 2018, mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i un traeth Baner Las sef Cefn Sidan.


5.7 Daw'r mapiau a'r siartiau canlynol o'r Pecyn Tystiolaeth Lleol: Sir Gaerfyrddin 4/10/2013 fel y'i cynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â Dosbarthiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer y Sir. Dylid cyfeirio ymhellach at gynnwys y Pecyn mewn perthynas ag ystyriaethau Ansawdd Dŵr. Darparwyd mapiau wedi'u diweddaru hefyd yn dangos y canlyniadau Cylch 2 gwaith monitro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2015).





*Ffigur 11 Dosbarthiad Corff Dŵr Cylch 1 Dŵr Wyneb y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Afonol, trosiannol ac arfordirol) (Gwaelodlin 2009)*





*Ffigur 12 Dosbarthiad Corff Dŵr Cylch 2 Dŵr Wyneb y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Afonol, trosiannol ac arfordirol) (2014 – 2019)*





*Ffigur 13 Dosbarthiad Dŵr Daear Cylch 1 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (gwaelodlin 2009)*




*Ffigur 14 Dosbarthiad Dŵr Daear Cylch 2 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2014 – 2019)*




*Ffigur 15 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr: Rhesymau dros Fethiant ar ran Cyrff Dŵr yn Sir Gaerfyrddin 2009*




*Ffigur 16 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr: Rhesymau dros fethiant yn ardal y De-orllewin (codwyd o [https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-west-wales-area-statement/?lang=en](https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-west-wales-area-statement/?lang=en))*


## Cyflenwad Dŵr

5.8 Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru (2014) yn cwmpasu cyfnod o 25 mlynedd, o 2014 i 2040 (a elwir hefyd yn 'gyfnod cynllunio') ac yn ystyried yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy a fforddiadwy rhwng faint o ddŵr a gymerwn o'r amgylchedd a faint o ddŵr sydd ei angen arnom ar gyfer ein bywydau bob dydd.

5.9 Mae'n hollbwysig fod cwmni dŵr yn deall ei allu i gyflenwi dŵr a'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid a busnesau o fewn ei ardal gyflenwi. Yr enw ar y gymhariaeth hon yw'r Cydbwysedd rhwng y Cyflenwad a'r Galw.

5.10 System Defnydd Cyfunol Tywi yw'r Parth Adnoddau Dŵr mwyaf yn Ne-orllewin Cymru, sy'n ymestyn yn y dwyrain o Fro Morgannwg i'r gorllewin o Gaerfyrddin ac i'r gogledd heibio i Lanwrtyd.

5.11 Mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin, mae cyflenwad dros ben ar gael ym mharth Tywi - Gŵyr. Fodd bynnag, gwelir bod yna ddiffyg yn Sir Benfro (Ffigur 17).




*Ffigur 17 Cyflenwad a Galw Parth Adnoddau Dŵr - Coch yn dangos diffyg, Gwyrdd yn dangos gormodedd*


## Perygl Llifogydd

5.12 Mae'r perygl o lifogydd yn Sir Gaerfyrddin yn effeithio ar ystod o aneddiadau a rhannau o'r Sir a hynny ar ffurf gorlif afonol a llanwol. Mae mapiau perygl llifogydd rhyngweithiol ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (http://naturalresourceswales.gov.uk/flooding-and-water/).

Llanelli yw'r gymuned sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd yn nalgylch rheoli perygl llifogydd Bae Caerfyrddin a Gŵyr, ac mae'n un o'r 50 o gymunedau uchaf eu risg yng Nghymru. Mae'r gymuned yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr ac mae'n boblog iawn. Y prif berygl yw o'r cyrsiau dŵr sy'n croestorri'r dref. Mae afonydd Dafen, Lliedi a Dulais oll yn achosi perygl llifogydd, ac mae'r cyrsiau dŵr hyn wedi cael eu newid yn sylweddol wrth i'r dref ddatblygu. Mae waliau llifogydd ac argloddiau yn helpu i liniaru'r perygl o lifogydd mewn rhai mannau.

Un wledig yn bennaf yw dalgylch Afon Taf, ac mae'r perygl mwyaf o lifogydd yn Hendy-gwyn a Sanclêr. Mae gan y cymunedau hyn hanes hir o lifogydd. Er bod cynlluniau lliniaru llifogydd yn diogelu'r trefi rywfaint, mae'r perygl o lifogydd yn dal i fod. Yn nalgylch fawr Afon Tywi, mae rhywfaint o risg o lifogydd yn llawer o'r cymunedau gwasgaredig, a nodir taw yn Llanymddyfri a Llandeilo y mae'r perygl mwyaf o lifogydd.

5.13 Mae'r map isod yn dangos yr amrywiol beryglon llifogydd pe na bai amddiffynfeydd llifogydd. Y canlynol yw'r penderfyniadau hyn: Parth Llifogydd 3 – Tebygolrwydd uchel o lifogydd. Asesir bod tebygolrwydd o fwy nag 1% fod y tir yn cael llifogydd (neu lifogydd o'r môr o fwy nag 0.5%) mewn unrhyw flwyddyn. Parth Llifogydd 2 – Tebygolrwydd canolig o lifogydd – 1% - 0.1%. Neu debygolrwydd blynyddol o lifogydd o'r môr (0.5%-0.1%) mewn unrhyw flwyddyn.




*Ffigur 18 Parthau perygl llifogydd 2 a 3 ar gyfer Ardal y De-orllewin. Ffynhonnell: https://naturalresources.wales/flooding/*

**Seilwaith draeniau**

Mae dyletswydd ar Dŵr Cymru o dan Adran 94 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i dderbyn gwastraff dŵr o unrhyw ddatblygiad newydd, pan fo cysylltiad â'r prif system garthffosiaeth yn hyfyw. I'r perwyl hwn, os oes angen capasiti ychwanegol yn y systemau presennol, yna mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Dŵr Cymru i'w ddarparu drwy ei ddulliau ariannu arferol.

Rhoddwyd llawer o sylw i'r problemau â'r seilwaith carthffosiaeth sy'n draenio i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yng Nghilfach Tywyn. Yn yr ardal hon ceir un o'r cyrff dŵr y gwneir y mwyaf o ddefnydd ohonynt yng Nghymru, a rhaid yw bodloni'r gofynion a bennir gan Gyfarwyddebau Ewropeaidd gan gynnwys Fframwaith Dŵr Cynefinoedd Ewropeaidd (WFD) a'r Cyfarwyddebau Pysgod Cregyn (SD). Ar hyn o bryd nid yw Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn cyrraedd y safonau gofynnol dan WFD a SD, tra bo'r system garthffosiaeth heb gyrraedd y safonau sy'n ofynnol dan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Mae problem bosibl dan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os tybir y gall Dŵr Cymru naill ai dderbyn unrhyw gynnydd cysylltiedig mewn dŵr gwastraff beth bynnag fo'r cyfyngiadau capasiti, neu y gellir datrys y cyfryw broblemau capasiti drwy opsiynau caniatáu CNC sydd yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd.

Mae problemau â chapasiti rhwydwaith y seilwaith draenio ledled y sir ac efallai fod angen cymryd camau i sicrhau bod capasiti digonol o fewn rhwydwaith y seilwaith dŵr gwastraff. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ardal Arfordirol Llanelli, er mwyn lleihau nifer y gollyngiadau o systemau gorlif carthion cyfun sy'n llifo i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Cyfrifoldeb Dŵr Cymru yw'r seilwaith carthffosiaeth yn y Sir, fel y corff statudol sy'n ymdrin â charthffosiaeth, a bydd yn rhaid rhoi sylw i hyn yng Nghynlluniau Rheoli Asedau tymor hir Dŵr Cymru. Rhedodd Cynllun Gwella AMP5 o fis Ebrill 2010 tan fis Mawrth 2015; mae'r AMP presennol, AMP 6, yn rhedeg o fis Ebrill 2015 tan fis Mawrth 2020, a bydd AMP7 yn rhedeg o fis Ebrill 2020 tan fis Mawrth 2025. Os yw datblygwyr am gyflymu'r broses o gyflawni gwaith atgyfnerthu angenrheidiol, mae dulliau ar waith i ganiatáu ar gyfer hyn.

Mae Tabl 2 isod yn crynhoi'r dyraniadau twf y darperir ar eu cyfer yn y cynllun mewn perthynas â'r gwaith trin y maent wedi eu cysylltu â hwy. Mae'r Gweithfeydd sydd wedi'u lliwio'n felyn yn cael eu gollwng i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.

*Tabl2 Yn derbyn gwaith trin dŵr gwastraff ar gyfer y dyraniadau yn y CDLl diwygiedig*

| **Gwaith Trin Dŵr Gwastraff** | **Nifer yr anheddau** |
|---|---|
| | |
| | |

Oherwydd y problemau blaenorol â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn Llanelli, ers 2009 mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhagofalus i brosesu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli, gan ymrwymo i gytundeb cyd-asiantaethol neu Femoranda o Ddealltwriaeth gyda Chyngor Abertawe, Dŵr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru sef Cyfoeth Naturiol Cymru bellach, ynghylch dull cyffredin o sicrhau ansawdd dŵr yn Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.

Mae'r dull y cytunwyd arno yn canolbwyntio ar dynnu dŵr wyneb o'r seilwaith trin dŵr gwastraff a thrwy hynny gynyddu'r capasiti ar gyfer trin dŵr budr (e.e. drwy amodau cynllunio ar ddatblygiadau newydd sy'n ceisio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) a chyflwyno ffactor i wella'r sefyllfa). Mae'r Cyngor hefyd wedi cyllido'n rhannol gynllun gwella yng Ngwaith Trin Gwastraff Dŵr Llannant, sydd wedi hwyluso'r broses o gael gwared ar ffosfforws.

Cyfeirir at y cytundeb cyd-asiantaethol o hyd yn y Cynllun gan ei fod yn cynrychioli ymrwymiad i weithio ar y cyd, sy'n angenrheidiol i ddarparu seilwaith draenio digonol. Bydd angen diweddaru'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i adlewyrchu'r newidiadau mewn amgylchiadau ers cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwreiddiol.

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Pe na bai'r CDLl ar waith, byddai'n rhaid cadw at y WFD o hyd. Fodd bynnag heb y Cynllun, byddai'r datblygiad yn dameidiog ac ar hap, a byddai'n anodd cydgysylltu, monitro a darparu'r seilwaith ategol angenrheidiol. Ni ellir asesu effeithiau cyfunol datblygiad ac efallai y bydd darparwyr cyfleustodau yn ei chael hi'n anodd cynllunio ar gyfer twf ac ehangu yn eu rhwydweithiau heb CDLl 15 mlynedd i'w hysbysu lle y bwriedir datblygu yn y dyfodol. Gall hyn arwain at oedi mewn datblygiadau ac effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr, er enghraifft yn Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.

# 6 Asedau Materol

## Priffyrdd a Thrafnidiaeth

6.1 Lleolir Sir Gaerfyrddin ar gefnffyrdd yr A40, yr A477 a'r A48 gyda'r cysylltiadau i'r gorllewin yn cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon, sydd gyda'r M4 yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. Caiff y cyswllt rhwng y dwyrain a'r gorllewin ei bwysleisio ymhellach gan reilffordd Gorllewin Cymru sy'n ymestyn o Abertawe (a'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach) i Sir Benfro trwy Gaerfyrddin a Llanelli. Mae Rheilffordd Gorllewin Cymru hefyd yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd sy’n cysylltu â phorthladdoedd fferïau Iwerddon yn Sir Benfro. Mae Rheilffordd Calon Cymru, sy'n ymestyn o Abertawe trwy rannau dwyreiniol y sir i'r Amwythig, yn cynnig buddiannau trafnidiaeth ychwanegol, er bod hynny'n seiliedig ar wasanaeth cyfyngedig.

6.2 Mae'r prif rwydwaith priffyrdd o fewn ardal y Cynllun yn cynnwys cefnffordd yr A48 sy'n arwain at ac oddi ar draffordd yr M4 a'i chysylltiadau trwy Dde-ddwyrain Cymru a thu hwnt. Mae cefnffyrdd yr A40 a'r A483 yn cynnig cysylltiadau drwy'r Sir i Ganolbarth a Gogledd Cymru yn ogystal ag i Ganolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr. Ceir mynediad pellach i Ogledd y Sir a thu hwnt i Ganolbarth a Gogledd Cymru ar hyd yr A484 a'r A485. Mae'r Sir yn cael ei gwasanaethu hefyd gan nifer o ffyrdd dosbarth A yn ogystal â ffyrdd dosbarth B, gyda phob un yn elfen bwysig o'r rhwydwaith priffyrdd (Ffigur 19).

6.3 Mae'r tabl canlynol yn dangos hyd y rhwydwaith ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin (mewn cilometrau), sydd ynddo'i hun yn cynrychioli rhyw 44% o'r rhwydwaith rhanbarthol. Mae hefyd yn dangos faint o'r Sir a wasanaethir gan ffyrdd dosbarth B ac is, sy'n adlewyrchu'n rhannol faint o'r Sir sydd o natur wledig ac yn pwysleisio'r heriau a wynebir wrth gyflwyno strategaeth integredig gynaliadwy ar gyfer yr ardal.


| **Rhwydwaith Ffyrdd Sir Gaerfyrddin – Hyd y Ffordd (Km)** | |
|---|---|
| M4 | 5 |
| Dosbarth A (Cefnffordd) | 147 |
| Dosbarth A (Ffordd Sirol) | 247 |
| Dosbarth B ac C | 1,579 |
| Is-ffordd ag wyneb caled | 1,496 |
| **Cyfanswm** | **3,474** |

Ffynhonnell: Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin

6.4 Mewn perthynas ag argaeledd ceir yn Sir Gaerfyrddin ar 27 Mawrth 2011 dim ond 18.8% o gartrefi yn y Sir oedd heb fynediad i gar neu fan tra bod gan 43.5%, 27.6% a 10.2% fynediad i un, dau neu dri (neu fwy) o geir neu faniau yn y drefn honno[6].

6.5 O ran cyfaint y traffig, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Sir wedi gweld cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2012, gyda lefelau 2016 bellach ar lefel (2.00) sy'n uwch nag ar gyfer 2007 (1.94)[7]. Mae rhywfaint o'r 38% hwn yn defnyddio Rhwydwaith Cefnffyrdd y Sir, gyda 34% o'r traffig yn defnyddio ffyrdd 'bach' dosbarthedig, sy'n adlewyrchu natur wledig rhannau mawr o'r Sir[8].

[6] Pobl a Thrwyddedu a Pherchenogaeth Cerbydau - Llywodraeth Cymru 2012
[7] Cyfaint traffig ffyrdd yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (StatsCymru)
[8] Cyfaint traffig ffyrdd yn ôl awdurdod lleol a dosbarth ffordd (StatsCymru)





*Ffigur 19 Rhwydwaith Ffyrdd Sir Gaerfyrddin*[9]

## Gwastraff

6.6 Daw Sir Gaerfyrddin o fewn ardal ranbarthol De-orllewin Cymru ar gyfer rheoli gwastraff. Gwastraff diwydiannol a masnachol yw'r gyfran fwyaf arwyddocaol o gyfanswm y llif gwastraff a reolir yn y rhanbarth - cynhyrchwyd 252,000 tunnell o wastraff gweddilliol (heb ei ailgylchu) yn 2012. Mae gwastraff a reolir yn cynnwys gwastraff solet trefol, gwastraff masnachol a diwydiannol, gwastraff adeiladu a dymchwel, gwastraff peryglus a chwalu gwastraff amaethyddol dan reolaeth. Cynhyrchwyd 135,000 tunnell o wastraff adeiladu a dymchwel gweddilliol yn 2012. Mae data mwy cyfoes ar gael ar gyfer gwastraff solet trefol, a chynhyrchwyd 161,000 tunnell o wastraff gweddilliol o'r math hwn yn ystod 2016/17. O ran gwastraff peryglus, mae'r cyfraddau a gynhyrchwyd yn gyffredinol wedi aros ar lefel debyg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er nad oes gan Gymru unrhyw safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff peryglus, mae'r wlad yn cael ei gwasanaethu'n dda gan fathau eraill o gyfleusterau sy'n delio â gwastraff o'r fath. Nid oes unrhyw ddata diweddar ar gael ar gyfer gwastraff amaethyddol.

6.7 Roedd cyfran y gwastraff trefol a ailgylchwyd neu a gompostiwyd yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2016/17 yn 66.2%. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, sef 64.3% a chyfartaledd Cymru sef 63.8% (StatsCymru). Mae'r ddibyniaeth ar safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff gweddilliol wedi gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf o 30,022 tunnell yn 2012/13 i 3,960 tunnell yn 2016/17. Fodd bynnag, yn yr arolygon diweddaraf, mae hyn wedi cynyddu ychydig i 17,523 o dunelli, yn bennaf o achos newidiadau yn y farchnad ailgylchu (Ffigur 20). Mae'r duedd gyffredinol hon tuag at gynyddu cyfraddau ailgylchu a lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn arwydd calonogol, ac yn cyd-fynd â'r targedau cenedlaethol fel y'u nodir yn y strategaeth wastraff genedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.

[9] Ffynhonnell data Cyngor Sir Caerfyrddin: http://geodiscoverer/




*Ffigur 20 Rheolaeth flynyddol ar reoli gwastraff yn ôl dull (mewn tunelli). Ffynhonnell: StatsCymru*

6.8 Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (2012), rhanbarth De-orllewin Cymru sydd â'r cyfraddau uchaf o ran paratoi gwastraff diwydiannol a masnachol er mwyn ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio (67%). Fodd bynnag, tirlenwi oedd yr ail ddull o reoli gwastraff oedd yn cael ei ddefnyddio fwyaf (21%). Ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol, canfu Cyfoeth Naturiol Cymru (2012) mai tirlenwi oedd y prif ddull o reoli gwastraff yn y De-orllewin (57%) gydag ailgylchu yn ail (31%).

6.9 Oherwydd bod llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, mae'r lle gwag sy'n weddill ar gyfer y rhanbarth yn uwch na'r trothwy a nodir yn TAN 21 (7 mlynedd). Fodd bynnag, mae rhannau o ranbarth De-orllewin Cymru'n dibynnu ar ddefnyddio ardaloedd y tu allan i'r rhanbarth i ymdrin â gwastraff gweddilliol (gan gynnwys contractau â chyfleusterau dramor). Mae'n amlwg fod yna ddiffyg cyfleusterau amgen i ddelio â gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth ac mae hwn yn fater y bydd angen ei fonitro'n agos dros y blynyddoedd nesaf.

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Pe na bai'r CDLl ar waith, byddai Polisi a Deddfwriaeth Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau arfaethedig wthio gwastraff i fyny'r hierarchaeth ac i weld cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau. Fodd bynnag, byddai clustnodi cyfleuster gwastraff gweddilliol os a phan fo angen, yn anodd â chynllun datblygu ar waith.

# 7 Priddoedd

## Ansawdd y Pridd

7.1 Yng Nghymru gyfan ceir nifer fawr o gynefinoedd sensitif lle mae'r cyfraddau asideiddio (dyddodiad asid) ac ewtroffeiddio (cyfoethogi maetholion) yn uwch na'r llwythi critigol. Ystyrir bod llygryddion yn achosi niwed sylweddol o ran asideiddio ac ewtroffeiddio os ydynt yn uwch na'r gwerthoedd critigol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007b). Dylid nodi bod y tueddiadau a nodwyd ar gyfer y cyfraddau asideiddio yn achos cynefinoedd sensitif yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod priddoedd mewn ardaloedd ucheldir yn fwy agored i effeithiau asideiddio oherwydd eu gallu isel i niwtraleiddio (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007b).

7.2 Yng Nghymru, mae canran y cynefinoedd lle mae ewtroffeiddio'n uwch na'r llwythi critigol wedi gostwng llai na 10% (o 98% i 90.3%) rhwng 1995 a 2013, ond mae maintioli'r gormodedd cyfartalog wedi lleihau 44%, o 15.8 kg N ha y flwyddyn yn 1995 i 8.9 kg N ha y flwyddyn yn 2013. Yng Nghymru, mae canran y cynefinoedd ag asid sy'n uwch na'r llwythi critigol (gweler NOx) wedi gostwng o 90% yn 1995 i 74% yn 2013. Dros yr un cyfnod mae maintioli'r gormodedd cyfartalog o ran asid wedi lleihau 65% (o 1.36 keq ha y flwyddyn i 0.45 keq ha y flwyddyn). [10]

7.3 Mae data ar lwythi critigol y llwythi nitrogen maethol yn ôl dyddodiad nitrogen (Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg 2004) yn nodi bod yna ragweld y bydd y graddau y byddant yn uwch na'r llwythi critigol mewn priddoedd yn lleihau; fodd bynnag, byddant yn dal i fod yn uwch na'r llwythi critigol mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin yn 2010. Yn yr un modd, rhagwelir y bydd y llwythi critigol yn ôl dyddodiad asid mewn priddoedd yn gostwng erbyn 2010, er y byddant yn parhau i fod yn uwch na'r llwythi critigol mewn rhai ardaloedd.


7.4 Mae priddoedd yn ddalfa garbon bwysig, ac felly gall gwarchod pridd gyfrannu at glustogi effeithiau newid yn yr hinsawdd fel y'u rhagwelir.

## Daeareg

7.5 Gellir rhannu daeareg solet a drifft y Sir i nifer o gategorïau eang:

- Y gyfres Silwraidd - sydd i'w chael yn rhan fwyaf gogleddol y Sir.
- O amgylch y gyfres Silwraidd ceir y gyfres Ordofigaidd sy'n ffurfio prif strata'r Sir.
- Ceir Hen Dywodfaen Goch sy'n ymestyn mewn band eang o'r gorllewin i'r dwyrain yn ardaloedd canolog y sir.
- Ceir Calchfaen Carbonifferaidd o amgylch Pentywyn ac mewn band cul o Gydweli yn y de sy'n ymestyn tua'r dwyrain i'r gogledd o Rydaman ac i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Ceir Cyfres Grut Melinfaen hefyd mewn band cul, ac mae'n gorwedd ar ben y gyfres calchfaen carbonifferaidd.
- Mae'r gwelyau glo canolig ac is i'w cael yn Ne-ddwyrain y Sir.
- Ceir llifwaddodion yn nyffrynnoedd afonydd Tywi, Teifi a Llwchwr yn ogystal â'r ardaloedd arfordirol isel o gwmpas Pentywyn, Pen-bre a Llanelli.

[10] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=en




*Ffigur 21 Daeareg Sir Gaerfyrddin*

## Geoamrywiaeth a Geogadwraeth

7.6 Mae pwysigrwydd gwarchod safleoedd sy'n adlewyrchu geoamrywiaeth tirwedd y DU a'r amgylchedd naturiol bellach yn cael ei gydnabod yn elfen sydd o bwys mawr yng nghyd-destun cynllunio a datblygu defnydd tir cynaliadwy. Gall safleoedd o'r fath ddarparu mynediad i graigwelyau allweddol, dyddodion arwynebol ac unedau pridd sy'n cynnwys tystiolaeth ddadlennol o gyfnodau blaenorol o newid amgylcheddol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a newid defnydd tir; mae llawer yn cofnodi hanes echdynnu mwynau lleol a datblygiadau diwydiannol cysylltiedig; safleoedd eraill oedd yr unig fannau lle gellid cael cerrig adeiladu, ac maent yn parhau felly, sy'n cyfrannu at ein treftadaeth bensaernïol.

## Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS)

7.7 Ar hyn o bryd RIGS yw'r lleoedd pwysicaf ar gyfer gwarchod Gwyddor Daear y tu allan i dir a warchodir yn statudol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae RIGS yn ffurfio rhwydwaith o fewn sir neu ranbarth o safleoedd daearegol yr ystyrir eu bod yn deilwng o gael eu gwarchod oherwydd eu pwysigrwydd i Wyddor Daear. Cânt eu dynodir gan feini prawf a ddatblygir yn lleol, a all fod yn pwysleisio'r adnodd addysgol, hanesyddol a hamdden lleol yn hytrach na'u harwyddocâd gwyddonol cenedlaethol, sydd yn dod o dan gylch gorchwyl statws SoDdGA. Mae RIGS yn ffurfio rhwydwaith o safleoedd ail haen sy'n ategu'r safleoedd SoDdGA ond nad oes ganddynt amddiffyniad statudol. Fodd bynnag, mae dynodiad RIGS yn un ffordd o gydnabod, ac felly warchod, nodweddion Gwyddor Daear a thirwedd pwysig trwy system gynllunio'r awdurdodau lleol ar gyfer y dyfodol.

## RIGS yn Sir Gaerfyrddin

7.8 Mae Arolwg Daearegol Prydain (BGS) wedi darparu data RIGS ar gyfer Sir Gaerfyrddin fel rhan o archwiliad RIGS De Cymru. Mae'r data'n nodi 32 o safleoedd RIGS yn rhan De-

ddwyreiniol y Sir.  Gwyddys bod safleoedd pellach wedi cael eu gwerthuso mewn rhannau eraill o'r Sir gan Grŵp RIGS De-orllewin Cymru.  Ymgynghorir â'r BGS fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLl mewn perthynas ag unrhyw newidiadau/diweddariadau i RIGS.

### Hydroddaeareg

7.9 Mae dŵr daear yn adnodd sylweddol sy'n cyflenwi llifoedd gwaelodol i afonydd a gwlyptiroedd lleol. Yn hanesyddol mae wedi cael ei ddefnyddio er mwyn cael dŵr yfed ac at ddibenion masnachol.  Mae'r ffurfiannau calchfaen carbonifferaidd yn ffurfio dyfrhaen bwysig sy'n dal dŵr y gellir ei defnyddio i echdynnu cyflenwadau mawr o ddŵr ar gyfer y cyhoedd neu at ddibenion eraill.

7.10 Defnyddir y galchfaen garbonifferaidd ym Mhentywyn i echdynnu cyflenwad dŵr ar gyfer y cyhoedd.

7.11 Mae ffurfiannau creigiau'r Hen Dywodfaen Goch a Grut Melinfaen yn ddyfrhaenau llai sy'n bwysig yn lleol fel ffynonellau dŵr daear, er y gall ffawtiau leihau effeithiolrwydd y creigiau hyn fel dyfrhaenau. Mae'r gwelyau glo yn Ne-ddwyrain y Sir hefyd yn ffurfio dyfrhaen lai.

7.12 Mae'r dyddodion llifwaddodol ar hyd Afonydd Teifi, Tywi a Llwchwr yn ddyfrhaenau llai. Yn ardal Afon Teifi gwneir defnydd helaeth o'r dyddodion graean llifwaddodol at ddibenion cyflenwad cyhoeddus ac amaethyddol.

### Dosbarthiad Tir Amaethyddol

7.13 Yn ôl y data Dosbarthiad Tir Amaethyddol sydd ar gael, nid oes tir o'r graddau uchaf (Gradd 1 a Gradd 2) yn Sir Gaerfyrddin.  Ceir clytwaith o dir Gradd 3 wedi'i leoli tua De a De-ddwyrain y Sir yn dilyn dyffryn afon Tywi, sy'n ymestyn o Lanymddyfri yn y dwyrain, trwy Langadog, Llandeilo a Chaerfyrddin. Caiff y rhan fwyaf o'r tir yn Sir Gaerfyrddin ei ddosbarthu fel tir Gradd 4, gyda chyfran fach o dir Gradd 5 wedi'i leoli tua Gogledd-ddwyrain y Sir.

### Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Mae Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau 1 a 2 yn mynnu bod adnoddau mwynol yn cael eu diogelu ar Fapiau Cynnig y CDLl ac y dylid mapio ardaloedd lle na fyddai gwaith glo yn dderbyniol hefyd. Yn absenoldeb y CDLl, ni fyddai'r adnoddau hyn yn cael eu mapio na'u diogelu.


# 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol.

8.1 Oherwydd y pellterau mawr yn aml sydd rhwng canolfannau rhanbarthol yn Sir Gaerfyrddin, mae trefi a phentrefi yn hanesyddol wedi datblygu hunaniaeth a diwylliannau lleol arbennig, yn seiliedig ar dreftadaeth ddiwydiannol ac amaethyddol.

**Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol**

8.2 Ceir saith Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin:-

- Dyffryn Tywi, Myddfai a'r Mynydd Du
- Dyffryn Tywi
- Preseli
- Dolau Cothi
- Aberoedd Afonydd Taf a Thywi
- Dre-fach - Felindre
- Rhan Isaf Dyffryn Teifi





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.3 Dywed Polisi Cynllunio Cymru: 'Wrth lunio eu cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru a dylent ddatblygu polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ac a fydd yn cyfrannu at eu gwarchod a'u gwella. Hefyd, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru, a phan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny, dylent ddatblygu polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ac a fydd yn cyfrannu at y gwaith o'u cadw.[11]

[11] Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) – Paragraff 6.4.12

8.4 Mae manylion pellach ynglŷn â'r Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol a'u nodweddion tirwedd hanesyddol i'w gweld isod.

**Dyffryn Tywi, Myddfai a'r Mynydd Du**





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.5 Mae ardal gymeriad **Trap** yn dir caeëdig sy'n cynnwys clostiroedd bach a phocedi o glostiroedd rheolaidd mwy o faint. Y patrwm anheddu yw un o dai a ffermydd gwasgaredig gyda chlwstwr o anheddau o'r 19eg ganrif a rhai modern ym mhentref Trap.
Gorwedd ardal gymeriad **Cennen Uchaf** ym mhen uchaf dyffryn afon Cennen sydd â llethrau serth coediog iawn, a thir wedi ei rannu'n gaeau gyda ffermydd gwasgaredig ar dir mwy gwastad.
Mae ardal gymeriad **Beddau y Derwyddon** yn ardal fechan o dir pori garw ac wedi ei wella wedi ei amgylchynu gan wal gerrig yn gwahanu gweundir agored oddi wrth dir caeëdig is a anheddir.
Gorwedd ardal gymeriad **Dafadfa** ar lethrau esmwyth sy'n wynebu'r gogledd ac mae'n cynnwys tir pori wedi'i wella wedi ei rannu'n gaeau canolig eu maint a lled reolaidd. Mae'r patrwm anheddiad yn un o ffermydd gwasgaredig iawn. Mae'r ffermdai a'r tai allan yn bennaf o'r 19eg ganrif ac wedi eu codi o gerrig.
Mae ardal gymeriad **Blaensawdde** yn gorwedd yn rhan uchaf dyffryn afon Sawdde wrth droed y Mynydd Du. Mae'n cynnwys ffermydd mawr gwasgaredig, caeau bach i ganolig eu maint a choedydd. Mae'r ffermdai yn dyddio'n bennaf i'r 18fed a'r 19eg ganrif ac maent yn gysylltiedig ag ystod eang o dai allan.
Ceir sawl cyn ystâd yn ardal gymeriad **Cilgwyn-Llwynywermod**. Mae rhai o'r plasdai wedi goroesi, ond y prif ddylanwad ar y cymeriad hanesyddol gan yr ystadau oedd creu'r dirwedd parcdir.
Gorwedd ardal gymeriad **Rhiwiau** ar draws y gefnen. Er iddi fod wedi'i rhannu'n gaeau yn flaenorol mae llawer o'r hen gloddiau a gwrychoedd yn awr wedi dymchwel ac mae gwedd agored i'r dirwedd. Nid oes anheddau.

Mae ardal gymeriad **Planhigfa Pen Arthur** yn gorwedd ar draws cefnen uchel ac ochrau dyffryn afon Sawdde. Mae'n cynnwys coedwigaeth o'r 20fed ganrif a blannwyd ar gyn gaeau. Goroesa anheddau mewn cliriadau yn y blanhigfa.
Gorwedd ardal gymeriad **Trichrug** ar draws cefnen sy'n codi o ardal o dir amaethyddol cyfoethog. Er ei bod wedi ei rhannu'n gaeau gynt mae llawer o'r cloddiau a'r ffiniau cerrig wedi eu dymchwel ac mae'r ardal yn awr yn frodwaith o dir pori a wellwyd, tir pori garw, gweundir a phlanhigfeydd coniffer.
Gorwedd ardal gymeriad **Myddfai** mewn dyffryn agored ac mae'n cynnwys ffermydd gwasgaredig a chaeau tir pori cymharol reolaidd. Mae pentref Myddfai gyda'i eglwys ganoloesol yn ganolbwynt i'r ardal.
Mae ardal gymeriad **Llanddeusant-Capel Gwynfe** yn cynnwys tir amaethyddol a Rannwyd yn gaeau, ffermydd gwasgaredig a choedydd collddail gwasgarog sy'n cyffinio â gweundir agored y Mynydd Du.
Gorwedd ardal gymeriad **Cefntelych** ar draws cefnen isel ac mae'n cynnwys tir pori wedi'i wella a rannwyd yn gaeau mwy o faint. Mae cloddiau'r caeau erbyn hyn bron i gyd wedi dymchwel, gan roi gwedd agored i'r dirwedd.
Gorwedd ardal gymeriad **Maes-gwastad** ar draws gwaelod dyffryn afon Brân ac mae'n cynnwys caeau mawr o dir pori wedi'i wella a rennir gan gloddiau cymen, ffermydd gwasgaredig ond heb fawr iawn o goedwigoedd na choed unigol.
Gorwedd ardal gymeriad **Pentregronw** ar lethrau serth sy'n gogwyddo tua'r de- orllewin ar ymyl y Mynydd Du. Er ei bod wedi ei rhannu'n gaeau gynt gan waliau a chloddiau mae'r ardal hon yn dychwelyd yn gyflym i fod yn weundir. Lleolir ffermdy a adawyd yn segur yn yr ardal hon.
Gorwedd ardal gymeriad **Allt y Ferdre** ar draws bryniau ac ochrau dyffryn serth iawn. Mae'n cynnwys yn ei chyfanrwydd dir coediog, yn goed collddail hynafol a phlanhigfeydd coniffer o'r 20fed ganrif.
Mae ardal gymeriad **Fforest Glasfynydd - Cronfa Ddŵr Afon Wysg** yn cynnwys planhigfa goniffer o'r 20fed ganrif a chronfa ddŵr o'r 20fed ganrif. Sefydlwyd y ddwy ar dir a oedd yn bennaf yn weundir agored.
Mae ardal gymeriad **Banc Wernwgan - Chwareli Foel Fraith** ar ymyl gogleddol y Mynydd Du. Gweundir agored ydyw. Elfennau amlwg yn y dirwedd hanesyddol yw olion y diwydiant cloddio am garreg galch.
Gweundir hollol agored yw ardal gymeriad **Y Mynydd Du**. Mae'n cynnwys copaon Bannau Sir Gâr/Fan Brycheiniog ar uchder o dros 800m, ond yn bennaf mae'n Cynnwys tir pori garw a mawnogydd blanced rhwng 250m a 600m.
Mae ardal gymeriad **Cilymaenllwyd** yn cynnwys ffermydd a bythynnod gwasgaredig a chaeau eithaf rheolaidd o dir pori wedi'i wella. Mae'r ffiniau o gloddiau a gwrychoedd. Dyddia'r rhan fwyaf o'r ffermdai a'r adeiladau eraill o'r 19eg ganrif.
Gorwedd ardal gymeriad **Blaen Cennen** ar ymyl gogleddol y Mynydd Du ac mae'n cynnwys ffermydd gwasgaredig a chaeau tir pori.
Mae ardal gymeriad **Castell Carreg Cennen** yn cynnwys bryn carreg galch greigiog ac ar ei gopa lleolir olion sylweddol castell canoloesol.

**Dyffryn Tywi**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.6 **Llangynog** - Llangain mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys tirwedd donnog o gaeau afreolaidd, coetir a phlanhigfeydd ar lethrau serth dyffrynnoedd a ffermydd gwasgaredig, a datblygiad preswyl modern ar raddfa fach gerllaw Caerfyrddin.

**Gorlifdir Afon Tywi** ceir llifogydd yn rheolaidd yn yr ardal gymeriad hon ac o ganlyniad nid oes ganddi fawr ddim elfennau tirwedd hanesyddol ar wahân i ffosydd draenio a ffensys, a chymhorthion morlywio yn sianel Afon Tywi.

**Caerfyrddin** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys y dref sirol i gyd, gan gynnwys y craidd hanesyddol, datblygiadau tai a seilwaith yn perthyn i'r 20fed ganrif.

**Ystrad Tywi: Caerfyrddin- Llandeilo** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys gorlifdir Afon Tywi. Mae ffermydd wedi'u gwasgaru'n eang ar ynysoedd o dir ychydig yn uwch, a choed gwrych nodweddiadol yn rhoi golwg parcdir i'r dirwedd.

**Abergwili - Plwyf Llanegwad** lleolir yr ardal gymeriad hon ar ochr ogleddol Afon Tywi ac yn ei hanfod mae'n cynnwys caeau afreolaidd bach o borfa wedi'i gwella, coetir collddail ar lethrau serth dyffrynnoedd a ffermydd gwasgaredig o gerrig.

**Morfa Melyn** yr ardal gymeriad hon yw'r rhan fach honno o orlifdir Afon Tywi i fyny'r afon o Gaerfyrddin sy'n cael ei boddi gan y llanw yn achlysurol. Yn ei hanfod mae'n cynnwys porfa agored, heb fawr ddim ffiniau.

**Plwyfi Llangynnwr - Llanarthne** lleolir yr ardal gymeriad hon ar lethrau sy'n wynebu'r gogledd ar ochr ddeheuol dyffryn Tywi ac mae'n cynnwys caeau bach, coetir a ffermydd bach gwasgaredig.

**Abergwili** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys pentref o dai sy'n dyddio yn bennaf o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif ar hyd ffordd yr A40 (sydd â ffordd osgoi yn mynd heibio iddo erbyn hyn), yr eglwys ganoloesol, adeilad modern Llys Esgob Tyddewi, yr hen lys (sef Amgueddfa Caerfyrddin erbyn hyn) a'i barcdir, a datblygiadau preswyl modern.

**Croesyceiliog - Cwmffrwd** mae'r ardal gymeriad hon wedi'i hamgáu'n gaeau canolig eu maint o borfa wedi'i gwella. Cyfyngir clystyrau bach o goetir yn bennaf i lethrau serth. Yn ogystal â'r patrwm anheddu hynafol o ffermydd gwasgaredig ceir datblygiadau llinellol mwy diweddar ar hyd y priffyrdd sy'n ymestyn allan o Gaerfyrddin.

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys hen erddi a pharcdir Neuadd Middleton. Mae'r dirwedd hon wrthi'n cael ei hadfer a'i hadnewyddu, gan gynnwys adeiladu tŷ gwydr mawr.

**Llanarthne** mae'r ardal gymeriad hon wedi'i chanoli ar bentref Llanarthne, sydd â hen graidd wedi'i seilio ar eglwys y plwyf sy'n perthyn i'r cyfnod Canoloesol, ond sy'n cynnwys llawer o ddatblygiadau modern. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys ffermdir bras a ffermydd gwasgaredig.

**Llanfihangel Aberbythych** yn ei hanfod mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys tir ffermio tonnog amgaeëdig, coetir ar lethrau serch dyffrynnoedd a ffermydd gwasgaredig. Cyfyngir datblygiadau preswyl o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif i bentrefannau bach a datblygiadau llinellol ar hyd priffyrdd.

**Nantgaredig - Derwen Fawr** mae'r ardal gymeriad hon yn ymestyn ar draws bryniau tonnog ar ochr ogleddol dyffryn Tywi ac yn cynnwys ffermydd mawr gwasgaredig mewn tirwedd o gaeau bach i ganolig eu maint. Mae datblygiadau llinellol a chnewyllol modern wedi'u canoli ar hyd ffordd yr A40 sy'n mynd trwy'r ardal.

**Llangathen** mae'r ardal gymeriad hon wedi'i chanoli ar eglwys Llangathen a'i hanheddiad cysylltiedig, a thŷ a gerddi Aberglasne sy'n cael eu hadfer ar hyn o bryd. Tir pori wedi'i amgáu a ffermydd gwasgaredig yw'r dirwedd yn gyffredinol.

**Gelli Aur** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys plasty, gerddi a pharc Gelli Aur, planhigfa goniffer, y mae rhannau ohoni yn tresmasu ar draws y cyn-barc, a Llanfihangel Aberbythych, sef pentref yr ystad.

**Allt Pant Mawr** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys llethr serth ochr ddeheuol dyffryn Tywi, llethr a orchuddir gan goed. Wedi'u gwasgaru yma ac acw gyda'r coetir ceir tyddynnod a bythynnod wedi'u gosod mewn system nodweddiadol o gaeau bach.

**Parc Dinefwr** yn ei hanfod mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys tai o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, gerddi a pharc Dinefwr ynghyd â'r castell. Mae'r tŷ a'r rhan fwyaf o'r parc yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn cadw llawer o'u helfennau hanesyddol.

**Ystrad Tywi: Llandeilo - Llangadog** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys gorlifdir yr afon. Nid oes unrhyw aneddiadau na choetir, er bod y gorlifdir wedi'i rannu'n system gaeau eithaf llac o glostiroedd canolig i fawr eu maint.

**Cwmifor - Manordeilo** mae'r ardal gymeriad hon yn ymestyn ar draws bryniau tonnog isel ar ochr ogleddol dyffryn Tywi. Mae'n cynnwys patrwm anheddu hynafol o ffermydd gwasgaredig, porfa amgaeëdig a chlystyrau bach o goetir, a datblygiadau llinellol a chnewyllol o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif ar hyd ffordd yr A40.

**Llandeilo** mae'r ardal gymeriad hon yn un drefol o ran cymeriad. Lleolir craidd hanesyddol y dref sy'n cynnwys adeiladau o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif yn bennaf gerllaw ffordd yr A483 ac o amgylch eglwys y plwyf. Lleolir datblygiadau diweddarach yn dyddio o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif y tu allan i'r craidd.

**Allt Tregyb** mae'r ardal gymeriad hon yn gorwedd ar lethrau Dyffryn Tywi sy'n wynebu'r gogledd ac yn cynnwys coetiroedd collddail yn gymysg â chaeau afreolaidd bach a ffermydd bach, tyddynnod a bythynnod gwasgaredig.

**Felindre** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys anheddiad cnewyllol bach o dai sy'n perthyn yn bennaf i'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Y tu allan i'r anheddiad hwn ceir nifer o dyddynnod sydd wedi'u gwasgaru'n llac mewn system o lain-gaeau amgaeëdig.

**Tir Comin Carreg-Sawdde** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys tir comin agored; yng nghanol y tir comin hwn lleolir clwstwr o adeiladau o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif - sy'n dresmasiadau ar y tir comin.

**Llangadog,** mae ardal gymeriad Llangadog wedi'i chanoli ar yr eglwys ganoloesol, Stryd yr Eglwys a 'sgwâr' fach. Mae'r adeiladau ar y sgwâr yn rai trawiadol ac yn dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Lleolir datblygiadau preswyl o ddiwedd y 19eg ganrif a thai ac unedau diwydiannol ysgafn o'r 20fed ganrif ar gyrion y dref.

**Cefngornoeth** mae'r ardal gymeriad hon yn ymestyn ar draws esgair fryniog, isel ar ochr ogleddol dyffryn Tywi, ac yn cynnwys ffermydd gwasgaredig, caeau afreolaidd a chlystyrau bach o goetir.

**Ystrad Tywi: Llangadog - Llanymddyfri** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys gorlifdir a llethrau isaf dyffryn Tywi. Nodweddir yr ardal gan ffermydd mawr gwasgaredig a system gaeau reolaidd. Mae coed nodweddiadol yn rhoi golwg parcdir i'r dirwedd.
**Abermarlais** mae'r ardal gymeriad hon wedi'i seilio ar hen dŷ, gerddi a pharc Abermarlais. Mae'r tŷ wedi mynd erbyn hyn ac mae'r parc a'r gerddi wedi dirywio. Ac yntau wedi'i leoli rhwng hen goetir collddail a phlanhigfeydd coniffer, mae naws agored y parc yn dal i barhau.
**Llansadwrn - Llanwrda** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys Llansadwrn a Llanwrda - sef dau bentref sy'n perthyn i'r 19eg ganrif - a leolir mewn tirwedd o gaeau bach a ffermydd gwasgaredig ar fryniau tonnog, isel ar ochr ogleddol dyffryn Tywi.
**Llanymddyfri** mae Llanymddyfri yn ardal gymeriad drefol ac yn cynnwys craidd hanesyddol y dref sy'n cynnwys y castell canoloesol ac adeiladau o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, ynghyd ag eglwys ganoloesol Llanfair-ar-Bryn, sef eglwys y plwyf, sydd mewn lleoliad anghysbell, a datblygiadau modern.
**Maesllydan** datblygodd ardal gymeriad Maesllydan o system gaeau agored. Mae porfa a amgaewyd yn gaeau rheolaidd yn cynnwys olion amaethu cefnen a rhych. Nodweddir y patrwm anheddu gan ffermydd mawr gwasgaredig yn bennaf.
**Llwynhowell** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys ffermydd sylweddol wedi'u gwasgaru ar hyd llethrau isel Afon Tywi sydd wedi'u gosod mewn tirwedd o gaeau bach afreolaidd o borfa wedi'i gwella, a choetir collddail.
**Cil-y-cwm** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys pentref bach Cil-y-cwm a ffermydd mawr gwasgaredig. Maent yn sefyll mewn tirwedd o gaeau afreolaidd. Mae'r cloddiau o amgylch llawer o gaeau wedi gordyfu, sy'n rhoi gwedd goediog i'r ardal.
**Rhandirmwyn** lleolir yr ardal gymeriad hon yn rhan uchaf y dyffryn. Ffermydd gwasgaredig a chymunedau a ddatblygodd gyda'r mwyngloddiau plwm yn y 19eg ganrif yw'r prif fathau o aneddiadau a geir yn yr ardal. Mae'r caeau'n fach ac yn afreolaidd. Mae coetir, gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt a phlanhigfeydd coniffer yn rhoi golwg dra choediog i'r ardal hon.
**Cwm-y-Rhaeadr** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys llethrau serth iawn. Plannwyd planhigfeydd coniffer ar y mwyafrif o lethrau'r dyffryn, ond ceir ychydig o rostir agored. Lleolir yr ardal uwchben tir ffermio bras ardal gymeriad Cil-y-cwm.
**Nant-y-Ffin** lleolir yr ardal gymeriad hon yn rhan uchaf dyffryn Tywi, sydd â llethrau serth, a'i isafonydd. Mae elfennau tirwedd hanesyddol yn cynnwys ffermydd gwasgaredig - adeiladau o gerrig o'r 19eg ganrif - caeau bach afreolaidd a choetir collddail.
**Craig Ddu** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys llethrau creigiog serth iawn a llwyfandir uchel lle y ceir rhostir. Mae llethrau'r dyffrynnoedd wedi'u gorchuddio â choetir gwasgaredig gyda phorfa arw a rhostir yma ac acw.
**Dinas** lleolir yr ardal gymeriad hon yn rhan uchaf dyffryn Tywi ac mae'n cynnwys llethrau serth wedi'u gorchuddio â choetir collddail trwchus, rhostir agored ar lethrau creigiog a llwyfandir uchel.
**Craig y Bwch** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys ucheldir agored ar ochr ddwyreiniol dyffryn Tywi. O'r llethrau serth mae'r ardal yn lefelu i ffurfio llwyfandir tonnog o borfa arw.
**Carn Goch** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys bryn isel o rostir agored lle y lleolir rhagfuriau cerrig anferth caer bwysig o'r Oes Haearn ac isgaer llai o faint.
**Fforest** mae'r ardal gymeriad hon yn ymestyn ar hyd esgair hir rhwng dyffryn Tywi a dyffryn Brân. Erbyn hyn mae'r patrwm caeau o gloddiau a gwrychoedd wedi torri i lawr i raddau helaeth, a defnyddir ffensys gwifrau i ddal da byw. Mae'r tir yn borfa wedi'i gwella neu'n borfa arw, a cheir coetir prysglog ar lethrau serth.
**Dryslwyn** mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys gwrthglawdd ac olion gwaith maen castell a thref ganoloesol Dryslwyn a leolir ar fryn isel o fewn dyffryn Tywi.
**Bethlehem** lleolir yr ardal gymeriad hon ar ochr ddeheuol dyffryn Tywi ac mae'n cynnwys tirwedd o gaeau bach afreolaidd a chlystyrau bach o goetir collddail a ffermydd gwasgaredig.
**Garn-wen** lleolir yr ardal gymeriad hon ar lethrau sy'n wynebu'r gogledd-orllewin uwchben dyffryn Tywi. Mae'n cynnwys caeau afreolaidd sy'n rhedeg ar dir uchel uwchben, a dwy fferm fawr, sef Garn-wen a Than-y-lan.

**Cynghordy** lleolir yr ardal gymeriad hon ar ochr orllewinol afon Brân a llethr ddwyreiniol Afon Tywi, ac mae'n cynnwys caeau pori bach afreolaidd, coetir, a ffermydd gwasgaredig.
**Plwyf Llanwrda** mae'r ardal gymeriad hon yn ymestyn ar draws bryniau tonnog i'r gogledd o ddyffryn Tywi ac mae'n cynnwys caeau bach afreolaidd, ffermydd gwasgaredig a choetir gwasgaredig.
**Preseli**





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.7 Mae Tirwedd Hanesyddol y Preseli yn croesi ffiniau gweinyddol, gyda'r ardaloedd cymeriad canlynol wedi'u cynnwys yn fwyaf uniongyrchol naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Sir Gaerfyrddin.

**Llangolman** Mae'r ardal gymeriad tirwedd hanesyddol hon yn cynnwys caeau afreolaidd eu siâp, ffermydd a bythynnod gwasgaredig, lonydd cul a choetir ar ochrau serth dyffrynnoedd. Ceir nifer o wahanol fathau o adeiladau yn amrywio o ffermdai mawr i fythynnod unllawr. Carreg yw'r defnydd adeiladu traddodiadol. Rhennir y caeau gan gloddiau neu gloddiau o bridd a cherrig, ac arnynt ceir gwrychoedd. Tir pori yw'r tir amaeth gan mwyaf.
**Carn Wen** Mae'r ardal gymeriad tirwedd hanesyddol hon yn cynnwys bryn bach agored o dir prysglog. Mae olion chwarel a adawyd ar ddiwedd yr 20fed ganrif yn elfen amlwg yn y dirwedd. Nid oes unrhyw aneddiadau, coed na ffyrdd yn yr ardal hon.
**Glandy Cross** Ffordd yr A478 yw canolbwynt yr ardal gymeriad tirwedd hanesyddol hon. Lleolir system o gaeau eithaf rheolaidd eu siâp a ffermydd a bythynnod gwasgaredig o bob tu i'r ffordd hon. Datblygodd tai hirgul ac adeiladau eraill yn dyddio o ddiwedd yr 20fed ganrif yn Glandy Cross ac Efailwen. Mae henebion defodol ac angladdol, gan gynnwys cylch cerrig Meini Gwyr, yn un o nodweddion yr ardal hon.
**Pentre Galar** Roedd yr ardal gymeriad tirwedd hanesyddol hon yn dir comin agored nes iddo gael ei amgáu trwy Ddeddf Seneddol ym 1812. Mae'r system o gaeau rheolaidd eu siâp, y ffermydd gwasgaredig a'r ffyrdd i gyd yn dyddio o'r cyfnod hwn. Carreg yw'r prif ddefnydd adeiladu. Rhennir y caeau gan gloddiau ac arnynt wrychoedd. Tir pori wedi'i wella a lleiniau o dir mwy garw yw'r defnydd a wneir o'r tir.

**Dolau Cothi**





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.8 Mae ardal gymeriad **Dolau Cothi - Pumsaint** yn ymestyn ar draws llawr dyffryn afon Cothi ac mae'n cynnwys pentref Pumsaint, a'r parc a'r gerddi sy'n gysylltiedig â Thŷ Dolau Cothi gynt. Adeiladau o'r 19eg ganrif a godwyd mewn arddull nodedig gan ystâd Dolau Cothi yn y 1850au sydd yn y pentref gan fwyaf.
Lleolir ardal gymeriad **Cwrt-y-cadno** yn nyffryn Cothi uchaf. Tirwedd o ffermydd gwasgaredig, caeau bach a choetir ydyw. Adeiladwyd llawer o'r ffermydd gan ystâd Dolau Cothi yn y 1850au yn arddull nodedig 'llyfr-patrwm'.
Gweddillion y diwydiant cloddio aur sy'n dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid hyd yr 20fed ganrif yw ardal gymeriad **Cloddfeydd Aur Dolau Cothi.** Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar y safle, ac maent wedi ailgodi enghreifftiau o adeiladau sy'n gysylltiedig â chloddio i ddenu ymwelwyr.
Pentref **Caeo** yw canolbwynt ardal gymeriad Caeo. Fodd bynnag, prif elfennau'r dirwedd hon yw ffermydd gwasgaredig a chaeau pori afreolaidd eu maint a gwrthgloddiau a gwrychoedd yn eu rhannu.
Planhigfa fawr o goed coniffer yn dyddio o'r 20fed ganrif wedi'i thaenu dros weundir agored yw **'Fforest Caeo'.**
Mae ardal gymeriad **Banc Llwynceiliog** ar ran uchaf ochr dyffryn afon Cothi. Mae'r hen wrthgloddiau a'r gwrychoedd a fu'n gloddiau terfyn i'r clostiroedd wedi syrthio erbyn hyn ac mae'r ardal, yn ei hanfod, yn ardal o dir pori wedi'i wella. Mae cloddweithiau unionlin dyfrbontydd Rhufeinig sy'n dilyn ochr y dyffryn yn elfennau amlwg yn y dirwedd.
Llwyfandir o weundir uchel yw ardal gymeriad **Mynydd Malláen**. Fe'i hamgylchynir gan ffermydd a chaeau ar dir is ac o boptu iddo ceir tir coedwigaeth.

Mae ardal gymeriad **Dyffryn Fanagoed** yn ymestyn ar draws llawr a llechweddau isaf dyffryn uchel agored, a cheir yno ffermydd gwasgaredig, y mae eu hadeiladau gan fwyaf yn dyddio o'r 19eg ganrif, a chaeau bach afreolaidd eu siâp.
Coetir o goed collddail hynafol a phlanhigfeydd o goed coniffer ar ochrau serth dyffryn Cothi uchaf yw ardal gymeriad **Allt-yr-hebog.**
Coetir o goed collddail ac ychydig o weundir ar lethrau serth a chreigiog dyffryn Cothi uchaf yw ardal gymeriad **Allt-y-Berth.**
Mae ardal gymeriad **Cefn Branddu** yn ymestyn dros gefnen uchel â'i brig yn grwn. Mae hen gloddiau terfyn wedi syrthio erbyn hyn a thir pori agored wedi'i wella, gweundir ynghyd â rhedyn, a choetir o goed collddail ar y llethrau serth o boptu iddi yw tirwedd yr ardal yn ei hanfod yn awr.
Planhigfa goedwigaeth fawr o'r 20fed ganrif wedi'i sefydlu dros weundir uchel yw ardal gymeriad **Bryn Arau Duon.**
Mae ardal gymeriad **Dyffryn Cothi** yn ymestyn ar draws gorlifdir a gwaelod ochrau dyffryn afon Cothi a'i hisafonydd. Fe'i nodweddir gan ffermydd a chaeau pori gwasgaredig. Mae'r hyn a fu gynt yn barcdir yn ymestyn dros lawr y dyffryn nid nepell oddi wrth Rhydodyn a Glan yr Annell.

**Aber Afonydd Taf a Thywi**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.9 Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'r dirwedd; gellir cael rhagor o fanylion am gymeriad yr ardal trwy fynd i: http://www.dyfedarchaeology.org.uk/

8.10 Mae'r ardal arfordirol yma o forydau, iseldiroedd arfordirol, twyni tywod a barrau tywod rhynglanw yn gorwedd ar ochr ogledd ddwyrain Bae Caerfyrddin ar arfordir De Cymru. Tu cefn i'r eangderau hir o dwyni tywod ar ochr ogleddol ddwyrain Bae Caerfyrddin, ar ochr dwyreiniol a gorllewinol cegau aberoedd Afonydd Taf, Tywi a Gwendraeth, mae ardaloedd helaeth o gorsdir isel. Mae'r ardal gyfan yn cynnwys tystiolaeth amrywiol o weithgaredd o'r cyfnod cynhanesyddol hyd y cyfnod diweddar yn ogystal â'r drefn ganoloesol Hugden o gaeau agored ar y gefnen arfordirol isel i'r gorllewin o Dalacharn.

8.11 Mae'r arfordir presennol yn un sy'n newid, oherwydd symudiadau parhaus y tywod, ond mae waliau môr a thraeniau, ac o'u blaenau forfeydd y daw'r llanw drostynt, yn diogelu'r tir a adenillwyd. Trwy ddefnyddio cyfraniad o dystiolaeth archeolegol, astudiaeth o nodweddion creiriol a rhai byw yn y tirweddau presennol, a ffotograffau o'r awyr, a ffynonellau cartograffig a dogfennol, darganfuwyd sut yr esblygodd y tirwedd hwn, a grëwyd yn bennaf trwy waith dynol.

8.12 Ar derfyn gogledd y gors orllewinol neu Gors Talacharn a moryd Gwendraeth mae etifeddiaeth ddaearegol o linell o glogwyni môr gyda chyfordraeth wrth eu bôn. Er bod gwaith chwarela wedi'u dinistrio erbyn hyn, yr oedd unwaith ogofâu yng nghalchfaen Coygan Bluff, a oedd ger glan y môr ar un adeg, lle cafwyd defnydd o'r cyfnod Uwch Balaeolithig. Gwelwyd hefyd wrth gloddio'r fryngaer a oedd yno cyn y chwarela ddilyniant hir o breswyliaeth o'r cyfnod Neolithig i'r Canol Oesoedd cynnar. Mae angen rhagor o ymchwil i ganfod ble yr oedd y morlin yn ystod y cyfnodau Rhufeinig a chanoloesol, ond mae'n sicr bod trefi cestyll Cydweli a Thalacharn yn llawer mwy agored i'r môr gynt nag yn awr.

8.13 Ni ellir canfod erbyn hyn o ble yn union y daeth llawer o'r darganfyddiadau o'r cyfnodau cynhanesyddol a chanoloesol a gafwyd yn Nhwyni Lacharn, ond mae lleoliad tomennydd cregin o fewn y ddwy gyfundrefn dwyni, lle cafwyd crochenwaith canoloesol, o bwysigrwydd hanfodol i bennu trefn amser y newidiadau i'r morlin a'r gwaith cau tir. Byddai'n fuddiol pe gellid eu cloddio y dyddiau hyn.


8.14 Yr oedd yr hen Witchett Brook yn rhannu Cors Talacharn yn Gors Ddwyreiniol a Gorllewinol, a defnyddiwyd yr un orllewinol fel tir pori ar forfa heli yn y Canol Oesoedd cyn adeiladu unrhyw furiau rhag y môr, ac efallai y bu hefyd aneddiadau yn yr un cyfnod ar y safleoedd ychydig uwch ar y Gors Ddwyreiniol, lle saif ffermydd 'nawr. Mae olion muriau môr o'r 17ail ganrif a chyfres o waith cau tir o ran gyntaf y 19edd ganrif wedi'u cadw'n dda er eu bod yn rhannol o fewn tir saethu'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn. Yr oedd tramffordd a chilfachell fach, Railsgate Pill, yn darparu mynediad o chwarel Coygan i'r afon yn Nhalacharn, ac mae'r rhain wedi'u cadw'n dda hyd heddiw fel tystiolaeth o oes ddiflanedig o fasnach trwy borthladdoedd bach y morydau, masnach a barhaodd hyd yr Ail Ryfel Byd.

8.15 Fel yn Nhalacharn, yr oedd modd cau tir Cors Pen-bre oherwydd fod twyni tywod wedi datblygu ac yn rhoi cysgod rhag y môr. Mae hanes diwydiannol Pen-bre a chanlyniadau hynny yn fwy cymhleth gyda cyfres hynod o gamlesi cynnar yn arwain at geiau a mannau llwytho llongau. Datblygwyd y rhain i allforio glo caled maes glo De Sir Gaerfyrddin, o tua dechrau'r 18fed ganrif ymlaen. Aent ar draws tir a gaewyd o'r môr rhwng Twyni Pen-bre a'r tir mawr yn ystod rhan olaf y 17ail ganrif, os nad yn gynharach. Mae olion cloddwaith i'w gweld o'r awyr ac ar wyneb y ddaear yn y ddwy Gors, yn dangos technegau trin a thraenio tir ar dir amaeth, a welwyd gan bobl y gwelliannau amaethyddol, er enghraifft Charles Hassall yn gynnar yn y 19edd ganrif, fel y man i arbrofi gyda thechnegau amaethyddol modern. Mae hyn yn wahanol iawn i'r drefn Hugden o eiddo Corfforaeth Talacharn lle goroesodd caeau agored canoloesol a ddyrennir yn gymunedol, heb eu cau hyd heddiw, hwythau hefyd o fewn terfynau'r ardal hon.

8.16 Mae newidiadau'r 20fed ganrif yn fwy amlwg ar Dwyni Pen-bre, sydd 'nawr wedi'u gorchuddio gan blanhigfa goed o'r 1920au. Defnyddiwyd y tir hwn at wahanol ddibenion diwydiannol yn gynnar yn yr 20fed ganrif gan arwain at faes awyr yn ystod y rhyfel a Gwaith Ordnans Brenhinol, ac mae un o'i adeiladweithfeydd a oroesodd 'nawr yn Heneb Cofrestredig. Bu gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn nodwedd bwysig o'r defnydd a wnaed, ac a wneir, o'r tir hwn yn yr 20fed ganrif, o ymdrechion y teulu Campbell a Parry Thomas yn 'Babs' i dorri'r record am y cyflymder uchaf ar dir yn yr 1920au ar hyd Traeth Pentywyn, hyd at greu Parc Gwledig ar Dwyni Pen-bre yn yr 1980au. Yr oedd Bar Caerfyrddin yn enwog am longddrylliadau ac mae nifer ohonynt i'w gweld yn amlwg ac o fewn cyrraedd ar y trai, tra

datgelir rhai eraill o dro i dro gan y tywod sy'n symud yn barhaus. Yn olaf, rhaid cofio am Talacharn oherwydd y cysylltiadau llenyddol gyda'r bardd Dylan Thomas a'i olwg ef ar fywyd mewn cymuned fach Gymreig yn ystod canol yr 20fed ganrif.[12]

**Dre-fach - Felindre**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.17 Mae **Dre-fach Felindre** yn ardal gymeriad dirwedd hanesyddol ddiwydiannol sy'n seiliedig ar y diwydiant gwlân. Mae melinau, tai gweithwyr, tai perchenogion, eglwysi a chapeli wedi'u hadeiladu o gerrig sydd wedi'u clystyru mewn nifer o bentrefi yn tystio i dwf cyflym y diwydiant hwn ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif.

Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Dyffryn Bargod a Dyffryn Esgair** gan goetir collddail ar lethrau serth uwchlaw aneddiadau diwydiannol Dre-fach a Felindre.

Mae ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Afon Teifi: Castellnewydd Emlyn – Llandysul** yn cynnwys tir pori bras y gorlifdir. Ni cheir unrhyw dai ond cynhwysir dwy bont gerrig yn dyddio o'r 18fed ganrif.

Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Coed Mawr** gan gaeau bach, rheolaidd eu siâp a grëwyd trwy Ddeddf Seneddol yn 1855 a choetir collddail.

Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Llangeler** gan ffermydd gwasgaredig o fewn tirwedd o gaeau o dir pori a choetir ar lethrau mwy serth a rhai melinau gwlân a thai gweithwyr yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif gerllaw afon Teifi.


Er bod ffermydd bach, bythynnod ac adeiladau eraill yn tystio i'w tharddiad yn y 19eg ganrif, nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Saron–Rhos** yn bennaf oll gan ddatblygiadau tai llinellol modern sy'n ymestyn am sawl cilomedr ar hyd priffordd yr A484.

Ymddengys i ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Bwlch-Clawdd – Cwmbach** ddatblygu ar ddiwedd y 18fed ganrif pan sefydlwyd ffermydd a chaeau bach ar rostir agored. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau yn fodern. Cynhwysir dau grug crwn yn dyddio o'r Oes Efydd a chlawdd Clawdd-Mawr yn dyddio o ddechrau'r cyfnod canoloesol yn yr ardal hon.

[12] Nodweddion Tirweddau Hanesyddol - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Crëwyd rhan helaeth o ardal gymeriad dirwedd hanesyddol bresennol **Rhos Penboyr** gan Ddeddf Seneddol yn 1866 a amgaeodd rostir agored i greu caeau. Ers hynny sefydlwyd ffermydd bach, planhigfeydd o goed coniffer, 'llinell atal' a adeiladwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a thri thyrbin gwynt.
Mae ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Waunfawr** yn deillio i raddau helaeth o Ddeddf Seneddol yn 1866 a amgaeodd rostir i greu caeau rheolaidd eu siâp ac a sefydlodd lonydd syth yn rhedeg ar ei draws. Sefydlwyd ffermydd bach ar ôl hynny. Mae dau grug crwn yn dyddio o'r Oes Efydd wedi goroesi o gyfnod llawer cynharach.
Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Penboyr** gan ddosbarthiad agos o ffermydd bach mewn tirwedd o gaeau a rennir gan wrychoedd ar gloddiau. Ar wahân i ambell dŷ modern, mae bron pob un o'r adeiladau yn yr ardal hon yn dyddio o'r 19eg ganrif.
Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Bwlchydomen-Pentrecagal** gan ffermydd gwasgaredig, caeau a choetir collddail ar lethrau serth, a gwasgariad o dai gweithwyr yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif gerllaw Dre-fach Felindre.
Mae **Rhyddgoed** yn ardal gymeriad dirwedd hanesyddol gymharol fach ac mae'n cynnwys caeau rheolaidd eu siâp a ffermydd gwasgaredig. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau yn dyddio o'r 19eg ganrif.
Mae **Henllan** yn ardal gymeriad dirwedd hanesyddol fach ond cymhleth sy'n cynnwys pentref yn dyddio o'r 19eg sydd wedi'i ganoli ar hen reilffordd (sydd bellach yn llinell reilffordd dwristaidd) a gwersyll carcharorion rhyfel a adeiladwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ynghanol coetir collddail a thir amaeth.

**Rhan Isaf Dyffryn Teifi**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - http://www.dyfedarchaeology.org.uk/)

8.18 Mae Tirwedd Hanesyddol Rhan Isaf Dyffryn Teifi yn croesi ffiniau gweinyddol, a'r ardaloedd cymeriad canlynol yw'r rhai sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â Sir Gaerfyrddin neu sydd o fewn ffiniau'r Sir. Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Afon Teifi: Cenarth – Castellnewydd Emlyn** gan gaeau o dir pori a rennir gan wrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt ar y gorlifdir. Nid oes unrhyw adeiladau na strwythurau eraill.
Lleolir y rhan hyn o ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Cenarth** i'r de o'r bont hanesyddol dros Afon Teifi ac mae'n cynnwys clwstwr llac o adeiladau cerrig yn dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif yn bennaf. Lleolir y mwyafrif o'r datblygiadau modern i'r gogledd o'r bont.
Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Gellidywyll** gan gaeau, ffermydd gwasgaredig, coetir collddail a phlanhigfeydd o goed coniffer, y mae rhannau helaeth ohonynt

ar lethrau gweddol serth sy'n wynebu'r gogledd. Mae'r ffermydd yn fawr ar y cyfan, ac maent yn cynnwys fferm enghreifftiol Gelligatti sy'n dyddio o'r 19eg ganrif.
Mae ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Afon Teifi: Llechryd – Cenarth** yn cynnwys caeau a gwrychoedd sydd wedi tyfu'n wyllt yn ymestyn ar draws tua 7km o orlifdir. Iard goed a gardd â wal o'i hamgylch yw'r unig strwythurau yn yr ardal gymeriad hon.
Nodweddir ardal gymeriad dirwedd hanesyddol **Llandygwydd** gan ffermydd gwasgaredig wedi'u gosod mewn tirwedd o gaeau o dir pori ar ochr ogleddol Afon Teifi. Mae'r adeiladau hyn yn amrywio o dai bonedd Sioraidd i fythynnod. Maent i gyd wedi'u hadeiladu o gerrig ac mae'r mwyafrif yn dyddio o'r 19eg ganrif. Mae **Abercych** yn bentref llinellol diwydiannol yn dyddio o'r 19eg ganrif sy'n ymestyn ar hyd isffordd ar lethr serth. Mae'r adeiladau hyn yn dyddio o'r 19eg ganrif ac maent wedi'u hadeiladu o gerrig. Mae tai modern yn mewnlenwi'r bylchau rhwng y strwythurau hyn.

## Parciau a Gerddi Cofrestredig

8.19 Mae'r Parciau a'r Gerddi Cofrestredig canlynol wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin:

| Parciau a Gerddi Cofrestredig | Gradd | Rheswm am y Dynodiad a Nodweddion Rhestredig |
|---|---|---|
| Tŷ Llanmilo | **II** | Gardd Edwardaidd wedi'i chadw mewn cyflwr da gyda llawer o blanhigion gwreiddiol. |
| Castell Talacharn a Thŷ'r Castell | **II** | Mae gardd y castell yn enghraifft anarferol o ardd bictiwrésg mewn castell canoloesol. Mae'n cynnwys olion sy'n dyddio nôl i'r cyfnod Tuduraidd. Mae'r brif ardd wedi cael ei hadfer i'w chynllun fel yr oedd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn cynnwys gasebo o'r ganrif honno sydd â golygfeydd dros aber Afon Taf. Castell: Heneb Dan Warcheidiaeth; Heneb Gofrestredig; Adeiladau Rhestredig: castell; (gradd I), waliau (gradd II), gasebo (gradd II). Tŷ'r Castell: adeilad rhestredig (gradd II*). |
| Neuadd Maesycrugiau | **II** | Olion tŷ haf anghyffredin o'r cyfnod Edwardaidd mewn gardd gyfoes sydd wedi'i hesgeuluso, gyda rhai nodweddion yn dyddio o'r cyfnod cyn 1891. |
| Neuadd Middleton | **II** | Parc a dirluniwyd tua diwedd y ddeunawfed ganrif sydd wedi goroesi mewn cefn gwlad hardd. Prif nodwedd y parc yw'r llynnoedd. Mae'r tŷ a'r gerddi pleser wedi mynd. Mae yno adeileddau adfeiliedig yno o hyd. Ceir yno ardd lysiau ddeufur anarferol a rhewdy. Mae craidd y parc bellach yn ffurfio Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Adeilad Rhestredig: stablau (gradd II) |
| Aberglasne | **II** | Adeileddau a choed sydd wedi goroesi o erddi ffurfiol a gardd goedwig anffurfiol yr hen blasty gwledig. Y nodwedd bwysicaf yw'r cwrt bwaog gyda'r llwybr cerdded uchel o'i gwmpas, sydd fwy na thebyg yn dyddio i ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Ceir yno hefyd ddwy wal furiog, pwll, porth, llwybr trwy dwnnel o goed yw ac olion llwybrau drwy'r goedwig. Mae'r gwaith cloddio archaeolegol wedi datgelu bod gwaith adeiladu wedi'i wneud ar y gerddi yn yr ail ganrif ar bymtheg. Cynhaliwyd rhaglen fawr o waith ailadeiladu ac adfer yn Aberglasne ar ddiwedd y 1990au. Adeiladau rhestredig: Aberglasne a llwybrau cerdded teras bwaog o gwmpas yr ardd furiog (gradd II*); Ystod adeiladau'r cwrt i'r Gogledd-ddwyrain, yr hen stablau, cartws, ystod |

| | | |
|---|---|---|
| | | adeiladau'r cwrt i'r De-ddwyrain, hen bopty, beudai, hen goetsiws bach, tŷ'r beili, porthdy a hen adeilad domestig |
| Derwydd | **II** | Gardd fach o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda'r nodweddion canlynol sydd wedi goroesi: gwaith haearn, tocwaith, wal furiog, llwybrau cerdded, lawnt croquet, sy'n ymgorffori nodweddion cynharach gan gynnwys teras o'r cyfnod cyn 1809. Adeilad Rhestredig: Derwydd (gradd II*) |
| Dolau Cothi | **II** | Parcdir o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gydag olion lôn bisgwydd bosibl. Mae'r ardd furiog yn rhannol gyfan. Ychydig o goed sbesimen. Adeilad Rhestredig: Dolau Cothi (gradd II); porthordy (gradd II) |
| Rhydodyn | **II** | Olion parcdir gan gynnwys lôn o goed derw o bosibl yn dyddio o tua 1635. Pont hardd yn cysylltu'r ardal ymarferol, gan gynnwys yr ardd furiog, y coetsiws a bwthyn y garddwr, â'r plasty. Roedd gan lawer o'r adeiladau addurniadau plwm ar eu toeon yn dynodi eu swyddogaeth, sydd bellach wedi mynd. Roedd yna gysylltiadau teuluol â Syr Joseph Banks, a dreuliodd sawl haf yn Rhydodyn. Adeilad Rhestredig: Rhydodyn (gradd II*); pont (gradd II) |
| Glynhir | **II** | Gardd yn dyddio o ddechrau i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn cynnwys colomendy hardd, camlas, gardd furiog, rhewdy a gardd goedwig gyda llwybrau â golygfeydd hardd; mae'r pontydd hardd dros raeadr ar afon Llwchwr bellach wedi diflannu. Adeiladau rhestredig: tŷ (gradd II); colomendy (gradd II) |
| Gelli Aur | **II*** | Am gyfnod hir Gelli Aur oedd un o'r ystadau pwysicaf yng Ngorllewin Cymru. Mae'r parc a'r gerddi yn cynnwys llawer o goed hynafol. Ceir yno derasau ffurfiol o ansawdd da o hyd, ynghyd â choedardd sy'n gysylltiedig â'r Tŷ Fictoraidd. Mae'r ardd furiog o ddiddordeb mawr gan ei bod yn gysylltiedig â thŷ cynharach ac mae'n cynnwys llyn a chamlas a oedd mwy na thebyg yn bodoli yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg. Adeiladau rhestredig: y tŷ a'r bloc stablau (gradd II) |
| Pantglas | **II** | Mae llawer o'r gerddi Fictoraidd (gan gynnwys llyn), a adeiladwyd i ychwanegu at y plasty mewn arddull Eidalaidd a adeiladwyd tua 1853, yn parhau yn gyfan er bod y tŷ wedi mynd. Adeiladau rhestredig: tŷ (gradd II); pont (gradd II); cwrt (gradd II) |
| Plas Dinefwr | **I** | Parc wedi'i dirlunio o'r ddeunawfed ganrif sydd yn eithriadol o hardd ac yn cynnwys olion castell canoloesol. Mae'r safle hefyd yn cynnwys llyn bychan, dwy ardd furiog a rhodfeydd eang hardd. Gwyddys bod Lancelot (Capability) Brown wedi ymweld â'r safle a'i fod yn ei edmygu. Adeiladau rhestredig: Hen Gastell Dinefwr (gradd I); Plas Dinefwr (gradd II*); adeiladau'r cwrt mewnol a'r cwrt allanol (gradd II*); wal gerrig isel a gatiau i'r ha-ha (gradd II); ffownten yn yr ardd ffurfiol fach (gradd II); Bwthyn Llaethdy (gradd II); colomendy (gradd II) |
| Taliaris | **II** | Ymddengys nad yw cynllun sylfaenol y parc wedi newid llawer yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf, er bod yna dystiolaeth o beth newid mewn defnydd tir. Adeilad Rhestredig: tŷ (gradd I) |

| | | |
|---|---|---|
| Parc Howard | **II** | Parc trefol pwrpasol a adeiladwyd rhwng dechrau a chanol yr ugeinfed ganrif, yn cynnwys gatiau hardd, rheiliau a bandstand. Ceir yno lain gysgodi aeddfed a gardd isel fach. Adeiladau rhestredig: plasty (gradd II); bandstand (gradd II); dwy set o gatiau, pileri gatiau a rheiliau (gradd II) |
| Castell y Strade | **II** | Mae'r parcdir, a gafodd ei amgáu fwy na thebyg rhwng diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, yn cadw ei ymdeimlad o barc, er ei fod yn llai o faint. Mae yna ardd deras hardd yn gysylltiedig â'r plasty sy'n dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O fewn y parc ceir rhai nodweddion dŵr diddorol, amrywiaeth dda o goed, gan gynnwys rhai a gyflwynwyd gynnar, a llwybrau cerdded drwy'r goedwig. Mae'r ardd furiog hardd ac ardal y feithrinfa yn gysylltiedig â'r tŷ a godwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg, y cafodd ei safle ei droi yn ardd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeilad Rhestredig: Castell (gradd II*) |
| Llechdwnni | **II** | Gardd furiog gynnar anarferol a llyn ffurfiol sydd wedi goroesi ac sy'n gysylltiedig ag un o'r hen dai mwyaf hanesyddol yn ne'r Sir. Mae gan yr ardd deras hir gyda gasebos crwn yn ymestyn allan ar bob pen. Adeilad Rhestredig: hen dŷ (gradd II) |
| Tŵr Paxton | **II*** | Mae'r tŵr, a adeiladwyd fel cofeb ac fel nodwedd i dynnu sylw, yn ffurfio tirnod hardd sydd â golygfeydd o ddyffryn Tywi ac sydd i'w weld am filltiroedd o gwmpas. Hwn oedd yr unig ffoli a gynlluniwyd gan y pensaer adnabyddus S. P. Cockerell. Adeiladau rhestredig: Tŵr Paxton (gradd II*); Porthordy'r Tŵr (gradd II) |
| Llwynywermod | **II** | Parc wedi'i dirlunio ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif neu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg allan o gefn gwlad tonnog. Ceir yno rodfeydd â golygfeydd a oedd yn gwneud y mwyaf o'r golygfeydd hardd, nid yn unig o'r parc, y tŷ, y nant a'r llyn, ond hefyd o Fannau Brycheiniog y tu hwnt iddynt. Adeilad Rhestredig: ysgubor (gradd II) |

Ffynhonnell: Y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru - Cadw

## Henebion cofrestredig

8.20 Ceir hefyd 366 o Henebion Cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin; yn amrywio o nodweddion Cynhanesyddol i nodweddion Ôl-ganoloesol/Modern sydd o ddiddordeb treftadaeth ddiwylliannol.

8.21 Cyfeirir hefyd at gynnwys Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (HER) ar draws y sir fel y cânt eu casglu a'u cynnal gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Cyfeirir at gofnodion HER trwy: http://www.dyfedarchaeology.org.uk/

## Ardaloedd Cadwraeth

8.22 Ceir Ardaloedd Cadwraeth yn yr aneddiadau canlynol yn Sir Gaerfyrddin:-

- Abergorlech
- Cenarth
- Cwm-du
- Cydweli

- Talacharn
- Llanboidy
- Llanddarog
- Llandeilo
- Llanymddyfri
- Llanelli
- Llangadog
- Llangathen
- Llan-saint
- Llansteffan
- Castellnewydd Emlyn
- Sanclêr
- Talyllychau

8.23 Mae'r ardaloedd canlynol yn Nhref Caerfyrddin hefyd wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth:-

- Tref Caerfyrddin
- Heol Awst
- Gogledd Caerfyrddin
- Heol Parcmaen/Heol Dewi Sant
- Heol Picton/Parc Penllwyn
- Pontgarreg ac Ysbyty Dewi Sant
- Heol y Prior
- Y Rhodfa/Y Llannerch
- Y Cei/Glantywi
- Heol Dŵr

**Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl**

Gan nad oes Cynllun Datblygu ar waith, byddai'n rhaid i'r cynigion gydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol o ran ystyried goblygiadau'r amgylchedd hanesyddol. Byddai hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar faterion treftadaeth ddiwylliannol leol.

# 9. Tirwedd

9.1 Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw un o'r dynodiadau tirwedd a chadwraeth natur pwysicaf yn y wlad. Mae'r Parc Cenedlaethol yn adnodd daearegol pwysig, yn ogystal â bod yn bwysig i fioamrywiaeth, a threftadaeth ddiwylliannol. Caiff y gwaith o reoli datblygu yn y Parc Cenedlaethol ei gwmpasu gan Ddogfen Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol ar wahân, ac fel y cyfryw nid yw'n rhan o CDLl Sir Gaerfyrddin.

## Ardaloedd Tirwedd Arbennig

9.2 Mae'r Sir yn cynnwys llawer o ardaloedd o dirwedd o ansawdd uchel ac eithriadol. Yn dilyn canllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chan ddefnyddio gwybodaeth Landmap, mae'r CDLl yn nodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Sefydlwyd mai'r tirweddau yn Sir Gaerfyrddin yr ystyrir eu bod bwysicaf, ac sy'n deilwng o gael eu gwarchod gan ddynodiad Ardaloedd Tirwedd Arbennig, yw'r canlynol:

- Dyffrynnoedd Afon
- Tirweddau Ucheldir
- Tirweddau Arfordirol

9.3 Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi cael eu grwpio yn ôl y mathau hyn o dirwedd a chânt eu disgrifio isod.

## Dyffrynnoedd Afon

9.4 **Dyffryn Tywi -** Mae’r Ardal Tirwedd Arbennig yn cynnwys y dyffryn afon cyfan heblaw aber afon Tywi, sy’n rhan o Ardal Tirwedd Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi’n cynnwys llawr y dyffryn a’r llethrau cysylltiedig, ynghyd â nifer o dirweddau gwahanol. Mae dyffryn Tywi uchaf, i’r gogledd o Randir-mwyn, yn gul at ei gilydd, gan godi’n serth ar y naill ochr a’r llall i dirweddau ucheldirol mwy garw Mynydd Mallaen ac Ucheldir y Gogledd Ddwyrain, sydd ill dau’n Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar wahân. Nodweddir Dyffryn Tywi Uchaf gan gaeau bach, gwrychoedd, coetir, ffermydd traddodiadol, ffyrdd cul, a’r afon ei hun a choed ar hyd ei glannau’n fynych ond hefyd dolydd agored mewn mannau.

9.5 Gan symud i lawr yr afon tuag at Randir-mwyn a Llanymddyfri, mae canol Dyffryn Tywi’n fwy agored, ond mae’r dyffryn yn dal i godi at dir agored y bryniau. Ceir llawer o goed yn y dirwedd gyda nifer arwyddocaol o berthi a choed unigol eraill. Ceir yma fwy o dir amaethyddol gwastad agored, rhai aneddiadau bach – Rhandir-mwyn a Chil-y-cwm, y ddau ag adeiladau traddodiadol a phensaernïaeth gynhenid yn bennaf. Mae’r rhain yn dirweddau gwledig nas difethwyd lle mae’r elfennau’n cydweddu â’i gilydd yn berffaith.

9.6 Mae dyffryn Tywi isaf, i lawr yr afon o Lanymddyfri, yn cynnwys y gorlifdir gwastad llydan, ynghyd â’i lethrau gogleddol a deheuol sy’n cynnig golygfeydd godidog dros y dyffryn ac o’r gogledd tuag at Fannau Brycheiniog. Er y ceir yma’n bennaf dir amaethyddol a chaeau mwy o faint na’r rhai yng nghanol y dyffryn a’r dyffryn uchaf, mae gan y gorlifdir nifer sylweddol o goed aeddfed y gwrychoedd a’r caeau, ac mae gan lethrau’r dyffryn, a’r llethrau deheuol mwy serth yn arbennig, lawer o goed. Mae parcdiroedd a chestyll hanesyddol hefyd yn nodwedd yn y rhan hon o’r dyffryn e.e. Gelli Aur a Pharc Dinefwr, a chestyll Dinefwr a Dryslwyn. Mae cestyll y dyffryn mewn lleoliadau mawreddog ar frigiadau calchfaen, yn edrych dros y dyffryn. Mae llawer o’r ffermydd traddodiadol yn y dyffryn wedi ehangu, ac yn aml yn cynnwys adeiladau amaethyddol mawr erbyn hyn. Mae’r rhan fwyaf o aneddiadau’r rhan hon o’r dyffryn wedi tyfu hefyd, gydag elfen o adeiladu modern o amgylch craidd mwy traddodiadol. Mae

datblygu amhriodol yn parhau i fygwth cadwraeth y dirwedd arbennig hon, sef y rheswm dros ei dynodi.

9.7 **Dyffryn Brân (i'r gogledd o Lanymddyfri) -** Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig yn cynnwys y gorlifdir ac ochr y dyffryn. Mae'r A483(T) a rheilffordd Calon Cymru'n rhedeg ar hyd y dyffryn gan ei wneud yn borth pwysig i Sir Gaerfyrddin. Mae'r dyffryn yn adnabyddus am y golygfeydd o'r sir a geir o'r llwybrau hyn wrth deithio o Bowys. Mae'r rheilffordd yn cynnwys y draphont yng Nghynghordy sy'n nodwedd adnabyddus yn y dirwedd; mae'n weladwy o'r brif ffordd, gan roi naws gref am le. Mae'r brif ffordd yn nodwedd o'r ardal, ac er nad yw'n brysur iawn, ceir llif cyson o draffig ynghyd â'r sŵn cysylltiedig.

9.8 Ni cheir ond ychydig o aneddiadau ar wahân i Gynghordy ac yno mae rhywfaint o barcdir. Mae gweddill y dyffryn yn gymysgedd o dir amaethyddol â pherthi a choed ar y gorlifdir a'r ardaloedd mwy gwastad, a darnau arwyddocaol o goetir ar lethrau'r dyffryn gan greu cydbwysedd deniadol. Mae'r ardal yn cynnwys nifer o lednentydd coediog i afon Brân.

9.9 **Dyffryn Llwchwr -** Ar y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin ac Abertawe, mae gan Ddyffryn Llwchwr orlifdir llydan a gwastad gydag ochrau serth yn codi o'r dyffryn. Mae'r gorlifdir yn agored ac fe'i nodweddir gan gaeau mawr afreolaidd a rhai sianelau draenio. Mewn cyferbyniad, mae'r llethrau ar ochr Sir Gaerfyrddin yn cynnal cymysgedd deniadol o goetir a thir amaethyddol, y coetir yn aml yn gysylltiedig â'r cyrsiau dŵr sy'n llifo i lawr y llethrau. Mae caeau bach afreolaidd, wedi eu gwahanu gan gymysgedd o berthi sydd wedi gordyfu a pherthi sydd wedi cael eu torri, hefyd yn nodwedd o'r llethrau hyn. Nid oes llawer o fynediad i'r gorlifdir oni bai at ddibenion amaethyddol, nid oes anheddiad ynddo heblaw Pontarddulais i'r de a Rhydaman i'r gogledd. Ffermydd gwasgaredig a geir ar y llethrau. Mae'r rheilffordd yn rhedeg ar hyd y dyffryn (yn Abertawe gan fwyaf), gyda'r trac yn creu llinell gref yn y dirwedd mewn cyferbyniad â'r afon droellog. Mae peilonau'n croesi de'r dyffryn, ond cânt eu cuddio'n rhannol gan y llethrau coediog i'r gorllewin.

9.10 **Cwm Cathan -** Dyffryn afon trawiadol â llethrau serth rhwng ardal ucheldirol Mynydd Betws a thir isel Dyffryn Llwchwr yw Cwm Cathan. Mae'n goediog iawn gyda choetir llydanddail lled-naturiol – gan gynnwys darn o goetir bedw, yn ogystal â glaswelltiroedd wedi'u lled-wella a darnau o brysgwydd a rhedyn. Mae amrywiaeth y llystyfiant yn rhoi ansawdd i'r dirwedd ac yn creu rhwydwaith o gynefinoedd lled-naturiol ledled yr ardal. Mae rhai o'r gwrychoedd yn tyfu'n llinellau o goed sydd hefyd yn cyfrannu at olwg caeedig a choediog yr ardal. Mae gwrychoedd â llawer o gelyn yn nodwedd. Dyma dirwedd gartrefol, gaeedig, naturiol nas difethwyd a chanddi olygfeydd o'r ardaloedd cyfagos. Gyda ffyrdd cul troellog ac anheddau gwasgarog, mae'r ardal dawel hon yn teimlo'n eithaf pell o Rydaman.

9.11 **Dyffryn Teifi -** Mae tarddiad afon Teifi yng Ngheredigion, ac mae cwrs canol yr afon yn llifo ar hyd ffin Sir Gaerfyrddin rhwng Llanbedr Pont Steffan a Llechryd. Cydnabyddir bod Dyffryn Teifi yn Ardal Tirwedd Arbennig yng Ngheredigion hefyd. Mae darn Sir Gaerfyrddin o afon Teifi'n llifo trwy ddyffryn â llawer o goed. Mae'r gorlifdir yn lledaenu wrth i'r afon lifo i'r gorllewin. Mae'r dyffryn yn union i'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan wedi'i nodi oherwydd nifer y coed mewn gwrychoedd a'r coed cae sydd ynddo, er bod llai o goetir yn y rhan hon o'r dyffryn nag ymhellach i lawr yr afon.

9.12 Wrth iddi lifo trwy Faesycrugiau, mae'r afon yn mynd yn gul iawn ac yn debyg i geunant. Mae'r dirwedd yma dan drem yr afon a'i dyffryn ac mae'r ardal yn teimlo'n ddiarffordd. Mae'r rhan hon o'r dyffryn yn goediog iawn. Nid oes llawer o ddatblygiadau newydd yn y rhan hon o'r dyffryn. Y mathau o anheddiad a geir yn bennaf yw ffermydd bach a thai traddodiadol, gan gynnwys bythynnod ar ochr y ffordd.

9.13 Nodweddir Dyffryn Teifi rhwng Maesycrugiau a Llechryd gan gydbwysedd arbennig o ddeniadol rhwng coetir (llydanddail yn bennaf ac ychydig o goetir conwydd) a chaeau agored, yn y gorlifdir yn benodol, gyda choed aeddfed. Mae'r afon yn weladwy'n aml ynghyd â'r ffyrdd sy'n rhedeg ar naill ochr yr afon a'r llall, sy'n rhoi i'r ardal ymdeimlad o symud i'r ddau gyfeiriad. Mae'r golygfeydd yn gyfyngedig i lawr y dyffryn a'i lethrau, felly ceir ymdeimlad o fod yn y dyffryn bob amser. Mae datblygiadau'n cynnwys ffermydd gwasgaredig, rhai aneddiadau bach ar hyd y ffyrdd a'r aneddiadau mwy o faint sef Castell Newydd Emlyn a Phentre-cwrt.

9.14 **Dyffryn Cothi -** Gellir disgrifio Dyffryn Cothi mewn pedair rhan.

9.15 Wrth i afon Cothi lifo rhwng Ardaloedd Tirwedd Arbennig Mynydd Mallaen ac Ucheldir y Gogledd Ddwyrain mae gan y dyffryn nodweddion yr ucheldir. Mae'r llethrau'n codi o 160m hyd at ychydig dros 400m ar Fynydd Mallaen. Ceir llawer o goed ar ochrau'r dyffryn, gyda chymysgedd deniadol a chytbwys o goed llydanddail a rhai conwydd, yn ogystal â thir pori caeedig ac agored, a ffridd. Lle ceir terfynau caeau, maent yn dueddol o fod yn eithaf gwan, am fod rhai o linellau'r gwrychoedd wedi troi'n llinellau o goed. Nid yw ffensys yn anghyffredin lle mae'r gwrychoedd wedi diflannu. Mewn cyferbyniad, mae'r ffermio ar lawr y dyffryn yn fwy dwys, gyda golygfeydd o'r afon gyflym i'w gweld yn aml ledled yr ardal. Mae'r ffermydd ar waelod llethrau serth y dyffryn fel arfer, ar doriad y llethr. Tuag at Bumsaint, cymeriad ystâd sydd i'r dirwedd ac mae hynny i'w weld yn arddull rhai o'r adeiladau. Mae'r ffordd yn gul, y ffermydd yn wasgaredig ac arddull gynhenid yn bennaf sydd i ddyluniad yr adeiladau. Ychydig iawn o ddatblygiadau newydd a geir yn yr ardal.

9.16 Mae Basn Llansawel yn cynnwys cydlifiad Cothi â nifer o afonydd eraill - Marlais, Melinddwr a Thwrch. Mae dyffrynnoedd cul yr ucheldir yn yr ardal gyfagos yn agor yn y darn hwn yn fasn afon llawer mwy o faint gan greu tirwedd iseldir mwy agored o lawer. Mae traethellau'n nodwedd o'r rhan hon. Mae'r ardal yn cyfuno tir bryniog gyda thir mwy gwastad ar lawr y dyffryn, sy'n dir amaethyddol wedi'i wella gan fwyaf, gydag ychydig o goetir. Mae'r gwrychoedd a choed y gwrychoedd yn creu'r argraff bod gorchudd coed sylweddol. Yng ngwesty Glanrannell ceir rhai elfennau tirwedd parcdir a gynlluniwyd. Llansawel yw'r anheddiad mwyaf a cheir nifer o ffermydd gwasgaredig.

9.17 Rhwng Rhydodyn a Brechfa, mae Dyffryn Cothi'n goediog iawn, ac i lawr yr afon o Abergorlech mae'n llifo trwy Goedwig Brechfa. Mae'r rhan hon o'r dyffryn yn fwy caeedig na Basn Llansawel. Nodweddir y porfeydd isel yma gan berthi datblygedig, a choed cae a choed gwrychoedd. Ni cheir ond ychydig o olygfeydd o'r afon gan fod coed yn tyfu ar hyd y glannau mewn llawer man. Mae'r ffordd B yn mynd trwy'r ardal ac yn pasio trwy aneddiadau bach Abergorlech a Brechfa.

9.18 I lawr yr afon o Frechfa, mae'r dyffryn yn fwy cul ac yn fwy o siâp V na'r afon uwchlaw'r pentref – yn debycach i afon ucheldirol. Ymddengys bod afon Cothi wedi newid ei chwrs, a'i bod gynt yn dilyn dyffryn Gwili i'r gorllewin o Frechfa. I'r de o Frechfa, mae'r dyffryn rhychog yn codi'n serth at y bryniau ar y naill ochr a'r llall. Mae llethrau'r dyffryn yn gymysgedd o redyn, coetir, coetir newydd ei blannu a thir amaethyddol. Ceir golygfeydd o'r afon mewn nifer o fannau ar hyd y dyffryn, yn enwedig lle mae'r ffordd a'r llwybr troed yn mynd yn agos ati. Tir amaethyddol a choetir yw'r tir isel yn bennaf. Mae'r ardal hon yn gyferbyniad clir â chanol dyffryn Cothi i'r gogledd, sy'n fwy agored, a Basn Llansawel a Dyffryn Tywi i'r de, gan fod yr afon yn debycach i geunant a llethrau'r dyffryn yn fwy serth. Anheddau gwasgaredig sef nifer fach o ffermydd a geir yn y rhan hon o'r dyffryn. Mae cwrs yr afon yn amrywio, ac mae'n cynnwys darnau agored a bas yn ogystal â thoriadau trwy greigiau tywyll. Mae coed yn tyfu ar hyd y rhan fwyaf o lannau'r afon yma.

9.19 **Dyffryn Taf Isaf -** Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig yn cynnwys dyffryn yr afon o'r groesfan reilffordd i'r dwyrain o Hendy-gwyn at yr aber, hynny yw rhannau isaf afon Taf. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn ddiarffordd, ac nid oes llawer o fynediad iddi. Mae'r aneddiadau wedi'u cyfyngu i ochrau'r dyffryn. Mae ymdeimlad o wacter yn y dyffryn, er ei fod mor agos i'r prif ffyrdd. Mae llawer o goed yn tyfu ar ochrau'r dyffryn ar hyd y rhan hon o'r afon, sy'n cyfrannu at ei nodweddion golygfaol. I lawr yr afon o'r A477 mae'r afon yn llanwol, ac mae'n mynd i'r aber yn ymyl yr A4066, lle ceir llai o goed ar y llethrau. Mae'r dirwedd yn fwy agored a nodweddion aber yn hytrach na dyffryn aber sydd iddi, gyda gwastadeddau llaid morfa heli. Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig hon yn ffinio ag Ardal Tirwedd Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.

9.20 **Drefach Felindre -** Mae haen weledol a synhwyraidd a haen amgylchedd hanesyddol system LANDMAP yn cydnabod tirwedd yr ardal hon a'i nodweddion unigryw. Ceir yma rwydwaith o gymoedd serth coediog, gydag aneddiadau llinellol ag arddull gynhenid ddigamsyniol – bythynnod teras bach ar ochr y ffordd fel arfer, wedi eu hadeiladu o garreg o chwareli lleol, ynghyd â melinau a chapeli mwy ar ochr yr afon, sy'n adlewyrchu'r diwydiant gwlân a fu'n ffynnu yma (ac mewn rhannau o Ddyffryn Teifi) yn ystod y 19eg ganrif ac yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Mae ffyrdd cul yn mynd ar hyd pob un o'r cymoedd hyn. Mae gan yr ardal naws gaeedig, gysgodol ac ynghudd; mae ei chymeriad yn unigryw yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r caeau amaethyddol fel arfer yn fach ac wedi eu hamgylchynu gan goetir.

9.21 **Cwm Lliedi (Swiss Valley) -** Mae tirwedd Cwm Lliedi yn gymysgedd deniadol o goetir a dŵr. Ymdeimlad naturiol sydd i'r cronfeydd dŵr ac maent yn cynnal amrywiaeth o lystyfiant dyfrol. Mae'r ardal yn cynnig rhyngwyneb deniadol rhwng coetir a dŵr. Mae Cwm Lliedi yn hygyrch iawn ar droed neu ar feic o Lanelli a chaiff ei ddefnyddio at ddibenion hamdden ond gydag ychydig iawn o seilwaith (mae hyn yn cynnwys llwybr beiciau). Ceir golygfeydd deniadol iawn dros y dŵr ac ar hyd yr afon. Naws gaeedig sydd i'r dyffryn, a theimla'n bell i ffwrdd o'r tirweddau prysurach o'i gwmpas. Mae coetir Cwm Lliedi yn llydanddail gan fwyaf. Mae'r dyffryn yn heddychlon a heb ei ddifetha. Er nad oes anheddiad yn y dyffryn, mae ffermydd yn y wlad gyfagos yn edrych i lawr arno.

9.22 **Talyllychau -** Mae gan ran hanesyddol pentref Talyllychau, gyda'r abaty yn ei chanol, leoliad deniadol ar lan llyn sy'n unigryw yn y sir. Mae ganddo gefndir deniadol o lethrau eithaf serth a ddefnyddir naill ai ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth. Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig yn cynnwys yr abaty, yr eglwys a'r anheddau cyfagos, y llynnoedd a'r tir sydd o amgylch y nodweddion hyn ac yn rhoi lleoliad iddynt. Mae'r ddau lyn cysylltiedig yn nodwedd anarferol ac maent yn adnabyddus ledled y sir. Nid oes ond ychydig iawn o lynnoedd yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ddau lyn wedi eu dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd y cynefinoedd dyfrol a'r rhywogaethau a gynhelir ganddynt. Mae'r ffordd B yn mynd trwy ran fwy modern y pentref a gellir clywed y traffig arni'n amlach na pheidio.

9.23 **Gwastadeddau Gwendraeth -** Dolydd pori tir isel y gorlifdir ar hen dir cors yw'r rhain, sy'n gorlifo'n aml yn ystod misoedd y gaeaf. Er bod yr ardal yn gymharol wlyb, caiff ei rheoli o hyd at ddibenion amaethyddol. Mae'r caeau unionlinellog wedi eu rhannu gan berthi llydan tal a ffosydd draenio. Mewn mannau, mae'r perthi tal yn creu ymdeimlad o dir caeedig; mewn mannau eraill, mae'r tirweddau fel arfer yn ymddangos yn agored a digysgod iawn (e.e. Gwastadeddau Gwent.) Ni cheir ond ychydig o anheddau a ffyrdd heblaw'r brif ffordd ac mae'r ffyrdd a geir yn dueddol o fod yn syth. Yn ogystal â'r tir amaethyddol, mae'r ardal yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd gwlyptirol, pyllau a ffeniau sy'n rhoi golwg mwy naturiol i'r ardal, a'r gallu i gynnal bywyd gwyllt. I raddau helaeth yn ardal nas difethwyd, mae'n wledig ei chymeriad o hyd. Mae dimensiwn hanesyddol pwysig i'r dirwedd hon gan y cafodd ei chreu o ganlyniad i ddraenio gwlyptiroedd ac adeiladu amddiffynfeydd môr i ddal dŵr y môr yn ôl;

gwaith a ddechreuodd yn 1609 ac a aeth ymlaen hyd ganol y 19eg ganrif gan amgáu caeau. Mae Ardal Tirwedd Arbennig Gwastadeddau Gwendraeth yn ffinio ag Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Pen-bre, ac mae'r ardal hon yn cynnig cefndir pwysig nas difethwyd i'r gwastadeddau.

## Ucheldiroedd

9.24 **Ucheldir y Gogledd Ddwyrain -** Darn helaeth o ucheldir tonnog a nodweddir gan dir pori agored a rhai darnau mawr o goedwigaeth conwydd, a ystyrir yn rhan annatod o'r dirwedd hon. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys darnau bach o dir amgaeedig wedi'i wella ger y ffermydd anghysbell, ond mae'r rhan fwyaf o'r tir yn agored. Mae'r cymysgedd o gynefinoedd a gorchudd llystyfiant ar y darnau agored hyn yn rhoi ansawdd yn y dirwedd, ac yn cynnwys glaswelltiroedd corsiog, llystyfiant gwlyptirol yn y dyffrynnoedd afon bas, rhedyn ar y tir mwy serth, rhywfaint o gynefin ffridd, rhai darnau bach o gynefin rhostir ac ati. Ceir creigiau brig bach ledled yr ardal, sy'n ychwanegu mwy o amrywiaeth. Ceir ychydig o goed llydanddail, yn amlach yn y dyffrynnoedd afon bas. Mae'r gwahanol elfennau hyn yn ychwanegu amrywiaeth i'r ardal. Dim ond ychydig o ffyrdd bach a thraciau fferm sydd yn yr ardal, a phrin unrhyw anheddiad o gwbl. Mae'n teimlo fel ardal brin ei phoblogaeth. I'r gogledd o Ffarmers, mae ardaloedd lle mae rhai o derfynau'r caeau'n waliau cerrig, sy'n anarferol yn Sir Gaerfyrddin. Ychydig o ddatblygiadau newydd sydd yma, ar wahân i ysguboriau amaethyddol newydd. Ceir golygfeydd eang yn yr ardal ac i'r dyffrynnoedd cyfagos; ceir golygfeydd pellach i Fannau Brycheiniog hefyd. Mae'r ardal yn teimlo'n anghysbell, yn ddigysgod ac yn uchel, a heb lawer o bobl. Ar ffin y sir, mae Llyn Brianne'n rhan o'r Ardal Tirwedd Arbennig hon.

9.25 **Mynydd Mallaen -** Darn digysgod o lwyfandir ucheldirol agored a ddefnyddir fel porfa yw Mynydd Mallaen. Ceir yno gymunedau planhigion y rhostir a'r gwlyptir yn bennaf, gyda llus, grug a brithwaith rhos wleb. Mae'r tir yn disgyn o'r llwyfandir i'r dyffrynnoedd cyfagos trwy gynefinoedd ffridd, glaswelltir, sgri creigiog mewn mannau a choetir. Mae'r ardal yn dir comin â mynediad agored. Mae un neu ddwy garn ar y llwyfandir; fel arall mae'n creu nenlinell gwbl wastad bron. Ceir traciau ar draws yr ardal. Nid oes yma unrhyw goed na therfynau caeau, ond nifer o greigiau brig a phantiau gwlyb. Mae'r ardal yn cynnig golygfeydd eang i bob cyfeiriad, ac mae'n teimlo'n ddigysgod, gwyllt, gwag ac anghysbell dros ben.

9.26 **Mynydd Llanllwni -** Mae Mynydd Llanllwni yn ddarn o rostir grug agored a saif ar lwyfandir tonnog ar hyd y cefndeuddwr rhwng dyffrynnoedd Teifi a Chothi. Gwelir tomenni claddu o'r Oes Efydd ar y brif grib, sy'n rhoi naws o'n heffaith ar y dirwedd hon ar hyd y milenia. Ceir golygfeydd eang i bob cyfeiriad o'r llwyfandir; y golygfeydd mwyaf nodedig yw'r rhai i'r gogledd orllewin dros Ddyffryn Teifi ac i'r de ddwyrain tuag at Fannau Brycheiniog. Mae'r ardal yn Dir Comin â mynediad agored, a chaiff ei phori gan ddefaid a merlod a'i llosgi'n rheolaidd. Anaml y defnyddir y ffyrdd sy'n croesi'r ardal, ac er eu bod yn cynnig mynediad hawdd i'r mynydd, mae'r ardal yn teimlo'n ddigysgod, gwyllt a gwag. Mae'r ffermydd sy'n ffinio â'r mynydd wedi'u lleoli islaw ar y tir caeedig. Mae'n un o'r ychydig ardaloedd yn y sir sydd heb anheddiad o unrhyw fath.

9.27 **Cefn Calchfaen Sir Gaerfyrddin -** Y cefn tonnog hwn (sy'n cyrraedd 280m uwchben datwm ordnans) o ucheldir digysgod uwch yw'r unig ddarn helaeth o galchfaen yn Sir Gaerfyrddin. Mae gan y cefn dirwedd unigryw ac amrywiol, sy'n cynnwys tir comin agored e.e. Mynydd Llangyndeyrn a Mynydd y Garreg, â rhedyn a grug a datgeliadau craig, y chwareli calchfaen yng Nghrwbin a Chilyrychen, a darnau helaeth o gaeau bach, gwrychoedd aeddfed a choetir e.e. Carmel (sy'n cynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coed Carmel). Mae Parc Gwledig Llyn Llech Owain yn rhan o'r cefn. Mae'r cefn yn cynnig golygfeydd dros y dyffrynnoedd cyfagos a rhannau helaeth o dde Sir Gaerfyrddin. Mae nifer o ffyrdd yn ei groesi, a'r A48(T) yw'r brysuraf ohonynt, ond mae'r cefn yn dawel iawn mewn mannau hefyd, e.e.

Mynydd Cerrig. Mae'r aneddiadau'n cynnwys ffermydd gwasgaredig ac aneddiadau llinellol sydd yn aml yn gysylltiedig â'r chwareli, ac adlewyrchir hyn yn y bensaernïaeth gynhenid.

9.28 **Mynydd Pen-bre -** Mae Mynydd Pen-bre'n codi'n serth o Wastadeddau Gwendraeth, gan greu cefndir pwysig i'r ardal hon a dyna'r rheswm dros ei chydnabod yn Ardal Tirwedd Arbennig. Mae'r llethrau'n goediog gan fwyaf erbyn hyn, gyda chymysgedd o goed llydanddail a chonwydd, ac o'r cefn (100m uwchben datwm ordnans) ceir golygfeydd eang dros y gwastadeddau a Bae Caerfyrddin tuag at Ynys Bŷr. Pan oedd y môr yn gorchuddio mwy o dir Gwastadeddau Gwendraeth, llethrau Mynydd Pen-bre oedd y clogwyni arfordirol. Mae gan y mynydd archeoleg gyfoethog ac amrywiol, sy'n cynnwys bryngaerau o'r Oes Haearn, crugiau posibl o'r Oes Efydd a thystiolaeth o batrwm cefnen a rhych y Canol Oesoedd yn ogystal â'r chwareli a'r pyllau glo.

9.29 **Mynydd y Betws -** Mae hon yn ardal helaeth o rostir digysgod tonnog yr ucheldir sy'n ymestyn at Abertawe. Mae'n ddarn o dir comin agored a ddefnyddir fel porfa, gyda chymysgedd o laswelltau a darnau llai o rug, a chynefinoedd gwlyptirol. Ceir golygfeydd trawiadol o Fynydd y Betws dros dde ddwyrain Sir Gaerfyrddin a thuag at Fannau Brycheiniog. Mae'r ffordd sy'n croesi'r mynydd yn torri ar yr ardal, fel y mae'r polion telegraff, peilonau mwy a mast lle mae'r ffordd yn cyrraedd ochr ogleddol y comin ger tafarn y Scotch Pine. Mae'r elfennau hyn yn tynnu oddi ar gyfanrwydd yr ardal, ond maent yn gyfyngedig i'r darn bach hwn o'r ardal gyfan. Ceir undod sylweddol mewn rhannau eraill o'r ardal ac nid oes llawer o ddim byd yn torri ar weddill y dirwedd hon. Mae'n un o bum ardal helaeth o rostir agored yn y sir. Nid oes coed na llwyni yn yr ardal ac mae gwahaniaeth trawiadol rhwng yr ardal hon a'r tir caeedig ar godiadau is y llethrau gogleddol. Nid oes aneddiadau yma mwyach, ond mae archeoleg gyfoethog i'r ardal, gyda nifer o safleoedd i'w gweld yn glir ar y tir, gan ddangos hanes yr ardal hon.

### Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd

9.30 Mae nifer o dirweddau ar wahân yn yr Ardal Tirwedd Arbennig hon, a dylid eu hystyried yn gontinwwm. Mae'r Ardal yn amgylchynu Bae Caerfyrddin ac mae'n cynnwys:

**Bryniau Arfordirol**: Marros – Pentywyn, Llan-y-bri, Llan-saint a bryniau arfordirol Pen-bre:

**Llethrau Arfordirol:** Marros hyd Wharley Point a llethrau arfordirol Llanismel:

**Llethrau Aberol:** y llethrau uwchben yr aberoedd h.y. y llethrau ar y naill ochr a'r llall i afonydd Taf a Thywi yn yr aber:

**Aberoedd afonydd:** sianelau'r afonydd a'r gwastadeddau llaid cysylltiedig adeg distyll:

**Corsydd pori arfordirol:** Cors y Gorllewin, Cors y Dwyrain i'r de o Dalacharn, i'r de o Gydweli;

**Traethau tywodlyd:** Marros, Pentywyn a Chefn Sidan;

**Twyni tywod:** Pentywyn a rhan o Gefn Sidan;

**Morfa heli:** ceir nifer o ddarnau o forfa heli yn yr aberoedd ac yn agos i'r arfordir e.e. Halwyndir Pen-bre;

**Aneddiadau:** Pentywyn, Talacharn, Llansteffan a Glanyfferi.

9.31 Mae Ardal Tirwedd Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn cynnwys yr holl dirweddau sy'n cyfrannu at ein tirweddau arfordirol ac aberol. Yn aml, cyfosod un dirwedd gydag un arall fel morfa heli a'r afon, neu lethr goediog yr aber a sianel yr afon sydd, gyda'i gilydd, yn creu tirwedd ag ansawdd golygfaol da.

9.32 Mae'r bryniau arfordirol yn rhoi cefndir i'r bae a'r aberoedd, a cheir golygfeydd braf dros y môr ohonynt. O fod yn agos i'r arfordir ac yn dir uchel, mae'r bryniau'n ddigysgod, ac mae'r coed sy'n grwm oherwydd y gwynt yn dangos hynny.

9.33 Fel arfer nodweddir y llethrau arfordirol gan dir anamaethyddol garw â rhedyn a phrysgwydd, eto yn aml wedi eu siapio gan y gwynt. Mae'r llethrau'n ddigysgod, ac yn wynebu'r môr fel arfer. Maent wedi eu lleoli rhwng y bryniau a'r traethau neu gorsydd is.

9.34 Y llethrau aberol yw'r llethrau mwy cysgodol rhwng y bryniau ac aberoedd yr afonydd. Yn aber afon Tywi, tueddant i fod yn arbennig o goediog, ond maent hefyd yn cynnwys rhywfaint o dir amaethyddol.

9.35 Mae aberoedd yr afonydd yn cynnwys sianelau'r afonydd. Mae'r rhain yn llanwol ac yn cynnwys gwastadeddau llaid adeg y distyll. Corsydd y Gorllewin a'r Dwyrain yw'r darnau mwyaf o gorsydd pori arfordirol yn Sir Gaerfyrddin. Datblygwyd Cors y Gorllewin at ddibenion milwrol ac felly mae rhywfaint o darfu arni, ac mae prysgwydd wedi tyfu arni o ganlyniad i'r tir yn sychu. Caiff Cors y Dwyrain ei rheoli mewn ffordd draddodiadol o hyd ar gyfer pori, ond mae hefyd wedi bod yn destun rhywfaint o ddatblygu. Mae'n fwy agored, digysgod a gwag na Chors y Gorllewin.

9.36 Mae'r tirweddau hyn yn agored, digysgod a gwag ac yn bwysig o ran y fioamrywiaeth a gynhelir ganddynt. Maent hefyd o ddiddordeb hanesyddol oherwydd nid oedd yr ardaloedd hyn yn bodoli hyd nes bod modd draenio tir.

9.37 Mae'r tri thraeth ymysg yr hiraf yng Nghymru. Mae Pentywyn a Chefn Sidan yn gyrchfannau gwyliau adnabyddus. Pan fydd y llanw allan, ceir darnau helaeth o dywod a golygfeydd allan i'r môr ac ar hyd yr arfordir.

9.38 Mae'r twyni tywod yn ffinio â'r traethau ac mae eu tirwedd yn nodweddiadol o unrhyw system twyni. Gwneir ymdrech i reoli rhafnwydd y môr sydd wedi bod yn lledu yn system twyni Cefn Sidan.

9.39 Mae'r morfa heli'n rhan annatod ac amlwg o'r aber a'r dirwedd arfordirol, ac yn un sy'n cynnig amddiffynfa naturiol, am ddim, rhag y môr. Mae'r morfa heli fel arfer yn ffinio â gwastadeddau llaid a ddatgelir adeg distyll. Mae'r morfeydd heli yn aml wedi'u croesi gan fornentydd lleidiog ac yn cynnal planhigion sy'n gallu goddef yr amodau hallt. Y rhain yw dwy o nodweddion y morfa heli sy'n rhoi hynodrwydd i'r dirwedd hon. Mae morfeydd heli yn fannau agored a gwyntog, heb gysgod.

9.40 Mae gan y tri anheddiad yn yr Ardal Tirwedd Arbennig – Talacharn, Llansteffan a Glanyfferi – gymeriad gwahanol. Glanyfferi yw'r unig anheddiad ar y rheilffordd, sydd ynddo'i hun yn nodwedd o aber afon Tywi. Talacharn yw'r anheddiad mwyaf trefol o'r tri, a datblygodd o amgylch ei gastell, tra bo'r castell yn Llansteffan mewn safle uwchben y pentref.

### Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Wrth i adeiladu ddigwydd ar ddyraniadau presennol y CDLl, ac wrth i'r cyflenwad tir ar gyfer tai leihau, bydd pwysau i ddatblygu ar ardaloedd agored yng nghefn gwlad sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd, a hynny mewn modd gwasgaredig nad yw wedi'i gydlynu. Dylid diogelu safleoedd dynodedig a chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir drwy ddeddfwriaeth arall.

5.4.7 Yn absenoldeb polisi CDLl, ni fyddai aml-fuddiannau na gwasanaethau ecosystem y dirwedd ehangach a'i gysylltedd o reidrwydd yn cael eu cydnabod na'u gasglu. Gallai hyn gael effaith sylweddol drwy beryglu'r broses o reoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn effeithiol a gallai arwain at ddarnio cynefinoedd sy'n niweidiol iawn i fioamrywiaeth.

5.4.8 Ar hyn o bryd, dylid integreiddio datblygiadau newydd â'r dirwedd a'r morlun gan fod hyn yn un o ofynion Polisi'r CDLl,  ond mae statws y Cynllun yn gwanhau wedi i gyfnod y Cynllun ddod i ben.

## 10 Poblogaeth

10.1 Mae amcangyfrifon poblogaeth yn cael eu cynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn ystyried genedigaethau, marwolaethau ac amcangyfrif o'r mudo a fu rhwng y cyfrifiad diwethaf a chanol y flwyddyn bresennol.

10.2 Amcangyfrifwyd bod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 186,452 yn 2017, sef bron i 6 y cant o boblogaeth Cymru. O'r nifer hon, mae 91,153 (49%) yn wryw a 95,299 (51%) yn fenyw. Gellir gweld proffil oedran y boblogaeth leol yn y tabl isod.

| **2017 – Amcangyfrifon Canol Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Strwythur Oedran** | **Poblogaeth Sir Gâr** | **% Sir Gâr** | **Poblogaeth Cymru** | **% Cymru** |
| Oed: 0-4 | 9,621 | 5.2 | 170,709 | 5.5 |
| 5-15 | 23,274 | 12.5 | 388,551 | 12.4 |
| 16-24 | 17,520 | 9.4 | 359,361 | 11.5 |
| 25-44 | 40,302 | 21.6 | 742,574 | 23.8 |
| 45-64 | 52,264 | 28.0 | 827,015 | 26.5 |
| 65-74 | 24,224 | 13.0 | 356,622 | 11.4 |
| 75+ | 19,247 | 10.3 | 286,647 | 9.2 |
| **Cyfanswm** | **186,452** | **100** | **3,125,165** | **100** |

Ffynonellau: StatsCymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-age-ukcountry

10.3 Mae'r ddolen gyswllt ganlynol yn darparu mynediad i broffiliau unigol ar gyfer pob ward yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r proffiliau'n crynhoi prif nodweddion y ward ynghyd â gwybodaeth leol werthfawr. Lluniwyd proffiliau'r wardiau ar sail ystod eang o ffynonellau data, a chânt eu cyflwyno mewn dull cyson er mwyn gallu cymharu ardaloedd, ymchwilio i batrymau a nodi amrywiaethau yn gyflym ac yn hwylus.

10.4 Mae'r proffiliau fel y'u cyhoeddwyd ym mis Mai 2017 yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:


- Ystadegau Amcangyfrif Poblogaeth Canol Blwyddyn 2015 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, ONS)
- Data am nodweddion poblogaeth, cyfansoddiad aelwydydd a statws gweithgarwch economaidd (Cyfrifiad 2011)
- Math o Dai a Daliadaeth (Cyfrifiad 2011)
- Amcangyfrifon Incwm Aelwydydd (data CACI 'Paycheck' 2016)
- Data Ns-SeC (safle economaidd-gymdeithasol yn seiliedig ar alwedigaeth, Cyfrifiad 2011)
- Ystadegau diweddaraf ynghylch y farchnad llafur a budd-daliadau
- Ystadegau Troseddau a Gofnodwyd 2016-2017 (Heddlu Dyfed Powys)

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymchwil-ac-ystadegau/proffil-wardiau-etholiadol-a-sirol/#.WvV9M_5wbZ4

10.5 Roedd cyhoeddi arolwg poblogaeth 2014 ar sail awdurdod lleol yn dangos yr arwydd cyntaf o newid poblogaeth ar lefel is-genedlaethol ers cyfrifiad 2011. Mae'r tabl canlynol yn nodi ac yn cymharu'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer cyfnod y CDLl Diwygiedig gyda'r amcanestyniadau a wnaed fel rhan o'r CDLl presennol a'r amcanestyniadau gwreiddiol ar sail

awdurdod lleol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2006. Mae'r amcanestyniadau a oedd yn seiliedig ar 2011 a 2014 wedi awgrymu y byddai'r boblogaeth yn 2021 yn 193,874 (2011) a 187,079 (2014).

10.6 Rhagwelir y bydd y newid bychan hwn i'r boblogaeth yn para drwy oes y CDLl diwygiedig, a'r amcanestyniad ar gyfer poblogaeth y Sir yn 2033 yw 189,317. Mae'r amcanestyniadau hyn yn tueddu i broffwydo twf is yn y boblogaeth na'r amcanestyniadau blaenorol a oedd yn seiliedig ar 2006 a 2008. Casglir rhagor o dystiolaeth ynghylch patrwm y newid demograffig yn y dyfodol fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig[13].




Ffynhonnell: Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

10.7 Wrth ystyried cyfnod y CDLl diwygiedig, sef 2018-2033, mae'r prif amcanestyniadau yn yr amcanestyniad poblogaeth sy'n seiliedig ar 2014 yn awgrymu y bydd cynnydd o 3,207 yn y boblogaeth. Bydd angen ystyried yr amcanestyniadau hyn yn ofalus a bydd angen iddynt adlewyrchu ffactorau perthnasol eraill sy'n cael effaith ar ddatblygu ac anghenion tai yn y dyfodol, yn enwedig yr amcanestyniadau ar gyfer aelwydydd y Sir. Mae'r amcanestyniadau aelwydydd a oedd yn seiliedig ar 2011 a 2014 wedi awgrymu y bydd gostyngiad sylweddol yn nifer yr aelwydydd o gymharu â'r hyn a broffwydwyd yn amcanestyniadau 2006 a 2008.

## Dwysedd y Boblogaeth


10.8 Mae dwysedd y boblogaeth yn cynnig ffon fesur ar gyfer faint o bobl sy'n byw mewn ardal. Mae hyn yn amrywio ledled y Sir ac mae'r dwysedd yn uwch yn yr ardaloedd trefol nag yn yr ardaloedd gwledig ac yn achos Sir Gaerfyrddin mae cyfanswm arwynebedd y tir yn 2370km$^2$. Mae hyn yn golygu mai dyma'r Awdurdod Lleol trydydd mwyaf o ran arwynebedd yng Nghymru. Fodd bynnag, y dwysedd cyfartalog ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd

[13] StatsCymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojectioncomponentsofchange-by-localauthority-year

yw 78.3 person am bob cilomedr sgwâr, sef y dwysedd pumed lleiaf yng Nghymru. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru, sef 150.1 person am bob cilomedr sgwâr[14].

10.9 Ceir tair prif dref yn Sir Gaerfyrddin sy'n chwarae rôl ganolog wrth galon Ardaloedd Twf y CDLl. Mae Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman yn gartref i 25% o boblogaeth y Sir. Mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig sy'n cwmpasu 53% o'r Sir[15].

10.10 Caiff **39.3%** o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) o fewn Awdurdod Lleol **Sir Gaerfyrddin** eu dosbarthu fel "**Trefol, dinas a thref**" yn nosbarthiad trefol-gwledig 2011 o ddaearyddiaeth ardaloedd bach, dyma'r gyfran **uchaf** yn Sir Gaerfyrddin.




*Source: Office for National Statistics*

## Mudo

10.11 Mae'r canlynol yn dangos y rôl y mae mudo yn ei chwarae yn Sir Gaerfyrddin gyda'r mewnfudo o weddill y DU fel rheol yn gwneud iawn am yr allfudo parhaus o safbwynt niferoedd. Mae'r canlynol yn dangos y patrwm mudo rhwng 2007 a 2016.

**Tabl: Mudo rhwng Cymru a gweddill y DU yn ôl awdurdod lleol, llif a chyfnod y newid**


[14] StatsCymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year
[15] Cynllun Llesiant Drafft Sir Gaerfyrddin: http://www.ysirgaragarem.cymru/media/8286/carms-well-being-plan-final-draft-051017-cymraeg.pdf

| | 2006 i 2007 | 2007 i 2008 | 2008 i 2009 | 2009 i 2010 | 2010 i 2011 | 2011 i 2012 | 2012 i 2013 | 2013 i 2014 | 2014 i 2015 | 2015 i 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mewnfudo | 6,780 | 6,190 | 5,920 | 5,690 | 6,020 | 6,470 | 6,220 | 6,290 | 6,320 | 6,700 |
| Allfudo | 5,250 | 5,180 | 5,520 | 5,490 | 5,190 | 6,000 | 5,880 | 6,080 | 5,770 | 6,080 |
| **Mudo Net** | **130** | **30** | **80** | **630** | **-70** | **-30** | **-520** | **-480** | **10** | **350** |

Ffynhonnell: StatsCymru

## Y Stoc Dai

10.12 Mae'r canlynol yn dynodi'r amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl daliadaeth.




Ffynhonnell: StatsCymru

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Ni fyddai tir wedi'i neilltuo ar gyfer tai, a phan fyddai cyflenwad tai y CDLl presennol yn dod i ben, byddai datblygu'n digwydd mewn modd tameidiog nad yw wedi'i gydgysylltu.

Byddai diffyg addasu i'r newidiadau a ragfynegir mewn poblogaeth a strwythur cymdeithasol, a allai fygwth cydlyniant a llesiant cymunedau a dichonoldeb ysgolion, busnesau a gwasanaethau. Mae'n debygol y byddai datblygiadau tai anghynaliadwy ar safleoedd tir glas yn bell oddi wrth gyfleusterau addysg a gwasanaethau cymunedol presennol, na fyddent yn cael eu gwasanaethu'n dda gan lwybrau cyhoeddus na llwybrau Teithio Llesol, a allai arwain at lai o weithgarwch cymdeithasol a mwy o allgáu cymdeithasol. Mae'n debygol mai ychydig iawn o adfywio fyddai mewn ardaloedd difreintiedig presennol ac mai prin fyddai'r buddion cymunedol cysylltiedig â datblygiadau newydd. Byddai'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn parhau i fod yn fach, ac ni fyddai'r cynnydd yn y galw am dai fforddiadwy, yn enwedig i'r henoed, yn cael ei ateb.

Bydd poblogaeth gynyddol yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau addysg, a gallai datblygu ar hap olygu na fydd ardaloedd preswyl yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau addysgol presennol a gallai cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu darpariaeth olygu na fydd cyfleusterau'n cael eu datblygu ar adeg briodol o'r datblygiad.

# 11 Yr Iaith Gymraeg

11.1 Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr Sir Gaerfyrddin a'i hymwelwyr. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod yna 78,048 o siaradwyr Cymraeg ymhlith poblogaeth Sir Gaerfyrddin. Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae ganddi'r bedwaredd gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 43.9% (data Cyfrifiad 2011). Mae amrywiad eang yn niferoedd a chyfrannau'r siaradwyr Cymraeg ledled Cymru, ond ar gyfartaledd mae 19% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg.


11.2 Yn fwy diweddar, yn ystod y cyfnod rhwng Cyfrifiadau 1991, 2001 a 2011, mae canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng o 54.9% i 43.9%. Yn Sir Gaerfyrddin gwelwyd y gostyngiad ail fwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2001 sef 4.5% (ail yn unig i Geredigion a welodd ostyngiad o 7.1%). Yn y cyfnod rhwng 2001 a 2011 gwelodd Sir Gaerfyrddin y gostyngiad mwyaf, sef 6.4%.

11.3 Mae Arolwg 2015 ar y Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn cynnwys gwybodaeth fesul awdurdod lleol am sgiliau Cymraeg a'r defnydd ohoni. Mae'r arolwg yn dynodi bod 80,700 o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011 lle dangoswyd bod 78,048 o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

11.4 Nid yw'r lleihad yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg ers 1991 yn unigryw i Sir Gaerfyrddin, ac mae'r lleihad mewn siaradwyr Cymraeg yn dueddiad sydd i'w weld ledled Cymru, ond yn enwedig yn yr ardaloedd o Gymru a adnabyddir yn draddodiadol fel cadarnleoedd y Gymraeg ('Y Fro Gymraeg'). Mae ardaloedd eraill yn y cadarnleoedd traddodiadol megis Ynys Môn, Gwynedd a Cheredigion hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch cynaliadwyedd yr iaith yn yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol hyn.

11.5 Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio ledled Sir Gaerfyrddin; ceir dadansoddiad yn Ffigur 22 o gyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob Ward etholiadol fel y'i dynodwyd yng Nghyfrifiad 2011.

******* Mwy i'w gynnwys o Bapur Pwnc y Gymraeg **********




*Ffigur 22 Canran y siaradwyr Cymraeg fesul ward (Cyfrifiad 2011)*

**Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl**

Mae'r CDLl mabwysiedig yn diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif sy'n gymunedau â chyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg lle y bydd cynigion ar gyfer darparu tai a chyflogaeth yn cael yr effaith fwyaf ar fywiogrwydd a hyfywedd yr iaith Gymraeg yn y dyfodol. Mae'r Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn y CDLl yn seiliedig ar Gyfrifiad 2001 ac nid ydynt yn adlewyrchu'r Data Cyfrifiad diweddaraf sy'n dangos dirywiad cyffredinol mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg. Fodd bynnag, mae cynnydd yn nifer cyffredinol y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig plant oedran ysgol. Mae Deddfwriaeth Genedlaethol a Pholisi Cynllunio Cymru yn sicrhau bod effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried wrth asesu ceisiadau cynllunio, ond heb y CDU ni fyddai unrhyw Bolisi lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol i ddatblygwyr ystyried effaith cynigion penodol yn yr ardaloedd o'r sir lle mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o wead cymdeithas.

## 12 Iechyd a Llesiant

**Adolygiad o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017**

12.1 Sir Gaerfyrddin yw'r sir drydedd waethaf yng Nghymru ar gyfer lefelau gordewdra yn ystod plentyndod, ac mae 30.7% o blant bach 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, sydd bron i 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 26.2%. Awgryma amcanestyniadau y bydd cynnydd yn y dyfodol o ran tueddiadau gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'r ffigurau'n dangos mai bechgyn rhwng 2 a 15 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae cysylltiad cryf rhwng gordewdra yn ystod plentyndod a gordewdra pan fydd rhywun yn oedolyn, ac mae llawer o'r problemau iechyd cronig cysylltiedig megis diabetes Math 2 a chlefyd coronaidd y galon hefyd yn debygol o barhau i gynyddu yn y dyfodol, gan beri bygythiad i lesiant plant nawr ac yn nes ymlaen mewn bywyd.

12.2 Mae gordewdra'n fwy cyffredin mewn cymunedau difreintiedig, ac mae ymchwil Ewropeaidd yn awgrymu ei fod wedi dod yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig, er bod ymchwil yn y DU heb ganfod unrhyw gysylltiad arwyddocaol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth fod pobl sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol yn llai tebygol o fod dros bwysau. O gofio'r asedau naturiol helaeth sydd gan Sir Gaerfyrddin, a'r effeithiau cadarnhaol ychwanegol ar lesiant seicolegol a diwylliannol y mae'r amgylchedd yn eu cynnig, gall hyrwyddo cyfleoedd i ymwneud â'r amgylchedd naturiol fod yn rhywbeth a all helpu i wella llesiant.

12.3 Ffordd sylfaenol o fynd i'r afael â gordewdra yw cael plant i wneud gweithgarwch corfforol. Roedd asesiadau gweithgarwch o ran plant ysgol gynradd yn dangos mai bod yn gorfforol egnïol oedd y ffactor pwysicaf ond un ar gyfer llesiant cadarnhaol plant 6 – 11 oed; cysylltiadau â pherthnasau a ffrindiau oedd y pwysicaf. Nododd arolwg 2015 o chwaraeon ysgol Sir Gaerfyrddin lefelau uchel tebyg o weithgarwch mewn chwaraeon, sy'n awgrymu cysylltiad cadarnhaol â gweithgarwch corfforol. Yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir Gaerfyrddin dywedodd 90% o'r plant fod chwarae yn gwneud iddynt deimlo'n hapus ac roedd 49% wedi dweud bod chwarae'n gwneud iddynt deimlo'n egnïol.

12.4 Nodir bod yna brofiadau amrywiol ar gael i bobl ifanc drwy gydol llencyndod, wrth i chwilfrydedd a chyfleoedd gyfarfod, ac nad ydynt oll yn rhoi bod i ganlyniadau neu effeithiau cadarnhaol o ran llesiant. Nodir mai'r achosion uchaf o bobl ifanc yn ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin oedd 8% o fechgyn ym mlwyddyn 9 ac 19% o ferched ym mlwyddyn 11. Roedd ysmygu ymysg bechgyn yn fwy cyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Hefyd roedd dros draean y merched 14-16 oed wedi rhoi cynnig ar sigarennau electronig, sef y nifer uchaf o blith myfyrwyr. Er bod yna bryder cenedlaethol wedi bod ynghylch lefelau troseddau a digwyddiadau cysylltiedig ag alcohol sy'n cynnwys pobl ifanc, mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad cyson mewn nifer digwyddiadau o'r fath y rhoddwyd gwybod amdanynt o 87 yn 2014 i 49 yn 2016. O fis Ionawr hyd at fis Tachwedd 2016, roedd troseddwr dan 18 oed yn gysylltiedig ag 16% o droseddau yn ymwneud â chyffuriau yn Sir Gaerfyrddin, ac roedd y mwyafrif o'r troseddau (102) mewn perthynas â meddiant ar ganabis.

12.5 Mae 28% o oedolion Sir Gaerfyrddin yn dioddef yn sgil problemau iechyd meddwl, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 26%. Gall llesiant seicolegol ac emosiynol gwael fod yn rhwystr i gyfranogi'n llawn i gymdeithas. Gall pethau fel diffyg hyder, gorbryder, blinder llethol a stigma gyfyngu ar allu unigolyn i ryngweithio ag eraill neu ddod o hyd i waith er enghraifft.

12.6 Dywedir bod iechyd yn cael effaith sylweddol ar lesiant. Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi bod 16% o drigolion Sir Gaerfyrddin yn disgrifio eu hiechyd fel 'gweddol', 6% fel ‘gwael’ a 2% fel ‘gwael iawn’. Rhoddodd arolwg 2017 ragor o sylw i hyn drwy edrych ar effeithiau a chanfod,

o blith y rhai â phroblem iechyd oedd yn effeithio ar eu llesiant, fod 64% yn dweud 'nad oeddent yn gallu gwneud y pethau roeddent yn eu mwynhau'. Dywedodd 41% fod angen cymorth arnynt i ymdopi o ddydd i ddydd neu eu bod yn dibynnu ar gymorth, a dywedodd 32% fod eu hiechyd yn 'rhoi straen ar eu perthnasoedd personol.' Yn 2013, roedd 2,783 o drigolion 65 oed a hŷn Sir Gaerfyrddin wedi cael diagnosis o ddementia. Erbyn 2030, rhagwelir y bydd y nifer hwn yn cynyddu i 4,371, sef cynnydd o 1,588 (57%), yn unol â chyfartaledd Cymru.

12.7 Er bod cyfradd disgwyliad oes yn Sir Gaerfyrddin yn unol â chyfartaledd Cymru, mae bwlch sylweddol o 18.5 mlynedd rhwng y rhai o'r ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig. Yn yr un modd, yn ogystal â chyfraddau marwoldeb babanod, mae marwolaeth cyn pryd (dan 75 oed) yn llawer mwy cyffredin mewn cymunedau difreintiedig. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos dynion, y mae eu cyfradd farwolaeth cyn pryd 33% yn uwch na'r rheiny o gymunedau mwy cyfoethog. Mae hyn yn dangos effaith amddifadedd ar lesiant corfforol drwy gydol oes.


12.8 Roedd yr ymatebion i'r arolwg asesu yn dynodi mai iechyd da yw'r ffactor pwysicaf o ran bod yn hapus ac yn fodlon ar fywyd yn gyffredinol. Roedd bron 8 ym mhob 10 (79%) ymatebwr yn dweud ei fod yn bwysig nawr ac roedd 61% yn credu y byddai'n bwysig iddynt yn y dyfodol.

Ers 2011, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gofyn cwestiynau llesiant personol i oedolion 16 oed a hŷn yn y DU er mwyn deall yn well sut maen nhw'n teimlo am eu[16] bywydau. Y cwestiynau llesiant yw:


- Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar eich bywyd y dyddiau hyn?
- Ar y cyfan, i ba raddau rydych chi'n teimlo bod y pethau chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?
- Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?
- Ar y cyfan, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?

Gofynnir i bobl ymateb ar raddfa o 0 i 10 gan gymryd bod 0 yn golygu 'dim o gwbl' a bod 10 yn golygu 'bodlon/gwerth chweil/hapus/pryderus iawn'. Yn Sir Gaerfyrddin mae canlyniadau arolwg 2017/2018 yn dangos bod ymatebion cyfartalog o ran gorbryder wedi gostwng o 3.2 yn 2011/12 i 2.8 yn 2017/18 (Ffigur 23). Dangoswyd bod hapusrwydd wedi cynyddu dros yr un cyfnod o 7.2 i 7.7 (Ffigur 24). Caiff y duedd hon ei hadleisio gan fodlonrwydd bywyd (7.3 i 7.7) (Ffigur 25) a theimlo bod pethau'n werth chweil mewn bywyd (7.6 i 7.9) (Ffigur 26) dros yr un cyfnod.


16 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/measuringnationalwellbeing/july2017tojune2018





*Ffigur 23 Map Llesiant Personol o ymatebion i'r cwestiwn 'Ar y cyfan, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?' gan ddangos cyfartaleddau a bwysolwyd ym Mawrth 2018.*




*Ffigur 24 Map Llesiant Personol o ymatebion i'r cwestiwn 'Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?' gan ddangos cyfartaleddau a bwysolwyd ym Mawrth 2018*




*Ffigur 25 Map Llesiant Personol o ymatebion i'r cwestiwn 'Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar eich bywyd y dyddiau hyn?' gan ddangos cyfartaleddau a bwysolwyd ym Mawrth 2018*





*Ffigur 26 Map Llesiant Personol o'r ymatebion i'r cwestiwn 'Ar y cyfan, i ba raddau rydych chi'n teimlo bod y pethau chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil? gan ddangos cyfartaleddau a bwysolwyd ym Mawrth 2018*

## Datganiad Ardal y De-orllewin – Iechyd Meddwl

Mae datganiad ardal y de-orllewin yn nodi rhaniad clir o ran iechyd meddwl rhwng Sir Benfro, lle mae'r rhan fwyaf o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn y chwintel sgôr isaf (0-0.25), Gorllewin/Canolbarth Sir Gaerfyrddin, lle mae'r rhan fwyaf o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn y chwintel sgôr canolig (0.5-0.75), a Gogledd/De-ddwyrain Sir Gaerfyrddin, De-orllewin Abertawe, a De-ddwyrain Castell-nedd Port Talbot, lle mae'r rhan fwyaf o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn chwintel 1 sydd â'r sgôr uchaf.


Mae ymchwil academaidd ac adroddiadau ar iechyd meddwl wedi amlygu perthynas gref rhwng lefelau isel o iechyd meddwl a lefelau uchel o amddifadedd. Mae ymchwil ar ffactorau iechyd meddwl gwael hefyd wedi amlygu bod amddifadedd personol goddrychol yn ffactor dylanwadol ar iechyd meddwl lefel isel. Mae'r astudiaethau hyn hefyd wedi dod o hyd i gydberthynas negyddol rhwng lefelau uchel o amddifadedd personol goddrychol a lefelau isel o addysg, enillion aelwyd a chymorth cymdeithasol. Mae'r astudiaethau hefyd wedi dangos bod cydberthynas rhwng lefelau isel o iechyd meddwl a ffactorau eraill, megis lefelau isel o ryddid i wneud penderfyniadau,  cymorth cymdeithasol yn eich swydd, a diffyg mynediad at fannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn amlycach mewn ardaloedd mwy difreintiedig, o gymharu ag ardaloedd llai difreintiedig.




*Ffigur 27 7 Cwintel Sgôr Iechyd Meddwl ar gyfer Ardal y De-orllewin. Datganiad Ardal y De-orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru.*

## Datganiad ardal y De orllewin - Iechyd Corfforol

Mae mapiau ar gyfer sgoriau iechyd meddwl a sgoriau iechyd corfforol yn dilyn tueddiad tebyg. Fodd bynnag, gellir gweld un gwahaniaeth mawr rhwng sgoriau iechyd meddwl a chorfforol yng ngogledd yr ardal, rhwng Llanymddyfri, Fforest Brechfa a Llanybydder, lle mae dau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is a sgoriodd yn y chwintel uchaf ar gyfer iechyd meddwl, bellach yn sgorio yn y chwintelau isaf 0 a 0.25-ar gyfer sgôr iechyd corfforol. Ni ellir gweld dim gwahaniaeth rhwng sgoriau iechyd meddwl a sgoriau iechyd corfforol, ac ymddengys fod y ddwy sgôr yn cyfateb i'w gilydd, fel yr awgrymir yn yr astudiaethau a grybwyllwyd yn gynharach.




*Ffigur 28 Chwintel Sgôr Iechyd Corfforol ar gyfer Ardal y De-orllewin. Datganiad Ardal y De-orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru.*

Rhesymau posibl dros iechyd corfforol is. Mae'r ffactorau posibl ar gyfer sgoriau mor isel yn cynnwys cyfran uwch o boblogaeth hŷn (55+ oed) yn Sir Benfro, o gymharu â'r tri awdurdod lleol arall, a Chymru gyfan. Mae astudiaethau wedi dangos bod morbidrwydd a phresenoldeb problemau iechyd corfforol yn amlycach yn y boblogaeth 64+ oed, ac wedi cynyddu dros amser. Mae ffactorau eraill yn cynnwys diffyg mynediad at fannau gwyrdd, ac eithrio gwledig yn gysylltiedig ag amddifadedd 'mynediad at wasanaeth.'

### Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Ni fyddai tir wedi'i neilltuo ar gyfer tai, a phan fyddai cyflenwad tai y CDLl presennol yn dod i ben, byddai datblygu'n digwydd mewn modd tameidiog nad yw wedi'i gydgysylltu.

Byddai diffyg addasu i'r newidiadau a ragfynegir mewn poblogaeth a strwythur cymdeithasol, a allai fygwth cydlyniant a llesiant cymunedau. Mae'n debygol y byddai datblygiadau tai anghynaliadwy ar safleoedd yn bell oddi wrth gyfleusterau iechyd presennol, darpariaeth mannau agored a gwasanaethau cymunedol. Hefyd ni fyddai unrhyw ystyriaeth ychwaith i fynediad at lwybrau Teithio Llesol a allai arwain at lai o weithgarwch corfforol.

Bydd poblogaeth gynyddol yn rhoi pwysau ar wasanaethau iechyd a lles a gall datblygiadau ad hoc olygu nad yw ardaloedd preswyl yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau presennol ac mae'n bosibl na fydd cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu darpariaeth newydd yn arwain at gyfleusterau datblygu ar gam priodol yn y datblygiad.

## 13 Addysg a Sgiliau

### Adolygiad o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017

13.1 Awgryma ymchwil gan y Sefydliad Addysg fod mynychu lleoliad cyn-ysgol da ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol. Mae tri chwarter (76%) ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin wedi'u dynodi'n ysgolion "gwyrdd" (y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru) neu “felyn” (effeithiol) o dan

Gynllun Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru, ac nid oes yr un yn y categori coch (angen gwella). Roedd 87% o blant wedi cyflawni'r deilliannau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen ac 89% yng Nghyfnod Allweddol Dau. Mae astudiaethau wedi dangos bod llesiant emosiynol a sgiliau talu sylw da yn ffactorau pwysig o ran cynnydd academaidd ar lefel ysgol gynradd ac i'r dyfodol.

13.2 Sir Gaerfyrddin yw'r awdurdod sy'n perfformio seithfed orau yng Nghymru o ran disgyblion sy'n cael o leiaf 5 TGAU A*-C. Fodd bynnag, mae cryn wahaniaeth o hyd rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim a'r garfan gyffredinol. Yn yr un modd, dim ond 46% o'r Plant sy'n Derbyn Gofal oedd yn ennill yr un cymwysterau. Mae hyn yn amlygu'r effaith negyddol bosibl a gaiff amgylchiadau cymdeithasol-economaidd gwael a/neu amgylchiadau anodd mewn plentyndod ar ddeilliannau person ifanc.

13.3 Ar hyn o bryd nid oes gan 12.5% o boblogaeth oedran gwaith Sir Gaerfyrddin gymwysterau, ond yn ystod y tair blynedd diwethaf nid oes dim plant wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy yn Sir Gaerfyrddin. Er hyn, cofnodwyd bod 69 o'r rhai oedd wedi gadael ysgol ym mlwyddyn 11 yn 2016 heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n gynnydd o 0.4% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cysylltu addysg â gofynion y farchnad lafur leol; gellir cael manylion am hynny yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol 2016.

13.4 Mae cadw pobl ifanc yn sylfaenol hanfodol i economi gynaliadwy ac i gymunedau. Fodd bynnag, roedd mwy o bobl ifanc 15 – 29 oed wedi gadael Sir Gaerfyrddin nag oedd wedi symud i mewn iddi yn 2014-15, er gwaethaf campysau prifysgol ac addysg bellach y sir. Gallai hyn fod yn rhannol o achos synnwyr o ddiffyg cyfleoedd i bobl ifanc gael swyddi addas yn y sir, a glustnodwyd drwy'r arolwg asesu. Roedd 50% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed yn anghytuno bod cyfleoedd swyddi addas iddynt yn yr ardal leol.


13.5 Mynegodd y bobl ifanc oedd yn rhan o Fforwm y Cyngor Ieuenctid ddyhead i weld rhagor o brentisiaethau a chwmnïau yn croesawu pobl ifanc gyda golwg ar eu datblygu a'u hyfforddi. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd creu swyddi sy'n gynaliadwy, blaengar ac o safon yn Sir Gaerfyrddin er mwyn cadw a denu pobl ifanc i'r sir, ac sy'n cydnabod nad yw dysgu a datblygu yn dod i ben pan fydd rhywun yn gadael yr ysgol.

### Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Bydd poblogaeth gynyddol yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau addysg, a gallai datblygu ar hap olygu na fydd ardaloedd preswyl yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau addysgol presennol a gallai cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu darpariaeth olygu na fydd cyfleusterau'n cael eu datblygu ar adeg briodol o'r datblygiad.

## 14 Yr Economi

14.1 Yn 2016 roedd 84,700 o bobl yn gyflogedig yn Sir Gaerfyrddin. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r cyfanswm godi gan 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dangosir y duedd o ran y cyfanswm cyflogaeth isod (Ffynhonnell: Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol Sir Gaerfyrddin).




*Ffigur 29 Tueddiadau Cyflogaeth 2004 – 2016. Ffynhonnell: Astudiaeth Anghenion Cyflogaeth Sectorol Sir Gaerfyrddin*

14.2 Isod mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2016 o ran swyddi gweithwyr, a hynny yn ôl diwydiant yn achos Sir Gaerfyrddin a Chymru.

| **Swyddi gweithwyr yn ôl diwydiant – Sir Gaerfyrddin a Chymru** | | |
|---|---|---|
| | **Sir Gaerfyrddin (%)** | **Cymru (%)** |
| B : Mwyngloddio a Chwarela | 0.0 | 0.2 |
| C : Gweithgynhyrchu | 11.9 | 11.4 |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, ager a thymheru | 0.4 | 0.6 |
| E : Gwasanaethau cyflenwi dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gwaith adfer | 0.4 | 0.9 |
| F : Addysg | 6.0 | 5.5 |
| G : Masnach Gyfanwerthu ac Adwerthu; Trwsio Cerbydau Modur a Beiciau Modur | 16.4 | 15.1 |
| H : Cludiant a Storio | 3.0 | 2.9 |
| I : Gweithgareddau Llety a Gweini Bwyd | 9.0 | 8.9 |
| J : Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1.2 | 2.3 |
| K : Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant | 0.9 | 2.3 |
| L : Gweithgareddau Eiddo Tirol | 1.3 | 1.6 |
| M : Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 3.0 | 4.2 |
| N : Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaethau Ategol | 5.2 | 6.6 |
| O : Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol | 6.7 | 6.8 |
| P : Addysg | 10.4 | 10.1 |
| Q : Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol | 19.4 | 16.1 |
| R : Y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden | 2.2 | 2.5 |

| | | |
|---|---|---|
| S : Gwasanaethau eraill | 1.3 | 1.5 |

Ffynhonnell: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157392/report.aspx

14.3 Yn 2016 roedd dros 30% o'r cyfanswm wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus (e.e. mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol). Roedd 8,000 o swyddi (11.9% o'r cyfanswm) yn y sector gweithgynhyrchu ac roedd 11,000 (16.4% o'r cyfanswm) wedi'u cyflogi yn y sectorau cyfanwerthu ac adwerthu.

14.4 Mae hunangyflogaeth hefyd yn gyfran uchel o'r cyfanswm yn Sir Gaerfyrddin – roedd dros 15,200 o bobl wedi'u categoreiddio fel rhai hunangyflogedig yn 2015 ac yn 2016. Mae'r duedd hon tuag at fusnesau bach neu 'micro' yn cael ei hadlewyrchu yn nata NOMIS y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r ffigwr yn dangos yn glir bod dros 90% o fusnesau / mentrau sector preifat y sir yn cyflogi 9 neu lai o weithwyr. Mae'r ystadegau a gasglwyd am y mathau o fusnesau a geir yn Sir Gaerfyrddin yn dangos mai 'amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota' sydd flaenaf o hyd a bod 28% o'r holl fusnesau yn rhan o'r categori hwn.

## Yr Economi Ymwelwyr

14.5 Mae twristiaeth yn un o gydrannau allweddol economi Sir Gaerfyrddin ac mae'n un o'r prif ffynonellau cyflogaeth a refeniw, gan gefnogi dros 5,600 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a chynhyrchu refeniw gwerth dros £369 miliwn i economi'r Sir bob blwyddyn (ffynhonnell: Adroddiad Tueddiadau STEAM (Scarborough Tourism Economic Activity) 2016).

14.6 Gwelir isod y prif ystadegau a'r tueddiadau (a ddaw o Adroddiad Tueddiadau STEAM 2016);

| | |
|---|---|
| % y newid o gymharu â 2015 (£oedd 2016) | 2.7% |
| Cyfanswm nifer y diwrnodau ymweld (Miliynau) | 5.72 |
| % y newid o gymharu â 2015 | 1.2% |
| Nifer y diwrnodau y mae ymwelwyr yn aros (Miliynau) | 3.57 |
| % y newid o gymharu â 2015 | 2.9% |
| Cyfanswm nifer yr ymwelwyr (Miliynau) | 3.08 |
| % y newid o gymharu â 2015 | 0.1% |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (Miliynau) | 0.93 |
| % y newid o gymharu â 2015 | 3.6% |
| Nifer yr ymwelwyr undydd (Miliynau) | 2.15 |
| % y newid o gymharu â 2015 | -1.3% |
| Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan wariant twristiaeth | 5,638 |
| % y newid o gymharu â 2015 | 2.3% |

14.7 O safbwynt yr heriau twristiaeth i Sir Gaerfyrddin, mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn amlinellu ystod o faterion, gan gynnwys diffyg ystod resymol o gyfleusterau tywydd gwlyb ac adloniant.

14.8 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau hefyd yn amlinellu ystod o gyfleoedd, gan gynnwys y ffaith fod Sir Gaerfyrddin yn lleoliad strategol fel y porth i Orllewin Cymru a bod ganddi botensial fel canolfan dwristiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru.

14.9 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn gosod targedau realistig i sicrhau effaith economaidd, gan geisio blaenoriaethu adnoddau prin er mwyn eu defnyddio yn y modd gorau. Mae'n amlinellu rhaglen fesul cam ar gyfer y prosiectau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i oresgyn y gwendidau a'r bygythiadau, ac ar yr un pryd yn manteisio ar y cryfderau a'r cyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy mewn twristiaeth. Mae gan y grŵp llywio gyfrifoldebau ac atebolrwydd er mwyn cyflwyno'r 4 blaenoriaeth allweddol:

**Beicio -** Mae'r farchnad feicio yn tyfu'n gyflym ac wrth i'r galw dyfu, mae Sir Gaerfyrddin yn manteisio trwy ddarparu llwybrau a chyfleusterau newydd ar gyfer ymwelwyr posibl ac mae wedi gwneud datblygiadau arwyddocaol wrth wella'r cyfleoedd ar gyfer beicwyr.

**Treftadaeth a Diwylliant -** Mae arfordir a chefn gwlad Sir Gaerfyrddin yn llawn treftadaeth a diwylliant.

**Sgiliau a hyfforddiant -** Fel rhan o Raglen Sgiliau a Datblygu Busnes Twristiaeth De-orllewin Cymru mae Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr yn trefnu ystod eang o weithdai, sesiynau un-i-un a digwyddiadau - sydd i gyd wedi'u teilwra i anghenion diwydiant twristiaeth y rhanbarth.

**Digwyddiadau -** Mae'r sir yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r agwedd dymhorol ac annog twristiaeth yn ystod y cyfnodau tawel. Cafodd y gyfran fwyaf o bell ffordd o'r effaith economaidd a nodwyd yn ffigur 2015 STEAM y Sir o £355 miliwn ei chynhyrchu yn ystod misoedd gwyliau brig ym hytrach na'i bod wedi'i gwasgaru dros ddeuddeg mis.

14.10 Mae gan dwristiaeth ddimensiwn gofodol yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r ardal arfordirol ôl-ddiwydiannol (gan gynnwys mynediad i Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan) yn gartref i atyniadau rhanbarthol ar raddfa fwy fel Parc Arfordirol y Mileniwm ac ymhellach yn y mewndir, Cae Rasio Ffos Las ac ardaloedd gwledig y gogledd megis Fforest Brechfa sy'n enwog am weithgareddau awyr agored llai o faint o ansawdd uchel, megis beicio mynydd. Nodwedd ar y de-orllewin (e.e. Pentywyn/Llansteffan) yw'r llety arfordirol a ddarperir yno.

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Er mwyn cyflawni amcanion economaidd lleol a rhanbarthol, mae angen newid yn yr economi. Heb y CDLl, byddai cyfraddau twf cyflogaeth presennol yn yr un sectorau yn debygol o barhau heb ymyrraeth gadarnhaol polisïau sy'n annog twf mewn sectorau gwerth uwch. Yn ogystal, ni fyddai darpariaeth tai yn cael ei chydgysylltu yn y tymor hir i gefnogi twf cyflogaeth nac i gydlynu darpariaeth newydd o ofod cyflogaeth deniadol gyda seilwaith ategol i ddenu a darparu ar gyfer mewnfuddsoddiad. Byddai hyn yn peryglu amcanion economaidd y Dinas-ranbarth ehangach.

# 15 Gwead Cymdeithas

**Adolygiad o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017**

15.1 O blith 22 awdurdod lleol Cymru, mae gan Sir Gaerfyrddin un o'r niferoedd isaf o hyd o ran troseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth, sef 5ed unwaith yn rhagor a chyfradd o 43.78 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth.


15.2 Roedd teimlo'n ddiogel yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig iawn ar gyfer llesiant cymdeithasol gan ymatebwyr i'r arolwg asesu, gan fod 93% wedi dweud bod teimlo'n ddiogel yn eu cartref yn 'bwysig iawn' i lesiant a bod 89% wedi dweud bod teimlo'n ddiogel yn eu cymuned yn 'bwysig iawn'.

15.3 Roedd yr arolwg wedi canfod bod perthynas gref rhwng llesiant trigolion a'r amgylchedd o'u hamgylch, er bod union natur y berthynas yn amrywio ar draws grwpiau oedran ac ardaloedd cymunedol o ddarparu cyfleoedd hamdden i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd, a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant, y byddant oll yn cael sylw drwy gydol yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gall natur wledig hefyd beri heriau o safbwynt llesiant megis mynediad i wasanaethau a mynediad digidol, a all effeithio ar lesiant cymdeithasol ac economaidd fel ei gilydd.

15.4 Gellir dweud bod 36% o aelwydydd y sir gyfan yn byw mewn tlodi yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi fel “aelwydydd y mae eu hincwm yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain”, sy'n golygu mai lefelau Sir Gaerfyrddin yw'r rhai 8fed uchaf yng Nghymru. Hefyd, mae mesurau o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yn dangos amrywiant sylweddol yn y lefel amddifadedd ar draws ardaloedd cymunedol.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014**

15.5 Mae MALlC 2014 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Lluniwyd MALlC 2014 ar sail wyth maes: Incwm; Cyflogaeth; Iechyd, Addysg; Tai; Mynediad i Wasanaethau; Amgylchedd Ffisegol; a Diogelwch Cymunedol a chaiff ei gyhoeddi mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y ceir 112 ohonynt yn Sir Gaerfyrddin. Mae 59 o'r 112 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn ymhlith yr 50% mwyaf amddifad yng Nghymru. O'r wardiau hynny sydd ymhlith y 10% mwyaf amddifad yng Nghymru, mae 5 yn Sir Gaerfyrddin - sef Tŷ-isa 2, Bigyn 4, Llwynhendy 3, Glanymôr 4 a Thŷ-isa 3.




*Ffigur 30 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer Sir Gaerfyrddin* [17]

[17] http://wimd.wales.gov.uk/

**Proffiliau Wardiau**

15.6 Mae Sir Gaerfyrddin yn sir amrywiol. Mae'r sir yn cynnwys 58 o wardiau etholiadol gyda 74 o Aelodau Etholedig. Paratowyd proffiliau unigol ar gyfer pob un o'r wardiau hyn gan y Cyngor. Mae'r proffil yn crynhoi prif nodweddion y ward yn ogystal â gwybodaeth leol werthfawr. Lluniwyd proffiliau'r wardiau ar sail ystod eang o ffynonellau data, a chânt eu cyflwyno mewn dull cyson er mwyn gallu cymharu ardaloedd, ymchwilio i batrymau a nodi amrywiaethau yn gyflym ac yn hwylus. Mae hyn ar gael yma:

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymchwil-ac-ystadegau/proffil-wardiau-etholiadol-a-sirol/#

**Tlodi Tanwydd**

15.7 Dengys gwybodaeth o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd fod 21% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin heb gysylltiad â'r prif gyflenwad nwy, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel mesur tlodi tanwydd. Mae hyn yn arbennig o gyffredin mewn ardaloedd gwledig o'r Sir. Mewn rhai cymunedau gwledig llai, mwy anghysbell, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 98% o aelwydydd (Astudiaeth Tlodi Gwledig Sir Gaerfyrddin, 2015).

15.8 O ganlyniad, mae preswylwyr gwledig yn aml yn dibynnu mwy ar ffynonellau tanwydd drutach megis olew, sef y prif ffynhonnell danwydd o hyd ar gyfer 20,194 o gartrefi ar draws y sir (Cyfrifiad, 2011) a gall fod yn arbennig o ddrud mewn tai hŷn nad ydynt wedi eu hinswleiddio'n ddigonol. Yn ogystal, mae 1821 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin heb system gwres canolog (Cyfrifiad, 2011). Yn ogystal â chael effaith niweidiol ar lesiant economaidd, dywedir y gall byw mewn tlodi tanwydd gael effaith niweidiol ar iechyd corfforol ac mae mwyfwy o farwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf yn digwydd o achos heintiau cardiofasgwlaidd ac anadlol sy'n gysylltiedig yn bennaf â'r oerfel.

## Yr Effaith a Ragwelir heb weithredu'r CDLl

Ni fyddai tir wedi'i neilltuo ar gyfer tai, a phan fyddai cyflenwad tai y CDLl presennol yn dod i ben, byddai datblygu'n digwydd mewn modd tameidiog nad yw wedi'i gydgysylltu.

Byddai diffyg addasu i'r newidiadau a ragfynegir mewn poblogaeth a strwythur cymdeithasol, a allai fygwth cydlyniant a llesiant cymunedau a dichonoldeb ysgolion, busnesau a gwasanaethau. Mae'n debygol y byddai datblygiadau tai anghynaliadwy ar safleoedd tir glas yn bell oddi wrth gyfleusterau addysg a gwasanaethau cymunedol presennol, na fyddent yn cael eu gwasanaethu'n dda gan lwybrau cyhoeddus na llwybrau Teithio Llesol, a allai arwain at lai o weithgarwch cymdeithasol a mwy o allgáu cymdeithasol. Mae'n debygol mai ychydig iawn o adfywio fyddai mewn ardaloedd difreintiedig presennol ac mai prin fyddai'r buddion cymunedol cysylltiedig â datblygiadau newydd. Byddai'r ddarpariaeth o ran tai fforddiadwy yn para'n isel ac ni fyddai'r cynnydd yn y galw am dai fforddiadwy, yn enwedig i'r henoed, yn cael ei ateb.

Bydd poblogaeth gynyddol yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau addysg, a gallai datblygu ar hap olygu na fydd ardaloedd preswyl yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau addysgol presennol a gallai cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu darpariaeth olygu na fydd cyfleusterau'n cael eu datblygu ar adeg briodol o'r datblygiad.

Atodiad 3 Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd

| Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Benderfyniadau |
|---|---|
| **1 Datblygu Cynaliadwy** | |
| 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol<br>1 – 2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn<br>1 – 3 Cyflawni economi gynaliadwy<br>1 – 4 Dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | A fydd y CDLl yn cyfrannu at leihau'r adnoddau a ddefnyddir?<br>A fydd y CDLl yn annog y gwaith o ddiwallu anghenion yn lleol?<br>A fydd y CDLl yn annog unigolion, cwmnïau a busnesau i wneud dewisiadau mwy cynaliadwy? |
| **2 Bioamrywiaeth** | |
| 2-1 Hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog cysylltedd.<br>2-2 Gwarchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig | A oes unrhyw safleoedd cadwraeth natur dynodedig neu anstatudol y gallai'r CDLl effeithio arnynt?<br>A oes unrhyw dystiolaeth y gellid effeithio ar rywogaethau a warchodir?<br>A fydd cyfleoedd i gynyddu neu adennill adnoddau bywyd gwyllt?<br>A fydd cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd? |
| **3 Ansawdd Aer** | |
| 3-1 Cynnal a gwell lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU<br>3-2 Lleihau lefelau osôn ar lefel y ddaear<br>3-3 Lleihau'r angen i deithio, trwy leoli datblygiadau newydd mewn mannau addas a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y llinell sylfaen bresennol o ran ansawdd aer?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu neu'n lleihau'r allyriadau llygryddion aer o ddatblygiadau?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu neu'n lleihau'r allyriadau llygryddion aer o drafnidiaeth? |
| **4 Ffactorau Hinsoddol** | |
| 4-1 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>4-2 Lleihau'r perygl o effaith newid hinsawdd ar Sir Gaerfyrddin drwy wneud lle i ddŵr, cilio arfordirol a phatrymau dosbarthu cynefin symudol | A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr allyriadau carbon deuocsid |

| | |
|---|---|
| 4-3 Annog pob datblygiad newydd i allu gwrthsefyll yr hinsawdd<br>4-4 Annog pobl i arbed ynni a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni.<br>4-5 Lleihau’r defnydd o ynni a hybu ffynonellau o ynni adnewyddadwy. | o ddatblygiadau newydd yn y Sir?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at leihau'r allyriadau carbon deuocsid yn sgil ffyrdd traddodiadol o gynhyrchu ynni?<br>A fydd y CDLl yn golygu bod mwy o drigolion yn wynebu perygl llifogydd?<br>A yw'r datblygiadau newydd yn medru gwrthsefyll yr hinsawdd?<br>A yw'r CDLl yn gadael lle i addasu cynefinoedd a dŵr llifogydd arfordirol ac afonol? |
| **5 Dŵr** | |
| 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn cael ei wella a sicrhau bod ansawdd hydroforffoleg cyrff dŵr mor uchel â phosibl.<br>5-2 Diogelu a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd ar hyd y flwyddyn.<br>5-3 Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig.<br>5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a datblygiadau wedi eu hadnewyddu<br>5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a lleihau a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd | A fydd achosion o ollwng llygryddion i ddŵr yn cynyddu neu’n lleihau?<br>A fyddai yna gynnydd neu leihad yn y dŵr a ddefnyddir yn sgil datblygu?<br>A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ansawdd dŵr a hydroforffoleg?<br>A fydd yn cyfrannu at gynyddu'r perygl o lifogydd?<br>A fydd yn cyfrannu at leihau'r perygl o lifogydd? |
| **6 Asedau Materol** | |
| 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu.<br>6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu.<br>6-3 Annog diwallu anghenion yn lleol.<br>6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy.<br>6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau trafnidiaeth.<br>6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded). | A fydd y CDLl yn cyfrannu at fwy o ailgylchu a mwy o effeithlonrwydd adnoddau?<br>A fydd y CDLl yn sicrhau bod modd diwallu anghenion yn lleol?<br>A fydd y CDLl yn caniatáu i bobl wneud dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy? |
| **7 Pridd** | |
| 7-1 Hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig<br>7-2 Osgoi colli pridd i arwynebau anathraidd a chyfyngu cymaint â phosibl ar erydiad pridd. | A fydd y CDLl yn cynyddu neu'n lleihau'r tir a halogir? |

| | |
|---|---|
| 7-3 Lleihau allyriadau SO7 ac NOX a llygredd nitradau o fyd amaeth. | A fydd y CDLl yn cynyddu'r adnoddau pridd o ansawdd da, neu'n arwain at eu colli?<br>A fydd y CDLl yn gwella neu'n diraddio ansawdd y pridd?<br>A fydd y CDLl yn cynnwys datblygiad ar dir a ddefnyddiwyd yn flaenorol? |
| **8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol** | |
| 8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt<br>8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw | Oes yna unrhyw safleoedd o bwysigrwydd archeolegol y gallai'r CDLl effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol arnynt?<br>Oes yna unrhyw dirweddau hanesyddol y gallai'r CDLl effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol arnynt?<br>Oes yna unrhyw adeiladau rhestredig y gallai'r CDLl effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol arnynt? |
| **9 Tirwedd** | |
| 9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella<br>9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel<br>9-3 Annog defnydd priodol o dir adfeiliedig yn y dyfodol | A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar dirweddau neu drefweddau?<br>A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar dirweddau dynodedig?<br>A fydd y CDLl yn annog ailddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen? |
| **10 Poblogaeth** | |
| 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth<br>10-2 Helpu i gadw pobl iau<br>10-3 Hyrwyddo cynnwys grwpiau dan anfantais a lleiafrifoedd yn y gymdeithas | A fydd y CDLl yn cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at gadw pobl ifanc yn y sir?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol? |
| **11 Yr Iaith Gymraeg** | |
| 11-1 Annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | A fydd y CDLl yn annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant? |
| **12 Iechyd a Llesiant** | |

| | |
|---|---|
| 12-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau actif ac iach trwy gynllunio gweithgareddau<br>12-2 Darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden<br>12-3 Annog cerdded neu feicio fel dull cludiant amgen<br>12-4 Hybu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru | A fydd effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd dynol?<br>A fydd mynediad i wasanaethau iechyd a chyfleusterau hamdden gan gynnwys nodweddion treftadaeth yn cynyddu?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu'r cyfleoedd i gerdded a beicio? |
| **13 Addysg a Sgiliau** | |
| 13-1 Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol<br>13-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd<br>13-3 Hybu dysgu gydol oes | A fydd y CDLl yn cyfrannu at gynyddu lefelau cyrhaeddiad pobl ifanc?<br>A fydd y CDLl yn hyrwyddo mynediad i gyfleusterau addysg ar gyfer holl aelodau'r gymuned?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at wella lefelau llythrennedd a rhifedd? |
| **14 Yr Economi** | |
| 14-1 Hybu twf economaidd cynaliadwy<br>14-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob rhan o'r boblogaeth<br>14-3 Hybu busnesau cynaliadwy yng Nghymru | A fydd yna unrhyw effeithiau economaidd niweidiol ar dir ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth?<br>A fydd yna effaith gadarnhaol neu negyddol ar y cyfleoedd am swyddi yn sgil y CDLl? |
| **15 Gwead Cymdeithas** | |
| 15-1 Gwella diogelwch a diogeledd pobl ac eiddo<br>15-2 Hyrwyddo dyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol<br>15-3 Hyrwyddo cyflwyno tai fforddiadwy<br>15-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais. | A fydd y CDLl yn cyfrannu at wneud tai yn fwy fforddiadwy?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at greu aneddiadau sy'n ddiogel ac yn safleoedd trefol o ansawdd uchel?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at greu cartrefi iachach?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu mynediad i wasanaethau a chyfleusterau gymaint â phosibl ar gyfer holl aelodau'r gymuned trwy ddulliau trafnidiaeth gwahanol? |

## Atodiad 4: Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) Polisïau Strategol (PS) y CDLl Diwygiedig

| PS1: Twf Strategol | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru'r Cynllun** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae twf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn debygol o effeithio ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi twf poblogaeth a thwf economaidd, sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) a llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi twf poblogaeth a thwf economaidd, sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) a'r allyriadau carbon cysylltiedig. | CCH2 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan<br>TRA2 Teithio Llesol |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer canran twf tai o 10.6%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau, gan arwain at ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymdogaethau Cynaliadwy. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. | PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae hyn yn cefnogi lefel twf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. Hefyd, bydd creu swyddi newydd yn debygol o helpu i gadw pobl ifanc yn y sir. | |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf a mewnfudo wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. | WL1 Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau hamdden a gofal iechyd hawdd eu cyrraedd newydd. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau addysg a hyfforddiant hawdd eu cyrraedd newydd. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Yn cefnogi twf ar lefel a fydd yn creu lleiafswm o 5,307 o swyddi yn ystod cyfnod y cynllun, yn unol ag uchelgeisiau craidd y Cyngor. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae hyn yn cefnogi lefel o dwf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. | |
| **Sylwadau ac Argymhellion yr AC** | | | |
| • Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol. | | | |

| PS 2: Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru'r Cynllun** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar fioamrywiaeth. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae'r polisi hwn yn annog atyniad canol trefi a all gynyddu mynediad trwy gar cyhoeddus, yn arbennig mewn trefi fel Caerfyrddin, Llanelli a Llandeilo sy'n ardaloedd rheoli ansawdd aer ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ceir gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da i ganol trefi ac felly mae modd eu cyrraedd trwy rwydweithiau teithio eraill. Mae'r polisi yn cyfeirio'n glir at ddangos tystiolaeth o fynediad i ddulliau teithio cynaliadwy o safleoedd os ydynt y tu allan i ganol trefi. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae'r polisi hwn yn annog atyniad canol trefi a all gynyddu mynediad trwy gar cyhoeddus a'r allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, ceir gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da i ganol trefi ac felly mae modd eu cyrraedd trwy rwydweithiau teithio eraill. Mae'r polisi yn cyfeirio'n glir at ddangos tystiolaeth o fynediad i ddulliau teithio cynaliadwy o safleoedd os ydynt y tu allan i ganol trefi. | CCH2 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan<br>TRA2 Teithio Llesol |
| AC5 – Dŵr | I | Mae effeithiau ar ansawdd a chyflenwad dŵr yn dibynnu'n fawr ar y safleoedd a ddewisir a sut y cânt eu datblygu. | PS8 – Seilwaith<br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | | |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn cefnogi trefniadau gwarchod a gwella trefluniau presennol. | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae gwarchod a gwella bywyd, hyfywedd ac atyniad ein canolfannau manwerthu yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y Sir. | |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae gwarchod a gwella bywyd, hyfywedd ac atyniad ein canolfannau manwerthu yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y Sir, sydd yn ei dro'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Bydd gwarchod a gwella bywyd, hyfywedd ac atyniad ein canolfannau manwerthu yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar economi'r Sir. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Gallai mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau ansawdd aer gael eu cryfhau ymhellach drwy gyfeirio'n benodol at ddiogelu a gwella Seilwaith Gwyrdd o fewn ac yn ymyl Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ym mholisi PSD12 Ansawdd Aer a Golau.
- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

| PS 3: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae’r polisi hwn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae'r ddarpariaeth tai, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn debygol o effeithio ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae’r polisi hwn yn cefnogi darpariaeth cartrefi newydd, sy’n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) a llygredd aer sy’n gysylltiedig â thraffig. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae’r polisi hwn yn cefnogi darpariaeth cartrefi newydd, sy’n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) ac allyriadau carbon cysylltiedig. | CCH2 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan<br>TRA2 Teithio Llesol |
| AC5 – Dŵr | + | Mae’r polisi hwn yn darparu ar gyfer canran twf tai o 10.6%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau, gan arwain at ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC7 – Pridd | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi yn amlinellu'n benodol y meini prawf ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan gynnwys rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol y tu allan i derfynau datblygu. | |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae hyn yn cefnogi lefel twf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. Hefyd, bydd creu swyddi newydd yn debygol o helpu i gadw pobl ifanc yn y sir. | |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae’r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf a mewnfudo wanhau’r iaith a’r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae’n cynyddu’r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. | WL1 Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau hamdden a gofal iechyd hawdd eu cyrraedd newydd. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau addysg a hyfforddiant hawdd eu cyrraedd newydd. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Yn cefnogi twf ar lefel a fydd yn creu lleiafswm o 5,295 o swyddi yn ystod cyfnod y cynllun, yn unol ag uchelgeisiau craidd y Cyngor. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae hyn yn cefnogi lefel o dwf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

| PS 4: Tai Fforddiadwy | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod gwaith datblygu yn gynaliadwy yn gymdeithasol, trwy ymdrin â llesiant pob aelod o'r gymdeithas a dileu rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae'r ddarpariaeth tai, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn debygol o effeithio ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Gall tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig arwain at gynnydd yn y defnydd o geir preifat a phroblemau ansawdd aer cysylltiedig os na fyddant wedi'u lleoli yn agos at rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus da a llwybrau teithio llesol. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Gall tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig arwain at gynnydd yn y defnydd o geir preifat ac allyriadau $CO^2$ cysylltiedig os na fyddant wedi'u lleoli yn agos at rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus da a llwybrau teithio llesol. | CCH2 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan<br><br>TRA2 Teithio Llesol |
| AC5 – Dŵr | 0 | | |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | | |
| AC7 – Pridd | 0 | | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | | |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Gall trigolion na allant fforddio byw a gweithio yn y Sir fel arall gael gafael ar dai fforddiadwy ac aros yn y Sir. Yn benodol, mae'r polisi hwn yn cefnogi grwpiau difreintiedig y gymdeithas yn ogystal â phobl ifanc. | |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a bydd y polisi hwn yn cefnogi trigolion na fyddant yn gallu fforddio byw a gweithio yn y Sir fel arall i | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gael gafael ar dai fforddiadwy ac aros yn y Sir. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | | |
| AC14 – Yr Economi | + | Gall trigolion na allant fforddio byw a gweithio yn y Sir fel arall gael gafael ar dai fforddiadwy ac aros yn y Sir. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae'r polisi yn hwyluso darpariaeth tai fforddiadwy, sydd yn ei dro yn dileu rhwystrau ac yn creu cyfleoedd ar gyfer aelodau difreintiedig y gymdeithas. | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Awgrymir oherwydd yr angen tebygol am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol yn Sir Gaerfyrddin, fod polisi PS4 yn cyfeirio'n benodol yn y testun ategol at ddiogelu'r amgylchedd naturiol wrth leoli tai fforddiadwy.
- Awgrymir bod polisi PS4 yn cyfeirio'n benodol yn y testun ategol at leoli tai fforddiadwy mewn lleoliadau sydd â mynediad da at rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â llwybrau teithio llesol.
- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

| PS 5: Safleoedd Strategol | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Caiff y rhain eu hasesu yn ystod y cam cais cynllunio. Dylid nodi bod pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli union yn ymyl Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br><br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae'r ddau safle y tu allan i'r ardaloedd rheoli ansawdd aer sydd wedi'u sefydlu yng Nghaerfyrddin a Llanelli, fodd bynnag ceir potensial i gynyddu'r traffig a'r llygredd aer cysylltiedig. Mae'r ddau safle yn strategol ac maent wedi'u gwasanaethu'n dda gan rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae potensial yn y ddau safle i gynyddu traffig a'r llygredd aer cysylltiedig. Mae'r ddau safle yn strategol ac maent wedi'u gwasanaethu'n dda gan rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. | CCH2 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan<br><br>TRA2 Teithio Llesol |
| AC5 – Dŵr | 0 | Mae'r ddau safle wedi bod drwy'r broses gynllunio ac mae gan Dŵr Cymru Adolygiad o Ganiatadau am gapasiti safleoedd penodol ar gyfer twf o ran tynnu dŵr a thrin dŵr gwastraff. Bydd yr angen am unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn destun ymgynghori â Dŵr Cymru. | PS8 – Seilwaith<br><br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r ddau safle wedi'u gwasanaethu'n dda ac yn cynnwys mynediad at gyfleusterau, gan ganiatáu i anghenion gael eu diwallu'n lleol. Ceir hefyd wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da. | |
| AC7 – Pridd | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, anodd yw rhagweld effeithiau ar lefel strategol. Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br><br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at gyfochri gwaith datblygu â chyfleoedd cyflogaeth medrus sylweddol sy'n debygol o annog pobl ifanc i aros yn y sir. Mae pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant Llanelli hefyd yn ardal lle ceir amddifadedd uchel, felly mae'n debygol o greu cyfleoedd ar gyfer cymunedau difreintiedig. | |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Yr Egin yw canolfan y darlledwr Cymraeg S4C, a hwn yw'r man datblygu newydd ar gyfer cwmnïau creadigol a digidol sydd â hybu'r Gymraeg wrth wraidd y datblygiad. Mae'r gwaith o greu swyddi sylweddol o ganlyniad i'r ddau safle strategol yn debygol o greu cyfleoedd i bobl ifanc yn y Sir, y mae cyfran helaeth ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd o hyd ynglŷn ag effeithiau siaradwyr digymraeg yn mewnfudo i'r sir o ganlyniad i'r datblygiadau hyn. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | ++ | Bydd pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant Llanelli yn ganolfan iechyd lle bydd sawl gwasanaeth ar gael mewn un lleoliad. Bydd cyfochri datblygiad â hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ++ | Mae'r ddau gyfleuster yn creu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd, buddsoddiad mewnol a mewnlif o sgiliau i'r sir, a rhagwelir y bydd hyn oll yn arwain at effeithiau cadarnhaol cryf. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r ddau gyfleuster yn rhan o fuddsoddiad mewnol sylweddol i'r sir a | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cheir potensial i greu miloedd o swyddi o ansawdd uchel. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Byddai'r polisi hwn yn cyfrannu at alinio gwaith datblygu cyflogaeth medrus sylweddol ac yn achos Llanelli, mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd ac felly mae'n debygol o greu cyfleoedd i'r rhai difreintiedig. | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Caiff unrhyw bosibilrwydd o effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ei liniaru ymhellach gan Ganllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gymryd camau digolledu mewn perthynas â dŵr mewn dalgylchoedd sy'n draenio i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.
- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

| PS 6: Cyflogaeth a'r Economi | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae dyrannu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn ogystal â chefnogi Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth niferus o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Caiff y rhain eu hasesu ar y cam arfarnu safle. Mae'n debygol y caiff tir cyflogaeth ei ddyrannu mewn ardaloedd gwledig sy'n debygol o effeithio ar safleoedd maes glas. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br><br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae dyrannu tir cyflogaeth yn unol â strategaeth ofodol/fframwaith aneddiadau y cynllun ac egwyddorion cynaliadwy yn debygol o leihau'r angen i deithio, ac felly'r allyriadau sy'n gysylltiedig â cheir. Fodd bynnag, bydd tir cyflogaeth yn anorfod yn cynyddu nifer ac amlder cerbydau nwyddau trwm sy'n debygol o gyfrannu at y problemau ansawdd aer presennol. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Mae dyrannu tir cyflogaeth yn unol â strategaeth ofodol/fframwaith aneddiadau y cynllun yn debygol o leihau'r angen i deithio. | |
| AC5 – Dŵr | ? | Bydd datblygu cyflogaeth yn cynyddu lefel y galw am gyflenwad dŵr a gollyngiadau carthffosiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Caiff y rhain eu hasesu yn ystod y cam cais cynllunio a byddant yn destun ymgynghoriad â Dŵr Cymru. | PS8 – Seilwaith<br><br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae dyrannu tir cyflogaeth yn unol â strategaeth ofodol/fframwaith aneddiadau y cynllun yn debygol o leihau'r angen i deithio. | |
| AC7 – Pridd | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, anodd yw rhagweld effeithiau ar lefel | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | strategol. Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae dyrannu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn ogystal â chefnogi Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth niferus o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu’n gadarnhaol at gadw pobl ifanc a chynhwysiant cymdeithasol. | |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae caniatáu cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fach mewn ardaloedd gwledig i gefnogi cymunedau gwledig, yn ogystal â'r safleoedd cyflogaeth mwy o faint hynny, yn debygol o greu cymysgedd o ddewisiadau cyflogaeth ar draws y sir a all, yn eu tro, annog cadw pobl ifanc. Byddai hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae creu amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth ledled y sir mewn ardaloedd gwledig a threfol yn cynyddu'r potensial a’r gallu i ddefnyddio cyfleusterau addysg a sgiliau. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae dyrannu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn ogystal â chefnogi Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth niferus o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu’n gadarnhaol at economi gynaliadwy. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Bydd cynyddu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cyfrannu'n gadarnhaol at hybu cadw pobl ifanc a chynhwysiant cymdeithasol. | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | | |
| • Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol. | | | |

| PS 7: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod a gwella gwead cymdeithasol cymunedau'r Sir. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | 0 | | |
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | 0 | | |
| AC5 – Dŵr | 0 | | |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | | |
| AC7 – Pridd | 0 | | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio diogelu arwahanrwydd diwylliannol lleol rhag effeithiau negyddol posibl o ganlyniad i waith datblygu. | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Bydd hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau digon o gyfleoedd cyflogaeth a thai yn debygol o helpu i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y Sir. | |
| AC11 - Y Gymraeg | ++ | Mae'r Polisi hwn yn cyd-fynd yn union ag AC11. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae gwarchod a gwella'r iaith Gymraeg a'r Diwylliant yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar lythrennedd Cymraeg. | |
| AC14 – Yr Economi | + | Bydd hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau digon o gyfleoedd cyflogaeth a thai yn debygol o helpu i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y Sir. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod a gwella gwead cymdeithasol cymunedau'r Sir. | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r polisi hwn
- Er mwyn cryfhau'r polisi hwn ymhellach, dylid cyfeirio'n benodol at y cynnig a basiwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2019, a oedd yn galw am i'r sir gyfan gael ei hystyried yn ieithyddol sensitif ac i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ym mhob datblygiad o 10 tŷ neu fwy.

| PS 8: Isadeiledd | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi hwn yn sylfaen i'r gallu i ddatblygu mewn modd cynaliadwy, gan sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a chreu canolfannau economaidd cynaliadwy. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Gall lleoli datblygiadau mewn ardaloedd â chapasiti isadeiledd digonol fod yn andwyol i fioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd annog trefniadau lleol i ddiwallu anghenion yn lleihau'r defnydd o geir preifat a'r llygredd aer cysylltiedig sy'n effeithio ar hyn o bryd ar rai o safleoedd dynodedig Ewropeaidd Sir Gaerfyrddin. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br><br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. | |
| AC5 – Dŵr | + | Bydd cyfeirio datblygiad i ardaloedd â digon o gapasiti neu botensial ar gyfer twf yn sicrhau y diogelir adnoddau dŵr. Mae'r polisi hefyd yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â Chanllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn, sydd ar waith i ddiogelu ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn annog trefniadau i ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC7 – Pridd | - | Gall cyfeirio datblygiadau i leoliadau ag isadeiledd digonol leihau'r hyblygrwydd i hyrwyddo adfywiad y tir. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br><br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | - | Gall cyfeirio datblygiadau i leoliadau ag isadeiledd digonol leihau'r hyblygrwydd i osgoi nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | - | Gall cyfeirio datblygiadau i leoliadau ag isadeiledd digonol leihau'r hyblygrwydd i osgoi ardaloedd sensitif o ran tirwedd. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn cyflwyno'r cyfleoedd mwyaf i ddefnyddio'r rhain, yn arbennig ar gyfer aelodau difreintiedig yn y gymdeithas. | |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae'r polisi hwn yn ystyried seilwaith caled a meddal ac mae'n cynnwys cymorth i'r iaith Gymraeg yn ei ddiffiniad o seilwaith. Rhaid i gynigion datblygu ystyried darparu seilwaith o'r fath cyn ei ddatblygu. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Bydd y polisi hwn yn cynyddu'r gallu i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau iechyd a hamdden. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Bydd y polisi hwn yn cynyddu'r gallu i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau addysg a sgiliau. Mae'r polisi hwn hefyd yn ystyried cymorth addysg yn ei ddiffiniad o seilwaith. Rhaid i gynigion datblygu ystyried darparu seilwaith o'r fath cyn ei ddatblygu. | |
| AC14 – Yr Economi | + | Bydd cyfeirio gwaith datblygu i leoliadau lle ceir isadeiledd digonol yn debygol o greu canolfannau economaidd hyfyw wedi'u cefnogi gan weithlu a marchnad leol. Mae'r polisi hwn hefyd yn cefnogi seilwaith digidol, sy'n hanfodol yn aml i gefnogi datblygu cyflogaeth. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn cyflwyno’r cyfleoedd mwyaf i ddefnyddio’r rhain, yn arbennig ar gyfer aelodau difreintiedig yn y gymdeithas. | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau’r AC** | | | |
| • Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol. | | | |

| PS 9: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cynhwysiant y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy ddyrannu tir i ddiwallu'n benodol eu hangen am dai. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae rhywfaint o brysgwydd ar derfyn safle Pen-y-fan sydd â gwerth bioamrywiaeth yn perthyn iddo. Mae'r AC yn argymell bod hwn yn cael ei gadw fel parth clustogi i'r rheilffordd gyfagos. Bydd yr estyniad arfaethedig i safle presennol Pen-y-bryn, yn ogystal â'r safle newydd, yn destun caniatâd cynllunio a bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal os oes angen. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Caiff Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr eu categoreiddio fel datblygiad Agored Iawn i Niwed o dan Nodyn Cyngor Technegol 15 Polisi Cynllunio Cymru (2004). Nodir yr effeithir ar y 3 lleoliad a restrir o dan PS9 i raddau amrywiol mewn perthynas â Pharth Map Cyngor Datblygu C1. | PS8 – Seilwaith<br><br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr<br><br>CCH4 – Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd<br><br>PS15 - Newid yn yr Hinsawdd |
| AC5 – Dŵr | I | Er mwyn sicrhau nad effeithir ar Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd gan faterion ansawdd dŵr, bydd yn ofynnol i'r safle newydd a'r estyniad i'r safle presennol gydymffurfio â memorandwm cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael gwared ar ddŵr wyneb er mwyn diogelu ansawdd dŵr yng Nghilfach Tywyn.<br><br>Nodir yr effeithir ar y 3 lleoliad a restrir o dan PS9 i raddau amrywiol mewn perthynas â Pharth Map Cyngor Datblygu C1. | PS8 – Seilwaith<br><br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr<br><br>CCH4 – Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r ddau safle mewn lleoliadau cynaliadwy â mynediad da at gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC7 – Pridd | - | Bydd datblygu'r ddau safle yn golygu colli priddoedd i arwynebau anathraidd. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br><br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | Nid yw'r safleoedd arfaethedig yn cael dim effaith ar unrhyw safleoedd o bwysigrwydd archeolegol, tirweddau hanesyddol nac adeiladau rhestredig. | |
| AC9 – Tirwedd | - | Mae lleoliad y safle sydd newydd gael ei gynnig yn agos iawn at ddatblygiadau preswyl a masnachol presennol. Dylid cadw lleiniau clustogi o seilwaith gwyrdd presennol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cynhwysiant y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy ddyrannu tir i ddiwallu'n benodol eu hangen am dai. | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r ddau safle wedi eu lleoli yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau iechyd yn ogystal â llwybrau teithio llesol a darpariaeth mannau agored. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae'r ddau safle wedi eu lleoli yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau addysg. | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae'r ddau safle wedi eu lleoli yn agos at safleoedd cyflogaeth presennol. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cynhwysiant y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy ddyrannu tir i ddiwallu'n benodol eu hangen am dai. | |

**Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC**

- Mae gan derfyn safle arfaethedig Pen-y-fan rywfaint o brysgwydd sydd â gwerth bioamrywiaeth, a hefyd mae'n darparu rhywfaint o sgrinio llygredd sŵn/llygredd aer o'r rheilffordd gyfagos. Mae'r AC yn argymell y cedwir hwn fel parth clustogi i'r rheilffordd gyfagos.
- Dylid cynnal coridorau seilwaith gwyrdd presennol hefyd fel parthau clustogi i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd.
- Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried yn briodol a yw PS9 yn cydymffurfio â'r gofynion polisi a geir ym Mholisi CCH4 – Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd mewn perthynas â pherygl llifogydd. Dylai'r cyfryw ystyriaeth gael ei llywio ymhellach gan unrhyw Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd manwl/ar lefel prosiect. Gallai Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd helpu i egluro tebygolrwydd a difrifoldeb perygl llifogydd yn y 3 lleoliad a restrir o dan Bolisi Strategol 9 i'r Cyngor.

| PS 10: Yr Economi Ymwelwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal economi gynaliadwy yn y Sir ac yn hyrwyddo iechyd a llesiant. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar fioamrywiaeth. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae'n bosibl y bydd cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r sir sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cynyddu'r defnydd o geir preifat. Fodd bynnag, mae'r polisi yn nodi bod yn rhaid i waith datblygu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fod wedi'i leoli'n gynaliadwy, a ddylai sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli mewn ardaloedd y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn nodi y dylai datblygiadau gyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a'r seilwaith gwyrdd a fydd, yn ei dro, yn fuddiol o ran ansawdd yr aer. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae'n bosibl y bydd cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r sir sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cynyddu'r defnydd o geir preifat. Fodd bynnag, mae'r polisi yn nodi y bydd gwaith datblygu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wedi'i leoli mewn ardaloedd y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod wedi'i leoli'n gynaliadwy. | CCH2 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan<br><br>TRA2 Teithio Llesol |
| AC5 – Dŵr | I | Ceir potensial i weithgareddau twristiaeth ymestyn i amgylcheddau afonol ac arfordirol, a all arwain at sgileffeithiau ar ansawdd dŵr. Fodd bynnag mae'r polisi'n datgan yn glir na ddylai datblygiadau arwain at unrhyw effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd naturiol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar ddŵr. | CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC6 – Asedau Materol | + | Sicrhau bod datblygiad twristiaeth sy'n adlewyrchu fframwaith aneddiadau'r Cynllun yn cefnogi'r bwriad i ddiwallu anghenion yn lleol a lleihau'r angen i deithio. Mae'r polisi'n nodi bod yn rhaid i gynigion gael eu lleoli'n gynaliadwy. | |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br><br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'n bosibl y bydd gwaith datblygu yn effeithio ar nodweddion tirwedd o bwys. Fodd bynnag mae'r polisi yn datgan yn glir y dylai datblygiadau amlygu egwyddorion dylunio a llunio lleoedd o safon uchel. Bydd effeithiau yn dibynnu ar weithrediad y polisi. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn un o'r prif ffynonellau cyflogaeth. Mae cynyddu swyddi twristiaeth yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y sir. | |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf economaidd a'r mewnfudo cysylltiedig wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. | WL1 Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | ++ | Gall cyfleusterau twristiaeth sy'n cyd-fynd â pholisïau corfforaethol fel dyheadau beicio y Sir, annog cerdded/beicio, mynediad at dreftadaeth naturiol a diwylliannol a mynediad at gyfleusterau iechyd a hamdden. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae darpariaeth ar gyfer mentrau twristiaeth drwy'r flwyddyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflogaeth | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a chyfleoedd addysg, sgiliau a hyfforddiant cysylltiedig. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r polisi hwn yn ceisio hwyluso datblygiadau twristiaeth sy'n elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn ffynhonnell gyflogaeth fawr. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn un o'r prif ffynonellau cyflogaeth. Mae cynyddu swyddi twristiaeth yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y sir. | |

**Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC**

- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

| PS 11: Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ac yn cynnwys ystyriaeth o lesiant ac integreiddiad cymunedau. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | + | Mae cadw a chreu seilwaith gwyrdd yn creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol. | |
| AC3 – Ansawdd Aer | ++ | Bydd cadw a chreu seilwaith gwyrdd yn cyfrannu at hidlo a dileu llygryddion o'r aer. Bydd cynnwys llwybrau teithio llesol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus wrth ddatblygu hefyd yn annog defnyddio llai ar geir preifat. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | ++ | Gall cadw a chreu seilwaith gwyrdd liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy ailgylchu CO2 a darparu effeithiau oeri ac amsugno dŵr glaw a all leihau'r risg o lifogydd. Mae'r polisi hwn yn annog datblygiadau i allu addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac yn annog ystyriaeth o ymgorffori systemau draenio trefol cynaliadwy mewn datblygiadau pan fo hynny'n ymarferol. | |
| AC5 – Dŵr | + | Mae annog ymgorfforiad systemau draenio trefol cynaliadwy mewn datblygiadau yn y dyfodol yn ogystal â chadw a chreu seilwaith gwyrdd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC5. | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn annog datblygiadau newydd i ystyried materion cynhyrchu, trin a chael gwared ar wastraff. | |
| AC7 – Pridd | + | Mae cadw a chreu seilwaith gwyrdd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag osgoi disodli priddoedd i arwynebau solet. | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio'n ymarferol i hybu cynllun o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu cymeriad ac arwahanrwydd lleol. | |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio'n ymarferol i hybu cynllun o ansawdd uchel sy'n cydweddu â'r dirwedd gyfagos. | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r polisi hwn yn annog amgylcheddau diogel, deniadol a hawdd eu cyrraedd sydd, yn eu tro, yn creu mannau deniadol i bob aelod o'r gymdeithas, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau difreintiedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r polisi hwn yn annog datblygiadau newydd i ystyried Llesiant, ac, yn arbennig, i gynnwys mynediad at fannau agored a chyfleoedd hamdden. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae creu cymunedau bywiog, diogel a chynaliadwy yn debygol o annog pobl i aros a llifo i mewn i Sir Gaerfyrddin, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r polisi hwn yn annog amgylcheddau diogel, deniadol a hawdd eu cyrraedd sydd, yn eu tro, yn creu mannau deniadol i bob aelod o'r gymdeithas, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau difreintiedig. | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Awgrymir cyfeirio'n benodol at ddyluniad effeithlon o ran ynni yn ogystal ag effeithlonrwydd adnoddau.
- Awgrymir cyfeirio at ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy yn ogystal â thechnegau.
- Awgrymir cyfeirio at ailgylchu gwastraff dan faen prawf (j)
- Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith AC o ganlyniad i'r polisi hwn.

| PS 12: Datblygu Gwledig | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal economi gynaliadwy yn y Sir ac yn hybu iechyd, llesiant a chynhwysiant cymdeithasol. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi gwaith datblygu cynyddol mewn ardaloedd gwledig, sy'n debygol o gynyddu gwaith datblygu ar safleoedd maes glas ac effeithio'n negyddol ar ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd hybu gwaith datblygu mewn ardaloedd gwledig yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd trefol sy'n agos at fynd yn groes, neu sydd yn mynd yn groes, i amcanion Ansawdd Aer y DU. Bydd cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau'r defnydd o geir preifat. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Bydd cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau'r defnydd o geir preifat ac felly'n lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. | |
| AC5 – Dŵr | - | Mae datblygiadau gwledig yn debygol o arwain at ddisodli safleoedd maes glas hydraidd ag arwyneb solet, a all gynyddu'r risg o lifogydd a dŵr wyneb. Mae'r polisi hwn yn datgan yn benodol bod yn rhaid i ddatblygiad ystyried effeithiau ar seilwaith lleol, a fyddai'n cynnwys cyflenwad dŵr a gollyngiadau carthffosiaeth. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br><br>PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br><br>PS8 – Seilwaith<br><br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn cefnogi cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig ac felly'n cynorthwyo'r elfen o ddiwallu anghenion yn lleol. | |
| AC7 – Pridd | - | Mae datblygiadau gwledig yn debygol o arwain at ddisodli safleoedd maes glas hydraidd ag arwyneb solet. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | - | Mae datblygiadau gwledig yn annhebygol o arwain at ailddefnyddio tir diffaith. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae cadw a gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gwledig yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc a chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol y gymdeithas. | |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf economaidd a mewnfudo cysylltiedig wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. | WL1 Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Byddai datblygiadau gwledig yn cynyddu mynediad at fannau gwyrdd a threftadaeth naturiol a diwylliannol y Sir. Bydd cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau gwledig hefyd yn sicrhau y diogelir mynediad at wasanaethau iechyd a hamdden lleol. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae'r polisi hwn yn hwyluso trefniadau cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau gwledig sy'n debygol o sicrhau y diogelir mynediad at gyfleusterau addysg gwledig. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r polisi hwn yn ceisio ymdrin â'r anghydraddoldeb economaidd rhwng gogledd a de y sir, trwy ddarparu cyflogaeth leol wedi'i chefnogi gan weithlu lleol mewn ardal wledig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae cadw a gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gwledig yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc a chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol y gymdeithas. | |
| **Sylwadau ac Argymhellion yr AC** | | | |
| • Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol. | | | |

| PS 13: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | ++ | Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC2 i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. | |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at hidlo a dileu llygryddion o'r aer. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Gall gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy ailgylchu CO2 a darparu effeithiau oeri ac amsugno dŵr glaw a all leihau risg llifogydd. | |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwarchod a gwella cyrff dŵr. | |
| AC6 – Asedau Materol | | | |
| AC7 – Pridd | + | Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwarchod a gwella adnoddau pridd. | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | + | Mae cysylltiad cryf rhwng yr amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol. | |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at warchod a gwella tirwedd Sir Gaerfyrddin. | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Gall diogelu'r amgylchedd naturiol olygu bod Sir Gaerfyrddin yn lle mwy dymunol i fyw ynddo, a allai annog pobl ifanc i aros yn y sir. Ceir hefyd astudiaethau sy'n dod i'r casgliad y gall mannau gwyrdd naturiol gynyddu cynhwysiant cymdeithasol. | |
| AC11 - Y Gymraeg | | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Bydd gwarchod a gwella asedau naturiol y Sir yn cefnogi'n uniongyrchol drefniadau hybu mynediad at dreftadaeth naturiol Sir Gaerfyrddin a mannau agored. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae treftadaeth naturiol Sir Gaerfyrddin yn adnodd gwerthfawr yn addysg plant ac oedolion. | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae gwarchod asedau naturiol Sir Gaerfyrddin yn cadw bioamrywiaeth ac amgylchedd naturiol unigryw y Sir, sy'n gwella twristiaeth a'r economi ymwelwyr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae astudiaethau hefyd sy'n dod i'r casgliad y gall mannau gwyrdd naturiol, bioamrywiol gynyddu cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at greu aneddiadau sy'n fwy diogel ac yn fwy iach. | |

**Sylwadau ac Argymhellion yr AC**

- Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith AC o ganlyniad i'r polisi hwn.
- Dylid cyfeirio'n benodol yn y testun ategol at ddyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2018.

| PS 14: Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cyfrannu’n gadarnhaol at amcanion datblygiad cynaliadwy a llesiant. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | 0 | | |
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | 0 | | |
| AC5 – Dŵr | 0 | | |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | | |
| AC7 – Pridd | 0 | | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | ++ | Mae’r polisi hwn yn cefnogi’n uniongyrchol drefniadau gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a chynllun o ansawdd uchel Sir Gaerfyrddin. | |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae’r polisi hwn yn cefnogi’n uniongyrchol drefniadau gwarchod trefluniau a thirweddau’r Sir. | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Gall diogelu'r amgylchedd hanesyddol olygu bod Sir Gaerfyrddin yn lle mwy dymunol i fyw ynddo, a allai annog pobl ifanc i aros yn y sir. | |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae gan dreftadaeth adeiledig Sir Gaerfyrddin gysylltiadau cryf â'r iaith Gymraeg. | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cynnal mynediad at dreftadaeth ddiwylliannol at ddibenion Llesiant. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae treftadaeth adeiledig Sir Gaerfyrddin yn adnodd gwerthfawr yn addysg plant ac oedolion. | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae gwarchod asedau diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn cadw amrywiaeth a threftadaeth gyfoethog y Sir, sy’n gwella twristiaeth a’r economi ymwelwyr. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Bydd sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig yn cael ei ddiogelu yn sicrhau bod mynediad i adnoddau o'r fath mor eang â phosibl, yn enwedig i rannau difreintiedig o'r gymdeithas. | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau’r AC** | | | |
| • Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith AC o ganlyniad i'r polisi hwn. | | | |

- Er nad yw'r polisi hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar AC3 – Ansawdd Aer, gall ansawdd aer effeithio ar y polisi ei hun. Gall ansawdd aer gwael effeithio ar yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol fel cynyddu'r nwyon cyrydol yn yr atmosffer yn ogystal â dyddodi gronynnau a all achosi i arwynebau ddadliwio. Dylid crybwyll hyn yn nhestun ategol y polisi hwn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus iddo mewn unrhyw gais cynllunio.
- Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r polisi gyfeirio at y ffaith bod yr amgylchedd hanesyddol yn adnodd penodol, anadnewyddadwy a rennir ac yn rhan hanfodol ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru. Gellir ond cynnal yr amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol os bydd asedau hanesyddol yn cael eu gwarchod a'u hadfer.

| PS 15: Newid yn yr Hinsawdd | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi yn cefnogi'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn datblygiadau yn y dyfodol ac yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Sir Gaerfyrddin. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | + | Bydd annog trafnidiaeth gynaliadwy yn arwain yn ei dro at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer, sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig penodol yn y Sir ar hyn o bryd. | |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd annog trafnidiaeth gynaliadwy yn arwain yn ei dro at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer trwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â cheir. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | ++ | Mae'r polisi hwn yn cefnogi prosesau lleihau allyriadau carbon yn ogystal â diogelu datblygiadau newydd ar gyfer risg llifogydd yn y dyfodol, gan gynnwys cyfeirio at TAN 15. Mae hefyd yn annog pob datblygiad newydd i fod yn effeithlon o ran ynni ac i ymgorffori cynllun sy'n gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. | |
| AC5 – Dŵr | + | Mae annog ymgorfforiad systemau draenio trefol cynaliadwy mewn gwaith datblygu yn y dyfodol, yn ogystal â chynllun a all wrthsefyll llifogydd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC5. | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn sicrhau y caiff trafnidiaeth gynaliadwy ei hystyried mewn datblygiadau newydd. | |
| AC7 – Pridd | 0 | | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | | |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae lleihau'r angen i deithio yn cefnogi teithio llesol. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Ceir potensial i feithrin datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig â chynllun arloesol sy'n ymateb i'r hinsawdd. | |
| AC14 – Yr Economi | 0 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | | |

- Mae angen gwneud datganiad cryfach i ymrwymiad i leihau allyriadau carbon mewn polisïau.
- Dylid cyfeirio'n benodol at y cynnig ar newid yn yr hinsawdd a basiwyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2019 a arweiniodd at ddatgan argyfwng hinsawdd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Dylai'r CDLl wneud cyfeiriad yn rhywle yn y cynllun adneuo at sut mae'r CDLl yn ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd hwn.
- Nid yw'r polisi yn sôn am fanteision Seilwaith Gwyrdd, o liniaru a chynyddu gwytnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig fel dalfeydd carbon. Byddai cyfeirio at seilwaith gwyrdd yn arwain at newid o ddim effaith i effeithiau positif ar AC7 - pridd. Mae'r AC yn argymell y dylid cyfeirio'n benodol at fuddion amlswyddogaethol seilwaith gwyrdd ar gyfer gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd a lliniaru yn y polisi hwn.

| PS 16: Dosbarthu Cynaliadwy – Hierarchaeth Aneddiadau | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae rhannu’r fframwaith aneddiadau yn glystyrau yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy, ac yn caniatáu diwallu anghenion yn lleol a chefnogi economi gynaliadwy yn ardaloedd trefol a gwledig y Sir. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae darparu twf a datblygiad mewn ardaloedd gwledig yn debygol o arwain at effaith ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth sydd heb eu cyffwrdd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br><br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o leihau’r defnydd o geir preifat a’r llygredd aer cysylltiedig. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o leihau’r defnydd o geir preifat a’r allyriadau carbon cysylltiedig. | |
| AC5 – Dŵr | ? | Mae angen gwybodaeth o Adolygiad o Ganiatadau Dŵr Cymru am gapasiti safleoedd penodol ar gyfer twf o ran tynnu dŵr a thrin dŵr gwastraff. | PS8 – Seilwaith<br><br>CCH3 – Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr |
| AC6 – Asedau Materol | ++ | Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn debygol o ganiatáu i anghenion gael eu diwallu’n lleol. Mae hefyd yn debygol o arwain at y defnydd mwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus. | |
| AC7 – Pridd | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. | PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd<br><br>PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae dosbarthu datblygiadau i leoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau trefol a gwledig yn debygol o arwain at gymunedau bywiog a hyfyw, a fydd yn ei dro yn helpu i gadw a denu pobl ifanc. | |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf a mewnfudo wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. | WL1 Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Gall twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau hamdden a gofal iechyd hawdd eu cyrraedd newydd. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Gall twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau addysg a hyfforddiant hawdd eu cyrraedd newydd. | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau yn darparu cyfle i gefnogi economïau gwledig a threfol cynaliadwy ledled y sir. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol a hyrwyddo cynllun aneddiadau bywiog cynhwysol. | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | | |

- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

| PS 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi hwn yn sylfaen i'r gallu i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, trwy leihau'r defnydd o geir preifat a sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | + | Bydd defnyddio llai ar geir preifat yn lleihau'r llygryddion aer cysylltiedig sy'n effeithio'n negyddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd mewn rhai ardaloedd o Sir Gaerfyrddin. | |
| AC3 – Ansawdd Aer | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar wella ansawdd aer. | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn lleihau'r defnydd o geir preifat ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig. | |
| AC5 – Dŵr | 0 | | |
| AC6 – Asedau Materol | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn cynnwys teithio llesol fel cerdded a beicio, yn ogystal â defnydd o gar trydan. | |
| AC7 – Pridd | 0 | | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau iechyd a hamdden, a hefyd mae'n ceisio gwella mynediad i lwybrau teithio llesol. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau addysg a sgiliau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC14 – Yr Economi | 0 | | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae’r polisi hwn yn ceisio mynd i’r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau’r AC** | | | |

- Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith AC o ganlyniad i'r polisi hwn.
- Awgrymir cyfeirio yn y testun ategol at ddatblygiadau mewn lleoliadau gwledig, a'u lleoli, yn ddelfrydol, o fewn ac yn ymyl aneddiadau sy'n elwa ar wasanaethau a chyfleusterau allweddol, yn hytrach na lleoliadau sydd ar wasgar yng nghefn gwlad.

| PS 18: Adnoddau Mwynol | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC1. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar nodweddion ecolegol sensitif. Mae gwaith mwynau hefyd yn debygol o fod wedi'i leoli mewn ardaloedd heb eu datblygu/meysydd glas. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br><br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly bydd yn anodd lleihau'r pellteroedd y bydd yn rhaid eu teithio i gludo nwyddau. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly bydd yn anodd lleihau'r pellteroedd y bydd yn rhaid eu teithio i gludo nwyddau. | |
| AC5 – Dŵr | 0 | | |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | Mae'r polisi hwn yn diogelu cronfeydd agregau i sicrhau eu bod ar gael yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso prosesau tynnu adnoddau mwynol â defnyddio deunyddiau ailgylchu ac eilaidd. Fodd bynnag, mae'r polisi'n cyfeirio'n benodol at wneud y mwyaf o botensial ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau addas fel dewis amgen i agregau a enillir. | |
| AC7 – Pridd | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar adnoddau pridd penodol. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |
| AC9 – Tirwedd | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar ardaloedd tirwedd sensitif. Mae gwaith mwynau hefyd yn debygol o fod wedi'i leoli mewn ardaloedd heb eu datblygu. | MR1: Cynigion Mwynau |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae echdynnu agregau yn cefnogi datblygiad a thwf economaidd. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | | |

- Er mwyn lliniaru'r polisi hwn ymhellach yn erbyn AC4 Ffactorau Hinsoddol, dylid cyfeirio yn y polisi at sicrhau, lle bo modd, fod cloddio am fwynau'n defnyddio cysylltiadau trafnidiaeth fel trafnidiaeth rheilffyrdd/neu ddŵr yn hytrach na chludo nwyddau ar ffyrdd.
- Awgrymir ychwanegu datganiad clir yn egluro na fydd y Cyngor yn cefnogi datblygiad gwaith glo ar dir neu waith olew neu nwy anghonfensiynol, gan gynnwys archwilio, gwerthuso ac echdynnu olew a nwy drwy ddulliau anghonfensiynol (gan gynnwys gwneud tyllau turio), oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos bod y cynnig yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
- Egluro bod petrolewm yn cyfeirio at unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon cymharol a nwy naturiol sy'n bodoli yn ei strata naturiol fel y'i diffinnir yn Neddf Petrolewm 1998. Mae hyn felly'n cynnwys olew a nwy siâl a methan gwely glo. Mae'r diffiniad o lo wedi'i godi o Ddeddf Diwydiant Glo 1994. Mae hyn yn cynnwys glo a nwyeiddio glo tanddaearol hefyd.
- Er mwyn lliniaru'r effeithiau gweddilliol ar SA7 – Pridd, dylid ychwanegu geiriad at y testun ategol sy'n ei gwneud yn glir y bydd yn rhaid cadw unrhyw bridd a symudir o ganlyniad i'r broses echdynnu a'i ailosod yn yr un man.
- Er bod polisi penodol MR1 Cynigion Mwynau yn delio i raddau ag unrhyw effeithiau negyddol eraill ar AC9 – Tirwedd, awgrymir bod geiriad ychwanegol ar ddiogelu cymeriad y Dirwedd ac amwynder gweledol yn cael ei roi yn y polisi hwn i atgyfnerthu pwysigrwydd hynny.

| PS 19: Rheoli Gwastraff | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** | **Polisïau Lliniaru** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC1. | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Gall unrhyw ddatblygiad neu drefniadau gwaredu gwastraff effeithio’n andwyol ar gynefinoedd naturiol. Fodd bynnag, mae'r polisi yn cyfeirio at sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>NE1 – Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol<br>NE2 Bioamrywiaeth<br>NE3 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw<br>PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd<br>PSD4 Seilwaith Gwyrdd – Coed, coetiroedd a pherthi |
| AC3 – Ansawdd Aer | I | Mae safleoedd Ynni o Wastraff wedi’u rheoleiddio’n llym o ran llygryddion fel SO2, NOx, HCl a CO. Yn y pen draw, mae effeithiau yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff a’u lleoliad. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd<br><br>WM1 Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a Datblygiadau Newydd |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | I | Mae safleoedd Ynni o Wastraff wedi’u rheoleiddio’n llym o ran llygryddion fel SO2, NOx, HCl a CO. Yn y pen draw, mae effeithiau yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff a’u lleoliad. Mae'r polisi yn cyfeirio at y potensial i gydleoli cyfleusterau rheoli gwastraff er mwyn creu rhwydweithiau gwres. | PSD12 Llygredd Golau ac Aer<br><br>PSD3 Seilwaith Gwyrdd<br><br>WM1 Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a Datblygiadau Newydd |
| AC5 – Dŵr | 0 | | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae’r polisi hwn yn cyfeirio’n uniongyrchol at yr hierarchaeth wastraff ac at hyrwyddo dulliau o ailgylchu a lleihau gwastraff. | |
| AC7 – Pridd | - | Gall cael gwared ar wastraff, gan gynnwys safleoedd tirlenwi a gwaredu lludw o safleoedd Ynni o Wastraff effeithio’n andwyol ar adnoddau pridd. | PS13 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. | PS14 - Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol<br>PSD1 Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD2 – Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r polisi yn cyfeirio'n uniongyrchol at sicrhau nad yw'r un cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar amwynder lleol | PS11 – Llunio Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy<br><br>PSD1 – Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da<br><br>NE8 – Cymeriad y Dirwedd |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | Mae'r polisi yn cyfeirio'n benodol at y rheidrwydd sydd ar unrhyw ddatblygiad i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol, andwyol ar iechyd y cyhoedd. | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae safleoedd rheoli gwastraff newydd yn creu swyddi a chyfleoedd cyflogaeth lleol a hirdymor. | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | | |

- Dylai'r polisi gyfeirio at faen prawf sy'n datgan na ddylai fod unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i gynigion rheoli gwastraff.
- Awgrymir mwy yn y testun ategol ynglŷn â lleoliad cynaliadwy cyfleusterau rheoli gwastraff, yn arbennig pan fyddant wedi'u lleoli y tu allan i derfynau datblygu.
- Er mwyn cryfhau'r mesurau lliniaru ymhellach yn erbyn yr effeithiau negyddol posibl ar AC9 – Tirwedd, dylid cyfeirio at gadw dyluniad yr adeiladau yn gydnaws â'r dirwedd o'u hamgylch.
- Cynnwys cyfeiriad at yr egwyddor agosatrwydd i leihau'r pellter rhwng ble y caiff gwastraff ei gynhyrchu a'i reoli.
- Awgrymir cynnwys rhai geiriau ynghylch pwysigrwydd seilwaith gwyrdd ar gyfer sgrinio llygredd gweledol, sŵn ac aer.

**Atodiad 5 Newidiadau a awgrymwyd gan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'r Strategaeth a Ffefrir**

| **SP 1: Twf Strategol** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Bydd y CDLl yn darparu ar gyfer twf economi **gynaliadwy** yn y dyfodol a gofynion tai trwy ddarparu'r canlynol:<br><br>ychwanegu at y testun ategol:<br><br>Mae strategaeth y cynllun ar gyfer twf wedi'i llunio ar sail egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn unol ag amcanion a dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Ymateb y CDLl** |
| Cytunwyd |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r newidiadau a awgrymwyd wedi'u cynnwys. |

| **SP 2: Manwerthu a Chanol Trefi** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Caiff cynigion ar gyfer cyfleusterau siopa cyfleus lleol bach mewn ardaloedd gwledig a threfol eu cefnogi pan fyddant yn cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau ac **egwyddorion cynaliadwyedd**.<br><br>Cynnwys cyfeiriad yn y testun ategol at leoli darpariaeth manwerthu mewn mannau cynaliadwy y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau teithio llesol er mwyn lleihau'r angen i deithio.<br><br>Cyfeiriad at ofyniad o ran pwynt gwefru cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) ar gyfer datblygiadau amhreswyl? |
| **Ymateb y CDLl** |
| Mae'r polisi wedi cael ei ailysgrifennu.  Mae adran 3 y polisi fel a ganlyn:<br><br>**1) Cynigion ar gyfer cyfleusterau siopa cyfleustra lleol bach mewn ardaloedd gwledig a threfol o fewn y terfynau datblygu lle maent ar raddfa sy'n briodol i'r anheddiad hwnnw.  Bydd y cynigion o ran manwerthu gwledig yn cael eu hystyried yn unol â pholisi XXX.**<br><br>Ystyrir y byddai gofyniad bod cyfleusterau siopa cyfleustra bach yn cael eu lleoli o fewn terfynau datblygu yn sicrhau y byddai angen lleoli'r cynigion mewn lleoliadau cynaliadwy ac felly mae'n cyflawni'r newid a awgrymwyd i eiriad y polisi. |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r testun ategol wedi'i ddiwygio ac mae bellach yn nodi'r canlynol:<br><br>11.37 Mae strategaeth fanwerthu'r CDLl yn adlewyrchu egwyddorion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy sy'n tanategu'r cynllun. Mae hefyd yn ceisio adlewyrchu natur newidiol manwerthu a'r angen i ganol trefi traddodiadol addasu i newidiadau o'r fath. Nod y strategaeth yw: |

1. Diogelu a gwella rolau'r canolfannau manwerthu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n atyniadol fel canol trefi, cyrchfannau siopa, masnachol a hamdden ac i ddiogelu'r ddarpariaeth manwerthu leol a sefydlwyd yn y sir yn ogystal â'r busnesau lleol y tu ôl iddynt. Yr her fydd cynnal eu hysbryd cystadleuol a'u cyfran o'r farchnad wrth gydnabod anghenion pob canolfan a'i rôl a chyfraniad priodol o ran manwerthu.
2. Lleoli ac arwain darpariaeth manwerthu i fannau cynaliadwy y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau teithio llesol er mwyn lleihau'r angen i deithio;

Gweler polisi CCH2 – Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan sy'n nodi:

**O ran datblygiadau amhreswyl lle darperir lleoedd parcio, dylai o leiaf 10% o'r lleoedd hynny fod â phwynt gwefru ULEV. Dylid darparu pwyntiau gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan lle mae'r rhwydwaith trydan lleol yn gallu cefnogi hyn yn dechnegol.**

## SP 3: Darparu Cartrefi Newydd

**Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC**

**Awgrym o newid i'r polisi:** Er mwyn sicrhau y bodlonir y gofyniad cyffredinol o ran tir ar gyfer tai, sef 9,887 o gartrefi dros gyfnod y cynllun 2018-2033, gwneir darpariaeth ar gyfer 10,480 o gartrefi newydd er mwyn hybu creu a gwella cymunedau cynaliadwy.

Caiff ddigon o dir ei ddyrannu (ar safleoedd o 5 annedd neu fwy) er mwyn bodloni'r gofyniad hwn yn unol â'r Fframwaith Aneddiadau ac egwyddorion cynaliadwyedd.

Cyfeirio yn y testun ategol at hybu cymunedau cydlynus sy'n ddeniadol, yn ddiogel, wedi'u cysylltu'n dda, ac yn darparu mynediad i gyfleusterau diwylliannol a hamdden, gwasanaethau cymunedol a chyfleoedd cyflogaeth.

**Ymateb y CDLl**

Cytunwyd

**Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC**

Mae'r geiriad a awgrymwyd wedi'i gynnwys yn y polisi:

**Er mwyn sicrhau y bodlonir y gofyniad cyffredinol o ran tai, sef 8,835 o gartrefi dros gyfnod y cynllun, gwneir darpariaeth ar gyfer 10,160 o gartrefi newydd yn unol â'r fframwaith aneddiadau, er mwyn hybu creu a gwella cymunedau cynaliadwy.**

Cytunir â'r cyfeiriad a awgrymwyd at 'egwyddorion cynaliadwyedd'. Fodd bynnag, mae geiriad y polisi wedi'i newid, fel y nodir isod, ac mae'n ymdrin yn briodol â'r newid a gynigiwyd.

**'Mae'r dull gweithredu cynaliadwy o ran darparu cartrefi newydd yn adlewyrchu'r egwyddorion a ganlyn'**

| |
|---|
| Mae'r newid a awgrymwyd i'r testun ategol wedi'i gynnwys. |

| SP 4: Tai Fforddiadwy |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Bydd y Cynllun yn gwneud y mwyaf o ddarparu tai fforddiadwy hyd at 2033 drwy ddarparu XXXX o dai fforddiadwy. **Bydd hyn yn helpu i ddatblygu a gwella cymunedau cynaliadwy a chytbwys.** |
| **Ymateb y CDLl** |
| Cytunwyd |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r newidiadau a awgrymwyd wedi'u cynnwys yng ngeiriad y Polisi. |

| SP 5: Safleoedd Strategol |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| Dylid cyfeirio yn y polisi at y ffaith y bydd unrhyw ddatblygiad safle strategol yn destun caniatâd cynllunio a dylid ei seilio ar egwyddorion cynaliadwyedd. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** |
| Dylid cyfeirio at y ffaith y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiectau ar gyfer prosiectau strategol |
| **Ymateb y CDLl** |
| Mae'r Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant wedi cael caniatâd amlinellol ym mis Awst 2019 ac mae'r Egin eisoes wedi'i adeiladu.  Felly, nid oes angen caniatâd cynllunio. |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Dim.  Fodd bynnag, mae'r testun ategol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. |

| SP 6: Gwaith a'r Economi |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Caiff tir digonol a phriodol ei ddyrannu er mwyn darparu cyfleoedd gwaith yng nghyfnod y Cynllun (ffigur i'w feintioli) yn unol â Strategaeth Ofodol/Fframwaith Aneddiadau'r Cynllun, **ac egwyddorion cynaliadwyedd**.<br><br>Cynnwys cyfeiriad yn y testun ategol at leoli darpariaeth swyddi mewn lleoliadau cynaliadwy y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau teithio llesol er mwyn lleihau'r angen i deithio.<br><br>Cyfeiriad at ofyniad o ran pwynt gwefru cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) ar gyfer datblygiadau amhreswyl? |
| **Ymateb y CDLl** |
| |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r Polisi wedi'i newid i nodi'r canlynol:<br><br>**Mae tir digonol wedi'i ddyrannu er mwyn darparu 77.93 hectar o ddarpariaeth swyddi ar gyfer cyfnod y Cynllun, yn unol â Fframwaith Aneddiadau'r Cynllun (Polisi SP16) ac egwyddorion cynaliadwyedd.** |

| |
|---|
| Mae'r testun ategol wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at leoliadau cynaliadwy fel a ganlyn:<br><br>Mae'r pwyslais ar y prif ganolfannau nid yn unig yn adlewyrchu pa mor gynaliadwy ydynt ond hefyd eu hetifeddiaeth hanesyddol. Mae hefyd (yn enwedig mewn perthynas â Llanelli) yn arwydd o'r cyfraddau diweithdra cymharol uchel a'r lefelau o amddifadedd ac ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â'r problemau. Mae dosbarthiad y tir cyflogaeth hefyd yn cyd-fynd yn dda â'r lleoliadau cynaliadwy o fewn y Sir y mae modd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau teithio llesol sy'n lleihau'r angen i deithio.<br><br>Gweler hefyd y polisïau manwl ar deithio llesol a phwyntiau gwefru ULEV – TRA2 a CCH2. Mae polisi CCH2 yn arbennig o berthnasol ac mae'n nodi'r canlynol:<br><br>**Datblygiadau amhreswyl**<br>**O ran datblygiadau amhreswyl lle darperir lleoedd parcio, dylai o leiaf 10% o'r lleoedd hynny fod â phwynt gwefru ULEV. Dylid darparu pwyntiau gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan lle mae'r rhwydwaith trydan lleol yn gallu cefnogi hyn yn dechnegol.** |

| **SP 7: Y Gymraeg a'i Diwylliant** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| Dim. |
| **Ymateb y CDLl** |
| |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Dim. |

| **SP 8: Isadeiledd** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Bydd angen cyfeirio datblygiad i leoliadau **cynaliadwy** lle mae'r isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol ar gael i gyflawni a chefnogi'r cynnig datblygu. |
| **Ymateb y CDLl** |
| Cytunwyd. |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r geiriad diwygiedig wedi'i gynnwys. |

| **SP 9: Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |

| |
|---|
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Caiff tir ei ddyrannu mewn lleoliad cynaliadwy yn ardal Llanelli i ddiwallu'r angen a nodwyd i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac i ganiatáu am yr estyniad posibl i Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol.<br><br>Bydd gan leoliad cynaliadwy fynediad angenrheidiol i seilwaith ffisegol, trafnidiaeth a chymdeithasol |
| **Ymateb y CDLl** |
| |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Dim.  Mae'r Polisi wedi cael ei ailysgrifennu bellach. |

| **SP 10: Yr Economi Ymwelwyr** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Ychwanegu maen prawf ychwanegol i gefnogi datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth lle maent yn arddangos egwyddorion dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel.<br><br>Cyfeirio at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol/seilwaith gwyrdd oherwydd ei gyfraniad i dwristiaeth Sir Gâr. |
| **Ymateb y CDLl** |
| Derbyniwyd. |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae SP 10 a'r testun ategol wedi'u diweddaru. |

| **SP 11: Creu Lleoedd, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da** |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| • Awgrymir cyfeirio'n benodol at gynllun effeithlon o ran ynni.<br>**Awgrym o newid i'r polisi:**<br><br>Gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd, **hybu effeithlonrwydd ynni** a defnyddio deunyddiau ac adnoddau sy'n briodol i'r ardal ble mae wedi'i leoli;<br><br>• Awgrymir cyfeirio'n benodol at ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy?<br>**Awgrym o newid i'r polisi:**<br><br>Gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd a defnyddio deunyddiau ac adnoddau sy'n briodol i'r ardal ble mae wedi'i leoli, **ac a gasglwyd mewn modd cynaliadwy, pan fo hynny'n ymarferol**.<br><br>• Awgrymir cyfeirio at ailgylchu gwastraff<br>Ystyried materion cynhyrchu, trin, **ailgylchu** a chael gwared ar wastraff<br><br>**Awgrym o newid i'r polisi:**<br><br>Cadw a, lle bo'n briodol, creu asedau seilwaith gwyrdd newydd ac annog (creu?) cyfleoedd i **ddiogelu a** gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol. **Yn benodol, bydd cynllun bioffilig yn cael ei gefnogi.**<br><br>(g) Dileu 'pan fo'n ymarferol' o SuDS, bellach nodir 'lle bo angen'. |
| **Ymateb y CDLl** |

| |
|---|
| |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Dim.  Mae'r Polisi wedi cael ei ailysgrifennu bellach. |
| |
| |

| ## SP 12: Datblygu Gwledig |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| Yn y testun ategol, cyfeirio yn y polisi at y gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a/neu bwyntiau gwefru cerbydau trydan? Hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer cynllunio. Cyfeirio at greu lleoedd a dylunio i leihau'r effeithiau ar dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol ac annog dylunio o ansawdd uchel. Ystyriaeth o ardaloedd tirwedd arbennig sy'n rhai gwledig yn bennaf (ond gellir dileu'r rhain?). |
| **Ymateb y CDLl** |
| Ystyrir bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud i fynd i'r afael â'r materion hyn yn y CDLl Diwygiedig Adneuo. |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r CDLl Adneuo yn darparu polisïau penodol ar drafnidiaeth sy'n cyfeirio at y gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol.<br><br>Mae polisïau SP11 a PSD1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer lleihau effeithiau datblygiadau ar y dirwedd ac i annog dylunio o ansawdd uchel.  Mae polisi SP14 hefyd yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol.<br><br>Nid oes cyfeiriad at ardaloedd tirwedd arbennig gan nad oes ardaloedd tirwedd arbennig wedi'u nodi yn y CDLl Diwygiedig Adneuo mwyach. |

| ## SP 13: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** |
| Er mwyn cryfhau'r polisi yma awgrymir ychwanegu'r geiriad canlynol:<br><br>***Dylid ystyried pob cynnig datblygu yn unol â pholisi cenedlaethol (PPW a TAN5)  pryd y byddai cynnig i ddatblygu yn arwain at effaith arwyddocaol ar safle dynodedig Ewropeaidd. Ni fydd datblygiad fyddai'n arwain at effeithiau amgylcheddol annerbyniol yn cael eu caniatáu.***<br><br>Trafod rhinweddau'r seilwaith gwyrdd o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol yn y testun ategol. |
| **Ymateb y CDLl** |
| Derbyniwyd. |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r geiriad uchod wedi'i gynnwys yn y polisi. Cynhwyswyd y testun ategol hefyd. |

| SP 14: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol. |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| |
| **Ymateb y CDLl** |
| |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| |

| SP 15: Newid yn yr Hinsawdd |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| Awgrymir cyfeirio'n benodol at leihau allyriadau carbon yn y polisi.<br><br>**Awgrym o newid i'r polisi: <u>Cyfrannu at leihau allyriadau carbon</u>** trwy adlewyrchu egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat<br><br>Ychwanegu meini prawf ychwanegol sy'n cyfeirio at 'ddiogelu a gwella asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd' fel dalfeydd carbon.<br><br>Cyfeirio'n benodol at yr hierarchaeth trafnidiaeth. |
| **Ymateb y CDLl** |
| Cytunwyd |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r newidiadau a gynigiwyd wedi'u cynnwys yn y CDLl Diwygiedig Adneuo. |

| SP 16: Dosbarthu Cynaliadwy – Hierarchaeth Aneddiadau |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| Rhagor yn y testun ategol am egwyddorion cynaliadwyedd, mynediad addas at wasanaethau, seilwaith trafnidiaeth, ac ati. |
| **Ymateb y CDLl** |
| Cytunwyd |
| **Newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i'r AC** |
| Mae'r testun ategol wedi'i newid yn unol â hynny. |

| SP 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd |
|---|
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** |
| Cynnwys cyfeiriad penodol at hierarchaeth trafnidiaeth yng ngeiriad y polisi neu'r testun ategol.<br><br>Cynnwys cyfeiriad at gyfleusterau gwefru cerbydau trydan a defnyddio ceir trydan (cynnwys hyn ym meini prawf C hefyd?)<br><br>Newid a awgrymwyd i eiriad y polisi:<br><br>Mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy tuag at ddyluniad, swyddogaeth a chynllun datblygiadau newydd, yn cynnwys darparu lefelau priodol o barcio, a phwyntiau gwefru ULEV lle bo'n berthnasol. |
| **Ymateb y CDLl** |

Cytunwyd.

**Newidiadau a wnaed i’r polisi o ganlyniad i’r AC**

Mae'r geiriad diwygiedig wedi'i gynnwys.

## SP 18: Adnoddau Mwynol

**Sylwadau ac Awgrymiadau’r AC**

Awgrymu mwy yn y testun ategol i gefnogi pwynt (e) i sicrhau adfywio priodol a all gyflawni buddion amgylcheddol a chymunedol penodol.

Cyfeirio at fynediad at gysylltiadau trafnidiaeth fel rheilfyrdd/neu drafnidiaeth ddŵr yn hytrach na chludo ar y ffyrdd.

**Sylwadau ac Awgrymiadau’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Ychwanegu rhywfaint o eiriad y polisi yn sôn yn benodol am ddiogelu dynodiadau Ewropeaidd? Yn benodol, Ardal Cadwraeth Arbennig Cernydd Carmel.

Rhaid edrych yn ofalus ar gynigion ynghylch mwynau sydd o fewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd neu sy'n debygol o effeithio'n sylweddol arnynt, ac os na ellir pennu mesurau lliniaru digonol ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio.

**Ymateb y CDLl**

Cytunwyd.

**Newidiadau a wnaed i’r polisi o ganlyniad i’r AC**

Gweler Polisi MR1, maen prawf f, sy'n ymdrin â'r mater hwn.

## SP 19: Rheoli Gwastraff

**Sylwadau ac Awgrymiadau’r AC**

Dylai’r polisi gynnwys maen prawf sy’n datgan na ddylai fod unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i gynigion rheoli gwastraff. Wedi'i wneud – maen prawf i

Awgrymu mwy yn y testun ategol ynglŷn â lleoliad cynaliadwy cyfleusterau rheoli gwastraff, yn arbennig pan fyddant wedi’u lleoli y tu allan i derfynau datblygu. Wedi'i wneud

Cyfeirio at y ffaith y dylai cynllun adeiladau weddu i’r dirwedd o’u cwmpas. Mae'r polisi wedi'i aileirio, nid yw'r sylwadau yn berthnasol mwyach.

Cynnwys cyfeiriad at yr egwyddor agosatrwydd i leihau’r pellter rhwng ble y caiff gwastraff ei gynhyrchu a’i reoli. Wedi'i wneud

**Sylwadau ac Awgrymiadau’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Awgrymir aileirio’r polisi: Dylai lleoliad a maint datblygiadau ystyried argaeledd a chapasiti cyfleusterau rheoli gwastraff yn yr ardal. Dylent hefyd ystyried ***lleoliad cynaliadwy a gwarchod yr amgylchedd naturiol.***

Cyfeirio at y ffaith y caiff cynigion eu cefnogi pan fyddant yn adlewyrchu trefn flaenoriaeth yr hierarchaeth gwastraff.

**Ymateb y CDLl**

Cytunwyd.

**Newidiadau a wnaed i’r polisi o ganlyniad i’r AC/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Gweler Maen Prawf i y Polisi sy'n ymdrin â'r mater cyntaf sy'n ymwneud â'r effeithiau ar yr amgylchedd.

Mae'r testun ategol wedi'i newid i gynnwys y newidiadau a awgrymwyd sy'n ymwneud â lleoliad cynaliadwy cyfleusterau rheoli gwastraff.

Nid yw'r cyfeiriad at effaith adeiladau ar y dirwedd bellach yn cael ei ystyried yn berthnasol gan fod y Polisi wedi'i aileirio.  Fodd bynnag, mae Polisi SP11 a Pholisi PSD1 yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer hyn.

Mae cyfeiriad at yr egwyddor agosatrwydd wedi'i gynnwys yn y Polisi.

## Argymhellion cyffredinol eraill sy'n deillio o'r AC Cychwynnol

| Effeithiau Sylweddol y Strategaeth a Ffefrir | Awgrymiadau ar gyfer osgoi neu liniaru effeithiau negyddol neu ar gyfer gwella rhai cadarnhaol |
|---|---|
| Mae capasiti seilwaith dŵr i hwyluso twf yn aneglur | Cadarnhau gyda Dŵr Cymru y bydd seilwaith cyflenwi dŵr a thrin dŵr gwastraff yn ddigonol ar gyfer maint y datblygiad a gynigir |
| Y potensial ar gyfer datblygu yn Llanelli i'w gyfeirio at ardaloedd ym mharthau llifogydd C1/C2 | Ystyried datblygu sylfaen dystiolaeth. |
| Y potensial ar gyfer cynyddu datblygu yn Llanelli a allai gynyddu pwysau ar seilwaith carthffosiaeth a allai fod â goblygiadau ar gyfer Safle Morol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. | Adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) presennol rhwng Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Abertawe, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ei fod dal yn addas i'r diben |
| | Sicrhau cynnwys SuDS mewn cynigion datblygu newydd pan fo'n ymarferol gyda pholisi penodol, yn cynnwys gofyniad i ddangos eu bod yn unol ag adran 8 TAN 15, yn ogystal â'r canllawiau cynllunio atodol (SPG) presennol ar gyfer Creu Lle a Dylunio. |
| Llygredd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr yn debygol o gynyddu gyda thwf rhagamcanol dros gyfnod y cynllun. | Sicrhau bod dyraniadau safleoedd wedi eu lleoli'n gynaliadwy gyda mynediad digonol i drafnidiaeth gyhoeddus. |
| | Polisi penodol yn ymwneud â gwella ansawdd aer yn rhestru'n fanwl sut gall |

| | |
|---|---|
| | ansawdd aer yn arbennig o ran $NO_2$ a'r tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA's) presennol gael ei gadw a'i wella o dan y cynllun newydd. |
| | Dylai polisi penodol ofyn hefyd am gadw, diogelu a gwella rhwydwaith o nodweddion tirwedd sy'n cyfrannu at buro aer megis coed, llystyfiant naturiol neu seilwaith gwyrdd arall. |
| | Y gofyn i ddatblygiad newydd i ystyried cynlluniau gweithredu'r Ardal Rheoli Ansawdd yn ogystal â Strategaeth Ansawdd Aer ac amcanion y DU, a dylai unrhyw gynigion a allai effeithio'n niweidiol ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth Cenedlaethol ac/neu Ryngwladol sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu gweithredu. |
| Yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad | Sicrhau polisi penodol sy'n adlewyrchu Deddf yr Amgylchedd o ran diogelu a gwella bioamrywiaeth. |
| Posibiliadau eraill ar gyfer gwella buddion neu leihau effeithiau | Awgrymu cynllun seilwaith gwyrdd sy'n cydgysylltu diogelu a gwella seilwaith gwyrdd drwy'r sir o ran datblygu. |

## Atodiad 6 Arfarniad Cynaliadwyedd o Ddewisiadau Twf diwygiedig y CDLl diwygiedig

| **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir (Adroddiad Ategol 2019)** | | |
|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod 17 mlynedd hanesyddol llawn (2001/02-2017/18). | | |
| **Amcan yr AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Mae datblygiad o unrhyw fath yn gallu effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth, gan ddibynnu ar y safle a'r modd y cânt eu datblygu. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen yn y cynllun presennol, o 1,013 i 671, a fyddai'n gostwng yr angen i ddatblygu ar safleoedd maes glas a'r pwysau dilynol ar asedau bioamrywiaeth. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol, felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol, felly gall arwain at lai o allyriadau carbon. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 9.6% dros gyfnod y cynllun, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | + | Mae unrhyw lefel o ddatblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol, felly bydd yn lleihau'r angen am dir maes glas. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Bydd effaith yr opsiwn hwn ar SA8 yn dibynnu ar sut y caiff twf ei weithredu. |
| AC9 – Tirwedd | I | Bydd effaith yr opsiwn hwn ar SA8 yn dibynnu ar sut y caiff twf ei weithredu. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Bydd y dewis hwn yn ymdrin rhywfaint â chydbwysedd y boblogaeth, trwy gynnydd tebygol yn y carfannau iau. |

| | | |
|---|---|---|
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae'r cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl ifanc yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y garfan 65+ oed, ynghyd â rhywfaint o dwf yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | +/- | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y boblogaeth o oedran ysgol, a allai gynyddu'r pwysau ar wasanaethau addysg mewn ardaloedd poblog, gan ddibynnu ar ble mae'r twf wedi'i ddosbarthu, neu a allai arwain at gadw cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd gwledig. |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at greu 439 o swyddi'r flwyddyn dros gyfnod y cynllun sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cyngor o ran adfywio. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf yn y garfan 65+ oed, ynghyd â rhywfaint o dwf yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a fyddai'n ymdrin rhywfaint â chydbwyso poblogaeth y Sir. Mae lefelau twf uwch hefyd yn cefnogi darparu tai fforddiadwy. |

| **Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd (Adroddiad Ategol 2019)** | | |
|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod 10 mlynedd hanesyddol, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwymp ariannol. | | |
| **Amcan yr AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Mae datblygiad o unrhyw fath yn gallu effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth, gan ddibynnu ar y safle a'r modd y cânt eu datblygu. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen yn y cynllun presennol, o 1,013 i 589, a fyddai'n gostwng yr angen i ddatblygu ar safleoedd maes glas a'r pwysau dilynol ar asedau bioamrywiaeth. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol, felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |

| | | |
|---|---|---|
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol, felly gall arwain at lai o allyriadau carbon. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 8.1% dros gyfnod y cynllun, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | + | Mae unrhyw lefel o ddatblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol, felly bydd yn lleihau'r angen am dir maes glas. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Bydd effaith yr opsiwn hwn ar SA8 yn dibynnu ar sut y caiff twf ei weithredu. |
| AC9 – Tirwedd | I | Bydd effaith yr opsiwn hwn ar SA8 yn dibynnu ar sut y caiff twf ei weithredu. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Bydd y dewis hwn yn ymdrin rhywfaint â chydbwysedd y boblogaeth, trwy gynnydd tebygol yn y carfannau iau. |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae'r cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl ifanc yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y garfan 65+ oed, ynghyd â rhywfaint o dwf yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | +/- | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y boblogaeth o oedran ysgol, a allai gynyddu'r pwysau ar wasanaethau addysg mewn ardaloedd poblog, gan ddibynnu ar ble mae'r twf wedi'i ddosbarthu, neu a allai arwain at gadw cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd gwledig. |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at greu 354 o swyddi'r flwyddyn dros gyfnod y cynllun sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cyngor o ran adfywio. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf yn y garfan 65+ oed, ynghyd â rhywfaint o dwf yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a fyddai'n ymdrin rhywfaint â chydbwyso poblogaeth y Sir. Mae lefelau twf uwch hefyd yn cefnogi darparu tai fforddiadwy. |

| Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr (Adroddiad Ategol 2019) | | |
|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod pedair blynedd hanesyddol (2014/15-2017/18) sy'n cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai. | | |
| **Amcan yr AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
